



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2010**  
**Tuesday, 30 November 2010**

**Cynnwys**  
**Contents**

3	Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer
3	Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
3	Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motions to Elect Members to Committees
4	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
31	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
38	Datganiad am Strategaeth Addysg Uwch Statement on Higher Education Strategy
56	Datganiad am y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol Statement on the Independent Commission on Social Services
74	Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 Motion to Approve the Single Use of Carrier Bags (Wales) Regulations 2010
89	Adnewyddu'r Economi Economic Renewal
118	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

### **Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer**

**The Deputy Presiding Officer:** In the absence of the Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary. I therefore invite nominations.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gan fod y Llywydd yn absennol, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw. Felly rwyf yn gwahodd enwebiadau.

**William Graham:** I nominate Peter Black.

**William Graham:** Rwyf yn enwebu Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I therefore declare that Peter Black is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf yn datgan felly fod Peter Black yn cael ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw.

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

*Cynnig NDM4608 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4608 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:*

*That the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders 35.6 and 35.8:*

*Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 1 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2010.*

*Suspends Standing Order 7.18 (i) and that part of Standing Order 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under Item 1 to be considered in Plenary on Tuesday 30 November 2010.*

**Peter Black:** I move the motion.

**Peter Black:** Cynigiau y cynnig.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to suspend Standing Orders. Does any Member object? I see that no-one does. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw atal y Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Derbynnir y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motions to Elect Members to Committees**

*Cynnig NDM4609 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4609 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn lle Darren Millar (Ceidwadwyr).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects Jonathan Morgan (Conservative) as a member of the Health, Wellbeing and Local Government Committee in place of Darren Millar (Conservative).*

*Cynnig NDM4610 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4610 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn lle Andrew R.T. Davies (Ceidwadwyr).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects Nick Ramsay (Conservative) as a member of the Health, Wellbeing and Local Government Committee in place of Andrew R.T. Davies (Conservative).*

*Cynnig NDM4611 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4611 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Darren Millar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects Darren Millar (Conservative) as a member of the Public Accounts Committee in place of Nick Ramsay (Conservative).*

*Cynnig NDM4612 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4612 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol David Melding (Ceidwadwyr) yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn lle Darren Millar (Ceidwadwyr).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects David Melding (Conservative) as a member of Legislation Committee No.5 in place of Darren Millar (Conservative).*

**Peter Black:** I move the motions.

**Peter Black:** Cynigiau y cynigion.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see that no-one does. The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Derbynnir y cynigion felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynigion.  
Motions agreed.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Diwygio Cyllidebau Ysgolion**

### **Reforming School Budgets**

**1. Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiwygio cyllidebau ysgolion. OAQ(3)3277(FM)

**1. Peter Black:** Will the First Minister make a statement on reforming school budgets. OAQ(3)3277(FM)

**The First Minister (Carwyn Jones):** We

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym

have delivered the 'One Wales' commitment to introduce three-year funding for schools.

**Peter Black:** Thank you for that statement, First Minister. You have made a commitment, which you claim to have delivered in the budget, to raise the amount of money for schools 1 per cent above the Welsh block. How do you intend to ensure that the money that is going to local education authorities for that purpose will be spent on schools? Will you be introducing some form of ring fencing, or will you be relying on their goodwill to deliver that?

**The First Minister:** Thank you, Peter, for recognising that that promise has been kept. Local authorities have committed to spend the extra money on schools, and that is a commitment that we will hold them to.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, I am sure that, like me, you are glad that we have protected education spending to the best of our ability in the recent draft budget, including: additional funding to be provided over the next three years to continue rolling out the foundation phase; indicative funding increases for Cymorth and Flying Start in 2012; the continued provision of free primary school breakfasts; future funding increases for school-based counselling; maintenance of the 14-19 learning pathways; increased support for those with additional learning needs; additional funding for school staff to pursue continuing professional development; and an indicative increase in our skills budget, so that our pathways to apprenticeship programme can help the problem of long-term unemployment. That is to name but a few. *[Laughter.]* First Minister, do you agree that this is evidence of our commitment to protect education spending, as opposed to the Tories, who would slash it by 20 per cent?

**The First Minister:** It is certainly no part of this Government's intention to slash education spending by between 20 and 25 per cent, but we know that the party opposite would do so. It is our intention to ensure that we have an educational system that is fit for purpose and one that we can all be proud of.

wedi cyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' i gyflwyno ariannu tair blynedd i ysgolion.

**Peter Black:** Diolch ichi am y datganiad hwnnw, Brif Weinidog. Rydych wedi ymrwymo, ac wedi honni ichi gyflawni'r ymrwymiad hwnnw yn y gyllideb, i gynyddu'r arian ar gyfer ysgolion 1 y cant yn fwy na bloc Cymru. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod yr arian a gaiff awdurdodau addysg lleol at y diben hwnnw'n cael ei wario ar ysgolion? A fyddwch yn cyflwyno rhyw fath o drefn neilltuo, ynteu a fyddwch yn dibynnu ar eu hewyllys da i sicrhau hynny?

**Y Prif Weinidog:** Diolch ichi, Peter, am gydnabod ein bod wedi cadw'r addewid hwnnw. Mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i wario'r arian ychwanegol ar ysgolion ac mae hwnnw'n ymrwymiad y byddwn yn mynnu eu bod yn cadw ato.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod, fel minnau, yn falch inni warchod y gwario ar addysg gystal ag y gallwn yn y gyllideb ddrafft ddiweddar, gan gynnwys: darparu rhagor o arian dros y tair blynedd nesaf er mwyn parhau i ledaenu'r cyfnod sylfaen; cynyddu'r ariannu dangosol ar gyfer Cymorth a Dechrau'n Deg yn 2012; parhau i ddarparu brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd; cynyddu'r ariannu yn y dyfodol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion; cynnal llwybrau dysgu 14-19; cynyddu'r cymorth i'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; arian ychwanegol i staff ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus; a chynnydd dangosol yn ein cyllideb sgiliau, er mwyn i'n rhaglen llwybrau at brentisiaethau allu lliniaru problem diweithdra tymor hir. A hynny dim ond i enwi ychydig. *[Chwerthin.]* Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod hyn yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i warchod gwario ar addysg, yn wahanol i'r Torïaid a fyddai'n ei docio 20 y cant?

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, nid yw'n rhan o fwriad y Llywodraeth hon docio'r gwario ar addysg rhwng 20 a 25 y cant, ond gwyddom y byddai'r blaid gyferbyn yn gwneud hynny. Ein bwriad ni yw sicrhau bod gennym system addysgiadol sy'n addas at y diben ac yn un y gallwn i gyd fod yn falch ohoni.

**Paul Davies:** Cadwaf fy nghyfraniad yn fyr.

**Paul Davies:** I will keep my contribution brief.

Byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn adolygu'r gyllideb addysg i chwilio am ffyrdd o ddargyfeirio arian i wasanaethau'r rheng flaen. Dywedodd yn hollol glir y bydd ganddo feddwl agored am yr holl opsiynau—yr wyf yn falch ei fod yn ystyried pob opsiwn. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai un ffordd o arbed arian yw drwy ariannu ysgolion yn uniongyrchol ac osgoi awdurdodau addysg lleol, a allai, yn ôl y ffigurau yr wyf i wedi'u derbyn, arbed £102 miliwn?

You will be aware that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning is reviewing the education budget to look for ways of diverting money to front-line services. He said quite clearly that he will keep an open mind on all options—I am glad that he is considering all options. Does the First Minister agree that one way of saving money would be to fund schools directly and circumvent local education authorities, which could, according to the figures that I have seen, save £102 million?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld y ffigurau hynny, ond rhaid cofio nad oes gan y Cynulliad bŵer cyfreithiol i wneud hynny. Yr ydym yn debygol o gael y pŵer hwnnw o dan Fesur sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd—ar ôl mis Mawrth, y gobaith yw y bydd y pŵer hwnnw gyda ni beth bynnag. Nid yw'n wir dweud y gellid arbed cymaint â hynny o arian yn y ffordd honno, am y gwyddom fod ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn creu problemau. Er hynny, mae'r Gweinidog wedi dweud bod ganddo feddwl agored. Mae'n bwysig dweud ar hyn o bryd nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer i gyllido'n uniongyrchol.

**The First Minister:** I have not seen those figures, but it must be remembered that the Assembly does not have the legal powers to do that. We are likely to get those powers from a Bill that is currently passing through Westminster—after March, we hope that we will have those powers anyway. It is not true to say that that much money could be saved in that way because we know that funding schools directly creates its own problems. Despite that, the Minister has said that he has an open mind. It is important to say that, at the moment, the Assembly Government does not have the powers to fund schools directly.

**Nerys Evans:** Rwyf yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru am warchod gwariant ar ysgolion yn y gyllideb. Fodd bynnag, o ganlyniad i benderfyniadau yn Llundain, mae cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi ei gwtogi 40 y cant, a bydd hynny yn effeithio ar ysgolion ac ysgolion newydd. Sut y bydd hyn yn effeithio ar raglen gyfalaf Llywodraeth Cymru i ddarparu ysgolion i'r unfed ganrif ar hugain?

**Nerys Evans:** I am glad to hear that the Welsh Government wants to protect spend on schools in the budget. However, as a result of decisions made in London, the Welsh Government's capital has been reduced by 40 per cent and that will affect schools and new schools. How will this affect the Welsh Government's capital programme to provide schools for the twenty-first century?

**Y Prif Weinidog:** Ni fydd yn bosibl adeiladu cynifer o ysgolion yn y dyfodol ag y byddai'r Llywodraeth yn dymuno. Caiff hynny effaith ar blant, ac ar gyflwr ysgolion yng Nghymru. Fodd bynnag, yr ydym eisiau sicrhau bod y mwyafswm posibl o arian sydd ar gael yn cael ei wario ar ysgolion. Yn ffodus, yr ydym wedi gwario llawer o arian dros y degawd diwethaf ar sicrhau bod gennym adeiladau ysgolion da ar gyfer y rhai sydd yn gweithio

**The First Minister:** It will not be possible to build as many schools in future as the Government would like. That will affect children and the condition of schools in Wales. However, we want to ensure that as much money as is available is spent on schools. Fortunately, we have spent a lot of money over the last decade on ensuring that we have good school buildings for those who work and study in them.

ac yn astudio ynddynt.

### **Band Eang mewn Ardaloedd Gwledig**

**2. Joyce Watson:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau band eang mewn ardaloedd gwledig. OAQ(3)3272(FM)*

**The First Minister:** The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport launched the broadband support scheme in July. That has seen strong take-up across Wales, particularly in rural communities.

**Joyce Watson:** When we talk about improving broadband in rural areas, we need to address two problems, namely not-spots and connection speed. I welcome the Assembly Government's broadband support scheme, in which individuals can take advantage of the £1,000 grant to bring broadband to their area; I hope that the Government will continue to promote that scheme. However, the small and medium-sized enterprises that provide the majority of jobs in my region of Mid and West Wales need a faster, higher quality broadband service. Do you share my disappointment that the Wales European Funding Office did not make a case for grant funding for super-fast broadband, when Northern Ireland and Cornwall have successfully done so? In future, will you pursue every avenue and all opportunities to secure European funding to improve the situation in rural Wales?

**The First Minister:** We are already doing that. We expect all businesses in Wales to have access to next-generation broadband by the middle of 2016, and all households to be enabled by 2020. That is ahead of the European Union's target. We intend to take that forward, to ensure that people in all parts of Wales have access to the right level of broadband speed.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** Further to the points quite rightly made by Joyce Watson, what representations have you made in relation to funding for super-fast broadband, because there is

### **Broadband in Rural Areas**

**2. Joyce Watson:** *Will the First Minister make a statement on broadband services in rural areas. OAQ(3)3272(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Lanswyd y cynllun cymorth band eang gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ym mis Gorffennaf. Mae nifer fawr drwy Gymru wedi manteisio arno, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

**Joyce Watson:** Pan fyddwn yn sôn am wella band eang mewn ardaloedd gwledig, mae angen inni fynd i'r afael â dwy broblem, sef manau gwan a chyflymder y cysylltiad. Rwyf yn croesawu cynllun cymorth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer band eang, lle bydd unigolion yn gallu manteisio ar grant gwerth £1,000 i ddod â band eang i'w hardal; rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Llywodraeth barhau i hybu'r cynllun hwnnw. Serch hynny, mae angen gwasanaeth band eang cyflymach o well safon ar y mentrau bach a chanolig sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r swyddi yn fy rhanbarth i, Canolbarth a Gorllewin Cymru. A ydych chithau'n siomedig na wnaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru lwyddo i gyflwyno achos dros arian grant ar gyfer band eang cyflym iawn, er bod Gogledd Iwerddon a Chernyw wedi llwyddo i wneud hynny? Yn y dyfodol, a wnewch fynd ar drywydd pob llwybr a phob cyfle i sicrhau arian gan Ewrop i wella'r sefyllfa yn y Gymru wledig?

**Y Prif Weinidog:** Rydym eisoes yn gwneud hynny. Rydym yn disgwyl y bydd pob busnes yng Nghymru yn gallu cael gafael ar fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn canol 2016, ac y bydd pob aelwyd wedi'i galluogi erbyn 2020. Mae hynny ar y blaen i darged yr Undeb Ewropeaidd. Bwriadwn fwrw ymlaen â hynny, er mwyn sicrhau bod pobl ym mhob rhan o Gymru yn gallu cael gafael ar fand eang digon cyflym.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** A sôn rhagor am y pwyntiau a godwyd yn ddigon teg gan Joyce Watson, pa sylwadau yr ydych wedi'u gwneud yng nghyswllt ariannu ar gyfer band-eang cyflym iawn, oherwydd

concern about the failure to seek access to funding for that? You talk about the good take-up of the Government's scheme, and it is important that that is publicised. How is it being publicised, because massive areas of Wales still have not-spots?

**The First Minister:** We intend to ensure that people understand that it is possible to address not-spots. We know that there are still several not-spots in Wales, and that there are areas that the market will not reach, if it is left to the market. However, we want to ensure that we meet the ambitious targets that are set out in 'Economic Renewal: a new direction'. I believe that they will put us in good stead, when you consider that we will be ahead of the rest of Europe regarding the targets that have been set for accessing next generation broadband.

**Gareth Jones:** Mae mannau gwan ar gyfer derbyn band eang drwy Gymru. O gyflwyniad diweddar, deallais fod yr ateb ar gael drwy dechnoleg ddiwifr, neu Wi-Fi, neu beth bynnag. A yw hynny'n ateb ymarferol? A yw'n rhy ddrud i unigolion, ynteu a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y dechnoleg honno nad yw'n dibynnu ar ffibr? A yw'n realistig dod â'r gwasanaeth hwn i holl gartrefi a busnesau Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn ystyried y dechnoleg honno. Mae sawl ffordd o ddod â band eang cyflym i rannau o Gymru, nid yn unig drwy FibreSpeed. Mae'n bosibl, er enghraifft, edrych ar sawl math o dechnoleg, megis celloedd—os mai dyna'r gair cywir—sy'n gweithredu fel trosglwyddydd i'r signal. Felly, mae sawl ffordd o edrych ar hyn, ac yr ydym yn gwneud hynny, i sicrhau bod pob math o dechnoleg yn cael ei defnyddio i sicrhau bod band eang cyflym dros Gymru gyfan.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** The Labour-Plaid coalition agreement committed your Government to

'confirm official status for the Welsh language'.

mae pryder ynglŷn â'r methiant i geisio cael gafael ar arian ar gyfer hynny? Rydych yn sôn bod cryn nifer wedi manteisio ar gynllun y Llywodraeth, a'i bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i hynny. Sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny, oherwydd mae mannau gwan o hyd mewn ardaloedd helaeth o Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Bwriadwn sicrhau bod pobl yn deall ei bod yn bosibl datrys y mannau gwan. Gwyddom fod sawl man gwan o hyd yng Nghymru a bod ardaloedd na wnaiff y farchnad eu cyrraedd, os gadewir hynny i'r farchnad. Fodd bynnag, rydym am sicrhau ein bod yn cyrraedd y targedau uchelgeisiol sydd yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Credaf y bydd y rheini'n sylfaen dda inni, pan ystyriwch y byddwn ar y blaen i weddill Ewrop o ran y targedau sydd wedi'u gosod ar gyfer cael gafael ar fand eang y genhedlaeth nesaf.

**Gareth Jones:** There are broadband not-spots across Wales. I was led to understand from a recent presentation that the solution is available through wireless technology, or Wi-Fi, or whatever. Is that a workable solution? Is it too expensive for individuals, or is the Welsh Government considering that technology, which does not rely on fibre? Is it realistic to bring this service to all of Wales's homes and businesses?

**The First Minister:** We are considering that technology. There are several ways to bring fast broadband to parts of Wales, not just through FibreSpeed. It is possible, for example, to look at several types of technology, such as cells—if that is the right word—that act as a signal transmitter. So, there are several ways of looking at this, and that is what we are doing, to ensure that all types of technology are used to ensure high-speed broadband across Wales.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Roedd cytundeb clymblaid Llafur-Plaid yn rhwymo eich Llywodraeth i

'gadarnhau statws swyddogol i'r iaith Gymraeg'.



Why are you not delivering on that promise?

Pam nad ydych yn gwireddu'r addewid hwnnw?

**The First Minister:** The proposed Welsh language Measure is robust, and it makes it clear as to the position of Welsh and English in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae Mesur arfaethedig y Gymraeg yn un cadarn ac mae'n gwneud sefyllfa'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru'n glir.

1.40 p.m.

**Kirsty Williams:** If it did that, I am sure that the 80 signatories who have sent a letter to your Minister for Heritage would have not felt the need to send that letter. The 80 people who have signed that letter—distinguished experts on the Welsh language and culture, including Gwion Lewis, Dr Meredydd Evans and Archdruid T. James Jones—are concerned

**Kirsty Williams:** Petai'n gwneud hynny, rwyf yn siŵr na fyddai'r 80 llofnodwr sydd wedi anfon llythyr at eich Gweinidog dros Dreftadaeth wedi gweld angen anfon y llythyr hwnnw. Mae'r 80 sydd wedi llofnodi'r llythyr hwnnw—arbenigwyr o fri ar y Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys Gwion Lewis, Dr Meredydd Evans a'r Archdderwydd T. James Jones— yn poeni

'that there could be harmful consequences for Welsh...without official status. Unconditional declarations of official status are common throughout the world...It is not clear why this step cannot be taken for the benefit of Welsh in Wales, in accordance with the cross-party consensus in the Legislation Committee in July.'

'y gall fod canlyniadau andwyol i'r Gymraeg ... lle na fydd statws swyddogol ganddi. Mae datganiadau diamod o statws swyddogol yn gyffredin ledled y byd... Nid yw'n eglur pam na ellir cymryd y cam hwn er lles y Gymraeg yng Nghymru, yn unol â'r consensws trawsbleidiol yn y Pwyllgor Deddfwriaeth ym mis Gorffennaf.'

I wholeheartedly agree with them. The Welsh Liberal Democrats are tabling an amendment to the proposed Welsh language Measure that will ensure that Welsh is given an unconditional declaration of official status. Will you support us?

Rwyf yn cytuno'n llwyr â hwy. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cyflwyno gwelliant i Fesur arfaethedig yr iaith Gymraeg a fydd yn sicrhau datganiad diamod ynglŷn â statws swyddogol i'r Gymraeg. A wnewch ein cefnogi ni?

**The First Minister:** An unconditional declaration of official status leads to the legal conclusion, in my view, that Welsh can be used at all times, in all parts of Wales, in all circumstances. I do not think that that is a practical way of promoting the Welsh language. I would urge you to think carefully about the consequences of such a loosely worded amendment.

**Y Prif Weinidog:** Mae datganiad diamod ynglŷn â statws swyddogol yn arwain at y casgliad cyfreithiol, yn fy marn i, y gellir defnyddio'r Gymraeg, unrhyw bryd, ym mhob cwr o Gymru, o dan bob amgylchiad. Ni chredaf fod hynny'n ffordd ymarferol o hybu'r Gymraeg. Byddwn yn eich annog i feddwl yn ofalus am ganlyniadau gwelliant sydd wedi'i eirio mor llac.

**Kirsty Williams:** I believe that we do not need legal speak; we need a clear commitment from the Government that it will do what many experts in the field want it to do. I will state again that Members of the National Assembly have a historic opportunity to put right the wrong done to the Welsh language over the centuries at the hands of the law. We have a historic

**Kirsty Williams:** Nid iaith gyfreithiol sydd ei hangen arnom yn fy marn i; yr hyn sydd ei angen yw ymrwymiad clir gan y Llywodraeth y gwnaiff yr hyn y mae llawer o arbenigwyr yn y maes am iddi ei wneud. Dywedaf eto fod gan Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol gyfle hanesyddol i wneud iawn am y cam sydd wedi'i wneud â'r Gymraeg dros y canrifoedd dan law'r gyfraith. Mae gennym

opportunity to put right that wrong in the National Assembly for Wales. I ask you again, First Minister, why you feel unable to support those campaigning for the language for this clear unconditional statement of intent.

**The First Minister:** This is the most far-reaching piece of legislation that the language has had, certainly since 1993, definitely since 1967 and possibly ever—even considering the Welsh Courts Act in 1942. The one thing that I will say is that I am stunned to hear the leader of the Welsh Liberal Democrats saying that we should not have legal speak in a legislature. This is a piece of legislation; it is absolutely essential that the legislation is robust. Apparently the Liberal Democrats think that that is unimportant.

**Kirsty Williams:** We want the legislation to be robust. We want to make sure that the legislation fulfils the promises that your Government made and fulfils, at last, the wishes of those who have been campaigning for many years to have unambiguous official status for the language. It is clear that that is what the legislation committee felt at Stage 1. It is clear that 80 experts who have taken the trouble to write to your Minister for Heritage—people who, outside this Chamber, have long campaigned on the status of the language—feel that your legislation is not clear and does not go far enough. I ask you again, even at this late stage, to work with other people in the National Assembly to put right the centuries of wrong that have been done to the Welsh language, and give a clear and unambiguous statement on official status for the language.

**The First Minister:** This comes from the party that is trying, effectively, to close down S4C. It is unbelievable, is it not, to hear this from the Welsh Liberal Democrats? After all that has happened with S4C and the shambles that the Department for Culture, Media and Sport has presided over, we now have the Welsh Liberal Democrats saying that they are great supporters of the language. Look at what has happened with the Liberal Democrats and the Conservatives in London

gyfle hanesyddol i wneud iawn am y cam hwnnw yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gofynnaf ichi eto, Brif Weinidog, pam yr ydych yn teimlo na allwch gefnogi'r rheini sy'n ymgyrchu dros yr iaith ac sydd o blaid y datganiad o fwriad clir a diamod hwn.

**Y Prif Weinidog:** Dyma'r darn o ddeddfwriaeth mwyaf pellgyrhaeddol i'r iaith, yn sicr er 1993, yn bendant er 1967 ac o bosibl erioed—hyd yn oed ac ystyried Deddf Llysoedd Cymru yn 1942. Yr un peth a ddywedaf yw fy mod yn syfrdan o glywed arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dweud na ddylem gael iaith gyfreithiol mewn deddfwriaeth. Darn o ddeddfwriaeth yw hwn; mae'n gwbl hanfodol bod y ddeddfwriaeth yn gadarn. Mae'n amlwg bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn meddwl nad yw hynny'n bwysig.

**Kirsty Williams:** Rydym am i'r ddeddfwriaeth fod yn gadarn. Rydym am sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gwireddu'r addewidion a wnaeth eich Llywodraeth a'i bod, o'r diwedd, yn gwireddu dymuniadau'r rheini sydd wedi bod yn ymgyrchu ers blynnyddoedd dros statws swyddogol diamwys i'r iaith. Mae'n amlwg mai dyna oedd teimlad y pwyllgor deddfwriaeth yng Nghyfnod 1. Mae'n amlwg bod 80 arbenigwr sydd wedi trafferthu i ysgrifennu at eich Gweinidog dros Dreftadaeth—pobl sydd, y tu allan i'r Siambr hon, wedi ymgyrchu'n hir dros statws i'r iaith—yn teimlo nad yw eich deddfwriaeth yn glir ac nad yw'n mynd yn ddigon pell. Gofynnaf ichi eto, hyd yn oed a ninnau wedi cyrraedd y cam hwyr hwn, weithio gyda phobl eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol i wneud iawn am ganrifoedd o gam â'r iaith Gymraeg, gan roi datganiad clir, diamwys ynghylch statws swyddogol i'r iaith.

**Y Prif Weinidog:** Daw hyn gan y blaid sy'n ceisio, i bob pwrpas, gau S4C. Onid yw'n anghredadwy ein bod yn clywed hyn gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru? Ar ôl popeth sydd wedi digwydd gydag S4C a'r llanastr y mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi llywyddu drosto, dyma Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awr yn dweud eu bod yn gefnogwyr mawr i'r iaith. Edrychwch ar yr hyn sydd wedi digwydd o dan y

on this issue. As I say, this is the most far-reaching proposed Measure in support of the Welsh language that has ever been proposed and, when it is passed, I am sure that it will be widely welcomed by Welsh speakers across Wales and beyond.

### Cau Swyddfeydd Pasbortau

**3. Rhodri Glyn Thomas:** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chau swyddfeydd cyfworld y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau. OAQ(3)3268(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cynnal sawl trafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac ysgrifennais at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar 11 Hydref. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo tystiolaeth gan Lywodraeth y Cynulliad i'w chyflwyno i Bwyllgor Materion Cymreig San Steffan.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod y swyddfeydd cyfworld hyn yn eithriadol o bwysig er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaeth yn eu rhanbarthau eu hunain. Mae'r swyddfa yn Abertawe yn cyflogi wyth o bobl ac, fel y mae'n digwydd, mae pedwar ohonynt yn byw yn fy etholaeth i, yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr. A wnewch sicrhau bod pwysau'n cael ei roi ar y Llywodraeth i gadw'r swyddfeydd hyn ar agor oherwydd y gwasanaeth eithriadol o bwysig maent yn eu cynnig i bobl de-orllewin Cymru a hefyd oherwydd eu bod yn cynnig cyflogaeth o fewn yr ardal honno, a byddai colli wyth o swyddi proffesiynol yn golled fawr i'r economi leol?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn cytuno'n llwyr. Yr unig reswm sydd wedi ei roi i bobl Cymru i gyfiawnhau cau swyddfa pasbortau Casnewydd yw'r ffaith y bydd yr adeilad yn wag y flwyddyn nesaf achos bod y brydles yn dod i ben. Nid yw hwn yn rheswm call, yn fy marn i. Nid wyf wedi cael ateb eto i'r cwestiwn sydd wedi cael ei ofyn gan bob plaid yn y Cynulliad, sef, pam y dylai Cymru fod yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddi swyddfa pasbort. Nid yw'r cwestiwn hwnnw wedi'i ateb eto.

Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn Llundain yn y cyswllt hwn. Fel y dywedaf, dyma'r Mesur arfaethedig mwyaf pellgyrhaeddol o blaid y Gymraeg sydd wedi'i gynnig erioed a phan gaiff ei basio, rwyf yn siŵr y caiff ei groesawu'n fawr gan siaradwyr Cymraeg ledled Cymru a'r tu hwnt.

### Passport Office Closures

**3. Rhodri Glyn Thomas:** *What discussions has the First Minister had with the UK government regarding the closure of Identity and Passport Service Interview offices. OAQ(3)3268(FM)*

**The First Minister:** I have had several discussions with the Secretary of State and I wrote to the Prime Minister on 11 October. I have also agreed Assembly Government evidence to be put before Westminster's Welsh Affairs Committee.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am sure you would agree that these interview offices are extremely important as they ensure that people have access to services in their own regions. The Swansea office employs eight people, four of whom, as it happens, live in my constituency, Carmarthen East and Dinefwr. Will you ensure that pressure is brought to bear on the Government to keep these offices open, as they provide an exceptionally important service to the people of south-west Wales and they provide employment in that area, and the loss of eight professional jobs would be a great blow to the local economy?

**The First Minister:** I totally agree. The only reason that has been given to the people of Wales to justify the closure of Newport passport office is the fact that the building will be empty next year because the lease is coming to an end. That is not a sensible reason, in my opinion. I have not yet received an answer to the question that has been asked by every party in the Assembly, which is why Wales should be the only country in the United Kingdom without a passport office. That question is yet to be answered.

**William Graham:** First Minister, you will be well aware of the cross-party support for keeping this office open, as you have already stated. You will also know that the Member of Parliament for Newport, Paul Flynn, asked the previous Government about this many times in its last year in power and did not get an adequate reply as to whether there was a real future for the office in Newport. We also know that, as a result of the cancellation of identity cards, there is a surplus within that department. I agree with you that any closures in that department should not occur solely in Newport and have asked you to make further representations on this point.

**The First Minister:** It may or may not be the case that one of the city's MPs did not get a clear response with regard to the future of the passport office, but now we do have a clear response from the Government in London: it wants to close it. I acknowledge the support that has been given by all parties in this Chamber. It is important that the message continues to be put across that it is not acceptable for Wales to be the only one of the four nations in the UK without a passport office. That is a stance that has been taken by all parties in this Chamber and I am still waiting for a coherent response from the UK Government on this issue.

#### Trafnidiaeth Gyhoeddus

**4. Val Lloyd:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)3258(FM)*

**The First Minister:** Significant investment by the Assembly Government in public transport has seen the number of bus and rail journeys increase from 133.6 million in 2000 to 150.3 million in 2009. The national transport plan continues to encourage greater use of public transport.

**Val Lloyd:** It is very heartening to hear that. I was also pleased to learn earlier this month that the free bus pass scheme for elderly and disabled people will be protected by the Welsh Assembly Government. Free travel on local bus services has made a huge difference

**William Graham:** Brif Weinidog, gwyddoch yn dda am y gefnogaeth drawsbleidiol i gadw'r swyddfa hon ar agor, fel yr ydych wedi dweud eisoes. Gwyddoch hefyd fod Aelod Seneddol Casnewydd, Paul Flynn, wedi gofyn i'r Llywodraeth flaenorol am hyn droeon yn ystod ei blwyddyn olaf mewn grym heb gael ateb digonol ynglŷn ag a oedd dyfodol go iawn i'r swyddfa yng Nghasnewydd. Gwyddom hefyd, yn sgil canslo cardiau adnabod, fod gormod o staff yn yr adran honno. Cytunaf â chi na ddylai unrhyw doriadau yn yr adran honno ddigwydd yng Nghasnewydd yn unig ac rwyf wedi gofyn ichi gyflwyno rhagor o sylwadau ynglŷn â'r pwynt hwn.

**Y Prif Weinidog:** Efallai ei bod yn wir eu efallai nad yw'n wir fod un o ASau y ddinas heb gael ymateb clir ynglŷn â dyfodol y swyddfa basportau, ond cawsom ymateb clir yn awr gan y Llywodraeth yn Llundain: mae am ei chau. Rwyf yn cydnabod y gefnogaeth gan bob plaid yn y Siambr hon. Mae'n bwysig ein bod yn dal i gyfleu'r neges nad yw'n dderbyniol mai Cymru yw'r unig un o blith pedair cenedl y Deyrnas Unedig a fydd heb swyddfa basportau. Mae pob plaid yn y Siambr hon wedi arddel y safbwynt hwnnw ac rwyf yn dal i aros am ymateb call gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn.

#### Public Transport

**4. Val Lloyd:** *Will the First Minister make a statement on the use of public transport in Wales. OAQ(3)3258(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yn sgil buddsoddi sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad mewn trafndiaeth gyhoeddus, mae nifer y teithiau ar fysiau a threnau wedi cynyddu o 133.6 miliwn yn 2000 i 150.3 miliwn yn 2009. Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn dal i annog mwy o ddefnydd ar drafndiaeth gyhoeddus.

**Val Lloyd:** Mae'n galonogol iawn clywed hynny. Roeddwn yn falch hefyd o gael ar ddeall yn gynharach y mis hwn y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwarchod y cynllun tocynnau teithio rhatach i'r henoed a phobl anabl. Mae teithio am ddim ar

to the lives of many older people in Wales. It has allowed them to retain their independence and provided a vital connection to other services. However, despite this, some concerns remain regarding, for example, the condition and maintenance of bus stops and a lack of adequate lighting, seating, shelter and travel information. These are all seen as barriers. Many of my constituents are looking forward to using the new Swansea central bus station, which is due to open to the public next week. The new bus station is a clear example of the Welsh Assembly Government's commitment to improving transport facilities. Do you agree, First Minister, that any barriers to the use of public transport should be addressed, both to allow and to encourage older people to take advantage of this hugely worthwhile scheme?

**The First Minister:** I agree entirely. We have come a fair way since the days when trains were entirely inaccessible, and buses were equally so. Although not devolved, the public service vehicles accessibility regulations have helped to ensure greater accessibility to buses in particular and have ensured that those buses are available. We now have dropped kerb buses, which is an innovation that did not exist 10 years ago. It is exceptionally important, where people rely on public transport, that every possible barrier to using it is removed and that incentives and help are put in place to encourage people to use it. That is why we are committed to retaining the free bus pass scheme.

**Darren Millar:** First Minister, like many other people in the Chamber, I am a regular user of the north-south rail service run by Arriva Trains Wales. I have to commend the Assembly Government for establishing the premier service in order to cut rail travel times between north and south Wales. What discussions have your officials had with Arriva Trains Wales to encourage the company to allow room in its timetable for a stop at Colwyn Bay station? It is the biggest centre of population on the north Wales

wasanaethau bysiau lleol wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i fywydau llawer o bobl hŷn yng Nghymru. Mae wedi caniatáu iddynt gadw'u hannibyniaeth ac wedi darparu cysylltiad hanfodol â gwasanaethau eraill. Serch hynny, er gwaethaf hyn, mae ambell beth yn destun pryder o hyd, er enghraifft, cyflwr a threfniadau cynnal a chadw arosfannau bysiau a diffyg goleuo, seddi, cysgod a gwybodaeth teithio digonol. Mae'r rhain i gyd yn cael eu hystyried yn rhwystrau. Mae llawer o'm hetholwyr yn edrych ymlaen at ddefnyddio gorsaf fysiau ganolog newydd Abertawe, a fydd yn agor i'r cyhoedd wythnos nesaf. Mae'r orsaf fysiau newydd yn enghraifft glir o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cyfleusterau trafniadaeth. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, y dylid mynd i'r afael ag unrhyw bethau sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio trafniadaeth gyhoeddus, er mwyn i bobl hŷn allu manteisio ar y cynllun gwerthfawr iawn hwn a'u hannog i wneud hynny?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn cytuno'n llwyr. Rydym wedi camu ymlaen dipyn ers y dyddiau pan oedd trenau'n gwbl anhygyrch a'r bysiau yr un mor wael. Er nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, mae rheoliadau hygyrchedd cerbydau gwasanaethau cyhoeddus wedi helpu i sicrhau bod bysiau'n benodol yn haws eu defnyddio a bod y bysiau hynny ar gael. Erbyn hyn, mae gennym fysiau y mae'n rhwydd mynd arnynt oddi ar ymyl y pafin, datblygiad arloesol nad oedd ar gael 10 mlynedd yn ôl. Mae'n eithriadol o bwysig lle bydd pobl yn dibynnu ar drafniadaeth gyhoeddus, fod pob rhwystr posibl rhag ei defnyddio'n cael ei chwalu a bod help ar gael i annog pobl i'w defnyddio. Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo i gadw'r cynllun tocynnau bws am ddim.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, fel sawl un arall yn y Siambr, rwyf yn defnyddio'r gwasanaeth trên o'r gogledd i'r de'n rheolaidd, sef y gwasanaeth a ddarperir gan Drenau Arriva Cymru. Rhaid imi gymeradwyo Llywodraeth y Cynulliad am sefydlu'r gwasanaeth cyflymach er mwyn cwtogi'r amserau teithio ar drên rhwng y gogledd a'r de. Pa drafodaethau y mae'ch swyddogion wedi'u cael gyda Threnau Arriva Cymru i annog y cwmni i adael lle yn ei amserlen er mwyn i drenau allu aros yng

coast, and yet it seems to be the only large centre of population where this train does not stop. I wonder whether this is anything to do with the fact that it is in my constituency—I certainly hope not. I would encourage you to have a look at this and see whether there is an opportunity to amend the timetable.

**The First Minister:** It stops in a number of constituencies that are held by members of different parties, so it is not the case that the train only stops in the constituencies of members of the coalition parties. I can give you that assurance. However, you raised a serious point about the service to Colwyn Bay, and I will write to you with an explanation for that.

1.50 p.m.

**Chris Franks:** With huge pressures on budgets, will you confirm that the Welsh Government is determined to maintain the existing concessionary bus pass scheme? We all know that a Tory budget would see the current system of free bus travel scrapped, meaning that communities would lose their bus routes and that the frequency of some services would be at risk. The failure of the Secretary of State for Wales to stand up for Wales to ensure that the main railway line to Swansea will be electrified also shows how little the Conservatives care about transport in Wales. It has been noted, however, that the Secretary of State is fighting a strong battle for her constituents in respect of Tory rail policy, despite having failed Wales totally. Do you agree?

**The First Minister:** Yes. The issue of electrification is serious, because all of the other proposed schemes—the ones around London—have been approved. The only one that is outstanding is the electrification of the south Wales main line, for some reason. Now, it is unclear whether electrification will take place, and whether the 125 fleet will be upgraded. If neither of those things happens, we will be reduced to having Sprinter trains coming down the track. Also, no decision has been taken as to whether diesel-electric trains

ngorsaf Bae Colwyn? Dyma'r ganolfan boblogaeth fwyaf ar arfordir y gogledd, ac eto, dyma'r unig ganolfan boblogaeth fawr lle na fydd y trê'n yn aros. Tybed a oes a wnelo hyn o gwbl â'r ffaith ei bod yn fy etholaeth i—yn sicr rwyf yn gobeithio nad oes. Byddwn yn pwyso arnoch i gael golwg ar hyn a gweld a oes cyfle i ddiwygio'r amserlen.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n aros mewn nifer o etholaethau a gynrychiolir gan aelodau o wahanol bleidiau, felly nid yw'n wir mai dim ond yn etholaethau aelodau pleidiau'r glymblaid y mae'r trê'n yn aros. Gallaf eich sicrhau ynghylch hynny. Fodd bynnag, codwyd pwynt difrifol gennych am y gwasanaeth i Fae Colwyn, ac fe ysgrifennaf atoch i roi esboniad ichi ynglŷn â hynny.

**Chris Franks:** A chyllidebau o dan bwysau enfawr, a wnewch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gadw'r cynllun tocynnau bws rhatach presennol? Gwyddom i gyd y byddai cyllideb Dorïaidd yn cael gwared ar y system bresennol o deithio am ddim ar fysiau, gan olygu y byddai cymunedau'n colli eu llwybrau bysiau ac na fyddai sicrwydd ynglŷn ag amllder rhai gwasanaethau. Mae methiant Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sefyll dros Gymru a sicrhau bod y brif reilffordd i Abertawe yn cael ei thrydanu hefyd yn dangos cyn lleied y mae'r Ceidwadwyr yn poeni am drafnidiaeth yng Nghymru. Sylwyd, fodd bynnag, fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymladd yn ddygn dros ei hetholwyr yng nghyswllt polisi rheilffyrdd y Torïaid, er iddi fethu'n llwyr â gwneud hynny dros Gymru. A ydych yn cytuno?

**Y Prif Weinidog:** Mae mater trydanu'n ddifrifol, oherwydd mae'r holl gynlluniau eraill a gynigir—y rhai o gwmpas Llundain—wedi cael eu cymeradwyo. Yr unig un sy'n weddill yw trydanu prif lein de Cymru, am ryw reswm. Erbyn hyn, nid yw'n glir a wnaiff y trydanu ddiwydd, ac a gaiff y fflyd 125 ei uwchraddio. Oni ddiwydd yr un o'r ddau beth hynny, y cyfan a fydd gennym fydd trenau Sprinter yn dod i lawr y cledrau. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ychwaith ynglŷn ag a ddefnyddir trenau disel-trydan ar

will be used on the route, or whether the position would be to have diesels connected to incoming trains at Bristol or Cardiff. None of those scenarios is good for south Wales. The point is that it is essential for us to have good, fast connections to London, and the greater the uncertainty in that regard, and the longer that it goes on, the worse it will get. The only satisfactory outcome is electrification of the main line to Swansea. It is happening everywhere else in the UK; it should happen in south Wales as well.

**Jenny Randerson:** At committee last week, the Deputy First Minister confirmed that a greater proportion of his department's spending will go on public transport and, therefore, there will be less spent on roads. Of course, the safe operation of bus services relies on environmental improvements and road safety schemes. The budget for that is being squeezed. I ask you now—bearing in mind that I am well aware that if you spend more money in one area, you have to spend less in another—what is the reasoning behind the decision to reduce the amount of money available for road safety schemes at a time when Wales has established a good reputation for effective schemes of that kind.

**The First Minister:** The answer is simple, Jenny. As you rightly say, the money has to come from somewhere else. Should it come from health or education? We think not. We delivered a budget, particularly although not solely in capital terms, while operating in the context of our budget being cut by 40 per cent. We believe that we have prioritised those schemes that the people of Wales will find important.

#### **Newidiadau yn y System Fudd-daliadau**

**5. Brian Gibbons:** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith y newidiadau i'r system fudd-daliadau ar bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)3263(FM)*

**The First Minister:** This is not a devolved matter, but we did recently respond to the Department for Work and Pensions'

y llwybr, ynteu a fyddai trenau disel yn cael eu cysylltu â threnau sy'n dod i mewn ym Mryste neu yng Nghaerdydd. Nid yw'r un o'r sefyllfaoedd hynny'n dda i dde Cymru. Y pwynt yw ei bod yn hanfodol inni gael cysylltiadau da, cyflym â Llundain, a pho fwyaf fydd yr ansicrwydd yn y cyswllt hwnnw, a pho hwyaf yr aiff hynny yn ei flaen, gwaethaf fydd pethau. Yr unig ganlyniad boddhaol yw trydanu'r brif lein i Abertawe. Mae'n digwydd ym mhobman arall yn y Deyrnas Unedig; dylai ddigwydd yn ne Cymru hefyd.

**Jenny Randerson:** Mewn pwyllgor yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd cyfran fwy o gyllid ei adran yn cael ei gwario ar drafnidiaeth gyhoeddus ac, felly, y gwerir llai ar ffyrdd. Wrth gwrs, mae gweithredu gwasanaethau bysiau'n ddiogel yn dibynnu ar welliannau i'r amgylchedd ac ar gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r gyllideb ar gyfer hynny'n cael ei gwasgu. Gofynnaf ichi yn awr, a chofio fy mod yn gwybod yn iawn os gwariwch chi ragor o arian mewn un maes, ei bod yn rhaid ichi wario llai mewn maes arall—beth yw'r rheswm dros y penderfyniad i leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer cynlluniau diogelwch y ffyrdd a Chymru yn awr wedi sefydlu enw da am gynlluniau effeithiol o'r math hwnnw.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ateb yn syml, Jenny. Rydych yn llygad eich lle'n dweud ei bod yn rhaid i'r arian ddod o rywle arall. A ddylai ddod o faes iechedd neu o faes addysg? Na ddylai yn ein barn ni. Aethom ati i ddarparu cyllideb, o ran cyfalaf yn bennaf, ond nid dim ond hynny, yng nghyd-destun toriadau o 40 y cant ar ein cyllideb. Credwn inni flaenoriaethu'r cynlluniau hynny y bydd pobl Cymru yn eu hystyried yn bwysig.

#### **Changes to the Benefits System**

**5. Brian Gibbons:** *What discussions has the First Minister had with the UK government regarding the impact of the changes to the benefits system on Welsh Assembly Government policies. OAQ(3)3263(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nid yw hyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond ymatebwyd yn ddiweddar i ymgynghoriad yr Adran Gwaith

consultation on the introduction of a universal credit.

**Brian Gibbons:** You will be aware that many benefits have a direct impact on Assembly Government policy. The regressive nature of the overall budget will clearly make our child poverty targets more difficult to achieve. Housing benefit changes will increase the risk of homelessness, and the reduction in the childcare tax credit element will make it more difficult for us to deliver our childcare policy. Surely, this underpins the urgency with which the UK Government should address the underfunding of Wales. The UK Government's reneging on the agreement to addressing this underfunding is an absolute scandal.

**The First Minister:** I have long given up trying to understand what the UK Government's position is on this issue. Its written position is clearly to address Holtham after a referendum. Danny Alexander's position is apparently different to that. The Lib Dems' position is that Wales does not deserve to be funded properly—that is what he said last week.

As confusion reigns at the UK level, let me make one thing very clear: there is a real risk in Wales that as we see cuts in benefits, there will be an impact on the Government's budget. For example, if there is more homelessness, that will lead to a greater demand for social housing, which is funded out of our budget. It is a straight transfer of responsibility from the UK Government to the Assembly Government without the money for it also being transferred. That is clearly unacceptable, and it is doubly unacceptable given that we know full well that we are already underfunded and that the benefit cuts run the real risk of making that underfunding worse.

**Nick Ramsay:** First Minister, will you join me in welcoming the message from the UK's Office for Budget Responsibility that Britain's economic recovery is on track and that, according to its latest forecast, 160,000

a Phensiynau ar gyflwyno credyd cyffredinol.

**Brian Gibbons:** Gwyddoch fod llawer o fudd-daliadau'n effeithio'n uniongyrchol ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n amlwg y bydd natur anflaengar y gyllideb gyffredinol yn gwneud ein targedau tlodi plant yn anos eu cyflawni. Bydd newidiadau yn y budd-dal tai yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd, a bydd gostwng yr elfen gredyd treth ar gyfer gofal plant yn ei gwneud yn anos inni wireddu ein polisi yn y maes hwnnw. Siawns nad yw hyn yn golygu y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fynd ati ar frys i fynd i'r afael â thanariannu Cymru. Mae'n gywilydd gwlad bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cefnu ar y cytundeb i fynd i'r afael â'r tanariannu hwn.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi hen roi'r gorau i geisio deall safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig at hyn. Mae'n amlwg mai ei safbwynt ysgrifenedig yw rhoi sylw i Holtham ar ôl refferendwm. I bob golwg, mae safbwynt Danny Alexander yn wahanol i hynny. Safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol yw nad yw Cymru yn haeddu cael ei hariannu'n iawn—dyna a ddywedodd yr wythnos diwethaf.

A dryswch yn teyrnasu ar lefel y Deyrnas Unedig, gadewch imi wneud un peth yn glir iawn; mae gwir berygl yng Nghymru wrth inni weld torri budd-daliadau, y gwelir effaith ar gyllideb y Llywodraeth. Er enghraifft, os bydd mwy o ddigartrefedd, bydd hynny'n golygu y bydd mwy o alw am dai cymdeithasol. Telir am y rhain o'n cyllideb ni. Mae'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth y Cynulliad, heb i'r arian hefyd gael ei drosglwyddo ar gyfer hynny. Mae hynny'n amlwg yn annerbyniol, a gwyddom yn iawn ein bod eisoes yn cael ein tanariannu a bod y toriadau mewn budd-daliadau'n golygu perygl gwirioneddol y gwneir y tanariannu hwnnw'n waeth.

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r neges gan Swyddfa Cyfrifoldeb am y Gyllideb y Deyrnas Unedig fod adferiad economaidd Prydain ar y trywydd iawn, ac, yn ôl ei rhagolygon



public sector jobs will be saved as a result of UK Government changes to the benefits system? The number of public sector redundancies expected by 2015 has fallen from 490,000 to 330,000. Will you join me in welcoming that good news, and in regretting the failure of the previous Labour Government at Westminster to alter Welsh funding, which is what has left us in this situation?

**The First Minister:** They really do not understand money, do they, Dirprwy Lywydd? Apparently—and this is an intriguing tale—after the general election in May, the economy turned around overnight. According to the Tories, economies are like cars, and you can turn them around, perhaps using a handbrake turn, in about an hour. That is not the case. In 2007, the Labour Government took steps to make sure that the economy was robust, and that is why the economy continues to be robust now, despite your party's best efforts to wreck it, Nick. Let us not forget that, in 2007, the party opposite took the view that we should not bail out the banks, the banks should therefore collapse, people should lose their savings, and the economy should be left to its own devices. Had we listened to them, the country would be on its knees.

**David Lloyd:** Er nad yw materion budd-daliadau wedi'u datganoli, fel y mae Brian eisoes wedi crybwyll, mae sgîl-effeithiau'r newidiadau hyn yn taro pobl yma yng Nghymru. I fynd ar drywydd tlodi tanwydd yn awr, mae'r lefelau ar gynnydd i raddau echrydus, fel y gwelsom o'r adroddiad a gyhoeddwyd ddydd Gwener. Gwyddom fod 322,000 o gartrefi mewn tlodi tanwydd, sef dros chwarter holl gartrefi Cymru. Mae'r gaeaf caled eisoes wedi cyrraedd ac mae mwy na 1,700 o farwolaethau ychwanegol yn digwydd bob gaeaf oherwydd yr oerfel ym Mhrydain-nid yw'r marwolaethau hynny'n digwydd yng ngwledydd Llychlyn, er enghraifft. O gyflysu hynny â'r toriadau mewn budd-daliadau, pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda Llywodraeth San Steffan ar y pwnc hwn? Gwir yw dweud ein bod yn cael ein tanariannu, fel y dywedodd Holtham, ac mae pobl yn Llundain yn anwybyddu hynny, ond yn y pen draw, mae

diweddaraf, yr achubir 160,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus yn sgîl newidiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system budd-daliadau? Disgwylid colli 490,000 o swyddi erbyn 2015 ond mae hynny wedi gostwng i 330,000. A wnewch ymuno â mi i groesawu'r newyddion da hynny, gan resynu at fethiant Llywodraeth Lafur flaenorol San Steffan i newid y ffordd y ariennid Cymru, sef yr hyn sydd wedi ein gadael yn y sefyllfa hon?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydynt yn deall arian o gwbl, nac ydynt, Ddirprwy Lywydd? I bob golwg—a dyma ichi stori ddifyr—ar ôl yr etholiad cyffredinol ym mis Mai, gwnaeth yr economi dro pedol dros nos. Yn ôl y Torïaid, mae economïau'n debyg i geir, ac fe allwch eu troi i gyfeiriad gwahanol o fewn rhyw awr, drwy godi'r brêc llaw'n gyflym efallai. Nid dyna fel y mae. Yn 2007, cymerodd y Llywodraeth Lafur gamau i sicrhau bod yr economi'n gadarn, a dyna pam mae'r economi'n dal yn gadarn yn awr, er gwaethaf ymdrechion gorau eich plaid i'w dinistrio, Nick. Gadewch inni beidio ag anghofio, yn 2007, mai barn y blaid gyferbyn oedd na ddylem achub y banciau, y dylai'r banciau felly fynd i'r wal, y dylai pobl gollu eu cynilion ac y dylid gadael i'r economi frwydro drosti'i hun. Petaem wedi gwrandao arnynt hwy, byddai'r wlad ar ei gliniau.

**David Lloyd:** Although benefit payments are not a devolved matter, as Brian has already said, the consequences of the changes are affecting people in Wales. To turn to fuel poverty, the levels are increasing drastically, as we saw in the report that was published on Friday. We know that 322,000 homes are in fuel poverty, which is over a quarter of all homes in Wales. The hard winter has already arrived and there are more than 1,700 excess winter deaths every year in Britain because of the cold—those deaths do not occur in Scandinavian countries, for example. As that is coupled with the cuts in benefit payments, what discussions are you having with the Westminster Government on this subject? It is true to say that we are underfunded, as Holtham has said, and the people in London are ignoring that fact, but, at the end of the day, our people are suffering fuel poverty in the cold at the moment, so what discussions are you having from day to day to ensure that

ein pobl ni yn dioddef tlodi tanwydd yn yr oerfel yn awr, felly pa drafodaethau yr ydych yn eu cael o ddydd i ddydd i wneud yn siŵr ein bod yn mynd i'r afael â'r pwnc hollbwysig hwn?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi mewn cynlluniau megis y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref i sicrhau bod pobl yn gallu talu am eu tanwydd dros y gaeaf. Bydd negeseuon hefyd yn cael eu hanfon gan y Llywodraeth i atgoffa pobl o'r angen i gadw'r gwres ymlaen, ac i sicrhau eu bod yn cadw'r gwres yn eu tai. Byddwn hefyd yn parhau i siarad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei ystyried yn fanwl ac i sicrhau nad yw'r sefyllfa yn gwaethygu yn y misoedd sydd i ddod.

### Darparu Gofal Iechyd

**6. Nick Bourne:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal iechyd yng Nghymru. OAQ(3)3266(FM)*

**The First Minister:** We are committed to the development of safe, integrated and sustainable healthcare services in Wales that meet the healthcare needs of our residents as close to their homes as possible.

**Nick Bourne:** In your 2009 leadership manifesto, you said, 'I love the NHS'. Why, then, are you taking £1 billion out of the NHS over the next three years, which is the equivalent cost of 158,000 coronary bypass operations?

**The First Minister:** It is £1 billion, now, apparently. That is a new figure. We have not heard that before, and it grows by the week. I am surprised that the Conservatives want to raise this matter. We saw the mess that they were in last week and the week before. Andrew R.T. Davies has been relegated to the naughty corner over there, while Jonathan Morgan has been rehabilitated. I would have thought that the Tories would have learned that this is a bad topic for them to choose. The point is that we have ensured that there is enough money available for the health service over the next three years, and we have done it despite the fact that we have seen cuts coming from a Conservative and

we deal with this important subject?

**The First Minister:** The Government has invested in schemes such as the home energy efficiency scheme to ensure that people can pay for their fuel over the winter. The Government will also be reissuing the message to remind people of the need to keep the heating on and to ensure that they keep that heat in their homes. We will continue to talk to the United Kingdom Government to ensure that fuel poverty is considered in detail and to ensure that the situation does not deteriorate in the coming months.

### Healthcare Provision

**6. Nick Bourne:** *Will the First Minister make a statement on health care provision in Wales. OAQ(3)3266(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd diogel, integredig a chynaliadwy yng Nghymru sy'n diwallu anghenion gofal iechyd ein trigolion a hynny mor agos i'w cartrefi ag y bo modd.

**Nick Bourne:** Yn eich maniffesto fel darpar arweinydd yn 2009, dywedasoch, 'Rwyf yn caru'r GIG'. Pam felly, yr ydych chi'n tynnu £1 biliwn oddi ar y GIG dros y tair blynedd nesaf, sef yr hyn sy'n cyfateb i gost 158,000 llawdriniaeth dargyfeirio coronaidd?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n £1 biliwn erbyn hyn, i bob golwg. Mae hwnnw'n ffigur newydd. Nid ydym wedi clywed hynny o'r blaen, ac mae'n tyfu o'r naill wythnos i'r llall. Rwyf yn synnu bod y Ceidwadwyr am godi'r mater hwn. Gwelsom y llanastr yr oeddent ynddo yr wythnos diwethaf a'r wythnos cyn hynny. Mae Andrew R.T. Davies wedi'i anfon i'r gornel gallio yn y fan acw, a Jonathan Morgan wedi'i ailsefydlu. Byddwn wedi meddwl y byddai'r Torïaid wedi dysgu nad yw hwn yn bwnc da iddynt ei ddewis. Y pwynt yw ein bod wedi sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwasanaeth iechyd dros y tair blynedd nesaf, ac inni wneud hynny er gwaetha'r ffaith inni

Lib Dem Government at UK level. The one question that they refuse to answer time and again is where the money would come from to pay for their plans. Every time they are asked the question, they do not provide an answer.

2.00 p.m.

**Nick Bourne:** I did not hear an answer to the question about how it is that you are able to take £1 billion out of the health service. We had your rehearsed witticism, but we have not heard an answer to the question about the £1 billion—and it is £1 billion according to Government figures, which we have gone over—coming out of the health service over three years. That would pay for 33,000 nurses, 158,000 coronary bypass operations or 125 dedicated stroke units. How is it that you do not regard it as a priority to deal with those key issues for the health of Wales?

**The First Minister:** We are losing £860 million in funding from your Government in London. Explain to the people of Wales why it is that that is, apparently, justifiable, and then perhaps you could explain from where you would get the money to pay for what you say is needed. We have never had an answer from you on that, apart from the fact that we know that you would destroy school budgets.

**Nick Bourne:** In the unlikely event that your party won the UK election, Alistair Darling had made it clear that we would suffer cuts greater than those in the Thatcher years, so I will not take any lectures from you. Given the highest mortality rates for cancer in the UK, and the highest childhood obesity rates in the UK, and given that rates of diabetes, heart disease and smoking in Wales are well above the UK average, why do you not make—[*Interruption.*] I am willing to wait for a prompt if you need one. Why is it that you do not regard this as a priority, as we do? It is an issue of priorities. The NHS is our priority; why is it not yours?

weld toriadau gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar lefel y Deyrnas Unedig. Yr un cwestiwn y maent yn gwrthod ei ateb dro ar ôl tro yw o ble y byddai'r arian yn dod i dalu am eu cynlluniau. Bob tro y gofynnir y cwestiwn iddynt, nid ydynt yn ateb.

**Nick Bourne:** Ni chlywais ateb i'r cwestiwn ynglŷn â sut y gallwch dynnu £1 biliwn oddi ar y gwasanaeth iechyd. Clywsom eich ateb parod ffraeth, ond nid ydym wedi clywed ateb i'r cwestiwn am yr £1 biliwn—ac mae'n £1 biliwn yn ôl ffigurau'r Llywodraeth, yr ydym wedi bod drostynt,— a fydd yn cael ei dynnu oddi ar y gwasanaeth iechyd dros dair blynedd. Byddai hynny'n talu am 33,000 o nyrsys, 158,000 llawdriniaeth dargyfeirio coronaidd neu 125 o unedau strôc arbennig. Pam nad ydych yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth ymdrin â'r materion allweddol hynny er lles iechyd Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn colli £860 miliwn o arian gan eich Llywodraeth yn Llundain. Esboniwch i bobl Cymru pam mae hynny, i bob golwg, yn rhywbeth y gellir ei gyfiawnhau, ac yna, efallai y gallech esbonio o ble y byddech chi'n dod o hyd i'r arian i dalu am yr hyn sydd ei angen yn eich ôl chi. Nid ydym wedi cael ateb gennych erioed am hynny, ac eithrio'r ffaith ein bod yn gwybod y byddech yn chwalu cyllidebau ysgolion.

**Nick Bourne:** Petai eich plaid wedi ennill etholiad y Deyrnas Unedig, ac roedd hynny'n annhebygol, roedd Alistair Darling wedi'i gwneud yn glir y byddem yn wynebu toriadau gwaeth na'r rheini a gafwyd ym mlynnyddoedd Thatcher, felly, ni wrandawaf ar yr un bregeth gennych chi. Ac ystyried mai yma y mae'r cyfraddau marw uchaf o ganser yn y Deyrnas Unedig, a'r cyfraddau gordewdra uchaf ymhlith plant yn y Deyrnas Unedig, ac a chofio bod cyfraddau diabetes, clefyd y galon ac ysmegu yng Nghymru ymhell uwchben cyfartaledd y Deyrnas Unedig, pam na wnewch chi—[*Torri ar draws.*] Rwyf yn barod i aros i rywun roi cymorth ichi os oes angen hynny arnoch. Pam nad ydych yn ystyried hyn yn flaenoriaeth, fel yr ydym ni? Mater o flaenoriaethau yw hyn. Y GIG yw ein

blaenoriaeth ni, pam nad yw'n flaenoriaeth i chithau?

**The First Minister:** There is no point living in cloud-cuckoo-land. What have we heard from the Tories? We have heard that they would increase spending by the retail price index every year. Then we heard Andrew R.T. Davies say that it would be RPI plus the GDP deflator. That, apparently, was wrong: it was not Tory policy. We heard Nick Bourne say—and it was forced out of him—that it was a priority to cut school budgets by at least 20 per cent. [*Interruption.*] We all saw it. It is on the record on BBC Wales. Watch it again. If that is what you would put before the people of Wales, Nick, say so. If you think that the health budget is wrong, say so. Do not keep on saying imperiously, 'We'll tell you by Christmas': if you have an alternative budget, tell us from where the money will come.

**Nick Bourne:** Let us try again to get an answer to the question of why you do not regard this as a priority. Bear in mind that you are the one who is supposed to be answering questions. Let us try for the third time to get an answer to why you do not regard this as a priority. We do, and you do not. Furthermore, you want to suppress any criticism of how money is spent on health, including the McKinsey report, the £1 billion that is misspent, and the fact that we have had not one but two costly reorganisations of the health service on your watch. More to the point, why is this not your priority? It is ours; why is it not yours, given the state of health in Wales today? It is a simple question.

**The First Minister:** It is our priority. We have protected spending on hospitals, and we have ensured that the same amount of money is available for the NHS for the next three years. What we do not know is what your plans are. It is all very well for you to sit there and say that we have got it wrong, but

**Y Prif Weinidog:** Nid oes pwynt byw breuddwyd gwyrach. Beth yr ydym wedi'i glywed gan y Torïaid? Rydym wedi clywed y byddent yn cynyddu gwariant yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu bob blwyddyn. Yna, clywsom Andrew R.T. Davies yn dweud y byddai'n cynyddu gwariant yn ôl y mynegai a'r datchwyddwr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Yn ôl pob golwg, roedd hynny'n anghywir; nid dyna oedd polisi'r Torïaid. Clywsom Nick Bourne yn dweud—ac fe'i gorfodwyd i ddweud hynny—ei bod yn flaenoriaeth torri cyllidebau ysgolion o leiaf 20 y cant. [*Torri ar draws.*] Gwelsom i gyd hynny. Mae ar gof a chadw ar BBC Cymru. Gwyliwch hi eto. Os hynny y byddech yn ei roi gerbron pobl Cymru, Nick, dywedwch hynny. Os credwch fod y gyllideb iechyd yn anghywir, dywedwch hynny. Peidiwch â dal i ddweud yn awdurdodol, 'Fe ddywedwn wrthych erbyn y Nadolig': os oes gennych gyllideb amgen, dywedwch wrthym o ble y daw'r arian.

**Nick Bourne:** Gadewch inni roi cynnig arall ar gael ateb i'r cwestiwn ynglŷn â pham nad ydych yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Cofiwch mai chi yw'r un sydd i fod yn ateb cwestiynau. Gadewch inni roi cynnig arni am y trydydd tro i gael ateb ynglŷn â pham nad ydych yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Yr ydym ni, ond nid ydych chi. At hynny, rydych am fygu unrhyw feirniadaeth am sut y gwerir arian ar iechyd, gan gynnwys adroddiad McKinsey, yr £1 biliwn sy'n cael ei gamwario, a'r ffaith inni weld ad-drefnu costus yn y gwasanaeth iechyd, nid unwaith ond dwywaith yn ystod eich cyfnod mewn grym. Yn anad dim, pam nad yw hyn yn flaenoriaeth i chi? Dyma'n blaenoriaeth ni, pam nad yw'n flaenoriaeth i chi, ac ystyried cyflwr iechyd yng Nghymru heddiw? Mae'n gwestiwn syml.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n flaenoriaeth inni. Rydym wedi gwarchod gwario ar ysbytai ac wedi sicrhau bod yr un faint o arian ar gael i'r GIG ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yr hyn nad ydym yn ei wybod yw beth yw eich cynlluniau chi. Digon rhwydd ichi eistedd yn y fan honno a dweud ein bod ni wedi gwneud

you are not prepared to put your head on the block and say from where the money will come. That is the missing link as far as the Conservatives are concerned. The Conservatives will not tell the people of Wales from where they think this money will come. You cannot have your cake and eat it. Your party cuts the money coming to the Assembly Government and then you blame the Assembly Government for not spending money that it does not have in the first place. The people of Wales have already seen through it.

**Alun Davies:** First Minister, I am sure that you, like me, given what we have heard the leader of the opposition say, were surprised to discover that David Cameron has cut the health budget in England by £500 million. I am sure that you also share my surprise at seeing the new faces on the Conservative front bench. The health spokesman resigned because he did not get to chair a committee, and we now have a new health spokesman, who was the finance spokesman last week. The leader of the opposition now has more hats than most people have in a lifetime, because he does not trust his own group. Do you not agree that that is not an opposition but a shambles?

**The First Minister:** The evidence shows it. We have seen how they have handled health matters over the past few weeks. They come up with this figure, like the Lib Dems, of £1 billion being misspent in the health service. There is no evidence for that at all. *[Interruption.]* One person apparently claimed that that was the case in one committee meeting. The Liberal Democrats keep saying that a number of people are saying that. They are not. It is completely untrue. I make this challenge in the Chamber to the Conservatives and the Lib Dems: if you say that £1 billion is being misspent in the health service, give us the proof, give us the evidence. None has come forward. *[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. We are getting to the stage that we cannot hear

camgymeriad, ond nid ydych chi'n barod i roi eich pen ar y bloc a dweud o ble y daw'r arian. Dyna'r ddolen goll o ran y Ceidwadwyr. Ni wnaiff y Ceidwadwyr ddweud wrth bobl Cymru o ble y maent yn meddwl y daw'r arian hwn. Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Mae eich plaid yn torri'r arian sy'n dod i Lywodraeth y Cynulliad ac wedyn dyma chi'n beio Llywodraeth y Cynulliad am beidio â gwario arian nad oes ganddi yn y lle cyntaf. Mae pobl Cymru wedi gweld drwy hyn eisoes.

**Alun Davies:** Brif Weinidog, rwyf yn siwr eich bod chi, fel minnau, ac ystyried yr hyn yr ydym wedi clywed arweinydd yr wrthblaid yn ei ddweud, yn synnu o gael ar ddeall bod David Cameron wedi torri'r gyllideb iechyd yn Lloegr £500 miliwn. Rwyf yn siŵr eich bod chithau'n synnu hefyd o weld y wynebau newydd ar fainc flaen y Ceidwadwyr. Ymddiswyddodd y llefarydd iechyd oherwydd na chafodd gadeirio pwyllgor, ac mae gennym lefarydd iechyd newydd yn awr, a hwnnw yr wythnos diwethaf yn llefarydd cyllid. Mae gan arweinydd yr wrthblaid bellach fwy o hetiau nag a bydd y rhan fwyaf yn eu gwisgo yn ystod eu hoes, oherwydd nad yw'n ymddiried yn ei grŵp ei hun. Onid ydych yn cytuno nad gwrthblaid yw honno ond traed moch?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r dystiolaeth yn dangos hynny. Rydym wedi gweld sut maent wedi ymdrin â materion iechyd dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Maent yn sôn am y ffigur hwn, fel y mae'r Democratiaid Cymdeithasol sef £1 biliwn yn cael ei gamwario yn y gwasanaeth iechyd. Nid oes dim tystiolaeth o hynny o gwbl. *[Torri ar draws.]* Yn ôl pob sôn, un person a honnodd hynny mewn un cyfarfod pwyllgor. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud o hyd fod nifer o bobl yn dweud hynny. Nid yw hynny'n wir. Mae'n gwbl anwir. Rwyf yn herio'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Siambr hon: os dywedwch fod £1 biliwn yn cael ei gamwario yn y gwasanaeth iechyd, rhowch y prawf inni, rhowch y dystiolaeth inni. Nid ydym wedi gweld dim. *[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rydym yn cyrraedd pwynt lle na allwn glywed y

the speakers. You may not like what is being said, but please let us try to have a little bit of quiet.

**David Melding:** First Minister, will you join me in commending the campaign of the Royal College of Speech and Language Therapists, called Giving Voice, to raise awareness of speech impediments? A series of events is going on in the Assembly today in connection with the campaign, including the screening this evening of excerpts of the film *The King's Speech*, which focuses on the difficulties that His Majesty King George VI had with a speech impediment.

**The First Minister:** I am more than pleased to join you in supporting the college's campaign; indeed, I have offered my support at such events in months gone by. It is important to raise the issue of speech and language therapy to increase people's awareness of it.

**Helen Mary Jones:** To bring you back to the budget, First Minister, but perhaps on rather firmer ground than some of the fantasy island stuff that we heard in earlier contributions to this question, the Children and Young People Committee took evidence this morning from some of the major children's voluntary organisations, who welcomed some of the protection for budgets for children and young people. However, a concern was expressed that some local health boards may be 'misinterpreting', which I think was the word used, the intention with regard to ring-fencing the budget for child and adolescent mental health services. Will you make absolutely clear that that budget is ring-fenced and that your Government expects that money to be spent on mental health services for children and young people, not just on mental health services generally, and that your Government will take steps to ensure that that is how it is spent?

**The First Minister:** There is no question but that the money is ring-fenced, and that is the message that is important for all local health boards to hear.

**Mick Bates:** Do you agree that people's health would be greatly helped by going

siaradwyr. Efallai nad ydych yn hoffi'r hyn sy'n cael ei ddweud ond os gwelwch yn dda gadewch inni gael ychydig o dawelwch.

**David Melding:** Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i gymeradwyo ymgyrch Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, a elwir yn Rhoi Llais, i godi ymwybyddiaeth o namau ar leferydd? Mae cyfres o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn y Cynulliad heddiw yng nghyswllt yr ymgyrch, gan gynnwys dangos rhannau o'r film *The King's Speech* heno, sy'n canolbwyntio ar yr anawsterau a gafodd Ei Mawrhydi'r Brenin George VI gyda nam ar ei leferydd.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn fwy na balch o ymuno â chi i gefnogi ymgyrch y coleg; yn wir, rwyf wedi cynnig fy nghefnogaeth mewn digwyddiadau o'r fath yn y misoedd sydd wedi mynd heibio. Mae'n bwysig codi mater therapi iaith a lleferydd i gynyddu ymwybyddiaeth pobol ohono.

**Helen Mary Jones:** A dychwelyd at y gyllideb, Brif Weinidog, ond efallai ar dir mwy cadarn na rhai o'r breuddwydion gwrrach a glywsom yn y cyfraniadau blaenorol i'r cwestiwn hwn, derbyniodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc dystiolaeth y bore yma gan rai o'r prif fudiadau plant gwirfoddol, a oedd yn croesawu rhywfaint o'r warchodaeth i gyllidebau plant a phobl ifanc. Serch hynny, mynegwyd pryder y gall rhai byrddau iechyd lleol fod yn 'camddechongli'—dyna'r gair a ddefnyddiwyd rwyf yn meddwl, y bwriad gyda golwg ar neilltuo'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed. A wnewch ei gwneud hi'n gwbl glir bod y gyllideb wedi'i neilltuo a bod eich Llywodraeth yn disgwyl i'r arian gael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, nid dim ond ar wasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol, ac y bydd eich Llywodraeth chi yn cymryd camau i sicrhau mai felly y caiff ei wario?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes amheuaeth nad yw'r arian wedi'i neilltuo, a dyna'r neges y mae'n bwysig i bob bwrdd iechyd lleol ei chlywed.

**Mick Bates:** A ydych yn cytuno y byddai gwneud lles mawr i iechyd pobl ddringo'r

upstairs to see a display by a school from Montgomeryshire called the wall of smiles? I am sure that you will all get there. I also listened with great interest to your remarks in reply to Nick Bourne's question. You said that healthcare provision would be delivered as close to people's homes as possible. I wish to focus my question on that, because, in Montgomeryshire and mid Wales, we are currently threatened by discussions about removing obstetric, paediatric and neonatal services from the Royal Shrewsbury Hospital and Telford Hospital. At the same time, we have the reduction in the paediatric and maternity services currently provided at Bronglais Hospital. First Minister, is your Government taking an active part in the discussions with health providers in England to ensure that people in Montgomeryshire will not have to travel to Wolverhampton or Swansea to receive the services that they can currently receive in mid Wales or just over the border in Shrewsbury?

**The First Minister:** We support the local health board's efforts to make sure that those services are preserved for the people of Montgomeryshire. We are aware of the issue, and it would be unacceptable in all parts of Wales for services that can be provided locally to be moved elsewhere. There are occasions when it is difficult to provide that service locally, as there will be occasions when a particular illness is so rare that a specialised centre of excellence is needed to give people effective treatment. However, we are certainly aware of the situation in Montgomeryshire, and we support the local health board's efforts to ensure that the services remain there.

### Gweithgynhyrchu

**7. William Graham:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hybu gweithgynhyrchu yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)3260(FM)*

**The First Minister:** 'Economic Renewal: a new direction' sets out our business support policies for the whole of Wales.

grisiau i weld arddangosfa ysgol o sir Drefaldwyn a elwir yn wal gwenau? Rwyf yn siŵr y gwnewch chi i gyd gyrraedd y fan honno. Gwrandewais hefyd gyda diddordeb mawr ar eich sylwadau wrth ichi ateb cwestiwn Nick Bourne. Dywedasoeh y byddai gofal iechyd yn cael ei ddarparu mor agos ag y bo modd at gartrefi pobl. Rwyf am ganolbwyntio fy nghwestiwn ar hynny, oherwydd, yn sir Drefaldwyn ac yn y canolbarth, rydym dan fygythiad ar hyn o bryd yn sgil trafodaeth ynglŷn â symud gwasanaethau obstetrig, pediatrig a mamolaeth o Ysbyty Brenhinol yr Amwythig ac Ysbyty Telford. Ar yr un pryd, mae'r gwasanaethau pediatrig a mamolaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty Bronglais yn crebachu. Brif Weinidog, a yw eich Llywodraeth yn cymryd rhan frwd yn y trafodaethau gyda darparwyr iechyd yn Lloegr er mwyn sicrhau na fydd yn rhaid i bobl yn sir Drefaldwyn deithio i Wolverhampton neu i Abertawe er mwyn cael y gwasanaethau y gallant eu cael ar hyn o bryd yn y canolbarth neu fymryn dros y ffin yn yr Amwythig?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cefnogi ymdrechion y bwrdd iechyd lleol i sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu cadw ar gyfer pobl sir Drefaldwyn. Rydym yn ymwybodol o'r broblem, a byddai'n annerbyniol mewn unrhyw ran o Gymru symud gwasanaethau y gellir eu darparu'n lleol i rywle arall. Ar brydiau, mae'n anodd darparu'r gwasanaeth hwnnw'n lleol oherwydd weithiau bydd ambell salwch mor anghyffredin nes bod angen canolfan ragoriaeth arbenigol er mwyn rhoi triniaeth effeithiol i bobl. Serch hynny, rydym yn sicrhau yn ymwybodol o'r sefyllfa yn sir Drefaldwyn, ac yn cefnogi ymdrechion y bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cadw yno.

### Manufacturing

**7. William Graham:** *Will the First Minister make a statement on the promotion of manufacturing in South Wales East. OAQ(3)3260(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn cynnwys ein polisiau ar gyfer cymorth i fusnesau ledled

Cymru.

**William Graham:** You will remember that you indicated on 10 October that your Government was in discussion with potential investors who might be able to bring work to South Wales East. Will you join me in welcoming the news that the wind turbine manufacturer Mabey Bridge Ltd from Chepstow has secured a new order, and that there remains a possibility that the chief executive of General Motors may wish to extend the supply chain to Wales? As you will know, we used to supply a great deal of automotive parts to GM for many years. Can you give any indication of when that might happen?

**The First Minister:** We cannot breach commercial confidence, and we cannot reveal the nature and content of any ongoing discussions with a number of potential investors. However, we are certainly aware of the possibilities that exist for inward investment, and we are always keen to pursue them.

2.10 p.m.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, do you agree that high skills levels are crucial to the future growth requirements of the manufacturing industry in areas such as the Caerphilly constituency? We have seen at first hand the positive impact of programmes such as the European-funded ProAct, ReAct and Skills Growth Wales. Our economic renewal programme has made advanced materials and manufacturing a key growth sector that it will target for investment and support, while committing to broadening and deepening our skills base. Do you therefore agree that it is vital that, despite the severe cuts imposed upon us by the UK coalition Government, we must continue to recognise the importance of lifelong and workplace learning, skills development and training?

**The First Minister:** Yes. We cannot hope to build our economy on any basis other than one in which we have high skills levels that attract high-quality jobs and investment in manufacturing facilities that stay in Wales.

**William Graham:** Byddwch yn cofio ichi ddweud ar 10 Hydref fod eich Llywodraeth yn trafod â darpar fuddsoddwyr a allai ddod â gwaith i Ddwyrain De Cymru. A wnewch ymuno â mi i groesawu'r newyddion bod y gwneuthurwr tyrbinau gwynt, Mabey Bridge Ltd o Gas-gwent, wedi sicrhau archeb newydd a bod posibilrwydd o hyd y gallai prif weithredwr General Motors ddymuno estyn y gadwyn gyflenwi i Gymru? Fel y gwyddoch, roeddem yn arfer cyflenwi llawer iawn o rannau moduron i GM am flynyddoedd lawer. A allwch roi rhyw syniad inni pa bryd y gallai hynny ddigwydd?

**Y Prif Weinidog:** Ni allwn dorri cyfrinachedd masnachol, ac ni allwn ddatgelu natur a chynnwys unrhyw drafodaethau sydd ar y gweill gyda nifer o ddarpar fuddsoddwyr. Serch hynny, rydym yn sicr yn ymwybodol o'r posibiladau ar gyfer mewnfuddsoddi, ac rydym bob tro'n awyddus i fynd ar drywydd posibiladau o'r fath

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn hollbwysig sicrhau sgiliau da i ddiwallu gofynion twf y diwydiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol mewn ardaloedd megis etholaeth Caerffili? Rydym wedi gweld ein hunain yr effaith gadarnhaol a gaiff rhaglenni megis ProACT, ReACT a Sgiliau Twf Cymru a noddur gan Ewrop. Mae ein rhaglen adnewyddu'r economi wedi gwneud uwchgynhyrchu a deunyddiau uwch yn sector twf allweddol y bydd yn ei dargedu ar gyfer buddsoddi a chymorth. Rydym wedi ymrwymo i ehangu a dyfnhau ein sylfaen sgiliau. A ydych yn cytuno felly ei bod yn hanfodol, er gwaetha'r toriadau difrifol a orfodwyd arnom gan glymblaid Llywodraeth y DU, inni barhau i gydnabod pwysigrwydd dysgu gydol oes a dysgu yn y gweithle, datblygu sgiliau a hyfforddi?

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Ni allwn obeithio adeiladu ein heconomi oni fydd gennym sgiliau da sy'n denu swyddi o safon a buddsoddi mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu sy'n aros yng Nghymru.



The higher our skills level, the more difficult it will be to replicate them elsewhere and the more unlikely it will be that any manufacturing plant will move. We see clusters of skills across Wales. Airbus is one example among many, and the area of biosciences is another. It is absolutely essential that, in years to come, Wales is seen as a good place in which to invest and start up a business, not because wage rates are low but because skills levels are high.

### Cefnogi'r Sector Ynni

**8. Paul Davies:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector ynni. OAQ(3)3259(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Chwyldro Carbon Isel', sef datganiad polisi ynni Llywodraeth y Cynulliad, yn nodi'r camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i gefnogi ynni carbon isel.

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar ichi, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Byddwch yn ymwybodol bod fy etholaeth yn chwarae rhan sylweddol yn y sector ynni yng Nghymru ac, yn wir, ym Mhrydain. Mae sir Benfro yn cynnwys dwy burfa olew a dwy derfynell nwy hylifedig naturiol. Mae purfa olew Murco Petroleum Cyf. Yn Aberdaugleddau yn awr ar werth, fel y mae purfa olew gyfagos Chevron Corporation, sy'n newyddion cythryblus i'r gweithwyr, y sector ynni yn gyffredinol, a'r economi leol. A allwch amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog busnesau i ddatblygu yn y sector hwn ac yn benodol i annog busnesau olew eraill i brynu'r ddwy burfa olew yn sir Benfro?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi cysylltu â Murco a Chevron ynghylch dyfodol y ffatrioedd, ac yr ydym wedi cynnig pob cymorth posibl i'r cwmnïau ac i'r sawl sy'n cael eu cyflogi yno.

**Leanne Wood:** There is a pressing need to increase the amount of sustainable energy that is generated if we are to realise our ambition of creating a carbon-neutral country over the next decade and a half, but there are

Gorau oll y bydd ein sgiliau, mwyaf anodd fydd eu dynwared mewn mannau eraill a'r lleiaf tebygol fydd hi y bydd unrhyw ffatri gweithgynhyrchu'n symud. Mae clystyrau o sgiliau i'w gweld ledled Cymru. Un enghraifft ymhlith llawer yw Airbus, a maes arall yw biowyddorau. Mae'n gwbl hanfodol bod Cymru, yn y blynyddoedd a ddaw, yn cael ei gweld yn lle da i fuddsoddi a dechrau busnes, nid oherwydd bod cyfraddau cyflogau'n isel ond oherwydd bod gennym sgiliau da.

### Supporting the Energy Sector

**8. Paul Davies:** *Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support the energy sector. OAQ(3)3259(FM)*

**The First Minister:** The Assembly Government's energy policy statement, 'A Low Carbon Revolution', sets out the actions that the Government has taken to support low-carbon energy.

**Paul Davies:** I am grateful to you, First Minister, for that answer. You will be aware that my constituency plays a significant part in the energy sector in Wales and, indeed, in Britain. Pembrokeshire has two oil refineries and two liquefied natural gas terminals. The Murco Petroleum Ltd oil refinery in Milford Haven is now for sale, as is the nearby Chevron Corporation oil refinery, which is disturbing news for the workers, the energy sector generally, and the local economy. Could you outline what the Welsh Assembly Government is doing to encourage businesses to develop in this sector and specifically to encourage other oil businesses to purchase the two oil refineries in Pembrokeshire?

**The First Minister:** We have contacted Murco and Chevron about the future of the plants, and we have offered every possible support to the companies and those who are employed there.

**Leanne Wood:** Mae angen dybryd inni gynyddu faint o ynni cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu er mwyn inni wireddu ein huchelgais, sef creu gwlad garbon-niwtral dros y degawd a hanner nesaf, ond mae

many barriers in the way of small-scale projects. Making investment capital available to get projects off the ground, cutting red tape that does not seem to differentiate between huge renewable energy projects and much smaller ones, and simplifying the planning process could all go a long way towards helping Wales to establish itself as a leading country in the generation of sustainable energy given the abundance of our natural resources. Will you agree to look at the various obstacles that people report being in the way of small-scale microgeneration to see what can be done to reduce or eliminate them?

**The First Minister:** I understand that the general permitted development Order was amended last year to make it easier for microgeneration projects to be taken forward, especially by individuals. That should have a beneficial effect, but we will always seek to review the GPDO to see whether any other means can be used to encourage people to install microgeneration and to make it easy for them to do so.

**Veronica German:** Do you agree with your colleague, Margaret Hodge, who said today that the UK has not done enough for the renewable energy sector over the past 10 years?

‘Given the urgency and importance of the issue, progress in meeting renewable energy targets has been unacceptably slow over the last decade.’

That is Labour’s legacy, coming twenty-fifth out of 27 EU countries. In my region, Mabey Bridge Ltd has invested £38 million in a new facility to manufacture towers for wind turbines, creating 240 skilled jobs. I went to see it recently, but the company does not understand why Wales is lagging so far behind Scotland. It does not understand—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Could we have a question, please?

**Veronica German:** What are you doing to

prosiectau ar raddfa fach yn wynebu llu o rwystrau. Drwy ddarparu cyfalaf buddsoddi i roi cychwyn ar brosiectau, cael gwared ar fiwrocraatiaeth nad yw i bob golwg yn gwahaniaethu rhwng prosiectau ynni adnewyddadwy enfawr a rhai llai o lawer, a symleiddio’r broses cynllunio, i gyd fynd ymhell iawn tuag at helpu Cymru i’w sefydlu ei hun yn wlad sy’n arwain ym maes cynhyrchu ynni cynaliadwy ac ystyried cynifer o adnoddau naturiol sydd gennym. A wnewch gytuno i edrych ar y gwahanol bethau hynny y mae pobl yn dweud eu bod yn rhwystro microgynhyrchu ar raddfa fach er mwyn gweld beth y gellir ei wneud i’w lliniaru neu i’w dileu?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn deall bod y Gorchymyn datblygu cyffredinol a ganiateir wedi cael ei ddiwygio y llynedd er mwyn ei gwneud yn haws bwrw ymlaen â phrosiectau microgynhyrchu, yn enwedig gan unigolion. Dylai hynny fod o les, ond byddwn yn wastad yn ceisio adolygu’r Gorchymyn er mwyn gweld a oes modd defnyddio unrhyw ffordd arall o annog pobl i osod offer microgynhyrchu a’i gwneud yn haws iddynt wneud hynny.

**Veronica German:** A ydych yn cytuno â’ch cyfaill, Margaret Hodge, a ddywedodd heddiw nad yw’r Deyrnas Unedig wedi gwneud digon i’r sector ynni adnewyddadwy dros y 10 mlynedd diwethaf?

‘Ac ystyried brys a phwysigrwydd y mater, mae’r cynnydd o ran cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy wedi bod yn annerbyniol o araf dros y degawd diwethaf.’

Dyna waddol Llafur, dod yn bumed ar hugain o blith 27 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Yn fy rhanbarth i, mae Mabey Bridge Ltd wedi buddsoddi £38 miliwn mewn cyfleuster newydd i weithgynhyrchu tyrrau ar gyfer tyrbinau gwynt, gan greu 240 o swyddi medrus. Euthum i’w weld yn ddiweddar, ond nid yw’r cwmni yn deall pam mae Cymru yn llusgo gymaint ar ôl yr Alban. Nid yw’n deall—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allem gael cwestiwn os gwelwch yn dda?

**Veronica German:** Beth yr ydych yn ei

answer that company and to answer Margaret Hodge? What will you do to make that difference?

**The First Minister:** Your party's coalition partner in London is mainly made up of people who are rabidly against wind power, both onshore and offshore. I suggest that you have a word with them. Secondly, it would assist us greatly if we had devolved power over generation facilities of over 50 MW. Scotland has it, England has it, Northern Ireland has it, but Wales does not. [Interruption.]

It is right to say that this issue was raised with the previous Government; I know that. However, your party is now in Government with the Conservatives, so if you believe that the situation should be rectified, now is your chance to do it.

### Tai Cymdeithasol

**9. Christine Chapman:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y tai cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru. OAQ(3)3264(FM)*

**The First Minister:** There were 235,000 social landlord dwellings in Wales as of 31 March 2010. We are committed to increasing the number of new affordable homes by 6,500 over the term of this Government.

**Christine Chapman:** I was pleased with the announcement that the Welsh Assembly Government has exceeded its target of delivering 6,500 new affordable homes one year ahead of schedule. This is very welcome. I am also pleased that the Welsh Assembly Government is taking steps to deliver affordable housing more effectively through the Proposed Housing (Wales) Measure. However, housing continues to be one of the issues most frequently raised with me by constituents, particularly those on waiting lists. In many cases, these are families with small children who, for a variety of reasons, need to be rehoused near family, friends and the local school but who, instead, are allocated houses away from the support networks on which they rely. Do you agree that, if Wales is to build strong

wneud i ateb y cwmni hwnnw ac i ateb Margaret Hodge? Beth a wnewch chi i wneud y gwahaniaeth hwnnw?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n aelodau o bartner eich plaid yn y glymblaid yn Llundain yn cynnwys pobl sy'n gwrthwynebu ynni gwynt yn ffyrnig. Awgrymaf ichi gael gair â nhw. Yn ail, byddai'n gymorth mawr i ni petai gennym bŵer wedi'i ddatganoli dros gyfleusterau cynhyrchu sydd dros na 50 MW. Mae gan yr Alban y pŵer hwnnw, a Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond nid Cymru. [Torri ar draws.]

Mae'n iawn dweud i'r mater hwn gael ei godi gyda'r Llywodraeth flaenorol; gwn hynny. Er hynny, eich plaid chi sy'n Llywodraethu yn awr gyda'r Ceidwadwyr, felly os ydych chi'n credu y dylid cywiro'r sefyllfa, dyma'ch cyfle i wneud hynny.

### Social Housing

**9. Christine Chapman:** *Will the First Minister make a statement on the availability of social housing in Wales. OAQ(3)3264(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Roedd 235,000 o anheddau landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2010. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd ychwanegol yn ystod oes y Llywodraeth.

**Christine Chapman:** Roeddwn yn falch o glywed y cyhoeddiad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhagori ar ei tharged, sef darparu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd flwyddyn yn gynnar. Mae hyn i'w groesawu'n fawr. Rwyf yn falch hefyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i ddarparu tai fforddiadwy'n fwy effeithiol drwy gyfrwng y Mesur Tai Arfaethedig (Cymru). Serch hynny, tai yw un o'r materion y bydd fy etholwyr yn eu codi amlaf gyda mi o hyd, yn enwedig y rheini sydd ar restr aros. Yn aml iawn, teuluoedd â phlant bach yw'r rhain, ac am amrywiaeth o resymau, mae angen eu hailgartrefu'n agos at deulu, cyfeillion a'r ysgol leol ond, yn lle hynny, trefnir tai iddynt ymhell o'r rhwydweithiau cymorth y maent yn dibynnu arnynt. A ydych yn cytuno, er mwyn i Gymru

communities, enabling people to be near their support network should be prioritised and monitored by the Welsh Assembly Government?

**The First Minister:** That would be the ideal situation. However, we have all had constituents come to see us about accommodation, and it can be quite difficult to accommodate people in the area in which they wish to be. That can be quite tough, as we all know. People should be allocated accommodation as close to their family networks as possible; sometimes that cannot be done, but my experience over a number of years as an Assembly Member is that, given a bit of time, it is usually possible to do that.

**Mark Isherwood:** As we have heard, figures have been published indicating that the Welsh Government has achieved its target for additional affordable housing in this Assembly. I congratulate the housing associations for having contributed the lion's share of that. First Minister, do the figures refer to more housing or new housing? If it is 'more', is it not the case that the actual figure is barely half of this, and if it is 'new', is it not the case that the Government of which you have been part for 10 years has cut the supply of new affordable housing in Wales by 60 per cent, with the consequences of poor health, educational failure, economic inactivity, family breakdown and so much more? You have been digging up the roots of social justice for the sake of gimmicks, but people depend upon those roots being in place.

**The First Minister:** Thank you for your congratulations, Mark, on reaching our target; it was very generous of you. We are talking here about additional homes, and it is something that we are proud of. I find it strange that you talk about the loss of affordable homes—the problem began in the 1980s and 1990s, when council houses were sold and not replaced. One oft-quoted figure is that Powys, for example, lost about half of its council houses during the 1980s and 1990s, and those houses were not replaced. What we are trying to do now is catch up after the failed policies of the 1980s and

feithrin cymunedau cryf, y dylid rhoi blaenoriaeth i alluogi pobl i fod yn agos at eu rhwydwaith cymorth ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro hynny?

**Y Prif Weinidog:** Honno fyddai'r sefyllfa ddefnyddiol. Serch hynny, rydym i gyd wedi cael etholwyr yn dod i'n gweld am lety, ac fe all fod yn eithaf anodd lletya pobl yn yr ardal y maent yn dymuno byw ynddi. Gall hynny fod yn eithaf anodd, fel y gwyddom i gyd. Dylid trefnu llety i bobl mor agos at rwydwaith eu teulu ag sy'n bosibl; weithiau, nid oes modd gwneud hynny, ond fy mhrofiad dros nifer o flynyddoedd fel Aelod Cynulliad yw, bod modd gwneud hynny fel rheol os bydd rhywun yn fodlon aros tipyn.

**Mark Isherwood:** Fel yr ydym wedi clywed, mae ffigurau wedi'u cyhoeddi'n dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei tharged ar gyfer tai fforddiadwy ychwanegol yn y Cynulliad hwn. Rwyf yn llongyfarch y cymdeithasau tai am gyfrannu'r rhan fwyaf helaeth o hynny. Brif Weinidog, a yw'r ffigurau'n cyfeirio at ragor o dai ynteu at dai newydd? Os yw'n cyfeirio at 'ragor', onid yw'n wir nad yw'r ffigur go iawn brin yn cyrraedd hanner y nifer hwn, ac os yw'n cyfeirio at 'newydd', onid yw'n wir bod y Llywodraeth yr ydych chi wedi bod yn rhan ohoni ers 10 mlynedd wedi torri'r cyflenwad tai newydd fforddiadwy yng Nghymru 60 y cant, gan arwain at iechyd gwael, methu ym maes addysg, anweithgarwch economaidd, chwalu teuluoedd a chymaint mwy? Rydych wedi bod codi gwreiddiau cyfiawnder cymdeithasol er mwyn gimics, ond mae pobl yn dibynnu ar gael y gwreiddiau hynny yn eu lle.

**Y Prif Weinidog:** Diolch ichi am eich llongyfarchiadau, Mark, am gyrraedd y targed; roedd hynny'n hael iawn. Sôn yr ydym yma am gartrefi ychwanegol, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn falch ohono. Rwyf yn ei chael yn rhyfedd eich bod yn sôn am golli tai fforddiadwy—dechreuodd y broblem yn yr 1980au a'r 1990au, pan werthwyd tai cyngor heb godi rhai yn eu lle. Un ffigur a ddyfynnir yn aml yw bod Powys, er enghraifft, wedi colli oddeutu hanner ei dai cyngor yn ystod yr 1980au a'r 1990au, ac ni chodwyd tai yn lle'r rheini. Yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud yn awr yw gwneud iawn

1990s, which left so many people homeless and so many houses unavailable for the rented sector. That in turn meant that many families were unable to find accommodation in their home villages and towns.

**Janet Ryder:** Would you agree that that target has been met a year early because of the good, hard work that has been done collaboratively by housing associations, local councils and the Welsh Assembly Government? Do you also agree that the Assembly Government's ability to respond to that agenda, and to prevent the very conditions that the Tory party has just described, is being severely hampered by the lack of capital and revenue funding being made available to this Government by the Tory and Liberal Democrat Government in London, which is failing to recognise the need that we have in Wales?

2.20 p.m.

**The First Minister:** The simple answer is 'yes', but we want to ensure that we examine every way of financing social housing in the future. As a Government, we will be innovative in looking at all ways of doing that.

#### **Y Gronfa Byw'n Annibynnol**

**10. Gareth Jones:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y newidiadau i'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar awdurdodau lleol yng Nghymru. OAQ(3)3278(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r gronfa byw'n annibynnol yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig ac nid oes unrhyw bwerau sy'n ymwneud â'i swyddogaethau wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru. Mae adolygiad ar waith ar hyn o bryd, ond nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto.

**Gareth Jones:** Mae newidiadau i'r gronfa hon ar gyfer oedolion anabl, sydd wedi'u gwneud gan Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig yn San Steffan, yn cael effaith enfawr ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ar lefel y gofal a'r cymorth y maent yn

am hynny ar ôl i bolisiau'r 1980au a'r 1990au fethu, gan adael cynifer o bobl yn ddigartref a chynifer o dai sydd heb fod ar gael i'r sector rhentu. Yn ei dro, roedd hynny'n golygu bod llawer o deuluoedd yn methu â dod o hyd i lety yn eu pentrefi a'u trefi eu hunain.

**Janet Ryder:** A fydddech yn cytuno bod y targed wedi'i gyrraedd flwyddyn yn gynnar oherwydd y gwaith da, caled sydd wedi'i wneud ar y cyd gan gymdeithasau tai, cynghorau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru? A ydych yn cytuno hefyd bod gallu Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i'r agenda honno, ac i atal yr union amgylchiadau y mae'r blaid Doriaidd newydd eu disgrifio, yn cael ei lesteirio'n ddifrifol am nad yw Llywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn darparu digon o arian cyfalaf a refeniw i'r Llywodraeth hon, gan fethu â chydabod yr angen sydd arnom yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ateb syml yw 'ydw', ond rydym am sicrhau ein bod yn archwilio pob ffordd o ariannu tai cymdeithasol yn y dyfodol. Byddwn ni'r Llywodraeth yn mynd ati mewn ffordd arloesol i ystyried pob ffordd o wneud hynny.

#### **The Independent Living Fund**

**10. Gareth Jones:** *Will the First Minister make a statement on the impact on Welsh local authorities of changes to the Independent Living Fund. OAQ(3)3278(FM)*

**The First Minister:** The independent living fund operates on a UK basis and no powers relating to its functions are devolved to Welsh Ministers. A review is being undertaken at present, but the Department for Work and Pensions has not made any decisions as of yet.

**Gareth Jones:** Changes to this fund for disabled adults, made by the United Kingdom's coalition Government at Westminster, are having a huge impact on local authority budgets and on the level of care and support that they can provide. The

gallu ei ddarparu. Rhaid i sir Conwy, er enghraifft, ddod o hyd i £0.5 miliwn er mwyn darparu gofal a chymorth i bobl ifanc anabl, i'w helpu i groesi'r bont o blentyndod i ddod yn oedolion, a mynd i goleg neu fyw'n annibynnol ar eu rhieni. Bydd y rheini sy'n cyrraedd eu 18 oed eleni'n wynebu lefelau sylweddol is o ofal a chymorth, tra bydd y derbynwyr presennol yn gweld ffioedd i ddarparwyr gofal a gweithwyr cymorth yn cael eu rhewi. A yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effeithiau llym hyn ar awdurdodau lleol ac ar oedolion ifanc anabl, ac a wnewch chi geisio perswadio Llywodraeth Prydain i ailasesu'r polisi hwn?

**Y Prif Weinidog:** Bydd hyn yn cael effaith wael yn y dyfodol. Mae'n wir dweud bod ymddiriedolwyr y gronfa byw'n annibynnol wedi datgan na fydd ceisiadau newydd yn cael eu caniatáu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, er mwyn iddynt gadw o fewn eu cyllideb. Fy mhryder yw y bydd hyn yn datblygu'n beth arferol yn y blynyddoedd i ddod. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw y bydd problemau mawr os na chaiff hyn ei ystyried unwaith eto gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

**Jonathan Morgan:** First Minister, I am sure that you are aware that many disabled people in Wales face considerable barriers, such as inaccessible workplaces, lack of confidence and sometimes even employer attitudes, when looking for employment. I am sure that you agree that, with 52 per cent of disabled people between the ages of 16 and 64 economically inactive, rescoping the ILF scheme towards helping those people who want to get into work, or those people who are currently in work, will help disabled people gain the confidence to aim for employment and to be able to develop lives that are independent of what the state can offer them. Surely, such a change is to be welcomed.

**The First Minister:** I welcome anything that removes any barriers to people returning to work, such as offering free prescriptions. I worry when I hear words like 'rescoping', because that suggests to me that not much thought has been given to the final outcome. It is all very well to remove the barriers that may exist for people who are disabled or who

county of Conwy, for example, has to find £0.5 million in order to provide care and support for young disabled people, to help them bridge the gap between childhood and adulthood, going to college or living independently of their parents. Those reaching the age of 18 this year face significantly lower levels of care and support while current recipients will see fees for care providers and support workers frozen. Does the Welsh Government recognise the dire consequences of such measures on local authorities and disabled young adults, and will you strive to persuade the British Government to reassess its policy?

**The First Minister:** This will have a detrimental effect in the future. It is true that independent living fund trustees have said that new applications will not be allowed during this financial year, so that they can keep to budget. My concern is that this will develop to be the norm in coming years. The Assembly Government is of the opinion that there will be significant problems if this is not reconsidered by the United Kingdom Government.

**Jonathan Morgan:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod bod llawer o bobl anabl yng Nghymru yn wynebu rhwystrau sylweddol, megis gweithleoedd anhygyrch, diffyg hyder ac weithiau hyd yn oed agweddau cyflogwyr, wrth iddynt chwilio am waith. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno, a 52 y cant o bobl anabl rhwng 16 a 65 oed yn economaidd anweithgar, y bydd ailgwmpasu cynllun y Gronfa Byw'n Annibynnol er mwyn helpu'r bobl hynny sy'n dymuno cael gwaith, neu'r bobl hynny sydd eisoes mewn gwaith, yn helpu pobl anabl i feithrin yr hyder i geisio gwaith a gallu datblygu bywydau sy'n annibynnol oddi ar yr hyn y gall y wladwriaeth ei gynnig iddynt. Siawns na ddylid croesawu newid o'r fath.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn croesawu unrhyw beth sy'n chwalu unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag dychwelyd i'r gwaith, megis cynnig presgripsiynau am ddim. Byddaf yn poeni pan glywaf eiriau megis 'ailgwmpasu', oherwydd mae hynny'n awgrymu i mi nad oes llawer o feddwl wedi'i roi i'r canlyniad terfynol. Digon teg chwalu'r rhwystrau a all

have a long-term illness to go back to work, but we must also ensure that there are jobs for them in the first place. That is why I am so concerned about the withdrawal of so many schemes that help people find jobs on the part of the UK Government; the two things go together.

fod yn atal pobl sy'n anabl neu sy'n dioddef o salwch tymor hir rhag mynd yn ôl i'r gwaith, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod swyddi ar gael iddynt yn y lle cyntaf. Dyna pam yr wyf yn poeni gymaint bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dileu cynifer o gynlluniau sy'n helpu pobl i ddod o hyd i swyddi; mae'r ddau beth yn mynd law yn llaw.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I have no changes to report to this week's planned business. Government business for the next three weeks is as set out in the business statement announcement that can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Nid oes gennyf ddim newidiadau i sôn amdanynt yn y busnes sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr wythnos hon. Bydd busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yng nghyhoeddiad y datganiad busnes sydd ymhlith papurau'r agenda ac mae'r rheini ar gael i Aelodau ar ffurf electronig.

**Mark Isherwood:** I would like to call for an oral statement in the Chamber on the child poverty statistics that were released last week by the Welsh Government's statistical directorate. They indicate that, with regard to the 32 child poverty indicators, while there was some improvement in 10 areas, there was little or no change or a clear deterioration in 15 areas, and there was insufficient data to monitor progress in seven areas. Most worryingly, and reflecting earlier research carried out by the Joseph Rowntree Foundation, there was a deterioration among children living in in-work poverty, that is, the children of the so-called 'working poor', a deterioration in educational outcomes at key stage 4 and in the number of pupils aged 15 achieving the level 2 threshold, including in mathematics and English. In fact, the gap in attainment at the age of 15, for example, between those receiving free school meals and those who are not eligible for free school meals has gone up from 29.5 per cent to 31.5 per cent, which is surely unacceptable in any circumstance. It is a figure that should not have been rising over that period, following the introduction of the Welsh Government's child poverty strategies. This is an important matter, which merits a discussion in the Assembly rather than simply statements and press releases by Government Ministers.

**Mark Isherwood:** Hoffwn alw am ddatganiad llafar yn y Siambr am yr ystadegau tlodi plant a ryddhawyd yr wythnos diwethaf gan gyfarwyddiaeth ystadegol Llywodraeth Cymru. Maent yn awgrymu, gyda golwg ar y 32 dangosydd tlodi plant, er bod rhywfaint o welliant mewn 10 maes, nad oedd fawr o newid, neu ddim newid neu fod dirywiad amlwg mewn 15 maes, ac nad oedd digon o ddata ar gael i fonitro'r cynnydd mewn saith maes. Yr hyn sy'n poeni rhywun fwyaf, ac mae'n adlewyrchu gwaith ymchwil cynharach a wnaeth Sefydliad Joseph Rowntree, oedd bod dirywiad o ran y plant sy'n byw mewn tlodi er bod y teulu'n gweithio, sef plant y rheini a elwir yn 'dlodion mewn gwaith', dirywiad o ran canlyniadau addysgol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn nifer y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys mewn mathemateg a Saesneg. A dweud y gwir, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y rheini sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi lledu o 29.5 i 31.5 y cant, sy'n annerbyniol o dan unrhyw amgylchiadau siawns. Mae'n ffigur na ddylasai godi dros y cyfnod hwnnw, ar ôl cyflwyno strategaethau tlodi plant Llywodraeth Cymru. Dyma fater pwysig sy'n haeddu cael ei drafod yn y Cynulliad yn

hytrach na dim ond mewn datganiadau a chyhoeddiadau i'r wasg gan Weinidogion y Llywodraeth.

**Jane Hutt:** I am glad that you recognise the improvement in a number of areas of policy, in programmes and, indeed, in investment by the One Wales Government to tackle child poverty. We want to make clear our disappointment earlier this year when the UK Government decided to end the child trust fund, which is a key policy initiative to help to tackle and prevent child poverty. We have looked for a way to continue with our top-up, but that is extremely difficult because of the £186 million cut from the UK coalition Government. I think, Mark, that you would welcome the fact that the Deputy Minister for Children will invest more than £3 million in supporting disabled and looked-after children, introducing a new transition to adulthood grant for looked-after children, and a one-off £500 grant for all looked-after children between the ages of 16 and 18 as they leave care. The grant will be agreed in conjunction with individuals' personal advisers, to help them to spend or invest the grant in the most appropriate way. I am sure that the Assembly would want to hear that important news.

**David Lloyd:** I thank the Minister for the business statement. I ask for a statement or, preferably, a debate on the issue of the failure to electrify the Great Western main line from London to Swansea. The Minister will be aware that, for some time, we have been voicing concerns about the non-appearance of the project. Despite the fact that the business case for the project was worked out under the previous Westminster Government and that all the other rail projects for which the business cases were worked out at the same time were approved in the announcement last week, electrification of the London-Swansea line was alone in not being approved. Although I know that it is not a matter for this Government, but for the Westminster Government, it is pertinent to observe that rail projects involving electrification are going ahead in Liverpool, Manchester, Oxford, Reading and Newbury.

**Jane Hutt:** Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod y gwelliant mewn nifer o feysydd polisi, mewn rhaglenni ac, yn wir, o ran y buddsoddi gan Lywodraeth Cymru'n Un i fynd i'r afael â thlodi plan. Rydym am ei gwneud yn glir inni gael ein siomi'n gynharach eleni pan benderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi terfyn ar y gronfa ymddiriedolaeth plant, sy'n gynllun polisi allweddol er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi plant a'i atal. Rydym wedi chwilio am ffordd o barhau i ddarparu arian atodol ond mae hynny'n eithriadol o anodd oherwydd bod Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig wedi torri'r £186 miliwn. Rwyf yn meddwl, Mark, y byddech yn croesawu'r ffaith y bydd y Dirprwy Weinidog dros Blant yn buddsoddi mwy na £3 miliwn i gefnogi plant anabl a phlant sy'n derbyn gofal, cyflwyno grant newydd i blant sy'n derbyn gofal wrth iddynt groesi'r bont i fyd oedolion a grant untro o £500 i'r holl blant sy'n derbyn gofal rhwng 16 ac 18 oed wrth iddynt adael gofal. Cytunir ar y grant ar y cyd â chynghorwyr personol unigolion, i'w helpu i wario neu fuddsoddi'r grant yn y ffordd fwyaf priodol. Rwyf yn siŵr y byddai'r Cynulliad am glywed y newydd pwysig hwnnw.

**David Lloyd:** Rwyf yn diolch i'r Gweinidog am y datganiad busnes. Gofynnaf am ddatganiad neu, gorau oll, ddatl am fater methu â thrydanu prif lein y Great Western o Lundain i Abertawe. Bydd y Gweinidog yn gwybod inni fod yn lleisio ein pryder ers tro nad oedd y prosiect yn dod i'r fei. Er i'r ddatl fusnes o blaid y prosiect gael ei pharatoi o dan Lywodraeth flaenorol San Steffan a bod yr holl brosiectau rheilffyrdd y paratowyd y dadleuon busnes ar eu cyfer ar yr un pryd wedi'u cymeradwyo yn y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf, yr unig gynllun nas cymeradwywyd oedd trydanu lein Llundain-Abertawe. Er fy mod yn gwybod nad yw hyn yn fater i'r Llywodraeth hon, ac mai mater i Lywodraeth San Steffan ydyw, mae'n berthnasol sylwi bod prosiectau trydanu rheilffyrdd yn mynd rhagddynt yn Lerpwl, ym Manceinion, yn Rhydychen, yn Reading ac yn Newbury. Fel y gwyddom oll,



As we all know, electrified lines are quicker, 20 per cent more carriages can be attached to the train, they are greener and businesses want them. People in Swansea and in the rest of south Wales have been asking for electrification for months, if not years. Wales has some of the oldest rolling stock in the United Kingdom, and Wales almost stands alone in Europe in having no electrified lines; we are up there with Albania. I also note in passing that the august city of Cambridge in England has four electrified lines going in and out of it, so what is wrong with us? That is why we must have a debate; otherwise, we are left with the feeling that Wales, once again, is being short-changed by the Westminster Government.

**Jane Hutt:** I think that many will echo your views, particularly in the business community across Wales, which has shown its recognition and strong support. The business case is robust. Clearly, the electrification of the Great Western line is non-devolved. It is very frustrating; the decision to proceed with this important project is solely a matter for the UK coalition Government. We will continue to make strong representations to the UK Government for this project to go ahead, and I hope that those representations will come from across the Chamber.

2.30 p.m.

**Darren Millar:** Will you allow some time for a Government statement by the Minister for Rural Affairs on food labelling? I have been contacted by a number of constituents recently who are concerned not only about the need to label food in our shops and restaurants, but about the failure to implement here in Wales the EU directive on food labelling in order to ensure that Halal meat is labelled properly in our supermarkets and shops. Can we have a statement on that item in particular, please?

**Jane Hutt:** I will draw that to the attention of the Minister for Rural Affairs.

**Chris Franks:** Would it be possible to have

mae leiniau sydd wedi'u trydanu'n gyflymach, gellir rhoi 20 y cant yn rhagor o gerbydau ar y trê, maent yn wyrddach ac mae busnesau'n awyddus i'w cael. Mae pobl yn Abertawe ac yng ngweddill de Cymru wedi bod yn gofyn am drydanu ers misoedd, os nad ers blynyddoedd. Yng Nghymru y mae rhywfaint o'r stoc gerbydau hynaf yn y Deyrnas Unedig, a Chymru yw'r unig wlad yn Ewrop fwy neu lai sydd heb yr un lein wedi'i thrydanu; rydym yno gydag Albania. Nodaf hefyd wrth fynd heibio fod pedair lein wedi'u trydanu'n mynd i mewn ac allan o ddinas urddasol Caergrawnt yn Lloegr, felly beth sy'n bod arnom ni? Dyna pam mae'n rhaid inni gael dadl; fel arall, fe'n gadewir yn teimlo, unwaith eto, fod Cymru'n cael cam gan Lywodraeth San Steffan.

**Jane Hutt:** Credaf y bydd llawer yn cytuno â chi, yn enwedig yn y gymuned fusnes ledled Cymru, sydd wedi dangos ei chydabyddiaeth a'i chefnogaeth gref. Mae'r ddadl fusnes yn gadarn. Mae'n amlwg nad yw trydanu lein y Great Western yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae'n rhwystredig iawn; mater i Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig yn llwyr yw penderfynu bwrw ymlaen â'r prosiect. Byddwn yn parhau i bwysu'n gryf ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn, gan obeithio y daw'r pwysau hynny gan Aelodau ar draws Siambr.

**Darren Milar:** A wnewch ganiatáu rhywfaint o amser i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig roi datganiad ar ran y Llywodraeth am labelu bwyd? Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi'n ddiweddar yn poeni, nid yn unig ynglŷn â bod angen labelu bwyd yn ein siopau a'n bwytai, ond hefyd oherwydd nad ydym wedi llwyddo i roi cyfarwydddeb labelu bwyd yr Undeb Ewropeaidd ar waith yma yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cig Halal yn cael ei labelu'n iawn yn ein harchfarchnadoedd a'n siopau. A allwn gael datganiad am yr eitem honno'n benodol, os gwelwch yn dda?

**Jane Hutt:** Tynnaf sylw'r Gweinidog dros Faterion Gwledig at hynny.

**Christ Franks:** A fyddai modd cael

a statement on the housing revenue grant? Wales has lost out to the tune of £100 million a year for the last few decades. This cash has been grabbed by the UK Treasury, when it should have been made available to Wales. Councils have lost between £139 million, in Cardiff, and just under £2 million, in Rhondda Cynon Taf. Secondly, can we have a statement on discussions with Ministers in London regarding the national non-domestic rate payments? Wales is likely to be paying into the Treasury more than it will receive through the local government budget, so the poorest parts of the UK will be subsidising the richer parts.

**Jane Hutt:** As regards the housing revenue account subsidy, Jocelyn Davies and I are pursuing this matter vigorously. I wrote to Danny Alexander, Chief Secretary to the Treasury, before his visit to the Finance Committee. During my meeting with him after his appearance at that committee, I raised this issue again; I presented him with the tables and said quite clearly that the evidence was there and that we want to end this inconsistency in devolution settlements. I have requested an end to the HRAS revenue transfers for Wales, so we will progress that following his response, which I am now awaiting.

On your second point, on 17 November, the provisional local government settlement draft budget was announced and this included an announcement that the provisional business rate multiplier is increasing. We had to ensure that we protected the funding to local government, and that has resulted in this change to the multiplier, but the Minister for Social Justice and Local Government is looking at this very carefully.

**Jonathan Morgan:** Minister, will you ask the Minister for Social Justice and Local Government if he will make a statement in the Chamber before the end of term on the preparedness of local authorities to meet the challenges of winter pressures? We saw unusual snowfall levels last week, and, as a result, I know that many local authorities are better prepared than they were last year. However, there are still very clear problems

datganiad am y grant refeniw tai? Mae Cymru wedi colli rhyw £100 miliwn y flwyddyn yn yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae Trysorlys y Deyrnas Unedig wedi bachu'r arian hwn, pan ddylasai fod ar gael i Gymru. Mae'r Cynghorau wedi colli rhwng £139 miliwn, yng Nghaerdydd, ac ychydig o dan £2 filiwn, yn Rhondda Cynon Taf. Yn ail, a allwn gael datganiad am drafodaethau gyda Gweinidogion yn Llundain ynglŷn â thaliadau'r ardreth annomestig genedlaethol? Mae'n debygol y bydd Cymru'n talu mwy i'r Trysorlys nag a gaiff drwy'r gyllideb llywodraeth leol, felly, bydd ardaloedd tlotaf y Deyrnas Unedig yn talu cymhorthdal i'r ardaloedd mwy cefnog.

**Jane Hutt** O ran cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Mae Jocelyn Davies a finnau'n daer ar drywydd hyn. Ysgrifennais at Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, cyn iddo ymweld â'r Pwyllgor Cyllid. Yn ystod fy nghyfarfod ag ef, ac ar ôl iddo ymddangos yn y pwyllgor hwnnw, codais y mater hwn eto; cyflwynais y tablau iddo gan ddweud yn eithaf clir fod y dystiolaeth yno a'n bod am roi terfyn ar yr anghysondeb hwn yn y setliadau datganoli. Rwyf wedi gofyn am ddiwedd ar drosglwyddiadau cymhorthdal y cyfrif refeniw tai i Gymru, felly, byddwn yn bwrw ymlaen â hynny yn sgil ei ymateb, ymateb yr wyf yn awr yn disgwyl amdano.

O ran eich ail bwynt, ar 17 Tachwedd, cyhoeddwyd cyllideb ddrafft setliad dros dro llywodraeth leol ac roedd hon yn cynnwys cyhoeddiad bod y lluosydd ardrethi busnes dros dro'n cynyddu. Roedd yn rhaid inni sicrhau ein bod yn gwarchod yr arian ar gyfer llywodraeth leol, a dyna'r rheswm dros newid y lluosydd fel hyn, ond mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn edrych yn ofalus iawn ar hyn.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, a wnewch ofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a wnaiff ddatganiad yn y Siambr cyn diwedd y tymor ynglŷn â pha mor barod yw awdurdodau lleol i ymateb i heriau pwysau'r gaeaf? Gwelsom eira anghyffredin o drwm yr wythnos diwethaf, ac, yn sgil hynny, gwn fod llawer o awdurdodau lleol mewn yn fwy parod nag yr oeddent y llynedd. Serch hynny, mae

in some local authorities that were caught unawares by the change in the weather. I think that it would be wise for the Minister to make a statement before the end of term to reassure people that local authorities are in a better place to respond, and the Welsh Assembly Government, therefore, should be working with those local authorities to ensure that our schools can be open in the new year and our roads remain clear.

**Jane Hutt:** I will just give an update on the preparedness—which has been continuing since the difficult winter last year—of the Welsh Local Government Association and the County Surveyors' Society in relation to salt and grit for roads. They have been working in preparation for this winter to keep transport moving and Wales's roads free of snow. That preparation includes new storage facilities across Wales and 130,000 tonnes of salt stored across Wales, with a further 38,000 tonnes due to be delivered shortly. New guidelines have been issued on the use of salt to preserve stocks and ensure that they are used effectively. All that is vital to keep all the other services going and open, and that is an important update.

**Bethan Jenkins:** Can we have a statement on the future of the passport office in Swansea? I know that my colleague, Rhodri Glyn Thomas, has previously asked the First Minister—although his answer was not entirely clear—about what will happen to those jobs. A lot of attention has been given to the Newport Regional Passport Office, but there are eight important jobs in our area. Welsh-language interpretation will have to be done from Liverpool, for example, if these jobs are cut, which is, frankly, absurd. What communication have you had with the UK Government on this matter? Secondly, we know that there is a statement coming up on student finance. However, I would like the Welsh Government to clarify whether it will be supporting, or has supported, the student demonstrations that are taking place across Wales today. In Gower College in my area, for example, students are protesting against

problemau amlwg iawn o hyd mewn ambell awdurdod lleol a gafodd eu dal yn ddirybudd gan y newid yn y tywydd. Credaf y byddai'n ddoeth i'r Gweinidog roi datganiad cyn diwedd y tymor er mwyn tawelu meddwl pobl bod awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i ymateb, ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly, fod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol hynny i sicrhau bod ein hysgolion yn gallu bod ar agor yn y flwyddyn newydd a bod modd cadw ein ffyrdd yn glir.

**Jane Hutt:** Soniaf yn unig am y sefyllfa ddiweddaraf o ran paratoi—gwaith sydd wedi bod ar y gweill ers gaeaf anodd y llynedd—gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Syrffewyr y Siroedd gyda golwg ar halen a graean i'r ffyrdd. Maent wedi bod yn gweithio i baratoi ar gyfer y gaeaf hwn er mwyn cadw cludiant yn symud a ffyrdd Cymru'n glir rhag eira. Mae'r paratoi hwnnw'n cynnwys cyfleusterau storio newydd ledled Cymru a storio 130,000 tonnall o halen ar draws Cymru gyda 38,000 tonnall arall ar fin cyrraedd cyn bo hir. Mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ynglŷn â defnyddio halen er mwyn arbed y stociau a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae hynny i gyd yn hollbwysig er mwyn cadw'r holl wasanaethau eraill yn troi ac ar agor, ac mae hynny'n ddiweddiariad pwysig.

**Bethan Jenkins:** A allwn gael datganiad am ddyfodol y swyddfa basportau yn Abertawe? Gwn fod fy nghyd-Aelod, Rhodri Glyn Thomas, wedi gofyn i'r Prif Weinidog o'r blaen—er nad oedd ei ateb yn gwbl glir—am yr hyn a fydd yn digwydd i'r swyddi hynny. Mae llawer o sylw wedi bod i Swyddfa Basportau Ranbarthol Casnewydd, ond mae wyth swydd bwysig yn ein hardal ni. Bydd yn rhaid gwneud y gwaith dehongli Cymraeg yn Lerpwl, er enghraifft, os torrir y swyddi hyn. A bod yn blaen, mae hyn yn hurt. Pa gyfathrebu sydd wedi bod rhyngoch chi a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch hyn? Yn ail, gwyddom fod datganiad ar y ffordd am gyllid myfyrwyr. Serch hynny, hoffwn i Lywodraeth Cymru egluro a fydd yn cefnogi, neu a yw wedi cefnogi, protestiadau'r myfyrwyr sy'n digwydd ledled Cymru heddiw. Yng Ngholeg Gŵyr yn fy ardal i, er enghraifft, mae myfyrwyr yn

the significant increase in fees to £9,000. That is an unacceptable level of fees for those who are only entering their educational lives. I would like an endorsement from the Welsh Government of those protests, and of those young people, who face a lifetime of debt.

**Jane Hutt:** On your first point, although this is a non-devolved issue, and it is the UK coalition Government that is closing the Newport passport office, the Assembly Government has intervened to try to mitigate the effects of the changes, wherever possible, on civil service staff. The First Minister has written to the Prime Minister and the Secretary of State for Wales, and has met Sarah Rapson, the chief executive of the Identity and Passport Service, to press our concerns. There is consultation at present on plans to reduce the size of the organisation. It is important that the Welsh Affairs Committee has agreed that there should be an economic impact assessment of the proposed closure. However, that will not halt the consultation. We are concerned for the public sector workforce as well as about the loss of that vital service for Wales. On your second point, I am sure that you will be awaiting the statement from the Minister for Children, Education and Lifelong Learning shortly.

**William Graham:** Will you bring forward an oral statement, with the agreement of the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, on the future provision of sixth-form education? There has been particular concern regarding the proposal for local clusters, with collaboration on specific subjects in schools, and potential reorganisation and difficulties with transport, not to mention difficulties with school finishing and starting times. Could the statement also cover equality of service provision and student choice with regard to urban and rural secondary schools?

**Jane Hutt:** The transformation agenda is key to local planning and policy delivery, particularly of post-16 education. Local education authorities are fully engaged with

protestio yn erbyn y cynnydd sylweddol mewn ffioedd i £9,000. Mae'r lefel ffioedd honno'n annerbyniol i'r rheini nad ydynt ond megis dechrau ar eu bywydau addysgol. Hoffwn i Lywodraeth Cymru roi ei chefnogaeth i'r protestiadau hynny, ac, i'r bobl ifanc hynny, sy'n wynebu oes o ddyled.

**Jane Hutt:** O ran eich pwynt cyntaf, er nad yw hwn yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, ac mai Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig sy'n cau swyddfa basportau Casnewydd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymyrryd i geisio lliniaru effeithiau'r newidiadau, lle bynnag y bo modd, ar staff y gwasanaeth sifil. Mae'r Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Prydain ac at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac wedi cyfarfod â Sarah Rapson, prif weithredwr y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau, i bwysu arni ein bod yn poeni. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd ynglŷn â chynlluniau i leihau maint y sefydliad. Mae'n bwysig bod y Pwyllgor Materion Cymreig wedi cytuno y dylid asesu effaith economaidd y cau arfaethedig. Fodd bynnag, ni wnaiff hynny atal yr ymgynghoriad. Rydym yn poeni am weithlu'r sector cyhoeddus yn ogystal ag am golli'r gwasanaeth hollbwysig hwnnw i Gymru. O ran eich ail bwynt, rwyf yn siŵr y byddwch yn disgwyl y datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes cyn bo hir.

**William Graham:** Gyda chytundeb y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a wnewch gyflwyno datganiad llafar am ddarpariaeth addysg y chweched dosbarth yn y dyfodol? Mae'r cynnig ar gyfer clystyrau lleol, a chydweithredu ar bynciau penodol mewn ysgolion, yr ad-drefnu posibl a'r anawsterau gyda chludiant wedi bod yn destun pryder penodol, heb sôn am yr anawsterau o ran amserau dechrau a gorffen ysgolion. A allai'r datganiad sôn hefyd am gydraddoldeb y gwasanaeth a ddarperir a'r dewis sydd ar gael i fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd trefol ac ysgolion uwchradd gwledig?

**Jane Hutt:** Mae'r agenda trawsnewid yn allweddol ar gyfer cynllunio lleol a gwireddu polisïau, yn enwedig ym maes addysg ol-16. Mae awdurdodau addysg lleol yn

the Welsh Assembly Government, led by policy from the Minister.

**Paul Davies:** Could you ask the Minister for Health and Social Services for a statement on the prescribing of branded generic medicines? Some local health boards have instructed their pharmacists to automatically prescribe generic medicines. However, I understand that generic medicines are not frequently available through wholesalers, meaning that pharmacies would either need to refer back to GPs, or order directly from manufacturers. Either circumstance could result in delays for the patient. I also understand that some of these products are subject to stock shortages. I appreciate that I have received a letter from the Minister for health regarding this issue, and that she has confirmed that her officials are monitoring the situation. However, I continue to receive concerns regarding this matter, and I would be grateful if you would ask the Minister for health to make a statement on this issue, given that it could have an impact on patient healthcare.

**Jane Hutt:** As you have said, the Minister has asked her officials to monitor the situation carefully. If you have further evidence, I would ask you to bring it to her attention, so that she can consider what further actions she should take.

**Andrew R.T. Davies:** Could I seek a statement from you over the future of Llandough maternity unit? You will be familiar with the present situation. A consultation is supposedly going on until 10 December, but I am sure that you have been made aware by constituents that expectant mothers are already being redirected, pre-empting the consultation responses, and that equipment is being moved off site. Is there a consultation, or is this a fait accompli? It is important that the Minister for health issues a statement on the guidance that she will be giving to local health boards on the adequacy of the consultation processes that they engage in.

2.40 p.m.

ymgysylltu'n llwyr â Llywodraeth Cynulliad Cymru, o dan arweiniad polisi'r Gweinidog.

**Paul Davies:** A allech ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddatganiad ynglŷn â rhoi meddyginiaethau generig sydd wedi'u brandio ar bresgripsiwn? Mae rhai byrddau iechyd lleol wedi rhoi cyfarwyddiadau i'w fferyllwyr roi meddyginiaethau generig yn awtomatig ar bresgripsiwn. Fodd bynnag, caf ar ddeall nad yw meddyginiaethau generig ar gael yn aml drwy gyfanwerthwyr a bod hynny'n golygu y byddai'n rhaid i fferyllfeydd naill ai gyfeirio yn ôl at feddygon teulu, neu eu harchebu'n uniongyrchol gan wneuthurwyr. O dan y naill amgylchiad neu'r llall, fe allai hyn arwain at oedi i'r claf. Caf ar ddeall hefyd fod stociau rhai o'r cynhyrchion hyn yn brin. Sylweddolaf imi gael llythyr gan y Gweinidog dros Iechyd ynghylch hyn, a'i bod wedi cadarnhau bod ei swyddogion yn monitro'r sefyllfa. Serch hynny, mae pobl yn dal i gysylltu â mi'n poeni am hyn, a byddwn yn ddiolchgar petaech yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd roi datganiad yn ei gyloch, oherwydd fe allai effeithio ar ofal iechyd cleifion.

**Jane Hutt:** Fel yr ydych wedi dweud, mae'r Gweinidog wedi gofyn i'w swyddogion fonitro'r sefyllfa'n ofalus. Os oes gennych ragor o dystiolaeth, byddwn yn gofyn ichi ei chyflwyno iddi, er mwyn iddi allu ystyried pa gamau pellach y gallai eu cymryd.

**Andrew R. T. Davies:** A gawn ofyn ichi am ddatganiad ynglŷn â dyfodol uned famolaeth Llandochau? Rydych yn gyfarwydd â'r sefyllfa bresennol. Mae ymgynghoriad i fod ar y gweill tan 10 Rhagfyr, ond rwyf yn siŵr bod etholwyr wedi dweud wrthyfch fod mamau beichiog eisoes yn cael eu hailgyfeirio, cyn i'r ymatebion i'r ymgynghori ddod i law, a bod offer yn cael ei symud o'r safle. A oes ymgynghoriad, ynteu a yw'r penderfyniad wedi'i wneud eisoes? Mae'n bwysig bod y Gweinidog dros faterion iechyd yn rhoi datganiad am y canllawiau y bydd yn eu rhoi i fyrddau iechyd lleol ynglŷn â sicrhau bod y prosesau ymgynghori a gynhelir ganddynt yn ddigonol.

**Jane Hutt:** It is critical that the consultation is thorough, open and transparent. Several public meetings are taking place, led by the Cardiff and Vale of Glamorgan Community Health Council. It is critical that those meetings allow the public to make representations, and that the community health council can consult fully all those affected.

**Jane Hutt:** Mae'n hollbwysig bod yr ymgynghori'n drwyadl, yn agored ac yn dryloyw. Mae sawl cyfarfod cyhoeddus yn cael eu cynnal, o dan arweiniad Cyngor Iechyd Cymunedol Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n hollbwysig bod y cyfarfodydd hynny'n caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno'u sylwadau ac i'r cyngor iechyd cymuned ymgynghori'n llawn â phawb yr effeithir arnynt.

## **Datganiad am Strategaeth Addysg Uwch Statement on Higher Education Strategy**

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** Today, I am announcing how Wales will respond to the decision by the UK Government to increase tuition fees in higher education institutions in England. The UK Government is making deep cuts in the university teaching grant in England and shifting the burden of paying for higher education from the state to the graduate. As I said on 12 October, we do not support full-cost or near-full-cost fees. We do not believe that higher education should be organised on the basis of a market. We do not believe that it is sustainable in the long term for the UK to adopt a policy of having the highest tuition fees for higher education in the world outside the United States.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Heddiw, rwyf yn cyhoeddi sut y bydd Cymru yn ymateb i benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu ffioedd dysgu mewn sefydliadau addysg uwch yn Lloegr. Mae bwyell Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn torri'n ddwfn i grant addysgu prifysgolion yn Lloegr ac yn trosglwyddo baich talu am addysg uwch oddi ar ysgwyddau'r wladwriaeth i ysgwyddau graddedigion. Fel y dywedais ar 12 Hydref, nid ydym yn cefnogi ffioedd cost-lawn na ffioedd cost-bron-yn-llawn. Ni chredwn y dylid trefnu addysg uwch ar sail marchnad. Ni chredwn ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hir i'r Deyrnas Unedig fabwysiadu polisi lle bydd ganddi'r ffioedd dysgu uchaf yn y byd ar gyfer addysg uwch y tu allan i'r Unol Daleithiau.

In the 'One Wales' programme for government, we committed ourselves to doing whatever is possible to mitigate the effects on Welsh-domiciled students if the Westminster Government lifts the cap on fees. The Assembly Government has a responsibility to Welsh-domiciled students, wherever they choose to study. We also have a responsibility to ensure that Wales benefits economically, socially and culturally, from the investment that the Assembly Government makes in higher education in Wales. In 'For our Future', we set out our objectives for higher education. We stated that we would build the future of higher education on the secure foundations of social justice and supporting a buoyant economy. Central to our policy is the principle that access to higher education should be on the

Yn rhaglen llywodraethu 'Cymru'n Un', ymrwymwyd i wneud beth bynnag sy'n bosibl i liniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru os bydd Llywodraeth San Steffan yn codi'r cap ar ffioedd. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ym mha le bynnag y byddant yn dewis astudio. Mae'n gyfrifoldeb arnom hefyd i sicrhau bod Cymru'n elwa'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn sgil buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad mewn addysg uwch yng Nghymru. Yn 'Er Mwyn ein Dyfodol', disgrifiwyd ein hamcanion ar gyfer addysg uwch. Dywedwyd y byddem yn adeiladu dyfodol addysg uwch ar seiliau cadarn cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi fywiog. Elfen ganolog o'n polisi yw'r egwyddor y dylid seilio'r mynediad at

basis of the individual's potential to benefit and not on the basis of what they can afford to pay. We do not wish to see the development of a market in higher education where institutions compete on price and students choose their courses or institutions on the basis of relative cost.

As I said on 12 October, equality of opportunity, strong community ties and a rich cultural and linguistic heritage cannot be left to the market. The state cannot shirk its responsibility to intervene to secure inclusion and to build community cohesion. However, as I have explained previously, approximately 16,000 Welsh undergraduates study in England so, charging, say, a £7,000 fee on average to Welsh students going to English universities could result in a cost to the Welsh Assembly Government of an additional £70 million by 2015-16. Of this, £55 million would effectively flow from the Welsh block into English universities. If we are to create an affordable and sustainable solution for Welsh-domiciled students and HE provision in Wales, then we will need to respond creatively to this challenge.

Therefore, I am announcing today that we propose the following: basic tuition fees in Wales will increase to £6,000 per annum from the academic year 2012-13 and higher education institutions will be able to charge tuition fees up to £9,000 per annum, provided that they can demonstrate a commitment to widening access and other strategic objectives through fee plans approved by the Higher Education Funding Council for Wales in line with its corporate strategy announced in June this year; the income repayment threshold for student loans will increase from £15,000 to £21,000, and variable progressive rates of interest charged depending on income; part-time students will be able to access a tuition fee loan depending on the level of intensity of their course; and to help control the total cost of higher education to the Assembly Government's budget there will continue to be a cap on the number of publicly-funded student places in Wales. The intention is that the changes proposed would be introduced with effect from 2012-13 for new students only.

addysg uwch ar botensial unigolyn i elwa ohoni, ac nid ar sail yr hyn y gallant ei fforddio. Nid ydym am weld datblygu marchnad mewn addysg uwch lle bydd sefydliadau'n cystadlu ar sail pris a lle bydd myfyrwyr yn dewis eu cyrsiau neu eu sefydliadau drwy gymharu eu cost.

Fel y dywedais ar 12 Hydref, ni ellir gadael cyfle cyfartal, clymau cymunedol cryf a threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog ar drugaredd y farchnad. Ni all y wladwriaeth wadu ei chyfrifoldeb i ymyrryd er mwyn sicrhau cynhwysiant a meithrin cydlynid cymunedol. Serch hynny, fel yr wyf wedi esbonio o'r blaen, mae oddeutu 16,000 o israddedigion Cymru yn astudio yn Lloegr, felly, gallai codi ffi o £7000 ar gyfartaledd ar fyfyrwyr Cymru sy'n mynd i brifysgolion yn Lloegr, dyweder, gostio £70 miliwn arall i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2015-16. O'r swm hwn, byddai £55 miliwn mewn gwirionedd yn llifo o floc Cymru i brifysgolion Lloegr. Er mwyn inni greu ateb fforddiadwy a chynaliadwy i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru a'r ddarpariaeth AU yng Nghymru, bydd angen inni ymateb yn greadigol i'r her hon.

Felly, rwyf yn cyhoeddi heddiw ein bod yn cynnig y canlynol: bydd ffioedd dysgu sylfaenol yng Nghymru yn cynyddu i £6,000 y flwyddyn o flwyddyn academaidd 2012-13 ymlaen a bydd sefydliadau addysg uwch yn cael codi ffioedd dysgu hyd at £9,000 y flwyddyn, ar yr amod eu bod yn gallu dangos ymrwymiad i ehangu mynediad a chyflawni amcanion strategol eraill drwy'r cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd gan Gyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru yn unol â'i strategaeth gorfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni; bydd trothwy'r incwm ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn cynyddu o £15,000 i £21,000 a chodir cyfraddau llog cynyddol amrywiol a dibynnu ar yr incwm; bydd myfyrwyr rhan-amser yn gallu cael gafael ar fenthyciad ar gyfer ffioedd dysgu a dibynnu ar lefel dwysedd eu cwrs; ac, er mwyn helpu i reoli cyfanswm cost addysg uwch i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad, bydd cap o hyd ar nifer y lleoedd i fyfyrwyr yng Nghymru a gaiff nawdd cyhoeddus. Y bwriad yw y byddai'r newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno ar gyfer myfyrwyr newydd o 2012-13 ymlaen

yn unig.

However, I am pleased to say that Welsh-domiciled students will pay no more in 2012-13 than they would have done if fees were not being increased to those levels. From 2012-13, Welsh-domiciled students will continue to be eligible for subsidised loans to meet the cost of fees up to the current level. However, the Welsh Assembly Government will also provide a non-means-tested tuition fee waiver or grant for the balance over and above current fee levels. This grant will be payable through HEFCW on behalf of Welsh-domiciled students wherever they study. In other words, the increase in fees for Welsh-domiciled students, whether they study in England or Wales or Scotland or Northern Ireland, will be paid by the Welsh Assembly Government. Welsh-domiciled students will not have to find either £6,000 or £9,000 to study. The public purse will continue to subsidise higher education for Welsh-domiciled students. Welsh students who go to university in 2012-13 will be paying the same in real terms as students going to university in this academic year.

We will pay for this by top-slicing the HEFCW teaching grant. However, Welsh higher education institutions will still enjoy a higher level of teaching grant support than institutions in England. The Browne report proposed an 80 per cent cut in the university teaching grant in England, which appeared to be confirmed in the CSR. In Wales, the teaching grant will be reduced by only 35 per cent. The income of Welsh higher education institutions will be at least the same in real terms in 2016-17 as it will be in 2012-13.

Of course, we are having to raise fees because of the policies of the UK Government, which have a distorting impact on our budgets and on the competitive position of Welsh higher education institutions. Should Parliament refuse to endorse the proposals of the UK coalition

Serch hynny, rwyf yn falch o ddweud na fydd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn talu mwy yn 2012-13 nag y byddent wedi'i dalu petai ffioedd heb gael eu cynyddu i'r lefelau hynny. O 2012-13 ymlaen, bydd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn dal yn gymwys i gael benthyciadau gyda chymhorthdal i dalu costau'r ffioedd hyd at y lefel bresennol. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn esgusodi pobl rhag talu ffioedd neu'n darparu grant heb brawf modd ar gyfer y gweddill sy'n uwch na lefelau'r ffioedd presennol. Bydd y grant hwn yn daladwy drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar ran myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ym mha le bynnag y byddant yn astudio. Mewn geiriau eraill, bydd y cynnydd yn y ffioedd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ni waeth a fyddant yn astudio yn Lloegr ynteu yng Nghymru ynteu yn yr Alban ynteu yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni fydd yn rhaid i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ddod o hyd i £6,000 na £9,000 i astudio. Bydd y pwrs cyhoeddus yn dal i ariannu addysg uwch i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Bydd myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i'r brifysgol yn 2012-13 yn talu'r un faint mewn termau real â myfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol yn y flwyddyn academaidd hon.

Byddwn yn talu am hyn drwy frigidorri grant addysgu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Fodd bynnag, bydd sefydliadau addysg uwch Cymru yn dal i gael cymorth grant addysgu uwch nag y bydd sefydliadau yn Lloegr. Roedd adroddiad Browne yn cynnig tocio grant addysgu prifysgolion 80 y cant yn Lloegr ac, i bob golwg, cadarnhawyd hynny yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Yng Nghymru, dim ond 35 y cant y gostyngir y grant addysgu. Bydd incwm sefydliadau addysg uwch Cymru o leiaf yr un fath mewn termau real yn 2016-17 ag y bydd yn 2012-13.

Wrth gwrs, rhaid inni godi ffioedd oherwydd polisiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n cael effaith lurguniol ar ein cyllidebau ac ar safle cystadleuol sefydliadau addysg uwch Cymru. Petai'r Senedd yn gwrthod cadarnhau cynigion Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig, yna, byddwn yn llawenhau ac yn



Government, then we will rejoice and develop an alternative approach.

However, the message today is clear. Students ordinarily resident in Wales going to university in 2012-13 will be no worse off than if they had gone to university this year. This is a made-in-Wales policy that demonstrates the benefits of devolution. We are preserving the principle that the state will subsidise higher education and maintain opportunities for all. In Wales, we remain committed to helping the most disadvantaged to access education. In England, education maintenance allowances are being scrapped. Not in Wales. In England, further education funding is being cut by 25 per cent. Not in Wales. In England, higher education teaching grants are being cut by 80 per cent. Not in Wales. Students domiciled in England will have to find the full cost of the new fees. Students domiciled in Wales will not. We have made it clear that, in Wales, we believe in planning the future of higher education, rather than letting the market rule. We have delivered on our 'One Wales' commitments, and Wales is leading the way. [*Applause.*]

**Paul Davies:** I will start by thanking the Minister for his statement. This is a very important statement, as it sets out the Welsh Assembly Government's response to the proposed changes in England and how the Government here intends to pursue matters.

Today is a regrettable day, given that we on this side of the Chamber have consistently opposed tuition fees. However, I accept that we have to be realistic in the current financial climate. It is ironic, is it not, that the Minister chooses to criticise the UK Government's position, given that it was a Labour Minister—in the form of Peter Mandelson—who commissioned the Browne review, and that Lord Browne has close ties with the Labour Party? The UK Government— [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You

datblygu ffordd wahanol o fynd o'i chwmpas hi.

Serch hynny, mae'r neges heddiw'n glir. Ni fydd myfyrwyr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru ac sy'n mynd i'r brifysgol yn 2012-13 yn waeth eu byd na phetaent wedi mynd i'r brifysgol eleni. Polisi sydd wedi'i wneud yng Nghymru yw hwn sy'n dangos manteision datganoli. Rydym yn cadw at yr egwyddor y bydd y wladwriaeth yn ariannu addysg uwch ac yn cynnal cyfleoedd i bawb. Yng Nghymru, rydym yn dal yn benderfynol o helpu'r rhai sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf i gael gafael ar addysg. Yn Lloegr, mae'r lwfansau cynnal addysg yn dod i ben. Nid felly yng Nghymru. Yn Lloegr, mae cyllid addysg bellach yn cael ei docio 25 y cant. Nid felly yng Nghymru. Yn Lloegr, mae grantiau addysgu uwch yn cael eu tocio 80 y cant. Nid felly yng Nghymru. Bydd yn rhaid i fyfyrwyr sy'n huanu o Loegr ddod o hyd i gost lawn y ffioedd newydd. Ni fydd yn rhaid i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru wneud hynny. Rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod ni yng Nghymru yn credu mewn cynllunio dyfodol addysg uwch, yn hytrach na gadael i'r farchnad deyrnasu. Rydym wedi gwireddu'r ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' ac mae Cymru'n arwain y ffordd. [*Cymeradwyaeth.*]

**Paul Davies:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Mae'r datganiad hwn yn un pwysig iawn, gan ei fod yn egluro ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr a sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd ar drywydd pethau yma.

Mae heddiw'n ddiwrnod blin, a chofio ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr wedi gwrthwynebu ffioedd dysgu'n gyson. Serch hynny, rwyf yn derbyn ei bod yn rhaid inni fod yn realistig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n eironig, onid ydyw, fod y Gweinidog yn dewis beirniadu safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chofio mai Gweinidog Llafur—sef Peter Mandelson—a gomisiynodd adolygiad Browne, a bod gan yr Arglwydd Browne gysylltiadau clos â'r Blaid Lafur? Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig— [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Efallai nad

may not like what he is saying, but I would like you to listen to what he is saying, Alun, as I am sure Paul will listen to you when you speak. Please carry on, Paul.

**Paul Davies:** Thank you, Deputy Presiding Officer. The UK Government has taken difficult decisions because of the debt left by the previous UK Labour Government. Labour Members opposite have forgotten that. Given that the number of students attending university has increased in percentage terms year on year, would the Minister agree that, as unpalatable as this is, the current funding settlement is unsustainable and that today's statement was inevitable?

The Minister rightly stated that it is absolutely crucial that people from disadvantaged backgrounds are given the opportunity to access our universities. In addition to what he said in his statement, can he reassure us that students from disadvantaged backgrounds will be given the support that they deserve to access university courses? There are Members who will argue, understandably, that increasing tuition fees will deter people from pursuing university courses. However, the Welsh Assembly Government and the Minister are saying today that people who attend university should contribute a little more to their university education than those who do not attend university at all. If only a small proportion of the population attended university, as was the case years ago, funding settlements would not need to change, but that is clearly not the case. As I have said in this Chamber on a number of occasions, the higher education sector in Wales is changing rapidly, and I hope that we, as an Assembly, can work to ensure that our higher education sector remains healthy and competitive in future.

2.50 p.m.

Given today's proposals, I would be grateful if the Minister could detail what consultation was carried out with higher education institutions in Wales before these plans were agreed and what general feedback he has

ydych yn hoffi'r hyn y mae'n ei ddweud, ond hoffwn ichi wrando ar yr hyn y mae'n ei ddweud, Alun, ac rwyf yn siŵr y gwnaiff Paul wrando arnoch chithau pan fyddwch chi'n siarad. Ymlaen â chi, Paul.

**Paul Davies:** Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniadau anodd oherwydd y ddyled a adawyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y Deyrnas Unedig. Mae'r Aelodau Llafur gyferbyn wedi anghofio hynny. A chofio bod nifer y myfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol wedi cynyddu o ran canran o'r naill flwyddyn i'r llall, a fyddai'r Gweinidog yn cytuno, er bod hynny'n gadael blas drwg ar ei geg, nad oes modd cynnal y setliad ariannu presennol a bod datganiad heddiw yn anochel?

Roedd y Gweinidog yn llygad ei le'n dweud ei bod yn gwbl hanfodol i bobl o gefndiroedd di-fraint gael cyfle i fynd i'n prifysgolion. Yn ogystal â'r hyn a ddywedodd yn ei ddatganiad, a all dawelu ein meddwl y caiff myfyrwyr o gefndiroedd di-fraint y cymorth y maent yn ei haeddu i fanteisio ar gyrсияu prifysgol? Bydd rhai Aelodau'n dadlau, ac mae hynny'n ddealladwy, y bydd cynyddu ffioedd dysgu'n atal pobl rhag dilyn cyrsiau prifysgol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog yn dweud heddiw y dylai pobl sy'n mynd i'r brifysgol gyfrannu ychydig yn fwy at eu haddysg brifysgol nag y bydd y rheini nad ydynt yn mynd i'r brifysgol o gwbl. Petai cyfran fach o'r boblogaeth yn unig yn mynd i'r brifysgol, fel a ddigwyddai flynyddoedd yn ôl, ni fyddai angen newid y setliadau ariannu, ond mae'n amlwg nad felly y mae. Fel yr wyf wedi dweud sawl tro yn y Siambr hon, mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn newid yn gyflym, ac rwyf yn gobeithio y gallwn ni'r Cynulliad weithio i sicrhau bod ein sector addysg uwch yn parhau'n iach ac yn gystadleuol yn y dyfodol.

Ac ystyried cynigion heddiw, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud pa ymgynghori a fu â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru cyn cytuno ar y cynlluniau hyn a pha adborth cyffredinol y mae wedi'i gael

received throughout this period. I note in the statement that higher education institutions should be able to charge tuition fees up to £9,000 per annum, provided that they can demonstrate a commitment to widening access and other strategic objectives. Perhaps the Minister would be kind enough to expand on this and tell us exactly what he means by demonstrating a commitment to widening access and other strategic objectives.

We recently heard the concerns of the Higher Education Funding Council for Wales, which claims that the futures of five of the 11 Welsh universities are uncertain. I would be grateful for the Minister's comments on HEFCW's claims of financial uncertainty. Is the Minister confident that the plans that he has announced today will alleviate its concerns? I believe that the target set by HEFCW is that 75 per cent of higher education institutions in Wales will have an annual income above the UK median by 2013. This is challenging but progressive, and I look forward to hearing about the progress being made with regard to this target. Perhaps the Minister can tell us what impact today's statement will have specifically on this target. I would be grateful if he could outline how he intends to meet this target.

In the past, the Minister has said that he expects the proportion of higher education taking place on a part-time and more flexible basis to increase. I note that part-time students will be able to access a tuition fee loan, depending on the level of intensity of their course. Given today's announcement, can the Minister tell us what impact this will have specifically on part-time students? Can he provide us with more details on this particular scheme?

Finally, I would like to thank the Minister for the statement today. We may disagree on many issues, but I am sure that we both agree that it is essential for the future prosperity of Wales that we see a vibrant and healthy higher education sector.

**Leighton Andrews:** Well, we can certainly agree on the last point. I do not envy the

drwy gydol y cyfnod hwn. Sylwaf yn y datganiad y dylai sefydliadau addysg uwch allu codi ffioedd dysgu hyd at £9,000 y flwyddyn, ar yr amod eu bod yn gallu dangos ymroddiad i ehangu mynediad ac amcanion strategol eraill. Efallai y byddai'r Gweinidog mor garedig ag ymhelaethu ar hyn a dweud wrthym beth yn union y mae'n ei olygu wrth ehangu mynediad ac amcanion strategol eraill.

Clywsom yn ddiweddar bryderon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sy'n honni bod dyfodol pump o 11 prifysgol Cymru yn ansicr. Byddwn yn ddiolchgar o glywed sylwadau'r Gweinidog am honiadau'r Cyngor Cyllido ynglŷn ag ansicrwydd ariannol. A yw'r Gweinidog yn hyderus y bydd y cynlluniau y mae wedi'u cyhoeddi heddiw'n lliniaru ei bryderon? Credaf mai'r targed a bennwyd gan y Cyngor Cyllido yw y bydd gan 75 y cant o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru incwm blynyddol sy'n uwch na chymedr y Deyrnas Unedig erbyn 2013. Mae hyn yn heriol ond yn flaengar ac edrychaf ymlaen at glywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y targed hwn. Efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym pa effaith a gaiff datganiad heddiw ar y targed hwn yn benodol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai ddweud sut mae'n bwriadu cyrraedd y targed hwn.

Yn y gorffennol, mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn disgwyl i'r gyfran honno o addysg uwch sy'n digwydd ar sail ran-amser a mwy hyblyg gynyddu. Sylwaf y bydd myfyrwyr rhan-amser yn gallu cael gafael ar fenthyciad i dalu ffioedd dysgu, a dibynnu ar ddwysedd eu cwrs. Ac ystyried cyhoeddiad heddiw, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa effaith a gaiff hyn yn benodol ar fyfyrwyr rhan-amser? A all roi rhagor o fanylion inni am y cynllun penodol hwn?

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. Efallai ein bod yn anghytuno ynglŷn â llawer o bethau, ond rwyf yn siŵr ein bod ni'n dau'n cytuno ei bod yn hanfodol inni weld sector addysg uwch bywiog ac iach er mwyn sicrhau bod Cymru'n ffynnu yn y dyfodol.

**Leighton Andrews:** Wel, gallwn gytuno ar y pwynt olaf yn sicr. Nid wyf yn eiddgeddus

Member the job that he had to do this afternoon. I want to be clear, because I do not want there to be any confusion: what I said was that Welsh-domiciled students would pay no more in 2012-13, after the fees have gone up, whether in Wales or in England, than they would pay in this academic year. That is a very clear statement. There is no increase there, apart from the marginal increases due to inflation.

Our strategic objectives, which we set out in 'For Our Future', relate to widening participation and access. They relate to the contribution that higher education institutions make to the economy and social justice. They relate to the international reputation of our higher education system and its ability to compete internationally. They relate to the ability of our higher education institutions to win more research and development income for Wales. Of course, HEFCW has translated some of those access targets very clearly into its corporate strategy, which we discussed here in June. We will look to higher education institutions in Wales to see that they are achieving the target set by HEFCW in that corporate strategy in relation to numbers of students from Communities First wards going into higher education, for example.

Equally, the corporate strategy for HEFCW, as the Member rightly said, included the commitment that, by 2013, 75 per cent of higher education institutions in Wales would be at or above the median turnover for UK institutions. We will be discussing with HEFCW how the new fee proposals relate directly to that commitment in its strategy. It is my view that we are in an era when we need to shape a higher education map in Wales. The proposals that we are outlining today will stand in tandem with the Higher Education Funding Council for Wales corporate strategy and help us to shape that map.

In respect of the position of those institutions

o'r dasg a oedd gan yr Aelod y prynhawn yma. Rwyf am fod yn glir, oherwydd nid wyf am weld unrhyw ddryswch: yr hyn a ddywedais oedd na fyddai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn talu mwy yn 2012-2013 ar ôl i'r ffioedd godi, ni waeth a fyddent yn astudio yng Nghymru ynteu yn Lloegr, nag y byddent yn ei dalu yn y flwyddyn academiaidd hon. Mae'r datganiad hwnnw'n un clir iawn. Nid oes cynnydd, ac eithrio'r cynnydd bychan yn sgil chwyddiant.

Mae a wnelo ein hamcanion strategol, a eglurwyd yn 'Er mwyn ein Dyfodol', ag ehangu cyfranogaeth a mynediad. Mae a wnelont â'r cyfraniad a wnaiff sefydliadau addysg uwch i'r economi ac i gyfiawnder cymdeithasol. Mae a wnelont ag enw da rhyngwladol ein system addysg uwch a'i gallu i gystadlu'n rhyngwladol. Mae a wnelont â gallu ein sefydliadau addysg uwch i ennill mwy o incwm ymchwil a datblygu i Gymru. Wrth gwrs, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi trosi rhai o'r targedau mynediad hynny'n glir iawn i'w strategaeth gorfforaethol, a drafodwyd gennym yma ym mis Mehefin. Byddwn yn edrych ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn gweld a ydynt yn cyflawni'r targed a bennwyd gan y Cyngor Cyllido yn y strategaeth gorfforaethol honno o ran nifer y myfyrwyr sy'n dod o wardiau Cymunedau yn Gyntaf sy'n mynd i addysg uwch, er enghraifft.

Yn yr un modd, roedd y strategaeth gorfforaethol ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac roedd yr Aelod yn llygad ei le'n dweud hyn, yn cynnwys yr ymrwymiad y byddai 75 y cant o sefydliadau addysg uwch Cymru erbyn 2013 wedi cyrraedd trosiant cymedrig sefydliadau'r Deyrnas Unedig neu wedi rhagori arno. Byddwn yn trafod gyda'r Cyngor Cyllido yr union berthynas rhwng y cynnig newydd ar gyfer ffioedd a'r ymrwymiad hwnnw yn ei strategaeth. Fy marn i yw ein bod yn byw mewn oes pan fo'n rhaid inni lunio map addysg uwch yng Nghymru. Bydd y cynigion yr ydym yn eu disgrifio heddiw'n sefyll ochr yn ochr â strategaeth gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn gymorth inni lunio'r map hwnnw.

O ran sefyllfa'r sefydliadau hynny y

that have been given a moderate risk grading by HEFCW in recent weeks, HEFCW will be doing more work with those institutions. However, in the conversations that we have had with HEFCW, we are confident of the position that it holds at present.

In respect of part-time students, we believe that the proposals that we have adopted in Wales are, on the whole, more generous than those that exist in England. We will, of course, provide further support, and in due course there will be further detail on what we are planning.

There will be a period now where we will need to implement changes that will need to go through the Assembly. There will be an opportunity for further consultation for all participants in the education system and beyond. I can confirm that we will continue to ensure that there is full support for students from the most disadvantaged backgrounds, and that the Assembly learning grant will continue to be central in the support to students from disadvantaged backgrounds.

Today, I think that we have demonstrated our commitment to widening access in higher education and to ensuring that all students from Wales who have the opportunity and the aptitude may take up higher education wherever they wish to do so.

**Christine Chapman:** Thank you for your statement, Minister. Like other Members, I welcome this statement. It will be a huge relief for the students of Wales in these uncertain times. I wish to ask a specific question on a subject that has been raised many times. We often, rightly, talk about the importance of STEM subjects based on their economic potential, but we should not forget the arts and humanities. This is precisely what the UK Government has done. We know that the Minister of State for Universities and Science, David Willetts, announced that subjects in band C and D—the arts, humanities and social sciences—will lose much of the funding that they get towards the cost of teaching. In one stroke—as noted by the National Union of Students—it threatens the effective privatisation of 25

rhoddwyd gradd risg gymharol iddynt gan y Cyngor Cyllido yn yr wythnosau diwethaf, bydd y Cyngor yn gwneud rhagor o waith gyda'r sefydliadau hyn. Fodd bynnag, yn y sgysiau yr ydym wedi'u cael gyda'r Cyngor, Cyllido, rydym yn ffyddiog yn y safbwynt y mae'n ei arddel ar hyn o bryd.

Gyda golwg ar fyfyrwyr rhan-amser, credwn fod y cynigion yr ydym wedi'u mabwysiadu yng Nghymru, ar y cyfan, yn fwy hael na'r rheini sydd ar waith yn Lloegr. Byddwn, wrth gwrs, yn darparu rhagor o gymorth, a maes o law, bydd rhagor o fanylion ar gael ynglŷn â'n cynlluniau.

Bydd cyfnod yn awr lle y bydd angen inni roi newidiadau ar waith y bydd angen iddynt fynd drwy'r Cynulliad. Bydd cyfle i ymgynghori rhagor â phawb sy'n rhan o'r system addysg a'r tu hwnt. Gallaf gadarnhau y byddwn yn parhau i sicrhau bod cymorth llawn ar gael i fyfyrwyr o'r cefndiroedd mwyaf di-fraint, ac y bydd grant dysgu'r Cynulliad yn dal yn elfen ganolog o'r cymorth a roddir i fyfyrwyr o'r cefndiroedd hynny.

Heddiw, credaf inni ddangos ein hymrwymiad i ehangu mynediad mewn addysg uwch ac i sicrhau bod pob myfyriwr o Gymru sydd â'r cyfle a'r tueddfryd yn gallu manteisio ar addysg uwch ym mha le bynnag y dymuna.

**Christine Chapman:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Fel yr Aelodau eraill, rwyf finnau'n croesawu'r datganiad hwn. Bydd yn rhyddhad enfawr i fyfyrwyr Cymru yn yr oes ansicr hon. Hoffwn ofyn cwestiwn penodol am bwnc sydd wedi'i godi sawl tro. Byddwn yn aml yn sôn am bwysigrwydd pynciau STEM ar sail eu potensial economaidd, a digon teg hynny, ond ni ddylem anghofio am y celfyddydau a'r dyniaethau. Dyma'n union yr hyn y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i wneud. Gwyddom fod y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth, David Willetts, wedi cyhoeddi y bydd pynciau ym mand C a D—y celfyddydau, y dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol—yn colli llawer o'r arian a gânt tuag at gost addysgu. Gydag un ergyd—fel y nododd Undeb Cenedlaethol y

institutions, including the London School of Economics. It raises the spectre of those subjects becoming the preserve of the rich. We know that arts and humanities are important for their transferable skills and for a better understanding of the human condition. It is about education in its wider sense, and we ignore that at our peril. What assurances can you give that you will not take the same approach?

**Leighton Andrews:** We are not taking the same approach in Wales. It is essential that we ensure that, across Welsh higher education, we have a broad range of subjects available, including arts and humanities. Clearly, we want to encourage higher education institutions to maintain investment in those areas of study that are more expensive to deliver, but we want to see the broadest range. In my statement, I made clear that we do not believe that we can have a higher education system dominated by the market, which would have no respect for cultural and linguistic heritage and similar issues. It is our commitment to a whole culture and society to balance support across the subject range for higher education institutions.

**Jenny Randerson:** Thank you for your statement, Minister. I recognise that you have had a difficult job, because there is very little freedom of movement possible, now, as in the past. However, you have applied the same sort of principles that were rather thrust on the Labour Party during the previous Government. It is nonetheless a statement of fact to say that Wales cannot possibly be entirely separate and independent in this regard; we have to follow the lead of England in some respects. It is important to remember that the Browne review, which I read with probably the same levels of concern that you have expressed, was commissioned by and worked to the remit set by the Labour Party. When the Liberal Democrats were in coalition discussions with the Labour Party after the general election, there was agreement from the Liberal Democrats that we would vote for £7,000 fees at universities in England, which was a condition laid down

Myfyrwyr—mae'n bygwth preifateiddio 25 o sefydliadau i bob pwrpas, gan gynnwys y London School of Economics. Mae hyn yn codi'r bwgan y gall y pynciau hynny ddod yn bynciau i'r cefnog yn unig. Gwyddom fod y celfyddydau a'r dyniaethau'n bwysig oherwydd eu sgiliau trosglwyddadwy ac er mwyn deall y cyflwr dynol yn well. Mae a wnelo hynny ag addysg yn ei hystyr ehangaf, a gwae ni os anwybyddwn hynny. Pa sicrwydd y gallwch ei roi na wnewch chithau ddilyn yr un trywydd?

**Leighton Andrews:** Nid ydym yn dilyn yr un trywydd yng Nghymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn cynnig ystod eang o bynciau ar draws addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys y celfyddydau a'r dyniaethau. Mae'n amlwg ein bod am annog sefydliadau addysg uwch i barhau i fuddsoddi yn y meysydd astudio hynny sy'n ddrutach i'w darparu, ond rydym am weld yr ystod ehangaf. Yn fy natganiad, fe'i gwneuthum yn glir nad ydym yn credu y gallwn gael system addysg uwch sy'n cael ei rheoli gan y farchnad a system na fyddai'n dangos parch o gwbl at dreftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol a materion tebyg. Ein hymrwymiad ni i ddiwylliant a chymdeithas yn eu cyflawnder yw y byddwn yn cadw'r ddysgl yn wastad drwy gefnogi holl ystod y pynciau ar gyfer sefydliadau addysg uwch.

**Jenny Randerson:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Rwyf yn sylweddoli bod gennych dasg anodd, oherwydd ychydig o ryddid sydd gennych i symud yn awr, fel yn y gorffennol. Fodd bynnag, rydych wedi rhoi'r un math o egwyddorion ar waith a gafodd eu gwthio ar y Blaid Lafur braidd yn ystod y Llywodraeth flaenorol. Datgan ffaith fodd bynnag yw dweud na all Cymru fod yn gwbl ar wahân ac annibynnol yn y cyswllt hwn; rhaid inni ddilyn arweiniad Lloegr mewn ambell ffordd. Mae'n bwysig cofio bod adolygiad Browne, a ddarllenais gyda'r un math o bryder ag a fynegwyd gennych chithau, wedi'i gomisiynu gan y Blaid Lafur a'i fod yn gweithio ar sail cylch gwaith a bennwyd gan y blaid honno. Pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn trafod clymbleidio â'r Blaid Lafur ar ôl yr etholiad cyffredinol, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno y byddem yn pleidleisio o blaid ffioedd o £7,000 mewn

by Gordon Brown and his team. So, there is no need for too many crocodile tears, not that I am accusing the Minister himself of shedding crocodile tears.

3.00 p.m.

You have used a carefully worded phrase on many occasions that students will pay no more in 2012-13 than they will do next year. That does not answer the question as to what they will pay in succeeding years. It would be perfectly reasonable to have a system where the amount that students pay towards their tuition fees goes up according to the retail price index, or some other measure. Will you give an assurance that those words happen to be a phrase that you use, and that it is not the case that you are failing to predict what will happen after 2013?

In the next financial year, you will cut funding for universities by 11 per cent, but the increase in Welsh Assembly Government funding and assistance that you talk about will not be introduced until the following year. Therefore, will you confirm that the higher education institutions will deal next year with a budget that is 11 per cent lower than it is this year, and that there will be nothing to offset that?

I welcome your commitment to provide assistance for part-time students, which is one of the most important aspects of the Browne review and your statement. However, you talk about the fact that assistance will depend on the level of intensity of their course. What would you regard as a minimum level of intensity for a part-time course? For example, Open University students often study for half a credit each year. What minimum level are you looking at?

Despite what you said about not wanting a market in fees, you are allowing a variation between £6,000 and £9,000, as in England. I do not need to remind you that when the Labour Government introduced variable tuition fees, every university charged the maximum. The Westminster Government has indicated that there will be strong criteria to

prifysgolion yn Lloegr, sef amod a osodwyd gan Gordon Brown a'i dîm. Felly, nid oes angen gormod o ffug wylofain, nid fy mod i'n cyhuddo'r Gweinidog ei hun o hynny.

Rydych wedi defnyddio ymadrodd sydd wedi'i eirio'n ofalus sawl tro, sef, na fydd myfyrwyr yn talu mwy yn 2012-13 nag y byddant y flwyddyn nesaf. Nid yw hynny'n ateb y cwestiwn ynglŷn â faint y byddant yn ei dalu mewn blynnyddoedd wedyn. Byddai'n berffaith resymol cael system lle y bydd y swm a delir gan fyfyrwyr at eu ffioedd dysgu'n cynyddu yn ôl y mynegai prisiau manwerthu, neu ryw fesur arall. A wnewch roi sicrwydd inni mai ymadrodd yr ydych yn digwydd ei ddefnyddio yw hwnnw ac nad y gwir y eich bod yn methu â rhagweld beth a wnaiff ddigwydd ar ôl 2013?

Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwch yn torri'r cyllid i brifysgolion 11 y cant, ond ni fydd y cynnydd yn arian a chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ydych yn sôn amdano'n cael ei gyflwyno tan y flwyddyn ddilynol. Felly, a wnewch gadarnhau y bydd y sefydliadau addysg uwch yn ymdrin y flwyddyn nesaf â chyllideb sydd 11 y cant yn is na'r gyllideb eleni, ac na fydd dim byd i wneud iawn am hynny?

Rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i ddarparu cymorth i fyfyrwyr rhan-amser, sef un o'r agweddau pwysicaf ar adolygiad Browne a'ch datganiad. Serch hynny, rydych yn dweud y bydd eich cymorth yn dibynnu ar lefel dwysedd eu cwrs. Beth fyddai'r lefel ddwysedd isaf, yn eich barn chi, ar gyfer cwrs rhan-amser? Er enghraifft, bydd myfyrwyr y Brifysgol Agored yn aml yn astudio am hanner credyd bob blwyddyn. Beth yw'r lefel isaf yr ydych yn ei hystyried?

Er gwaethaf yr hyn a ddywedasoich am beidio â dymuno cael marchnad mewn ffioedd, rydych yn caniatáu amrywiad rhwng £6,000 a £9,000, fel yn Lloegr. Nid oes angen imi eich atgoffa chi, pan gyflwynodd y Llywodraeth Lafur ffioedd dysgu amrywiol, fod pob prifysgol wedi codi'r mwyafswm. Mae Llywodraeth San Steffan wedi awgrymu y

allow universities in England to charge above £6,000. You said in your statement that universities should demonstrate a commitment to widening access and to other strategic objectives, which is a much vaguer statement. I would be grateful if you could flesh out what you mean by that, because I am concerned that we ensure that the variability is enforced and that we do not have a situation where every higher education institution in Wales pays lip service to the idea of widening access and is therefore able to charge £9,000.

Finally, Minister, I want to ask you about students from outside Wales, who are not affected by your proposals to waive fees. However, I assume that students from outside Wales could expect to receive offers of bursaries and scholarships, or are you tightening up the criteria so that they are only offered to Welsh-domiciled students, or will they be offered to students from other parts of the UK or the world? There is, and always has been, an uncomfortable situation in respect of the deal that is offered to Welsh-domiciled students, English-domiciled students and Scottish-domiciled students and so on. In my constituency, many students come from outside Wales, and it is an issue for them. They have already asked whether they will continue to be eligible for bursaries, scholarships and other financial assistance of that nature.

**Leighton Andrews:** I was reminded, as I listened to the Member, of the commitments made by her party at the general election, when it promised to scrap tuition fees without cutting university income. Of course, as we know, it is trebling university fees in England and cutting university income. Our proposals have had to be adopted in response to the agenda that has been set in Westminster, because of the distorting effect of the strength of the English higher education system.

When I said that Welsh-domiciled students would pay no more in 2012-13 in real terms than they would pay this academic year, I could have picked 2013-14 or 2014-15. It will be the same as we go forward. That is the commitment and announcement that we

bydd meini prawf cryfion ar gyfer caniatáu i brifysgolion yn Lloegr godi mwy na £6,000. Dywedasoch yn eich datganiad y dylai prifysgolion ddangos ymrwymiad i ehangu mynediad ac i amcanion strategol eraill. Mae hwnnw'n ddatganiad mwy amwys o lawer. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o gnawd am yr esgyrn hynny, oherwydd rwyf yn awyddus inni sicrhau bod yr amrywiant yn cael ei orfodi ac na chawn sefyllfa lle bydd pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn dweud ei fod yn ehangu mynediad ac felly'n gallu codi £9,000.

Yn olaf, Weinidog, rwyf am ofyn ichi ynglŷn â myfyrwyr o'r tu allan i Gymru, nad yw eich cynigion i esgusodi myfyrwyr rhag talu ffioedd yn effeithio arnynt. Serch hynny, rwyf yn tybio y gallai myfyrwyr o'r tu allan i Gymru ddisgwyl cael cynnig bwrsariaethau ac ysgoloriaethau, ynteu a ydych yn tynhau'r meini prawf er mwyn i'r rheini gael eu cynnig i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig, ynteu a fyddant yn cael eu cynnig i fyfyrwyr o rannau eraill y Deyrnas Unedig neu'r byd? Mae sefyllfa anghyfforddus, a honno wedi bodoli erioed, o ran y fargen a gynigir i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, sy'n hanu o Loegr ac sy'n hanu o'r Alban ac ati. Yn fy etholaeth i, bydd llawer o fyfyrwyr yn dod o'r tu allan i Gymru ac mae'n broblem iddynt. Maent eisoes wedi gofyn a fyddant yn dal yn gymwys i gael bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chymorth ariannol arall o'r natur hwnnw.

**Leighton Andrews:** Fe'm hatgoffwyd, wrth imi wrando ar yr Aelod, am yr ymrwymadau a wnaeth ei phlaid adeg yr etholiad cyffredinol, pan addawodd gael gwared ar ffioedd dysgu heb docio incwm prifysgolion. Wrth gwrs, fel y gwyddom, mae'n treblu ffioedd prifysgolion yn Lloegr ac yn tocio'r incwm i brifysgolion. Rydym wedi gorfod mabwysiadu ein cynigion er mwyn ymateb i'r agenda sydd wedi'i gosod yn San Steffan oherwydd effaith lurguniol nerth system addysg uwch Lloegr.

Pan ddywedais na fyddai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn talu rhagor yn 2012-13 mewn termau real nag y byddent yn ei dalu yn y flwyddyn ariannol hon, gallwn fod wedi dewis 2013-14 neu 2014-15. Yr un fydd y sefyllfa wrth inni fynd rhagom. Dyna'r



are making today. I find it a little rich to hear that we are cutting university income, as though there is no context within which our budget is set. Our budget in the next financial year is £860 million lower than this year and, over the three years, will be £1.8 billion lower in real terms than in this year. Therefore, of course, we must find ways of responding. In the education elements of the budget, as we explained in committee this morning and last week, we sought to protect the most vulnerable, early years, schools, colleges and skills. Given the hand that we were dealt, we did a pretty reasonable job of that.

When we talk about higher education institutions being able to raise fees to £9,000 and say that they will have to meet not only access, but other strategic objectives—in responding to Paul Davies, I explained what we were looking for on the access side in particular—that derives from what is set out in HEFCW's corporate strategy. Make no mistake; we intend to see a change in the higher education sector in Wales and we expect higher education institutions to respond. If they want to charge fees of £9,000, it will be the quality of their response to HEFCW's corporate strategy that will determine their ability to do so. That will include access issues and the questions of critical mass in our higher education sector. Our demands of institutions that want to charge £9,000 in fees will be tougher than they would be in England.

In respect of bursaries, we will have to look carefully at what we had previously announced in respect of the national bursary scheme. It is now likely that we may have to look at returning elements of the national bursary scheme to individual institutions. There is a question about what they will then do about providing bursaries to students from outside Wales. However, our responsibility as a Government is to provide support for Welsh-domiciled students wherever they

ymrwymiad a'r cyhoeddiad yr ydym yn ei wneud heddiw. Mae gennych wyneb braidd yn dweud ein bod ynocio'r incwm i brifysgolion, fel pe ne bai unrhyw gyd-destun i'r ffordd y mae'n rhaid inni bennu ein cyllideb. Bydd ein cyllideb yn y flwyddyn ariannol nesaf £860 miliwn yn is nag y mae eleni a thros y tair blynedd, bydd yn £1.8 biliwn yn is mewn termau real nag y bydd eleni. Felly, wrth gwrs ei bod yn rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o ymateb. Yn elfennau addysg y gyllideb, fel yr esboniwyd yn y pwyllgor y bore yma a'r wythnos diwethaf, ein nod oedd gwarchod y rhai mwyaf agored i niwed, y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau a sgiliau. Ac ystyried y cardiau a rannwyd inni, llwyddasom i gyflawni'r dasg honno'n rhesymol dda.

Pan fyddwn yn sôn am sefydliadau addysg uwch yn gallu codi ffioedd i £9,000 gan ddweud y bydd yn rhaid iddynt nid yn unig sicrhau amcanion mynediad, ond amcanion strategol eraill—wrth ymateb i Paul Davies, esboniais yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano o ran mynediad yn benodol—mae hynny'n deillio o'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio yn strategaeth gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Coeliwch chi ni; rydym yn bwriadu gweld newid yn y sector addysg uwch yng Nghymru ac rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch ymateb. Os ydynt am godi £9,000 mewn ffioedd, ansawdd eu hymateb i strategaeth gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a fydd yn penderfynu a fyddant yn gallu gwneud hynny. Bydd hynny'n cynnwys materion sy'n ymwneud â mynediad a chwestiynau ynghylch màs critigol yn ein sector addysg uwch. Byddwn yn mynnu mwy o lawer gan sefydliadau sydd am godi £9,000 mewn ffioedd nag y disgwyliid ganddynt yn Lloegr.

O ran bwrsariaethau, bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus ar yr hyn yr oeddem wedi'i gyhoeddi eisoes yng nghyswllt y cynllun bwrsariaethau cenedlaethol. Mae'n debygol yn awr y gall fod yn rhaid inni ystyried dychwelyd elfennau o'r cynllun bwrsariaethau cenedlaethol i sefydliadau unigol. Mae'n gwestiwn beth y byddant yn ei wneud wedyn ynghylch rhoi bwrsariaethau i fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru. Serch hynny, ein cyfrifoldeb ni'r Llywodraeth yw darparu

study. Today, we have ensured that Welsh-domiciled students, wherever they study, will not have to face the increased fees on a personal basis, because the Welsh Assembly Government will pay the increase for them. I do not know whether the Member will reach the House of Lords in time to vote against the proposals being drawn up by the UK coalition Government, but I invite her to do so.

3.10 p.m.

**Jeff Cuthbert:** May I say how much I welcome your statement today, Minister? Last week, in Cardiff University, students occupied part of the main building, and it took me back to the early 1970s, when I was president of the student union and led two occupations of the administration block. However, it is so long ago that I cannot remember what the issues were. [*Laughter.*]

I hope that students from Cardiff University and other higher education institutions will take comfort, if they are listening, from the statement that you have made today. You have sought to respond in a way that takes account of the reality of the situation that we are in, but you have also based those decisions on fairness. I thank you for this statement today; you are right to say that we cannot bury our heads in the sand when it comes to university funding, or expect to be taken seriously if we claim that what is happening in England will not affect us in Wales. The cold, hard reality is that it does. We have to ensure that our approach to higher education funding is balanced and pragmatic, and that it is based on the overarching principles of fairness. It would be interesting to hear at some point how the Welsh Conservatives, if they had been able to carry through their policy of completely ring-fencing spending on health, and not decreasing it at all, would have managed to get anywhere near our proposals in minimising the impact on students and graduates.

cymorth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ym mha le bynnag y byddant yn astudio. Heddiw, rydym wedi sicrhau na fydd yn rhaid i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ym mha le bynnag y byddant yn astudio, yn gorfod wynebu'r ffioedd uwch eu hunain, oherwydd bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r cynnydd drostynt. Ni wn a wnaiff yr Aelod gyrraedd Tŷ'r Arglwyddi mewn pryd i bleidleisio yn erbyn y cynigion sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig, ond fe'i gwahoddaf i wneud hynny.

**Jeff Cuthbert:** A gaf ddweud gymaint yr wyf yn croesawu eich datganiad heddiw, Weinidog? Yr wythnos diwethaf, ym Mhrifysgol Caerdydd, roedd myfyrwyr yn meddiannu rhan o'r prif adeilad, ac fe aeth hynny â mi yn ôl i ddechrau'r 1970au, pan oeddwn yn llywydd undeb y myfyrwyr, yn arwain dwy brotest ac yn meddiannu'r bloc gweinyddol. Fodd bynnag, mae hynny mor bell yn ôl fel na allaf gofio beth oedd achos y protestio. [*Chwerthin.*]

Rwyf yn gobeithio bod myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd a sefydliadau addysg uwch eraill yn cael cysur, os ydynt yn gwranddo, o'ch datganiad heddiw. Rydych wedi ceisio ymateb mewn ffordd sy'n rhoi sylw i realiti'r sefyllfa yr ydym ynddi, ond rydych hefyd wedi seilio'r penderfyniadau hynny ar degwch. Rwyf yn diolch ichi am y datganiad hwn heddiw; rydych yn llygad eich lle'n dweud na allwn gladdu ein pennau yn y tywod pan ddaw'n fater o ariannu prifysgolion, na disgwyl cael ein cymryd o ddifrif os honnwn na wnaiff yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr effeithio arnom ni yng Nghymru. Y gwirionedd oer a chaled yw ei fod yn effeithio arnom. Rhaid inni sicrhau bod ein hagwedd at ariannu addysg uwch yn gytbwys ac yn bragmataidd, a'i bod wedi'i seilio ar egwyddorion cyffredinol tegwch. Byddai'n ddiddorol clywed rywbryd sut y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig, petaent wedi gallu bwrw ymlaen â'u polisi, sef neilltuo'r gwariant ar iechyd yn llwyr, heb ei leihau o gwbl, wedi llwyddo i gyrraedd unman yn agos at ein cynigion mo o ran sicrhau cyn lleied o effaith ar fyfyrwyr a graddedigion ag y bo modd.

It is imperative that our universities are able to compete with those in England on academic expertise, facilities, resources and the overall student experience. Those universities in England that may benefit from higher levels of funding cannot be allowed to leave us behind. However, at the same time, it is clear that the UK Government's plans do not sufficiently take account of the impact that such financial burdens will have on students from low-income groups or from families that have not traditionally gone to university. While it is clear to me from your references to widening access that that principle of fairness remains a key policy as regards young people in more disadvantaged areas—such as Communities First areas, which are common in constituencies like mine—will you make it clear that, if universities are to charge up to £9,000 per annum, their implementation of widening access policies will be robustly monitored by the Assembly Government, and penalties will be in place if they do not do it?

**Leighton Andrews:** You almost tempt me down memory lane as well, but perhaps that is for another day. There will be robust monitoring by HEFCW of the plans that are put in place by higher education institutions in Wales in respect of access, and we will be looking to HEFCW to report regularly to us on that. You are also right that we have tried to balance issues of fairness for students with the need to maintain a world-class higher education sector in Wales. Given the constraints within which we have to operate, I think that the proposals that we have brought forward do both of those things. You are absolutely right to point to what would have happened had the health budget been ring-fenced in the ways that were suggested by the Welsh Conservatives. That would have meant cuts in the overall education budget of 20 per cent, as the leader of the opposition confessed on *Wales Today* two weeks ago.

**Nerys Evans:** Diolch yn fawr i chi am eich datganiad y prynhawn yma. Yr ydym ym

Mae'n hollbwysig bod ein prifysgolion yn gallu cystadlu â'r rheini yn Lloegr ar sail arbenigedd academiaidd, cyfleusterau, adnoddau a'r profiad cyffredinol a gaiff myfyrwyr. Ni ellir caniatáu i'r prifysgolion hynny yn Lloegr a allai elwa o lefelau ariannu uwch ein gadael ar ôl. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'n amlwg nad yw cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi digon o sylw i'r effaith a gaiff beichiau ariannol o'r fath ar fyfyrwyr o grwpiau isel eu hincwm neu ar deuluoedd nad yw'n draddodiad iddynt fynd i'r brifysgol. Er ei bod yn amlwg i mi, o'ch cyfeiriadau at ehangu mynediad, fod yr egwyddor tegwch honno'n yn dal yn bolisi allweddol o ran pobl ifanc mewn ardaloedd mwy di-fraint—megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gyffredin mewn etholaethau fel fy etholaeth i, a wnewch ei gwneud yn glir, os bydd prifysgolion yn codi hyd at £9,000 y flwyddyn, y bydd y ffordd y byddant yn rhoi polisiau ehangu mynediad ar waith yn cael ei monitro'n ofalus gan Lywodraeth y Cynulliad ac y cânt eu cosbi oni wnânt hynny?

**Leighton Andrews:** Rydych bron iawn a fy nhemptio innau i grwydro llwybr atgofion hefyd, ond efallai y cadwn hynny tan rywbryd eto. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn monitro'n ofalus y cynlluniau mynediad a sefydlir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a byddwn yn gofyn i'r Cyngor Cyllido gyflwyno adroddiadau inni'n rheolaidd am hynny. Rydych yn llygad eich lle hefyd yn dweud ein bod wedi ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng tegwch i fyfyrwyr a'r angen i gynnal sector addysg uwch yng Nghymru sydd o safon fyd-eang. Ac ystyried y cyfyngiadau y mae'n rhaid inni weithredu o'u mewn, credaf fod y cynigion yr ydym wedi'u cyflwyno'n cyflawni'r ddau beth hynny. Rydych yn llygad eich lle'n tynnu sylw at yr hyn a fyddai wedi digwydd petai'r gyllideb iechyd wedi'i neilltuo fel yr awgrymwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Byddai hynny wedi golygu toriadau o 20 y cant yn y gyllideb addysg gyffredinol, fel y cyfaddefodd arweinydd yr wrthblaid ar *Wales Today* bythefnos yn ôl.

**Nerys Evans:** Thank you very much for your statement this afternoon. We in Plaid Cymru

Mhlaid Cymru yn croesawu eich sylwadau yn fawr iawn. Mae ein gwrthwynebiad ffyrnig i bolisiau'r Llywodraeth Geidwadol-Rhyddfrydol i dreblu ffioedd myfyrwyr yn parhau. Yr ydym yn erbyn codi tâl am addysg a byddwn yn parhau i wrthwynebu cynlluniau Llywodraeth San Steffan i godi ffioedd yn Lloegr oherwydd effaith andwyol y polisi ar y sector addysg uwch yng Nghymru—rhywbeth y mae pob plaid yn ei gydnabod yn y Siambr hon. Fodd bynnag, mae dyletswydd arnoch fel Llywodraeth i gynllunio yn awr i baratoi ar gyfer unrhyw newid sy'n digwydd dros y ffin. Felly, yr ydym yn falch iawn o weld cynnwys y datganiad hwn heddiw.

I am proud that despite the massive budgetary pressures put on the Assembly Government by the Tory-Lib Government at Westminster, and despite a substantial cut in our budget, our One Wales Government has decided that we must protect Welsh students and that Welsh students will pay no extra fees because of the changes proposed in England. Furthermore, Welsh students will be protected from any increases in fees imposed by the Westminster Government on English universities. That reflects our priority that access to higher education should be based on educational attainment and not on the size of your wallet.

You said in your statement that the level of the fee will be £6,000 per annum, with the ability for higher education institutions to charge £9,000 if they fulfil certain criteria. Can you give us some more information on that? It will only be non-Welsh students who will be paying, of course. Do you have any idea how many universities in Wales have indicated that they will charge more than £6,000 a year?

On student loans, I warmly welcome the increase from £15,000 to £21,000 in the earnings repayment threshold for graduates, and the variable progressive rates of interest. Although the debts that Welsh students will have to pay will be substantially lower than those of their English counterparts, it is important that these changes to the arrangements for repaying student debts are

welcome your comments very much. Our fierce opposition to the Tory-Lib Government policy of trebling student fees continues. We are opposed to charging for education and we will continue to oppose the plans of the Westminster Government to charge fees in England because of the detrimental impact of the policy on the higher education sector in Wales—something that all parties in this Chamber recognise. However, you as a Government have a duty to plan now and to prepare for any changes that happen across the border. We are, therefore, very pleased to see the content of this statement today.

Rwyf yn falch, er gwaethaf y pwysau enfawr a roddwyd ar gyllideb Llywodraeth y Cynulliad gan Lywodraeth y Toriaid a'r Rhyddfrydwyr yn San Steffan, ac er bod ein cyllideb wedi'i thocio'n sylweddol, fod Llywodraeth Cymru'n Un wedi penderfynu ei bod yn rhaid inni warchod myfyrwyr Cymru ac na fydd myfyrwyr Cymru'n talu ffioedd ychwanegol oherwydd y newidiadau a gynigir yn Lloegr. At hynny, bydd myfyrwyr Cymru yn cael eu gwarchod rhag unrhyw gynnydd yn y ffioedd a orfodir gan Lywodraeth San Steffan ar brifysgolion Lloegr. Mae hynny'n adlewyrchu ein blaenoriaeth, sef y dylid seilio'r mynediad at addysg uwch ar gyrhaeddiad addysgol ac nid ar faint eich waled.

Dywedasoch yn eich datganiad mai lefel y ffi fydd £6,000 y flwyddyn, gan alluogi sefydliadau addysg uwch i godi £9,000 os byddant yn cyflawni meini prawf penodol. A allwch chi roi ychydig mwy o wybodaeth inni am hynny? Dim ond myfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru a fydd yn talu, wrth gwrs. A oes gennych unrhyw syniad faint o brifysgolion yng Nghymru sydd wedi awgrymu y byddant yn codi mwy na £6,000 y flwyddyn?

O ran benthyciadau i fyfyrwyr, rwyf yn croesawu'n gynnes y cynnydd o £15,000 i £21,000 yn y trothwy enillion ar gyfer adalu'r benthyciad gan raddedigion, a'r cyfraddau llog amrywiol cynyddol. Er y bydd y dyledion y bydd yn rhaid i fyfyrwyr Cymru eu talu'n sylweddol is na dyledion eu cymheiriaid yn Lloegr, mae'n bwysig bod y newidiadau hyn i'r trefniadau ar gyfer ad-

implemented as soon as possible. Therefore, when are these changes likely to be made?

As you state, the Welsh Government has a responsibility to Welsh-domiciled students. It is fantastic news that you are not confining the fee waiver to Welsh students who stay in Wales to study. The prospect of facing nearly £30,000 of fees in England, while those staying in Wales pay no extra fees, would mean that the majority of young people will probably opt to stay in Wales to study. However, the fact that our Welsh Government has decided to extend the fee waiver to all Welsh students regardless of where they study shows that protecting Welsh students is our priority.

Paul Davies's contribution was truly shocking. It is as though the Tories have no responsibility for what is going on in Westminster. They wanted to ring-fence the health budget, but what about the HE budget, which would be cut by nearly a quarter? We will not be taking any lessons from you. It is clear that protecting students is not a priority for the Westminster Government. Minister, will you continue, therefore, to lobby the UK Government to reject the proposals to increase fees in England in order for us to keep the current fee regime in Wales? The vote has not yet been held, and even the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Vince Cable, is saying today that he might abstain.

Minister, your announcement today shows that, even with a limited budget, we want to ensure that Welsh students are not saddled with debts of nearly £30,000 for pursuing higher education, which, as we have seen from recent protests, is already deterring some young people. Politics is about priorities. Saddling young people with debt seems to be a priority for the Con-Dem Government. This is a matter of priority for us. A priority for us in Government is to protect the people and communities of Wales

daludyledionmyfyrwryncael euruhoi ar waithcyn gynted ag sy'n bosibl. Felly, pabryd mae'r newidiadau hyn yn debygol o ddigwydd?

Fel y dywedwch, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'n newyddion bendigedig nad dim ond y myfyrwyr hynny o Gymru sy'n aros yng Nghymru i astudio a fydd yn cael eu hesgusodi rhag talu ffioedd. Byddai'r rhagolygon o wynebu bron £30,000 o ffioedd yn Lloegr, a'r rheini sy'n aros yng Nghymru heb orfod talu dim ffioedd ychwanegol, yn golygu y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc mae'n debyg, yn dewis aros yng Nghymru i astudio. Serch hynny, mae'r ffaith bod ein Llywodraeth yng Nghymru wedi penderfynu estyn y trefniant 'esgusodi rhag talu ffioedd' i holl fyfyrwyr Cymru, ni waeth ymhle y maent yn astudio, yn dangos mai gwarchod myfyrwyr Cymru yw ein blaenoriaeth.

Roedd cyfraniad Paul Davies yn wirioneddol syfrdanol. Mae fel pe na bai gan y Torïaid gyfrifoldeb o gwbl am yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan. Roeddent am neilltuo'r gyllideb iechyd, ond beth am y gyllideb Addysg Uwch, a fyddai'n cael ei thorri o chwarter bron iawn? Ni wrandawn ar yr un bregeth gennyh chi. Mae'n amlwg nad yw gwarchod myfyrwyr yn flaenoriaeth i Lywodraeth San Steffan. Weinidog, a wnewch felly barhau i bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wrthod y cynigion i gynyddu ffioedd yn Lloegr er mwyn inni gadw'r drefn ffioedd bresennol yng Nghymru? Nid yw'r bleidlais wedi'i chynnal eto ac mae hyd yn oed yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, Vince Cable, yn dweud heddiw y gallai atal ei bleidlais.

Weinidog, mae eich cyhoeddiad heddiw yn dangos, er bod y gyllideb yn brin, ein bod am sicrhau na fydd myfyrwyr Cymru yn gorfod ysgwyddo baich dyledion o bron £30,000 am gael addysg uwch, sydd, fel y gwelsom o rai protestiadau diweddar, eisoes yn rhwystr i rai pobl ifanc. Mae a wnelo gwleidyddiaeth â blaenoriaethau. Mae rhoi baich dyledion ar ysgwyddau pobl ifanc, i bob golwg, yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Con-Dem. Mae hyn yn flaenoriaeth i ni. Un o'n blaenoriaethau ni yn y Llywodraeth yw

and to create a fair society in which opportunities are equal for all and not just for those who can afford them.

**Leighton Andrews:** As I said in my statement, we have delivered our ‘One Wales’ commitment today, and I am pleased to have been able to do so with support from around the Chamber. We are displaying today a real difference between our approach and that of the UK Government. As I said, this is a made-in-Wales solution. It is instructive to see that the Secretary of State for business at Westminster has today been suggesting that he may abstain from voting on his own Government’s proposal. As my Westminster colleague, John Denham MP, said, it must be one of the few examples ever in history of a Minister designing a policy and then refusing to vote for it. It is extraordinary. Therefore, let us be clear: what we are doing here in Wales is creating a Welsh solution. We are providing the opportunity for young people to continue to go on into higher education, ensuring that generations who want to go on to higher education in the future will have to find no more in fees than the generation that has just started this term.

**The Deputy Presiding Officer:** Before I call the final speaker, I remind Members that it is accepted that the use of ‘Con-Dem Government’ is not appropriate language in the Chamber.

**Alun Davies:** I would not even consider describing the UK coalition Government in such terms—there are plenty of others to choose from.

3.20 p.m.

Minister, you have referred to the ludicrous situation in the United Kingdom, where a Minister is asking Parliament to vote for a policy that he does not want to vote for himself. I hope that you will confirm that you intend to vote for the policy that you are introducing. There are some things that we can learn from the other side of Offa’s Dyke,

gwarchod pobl a chymunedau Cymru a chreu cymdeithas deg lle mae’r un cyfleoedd ar gael i bawb ac nid dim ond i’r rheini sy’n gallu eu fforddio.

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais yn fy natganiad, rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad ‘Cymru’n Un’ heddiw, ac rwyf yn falch imi allu gwneud hynny gyda chefnogaeth o bob cwr o’r Siambr. Rydym yn dangos heddiw fod gwahaniaeth go iawn rhwng ein hagwedd ni ac agwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fel y dywedais, ateb sydd wedi’i wneud yng Nghymru yw hwn. Mae’n ddifyr gweld bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes yn San Steffan wedi bod yn awgrymu heddiw y gallai atal ei bleidlais ar gynnig ei Lywodraeth ef ei hun. Fel y dywedodd fy nghyfaill yn San Steffan, John Denham AS, siawns nad dyma un o’r ychydig enghreifftiau erioed mewn hanes o Weinidog yn cynllunio polisi ac wedyn yn gwrthod pleidleisio drosto. Mae’n rhyfeddol. Felly, gadewch inni fod yn glir: yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru yw creu ateb i Gymru. Rydym yn cynnig y cyfle i bobl ifanc barhau i fwrw ymlaen i addysg uwch, gan sicrhau na fydd cenedlaethau sy’n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol yn gorfod dod o hyd i fwy o ffioedd na’r genhedlaeth sydd newydd ddechrau’r tymor hwn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn imi alw’r siaradwr olaf, hoffwn atgoffa’r Aelodau nad yw defnyddio Llywodraeth Con-Dem yn iaith briodol yn y Siambr.

**Alun Davies:** Ni fyddwn hyd yn oed yn ystyried defnyddio’r geiriau hynny i ddisgrifio clymblaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig—mae digon o rai eraill i ddewis o’u plith.

Weinidog, rydych wedi cyfeirio at y sefyllfa chwerthinllyd yn y Deyrnas Unedig lle mae Gweinidog yn gofyn i’r Senedd bleidleisio dros bolisi nad yw am bleidleisio drosto’i hun. Rwyf yn gobeithio y gwnewch gadarnhau eich bod chi’n bwriadu pleidleisio o blaid y polisi yr ydych chithau’n ei gyflwyno. Mae rhai gwersi y gallwn eu dysgu

but I suggest that that is not one of them.

The statement has received a warm welcome on this side of the Chamber, and I suspect that, on that side of the Chamber, there is at least recognition that we in Wales have a policy that is rooted in the values of the Government and of the country. The University of Wales was established with the pennies of the poor, enabling everyone to benefit from higher education for the first time. I hope that the funding mechanisms for higher education institutions and for students that you are putting in place today will ensure that those pioneers of higher education in Wales will see their dream fulfilled for the future.

Will you confirm that it is not the intention of this Government to introduce a market into higher education, to abolish the teaching grant for higher and further education, or to lock out poor and middle-class people from universities and higher education by charging unsustainable fee levels? Will you also confirm that it is not this Government's policy to see higher education withering on the vine because of an ideological commitment to the marketplace? Finally, in closing your remarks on the statement, will you confirm that this Government will continue to fund higher education and access to it, and will retain its commitment to education in Wales for all?

**Leighton Andrews:** I am delighted to confirm that I will be voting for my own policy. I invite Members from other political persuasions to encourage their Members at Westminster to vote against what is being proposed there. We would prefer not to have to go down this route, but we are having to do so because of the context that is being set elsewhere. We are not in favour of having a market in higher education, as is being developed in England, and we do intend to remain in control of the development of higher education in Wales and to plan for it. There will, of course, still be support for the teaching grant through our grant to the Higher Education Funding Council for Wales.

We have sought to ensure today that higher

gan yr ochr draw i Glawdd Offa, ond awgrymaf nad yw hynny'n un ohonynt.

Mae'r datganiad wedi cael croeso cynnes ar yr ochr hon i'r Siambr, ac rwyf yn amau, bod cydnabyddiaeth o leiaf, ar yr ochr draw i'r Siambr, fod gennym ni yng Nghymru bolisi sydd a'i wreiddiau yng ngwerthoedd y Llywodraeth a'r wlad. Sefydlwyd Prifysgol Cymru gyda cheiniogau'r tlodion, er mwyn i bawb allu elwa ar addysg uwch am y tro cyntaf. Rwyf yn gobeithio y bydd y mecanweithiau ariannu ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac i fyfyrwyr yr ydych yn eu rhoi ar waith heddiw yn sicrhau bod y rheini a fu'n arloesi ym maes addysg uwch yng Nghymru yn gweld gwireddu eu breuddwyd ar gyfer y dyfodol.

A wnewch gadarnhau nad yw'n fwriad gan y Llywodraeth hon gyflwyno marchnad i addysg uwch, dileu'r grant addysgu ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, neu gloi drws prifysgolion ac addysg uwch ar bobl dlawd a phobl ddsbarth canol drwy godi lefelau ffioedd anghynaliadwy? A wnewch hefyd gadarnhau nad polisi'r Llywodraeth hon yw gweld addysg uwch yn gwywo ar y winwydden oherwydd ymrwymiad ideolegol i'r farchnad? Yn olaf, wrth gloi eich sylwadau am y datganiad, a wnewch gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn parhau i ariannu addysg uwch a mynediad ati, ac yn cynnal ei hymrwymiad i addysg yng Nghymru i bawb?

**Leighton Andrews:** Rwyf wrth fy modd yn cadarnhau y byddaf yn pleidleisio dros fy mholisi i fy hun. Rwyf yn gwahodd Aelodau sy'n arddel barn wleidyddol wahanol i annog eu Haelodau yn San Steffan i bleidleisio yn erbyn yr hyn sy'n cael ei gynnig yno. Byddai'n well gennym beidio â gorfod dilyn y trywydd hwn, ond mae'n rhaid inni wneud hynny oherwydd y cyd-destun sy'n cael ei osod yn rhywle arall. Nid ydym o blaid cael marchnad mewn addysg uwch, fel sy'n cael ei datblygu yn Lloegr ac rydym yn bwriadu cadw rheolaeth dros ddatblygu addysg uwch yng Nghymru a chynllunio ar ei chyfer. Wrth gwrs, bydd cefnogaeth o hyd i'r grant addysgu drwy ein grant i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Rydym wedi ceisio sicrhau heddiw bod

education in Wales has a strong future, and that our higher education institutions can look forward to incomes that are sustained in real terms from 2012-13. We have done that while protecting what we all want to see, namely the right for everyone to aspire to go on to higher education if they wish to do so. I think that we have achieved that today. I happen to think that that is good news not only for higher education institutions in Wales and for Welsh-domiciled students, but also for devolution and the National Assembly. [*Applause.*]

dyfodol cadarn i addysg uwch yng Nghymru, ac y gall ein sefydliadau addysg uwch edrych ymlaen at incymau sy'n cael eu cynnal mewn termau real o 2012-13 ymlaen. Rydym wedi gwneud hynny gan warchod yr hyn yr ydym oll am ei weld, sef yr hawl i bawb ddyheu am fynd ymlaen i addysg uwch os yw'n yn dymuno gwneud hynny. Rwyf yn meddwl inni gyflawni hynny heddiw. Rwyf yn digwydd meddwl bod hynny'n newyddion da, nid dim ond i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru, ond hefyd i ddatganoli a'r Cynulliad Cenedlaethol. [*Cymeradwyaeth.*]

### **Datganiad am y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol Statement on the Independent Commission on Social Services**

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Y bore yma, cafodd adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol ei lansio yn y Senedd. Rwyf yn hynod falch o fod wedi derbyn yr adroddiad hwn, sy'n bwysig ac yn amserol. Flwyddyn yn ôl, gofynnais i'r comisiwn edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol dros y ddegawd nesaf, ac yn arbennig ar sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymhellach ymarfer proffesiynol, adeiladu gwasanaethau cymdeithasol cynhwysol yn seiliedig ar gyfraniad pob partner, creu newid sylweddol er mwyn annog cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau allweddol eraill, a sicrhau gwasanaethau cymdeithasol integredig, sy'n medru cwrdd ag anghenion plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn.

I asked the commission to do its work at a time of changing public expectations, demographic change and resource pressure—the last of which is now even clearer. I did not ask the commission to do its work because I think that social services are in some way broken. On the contrary, there is much that we should celebrate in the achievements of a decade of devolution and in the achievements of a 70,000-strong workforce, protecting people from harm and supporting them to achieve their potential on a daily basis. It is pleasing to know that the commission is of the same view.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** This morning, the report of the Independent Commission on the Future of Social Services was launched here in the Senedd. I am extremely pleased to have received this report, which I think is both important and timely. A year ago, I asked the commission to look at the provision of social services and social care over the next decade, and in particular how the Assembly Government can support the further development of professional practice, build inclusive social services based on the contribution of all partners, effect a step change in collaboration between social services and other key services, and ensure integrated social services, capable of meeting the needs of children, young people, adults, and older people.

Gofynnais i'r comisiwn wneud ei waith ar adeg pan fo disgwyliadau'r cyhoedd yn newid. Mae newid demograffaid ar waith a phwysau ar adnoddau—ac mae'r olaf o'r rhain yn awr yn gliriach byth. Ni ofynnais i'r comisiwn wneud ei waith oherwydd fy mod yn meddwl bod gwasanaethau cymdeithasol wedi torri mewn rhyw ffordd. Yn groes i hynny, mae cymaint y dylem ei ddatlu ymhlith llwyddiannau degawd o ddatganoli a'r hyn y mae'r gweithlu o 70,000 wedi'i gyflawni wrth iddynt warchod pobl rhag niwed a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial yn feunyddiol. Mae'n braf gwybod bod y



I asked Professor Geoffrey Pearson and his fellow commissioners, Julie Jones, Phil Robson and Rhian Huws-Williams, to make a key contribution to answering the challenges of the next decade. I take this opportunity to thank Professor Pearson and his team publicly for that contribution. I am sure that Members will join me in welcoming them to the Senedd this afternoon. During their deliberations, they have taken written evidence from nearly 90 individuals and organisations, they have held oral evidence sessions with a similar number, ranging from service users to academics and chief executives of local health boards, they have made visits to projects and people all over Wales, and they have talked to people as varied as service users aged six and 60 plus.

The breadth of that work allows us to understand the views of stakeholders in Wales. The depth of their analysis will help us to understand the principles that we must apply to further develop the model of social services that is right for Wales. I believe that the engagement that the commission achieved illustrates the importance of good social services to the people of Wales. My establishment of the commission reflects the commitment that this Government has to social services as part of an integrated system of high-quality and efficient public services to ensure the health and wellbeing of the public.

I remain ambitious for social services and for what they can achieve for individuals, families and communities. However, without proper priority being given to social care, not only the most disadvantaged in our society, but each and every one of us, when we face our own difficulties, will not get the support that we need. I believe that unpredictable social risks should be borne by society and not left to the random responsibility of individuals. That belief, ambition and commitment is reflected in the budgetary decisions that this Government took last week. We listened to the people of Wales, protected the vulnerable, and promoted equality of opportunity and outcomes by increasing social services budgets by £35

comisiwn yn cytuno.

Gofynnais i'r Athro Geoffrey Pearson a'i gyd-gomisiynwyr, Julie Jones, Phil Robson a Rhian Huws-Williams, wneud cyfraniad allweddol at ateb heriau'r degawd nesaf. Rwyf yn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Athro Pearson a'i dîm yn gyhoeddus am y cyfraniad hwnnw. Rwyf yn siŵr y gwnaiff yr Aelodau ymuno â mi i'w croesawu i'r Senedd y prynhawn yma. Yn ystod eu trafodaethau, maent wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan bron 90 o unigolion a sefydliadau, wedi cynnal sesiynau tystiolaeth llafar gyda nifer debyg, yn amrywio o ddefnyddwyr gwasanaethau i academyddion a phrif weithredwyr byrddau iechyd lleol, maent wedi ymweld â phrosiectau a phobl ledled Cymru, ac maent wedi siarad â phobl mor amrywiol â defnyddwyr gwasanaethau chwech oed a rhai 60 oed a hŷn.

Mae lled y gwaith hwnnw'n caniatáu inni ddeall barn rhanddeiliaid yng Nghymru. Bydd dyfnder eu dadansoddiad yn help inni ddeall yr egwyddorion y mae'n rhaid inni eu rhoi ar waith i ddatblygu rhagor ar fodel y gwasanaethau cymdeithasol sy'n iawn i Gymru. Rwyf yn credu bod yr ymgysylltu y mae'r comisiwn wedi'i wneud yn dangos pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol da i bobl Cymru. Wrth imi sefydlu'r comisiwn, mae hynny'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth hon i wasanaethau cymdeithasol fel rhan o system gyfannol o wasanaethau cyhoeddus effeithiol o safon uchel i sicrhau iechyd a lles y cyhoedd.

Mae gennyf uchelgais o hyd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac ar gyfer yr hyn y gallant ei gyflawni i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, oni roddir blaenoriaeth briodol i ofal cymdeithasol, ni chaiff y rhai sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn ein cymdeithas y cymorth sydd ei angen arnynt, ac ni chawn ninnau, bob un ohonom, y cymorth hwnnw ychwaith, wrth inni wynebu ein hanawsterau ni'n hunain. Credaf y dylai cymdeithas ysgwyddo risgiau cymdeithasol anrhagweladwy ac na ddylid dibynnu ar hap ar unigolion i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gred honno, yr uchelgais honno a'r ymrwymiad hwnnw'n cael ei adlewyrchu ym mhenderfyniadau cyllidebol y Llywodraeth

million by 2013-14. That is a 3 per cent cash uplift.

People must be able to access social services when they need them. Welsh society wants us to recognise the child who needs protection from neglect, the disabled person who should be supported to enjoy a fulfilled life, or the older person who must be enabled to maintain their independence in the face of frailty. The commissioners should be commended for their contribution to making that a reality. While it will take time to reflect fully on the content of this report, which makes recommendations in 14 key areas, I am immediately struck by some of its key messages.

The commission confirms the case for social services as an integrated service located in, and led by, local government. I am taken with that conclusion. It provides the overall context of local government services, such as education and housing services, to the community-based and family-centred approaches that I am committed to. Importantly at this time, the report also highlights the importance of achieving sustainability through modernising our approach to improvement and by empowering the voice of service users. I think that it is the right time to reinforce our values, which are based on a strong voice for citizens rather than a consumer model of choice.

3.30 p.m.

You will know that I have already announced my intention to bring forward a White Paper on social services, to build on the many strengths identified by such reports as 'Reviewing Social Services in Wales 1998-2008—Learning from the Journey', now emphasised in this commission's report. This report will, alongside other work to review and renew our policy, such as the

hon yr wythnos diwethaf. Gwrandawsom ar bobl Cymru, amddiffyn y rhai agored i niwed, a hybu cyfle cyfartal a chanlyniadau teg drwy gynyddu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol £35 miliwn erbyn 2013-14. Mae hynny'n gynydd o 3 y cant mewn arian parod.

Rhaid i bobl allu cael gafael ar wasanaethau cymdeithasol pan fydd eu hangen arnynt. Mae cymdeithas Cymru am inni adnabod y plentyn y mae angen ei amddiffyn rhag esgeulustod, y sawl sy'n anabl y dylid ei gynorthwyo i fwynhau bywyd cyflawn, neu'r sawl sy'n hŷn y mae'n rhaid ei alluogi i gynnal ei annibyniaeth er ei fod yn fregus. Dylid cymeradwyo'r comisiynwyr am eu cyfraniad at wireddu hynny. Er y bydd angen amser i ystyried cynnwys yr adroddiad hwn yn llawn, adroddiad sy'n gwneud argymhellion mewn 14 maes allweddol, mae rhai o'i brif negeseuon yn fy nharo i ar unwaith.

Mae'r comisiwn yn cadarnhau'r ddadl o blaid gwasanaethau cymdeithasol fel gwasanaeth cyfannol sydd wedi'i leoli mewn llywodraeth leol ac yn cael ei dywys ganddi. Mae'r casgliad hwnnw'n creu argraff arnaf. Mae'n cynnig cyd-destun cyffredinol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, megis addysg a gwasanaethau tai, i'r dulliau cymunedol sy'n canolbwyntio ar y teulu yr wyf wedi ymrwymo iddynt. Un peth sy'n bwysig ar yr adeg hon yw bod yr adroddiad hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cynaliadwyedd drwy foderneiddio ein hagwedd at wella a thrwy rymuso llais defnyddwyr gwasanaethau. Credaf mai dyma'r adeg iawn inni atgyfnerthu ein gwerthoedd, gwerthoedd sydd wedi'u seilio ar lais cryf i ddinasyddion, yn hytrach nag ar fodel dewis i ddefnyddwyr.

Gwyddoch fy mod eisoes wedi cyhoeddi fy mod yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol, i adeiladu ar y llu o gryfderau a nodir mewn adroddiadau o'r fath, megis 'Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 1998-2008—Dysgu Gwersi o'r Siwrnai', sydd bellach yn cael eu pwysleisio yn adroddiad y comisiwn hwn. Bydd yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â

safeguarding reviews, inform that White Paper. I want the document to support the development of a new consensus, building on the values of ‘Fulfilled Lives, Supportive Communities’—a description of social services that the commission found held good. I also believe that the challenges that we face make it right for me to equip the administration of the fourth Assembly with a head start in creating the social services of the next decade. I am conscious that ministerial colleagues also have reviews under way. We will, of course, be working together to make the connections so that we can reduce complexity, increase efficiency and capacity and ensure that we have the right approach at national, regional and local levels to deliver excellent social care. That is what the people of Wales have told the commission that they want, and it is what the people of Wales deserve. I thank the commission for giving them their voice.

**Nick Ramsay:** I also thank Geoffrey Pearson and the commissioners for their work on this report, and thank the Deputy Minister for her statement. One of the key lines that jumped out at me from this report was a statement by the police that they think in boundaries, whereas children and vulnerable people do not.

I know from my earlier discussions with the Deputy Minister about this report that she is also keen to see that boundaries are broken down and that it is people who are looked after, and not necessarily the service that dominates in this area. The philosophy behind this document, and indeed the statement of thinking beyond boundaries, is good. I know from that meeting with the Deputy Minister that she is also trying to get rid of the usual service boundaries that exist. My predecessor, Andrew R.T. Davies, spoke about the need to pursue a patient pathways model in the health service, and much of this is following that pathways model, where you are trying to work out of silos and into different areas.

gwaith arall i adolygu ac adnewyddu ein polisi, megis yr adolygiadau diogelu, yn sail i'r Papur Gwyn hwnnw. Rwyf am i'r ddogfen fod yn gefn i ddatblygu consensws newydd, gan adeiladu ar werthoedd ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol’—disgrifiad o'r gwasanaethau cymdeithasol a oedd yn gadarn ym marn y comisiwn. Credaf hefyd fod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu'n golygu ei bod yn iawn imi baratoi gweinyddiaeth y pedwerydd Cynulliad drwy sicrhau eu bod ar y blaen wrth greu gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y degawd nesaf. Rwyf yn gwybod bod fy nghyd-weinidogion hefyd wedi rhoi adolygiadau ar waith. Byddwn, wrth gwrs, yn cydweithio i greu'r cysylltiadau er mwyn inni leihau cymhlethdod, cynyddu effeithlonrwydd a chapasiti a sicrhau bod gennym yr agwedd iawn ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i ddarparu gofal cymdeithasol rhagorol. Dyna'r hyn y mae pobl Cymru wedi dweud wrth y comisiwn y maent yn dymuno'i gael, a dyna'r hyn y mae pobl Cymru'n ei haeddu. Rwyf yn diolch i'r comisiwn am roi llais iddynt.

**Nick Ramsay:** Rwyf finnau am ddiolch i Geoffrey Pearson ac i'r comisiynwyr am eu gwaith ar yr adroddiad hwn, a diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad. Un o'r prif linellau a neidiodd allan ataf o'r adroddiad hwn oedd datganiad gan yr heddlu mai meddwl yn nhermau ffiniau y byddant hwy ond nad felly bydd plant a phobl agored i niwed yn meddwl.

Gwn yn sgil fy nhrafodaethau blaenorol â'r Dirprwy Weinidog am yr adroddiad hwn ei bod hithau'n awyddus i weld chwalu ffiniau ac mai'r bobl sy'n derbyn gofal, ac nid y gwasanaeth o reidrwydd, sydd bwysicaf yn y maes hwn. Mae'r athroniaeth sy'n gefn i'r ddogfen hon, ac yn wir y datganiad ynglŷn â meddwl y tu hwnt i ffiniau, yn dda. Gwn yn sgil y cyfarfod hwnnw â'r Dirprwy Weinidog ei bod hithau'n ceisio cael gwared ar y ffiniau arferol rhwng gwasanaethau. Soniodd fy rhagflaenydd, Andrew R. T. Davies, fod angen mynd ar drywydd model llwybrau cleifion yn y gwasanaeth iechyd, ac mae llawer o hyn yn dilyn y model llwybrau hwnnw, lle bydd y rhywun yn ceisio gweithio allan o silos ac i feysydd gwahanol.

I know that the Deputy Minister does not want to talk specifically about recommendations, but I will just mention two; you said that there were a couple of key recommendations in which you were interested. On page 30, recommendation 4b suggests that the Welsh Assembly Government, the Welsh Local Government Association and Association of Directors of Social Services Cymru should review the data currently collected, with a view to ensuring a shift away from an emphasis on inputs and process to outputs and outcomes. That strikes me as being a very important recommendation that the White Paper should consider. Also, 5a recommends that the Welsh Assembly Government and the Welsh Local Government Association should lead the development of a national portable assessment scheme, ultimately supported by Wales-wide eligibility criteria. I know that that is another area that is fundamental to the work of the White Paper, so while I do not want to pre-empt the work that will go in to that White Paper, I would ask that the deputy Minister identifies whether these are priorities and how she envisages them being delivered.

On portability and the Wales-wide eligibility criteria, I agree that that, if it can work, would be very good. However, having read through this, I am not entirely sure how the Deputy Minister intends to ensure that the eligibility criteria truly are Wales-wide, while not losing some of the benefits that we have at the moment.

On collaboration, Deputy Minister—you touched on this—your intention is to move away from just the local authority model of delivery of social services to providing it on more of a regional basis. There is a lot of merit to that in many areas, in that we are all aware that the burden of social services for any local authority, moving into the future, particularly at a time of economic difficulty, will be great. So, moving to a regional area is possibly a good idea. However, collaboration costs money, and we know from the WLGA that many of the current collaboration programmes cost money to implement.

Gwn nad yw'r Dirprwy Weinidog am sôn yn benodol am argymhellion, ond rwyf am grybwyll dau yn unig; dywedasoch fod ychydig o brif argymhellion yr oedd gennych ddi-ddordeb ynddynt. Ar dudalen 30, mae argymhelliad 4b yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adolygu'r data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd, er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn symud oddi wrth y pwyslais ar fewnbynnau a phroses ac at allbynnau a chanlyniadau. Mae hynny, i mi, yn argymhelliad pwysig iawn y dylai'r Papur Gwyn ei ystyried. Hefyd, mae 5a yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru arwain o ran datblygu cynllun asesu trosglwyddadwy cenedlaethol, a fydd yn y pen draw'n cael ei gefnogi gan feini prawf cymhwysedd i Gymru gyfan. Gwn fod hwnnw'n faes arall sy'n hollbwysig i waith y Papur Gwyn, felly er nad wyf am ragweld y gwaith a aiff i'r Papur Gwyn hwnnw, hoffwn ofyn i'r dirprwy Weinidog ddweud a yw'r rhain yn flaenoriaethau a sut mae'n rhagweld y cânt eu gwireddu.

O ran asesiadau trosglwyddadwy a meini prawf cymhwysedd ar gyfer Cymru gyfan, rwyf yn cytuno, os gall weithio, y byddai hynny'n beth da iawn. Fodd bynnag, ar ôl darllen drwy hyn, nid wyf yn gwbl siŵr sut y mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu sicrhau y bydd y meini prawf cymhwysedd o ddifrif yn rhai ar gyfer Cymru gyfan, heb inni golli rhai o'r manteision sydd gennym ar hyn o bryd.

O ran cydweithredu, Ddirprwy Weinidog—ac fe grybwyllwyd hyn gennych—eich bwriad yw symud oddi wrth fodel darparu gwasanaethau cymdeithasol gan yr awdurdod lleol yn unig a'u darparu ar sail fwy rhanbarthol. Mae llawer o rinweddau i hynny mewn sawl maes, gan ein bod i gyd yn ymwybodol y bydd baich gwasanaethau cymdeithasol yn drwm ar unrhyw awdurdod lleol yn y dyfodol, yn enwedig mewn cyfnod economaidd anodd. Felly, efallai fod symud i ardal ranbarthol yn syniad da. Serch hynny, mae cydweithredu'n gostus, a gwyddom gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod

Therefore, are you sure that, when you bring that White Paper forward, mechanisms for collaboration will be in place, and will be durable enough to ensure that the end delivery of social services achieves what we would like? I know that you agree that reorganisation is not the answer—reorganisation is also costly—and that it is much better to work across boundaries, and to get different authorities to work together to deliver.

I believe that there are just over 5,000 children in care in Wales, in the context of councils and their corporate parenting duties. I believe that you intend to see that that is done on a wider basis, and that corporate parenting is not necessarily something that individual local authorities should be charged with. There are current examples of good practice, and I know from my times on a local authority that many councillors took corporate parenting seriously. Therefore, I would like to hear more about how you intend to ensure that current good practice in that area is replicated. I look forward to your bringing forward the White Paper—there is much in this with which I agree, and I believe that we need to get ahead of the game on this issue.

**Gwenda Thomas:** Thank you, Nick, and welcome to your new portfolio. You mentioned children and vulnerability. That underlines much of this report. We must take account of the fact that this will lead us to the development of a White Paper, which in itself will provide a further opportunity for debate. One service user in the report states that what they want is a life and not a service. That points in a good direction; it is one of the sentences that struck me most in the report. You talk about transition and transfer, and there is a section on that in the report, as you mentioned. At various stages of life, if you are dependent on services, whether you are a child, a young adult, or an older person, transition from one stage to another has not always been what it should be. I believe that the White Paper will allow us to give clear

llawer o'r rhaglenni cydweithredu presennol yn gostus i'w rhoi ar waith. Felly, a ydych chi'n siŵr, pan fyddwch yn cyflwyno'r Papur Gwyn hwnnw, y bydd y mecanweithiau ar gyfer cydweithredu ar waith, ac y byddant yn ddigon cadarn i sicrhau y bydd y ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol maes o law'n cyflawni'r hyn yr hoffem iddynt ei gyflawni. Gwn eich bod yn cytuno nad ad-drefnu yw'r ateb—mae ad-drefnu'n ddrud hefyd—a'i bod yn well o lawer inni weithio ar draws ffiniau, a chael gwahanol awdurdodau i gydweithio er mwyn cyflawni pethau.

Credaf fod ychydig dros 5,000 o blant mewn gofal yng Nghymru, yng nghyd-destun cynghorau a'u dyletswyddau rhianta corfforaethol. Credaf eich bod yn bwriadu sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ar sylfaen ehangach, ac nad yw rhianta corfforaethol o anghenraid yn rhywbeth y dylid disgwyl i awdurdodau lleol unigol fod yn gyfrifol amdano. Mae enghreifftiau o arferion da ar waith ar hyn o bryd, a gwn o'r cyfnodau a dreuliais ar awdurdod lleol fod llawer o gynghorwyr yn cymryd eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol o ddifrif. Felly, hoffwn glywed rhagor gennych am sut y bwriadwch sicrhau bod arferion da eisoes sydd ar waith yn y maes hwnnw'n cael eu hailadrodd. Edrychaf ymlaen at eich gweld yn cyflwyno'r Papur Gwyn. Rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn sydd ynddo a chredaf fod angen inni fod ar flaen y gad yn hyn o beth.

**Gwenda Thomas:** Diolch, Nick, a chroeso i'ch portffolio newydd. Crybwyllwyd plant a phobl agored i niwed gennych. Rhoddir pwyslais ar hyn drwy lawer o'r adroddiad hwn. Rhaid inni gofio y bydd hyn yn ein tywys at ddatblygu Papur Gwyn, a fydd ynddo'i hun yn cynnig cyfle arall inni drafod. Dywed un defnyddiwr gwasanaethau yn yr adroddiad mai'r hyn y mae'n dymuno'i gael yw bywyd ac nid gwasanaeth. Mae hynny'n dangos y ffordd yn dda inni; dyna un o'r brawddegau a'm trawodd fwyaf yn yr adroddiad. Rydych yn sôn am bontio a throsglwyddo, ac mae adran am hynny yn yr adroddiad, fel y soniasoch. Ar wahanol gyfnodau yn eich bywyd, os byddwch chi'n dibynnu ar wasanaethau, ni waeth ai plentyn, oedolyn ifanc, ynteu person hŷn ydych chi, nid yw'r pontio o'r naill gyfnod i'r llall wedi

direction on some of these issues. That is not to say that there has not been vast improvement in the delivery of social services—there has been. I pay tribute to local government, the Association of Directors of Social Services Cymru, the Social Services Improvement Agency and the voluntary sector for that improvement. We need to look at what the report says about collaboration and partnership working between the Welsh Assembly Government, ADSS, the WLGA and the private and voluntary sectors. We have good examples of that. We have seen the memorandum of understanding, for example, between various partners.

I am very much taken by the eligibility criteria. If we can move towards the portability of assessment, I believe that that can be underpinned by national eligibility criteria. I believe that it will set out a clear indication that everyone in Wales who has a need, needs to be assessed to the same criteria. We will look forward to developing that in the next few weeks, as we move towards the publication of the White Paper. You mentioned collaboration. I believe—the report underlines this—that we have to clearly identify what is best delivered nationally, what is best delivered regionally, and what is best delivered locally. Local government's role in delivering services locally is important. When we consider children in care, I do not believe that anything focuses the mind more than that—that and vulnerable adults. You mentioned that we have over 5,000 children in care in Wales. That figure is correct, but you need to look at the outcomes as well. The outcomes for children in care can sometimes be better than those for children in need. That is an important issue for us to consider.

You mentioned corporate parenting. I believe that that responsibility is already there. We have responsibility as corporate parents, as

bod yn bopeth y dylai fod bob tro. Credaf y bydd y Papur Gwyn yn rhoi cyfle inni gynnig cyfeiriad clir ar gyfer rhai o'r materion hyn. Nid yw hynny'n golygu nad oes gwelliant enfawr wedi bod o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol—mae pethau wedi gwella. Rhoddaf deyrnged i lywodraeth leol, i Gymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac i'r sector gwirfoddol am y gwelliant hwnnw. Mae angen inni edrych ar yr hyn sydd gan yr adroddiad i'w ddweud am gydweithredu a gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae gennym enghreifftiau da o hynny. Mae gennym y memorandwm dealltwriaeth, er enghraifft, rhwng gwahanol bartneriaid.

Mae'r meini prawf cymhwysedd yn creu cryn argraff arnaf. Os gallwn symud at asesu trosglwyddadwy, credaf y gellir cael meini prawf cymhwysedd cenedlaethol yn sail i hynny. Credaf y bydd yn rhoi arwydd clir bod gofyn asesu pawb sydd ag angen yng Nghymru ar sail yr un meini prawf. Byddwn yn edrych ymlaen at ddatblygu hynny yn yr ychydig wythnosau nesaf, wrth inni symud tuag at gyhoeddi'r Papur Gwyn. Soniasoch am gydweithredu. Credaf—ac mae'r adroddiad yn pwysleisio hyn—ei bod yn rhaid inni wybod yn iawn beth sydd orau i'w ddarparu'n genedlaethol, beth sydd orau i'w ddarparu'n rhanbarthol a beth sydd orau i'w ddarparu'n lleol. Mae swyddogaeth llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau'n lleol yn bwysig. Wrth inni ystyried plant mewn gofal, ni chredaf fod dim byd yn canolbwytio'r meddwl yn fwy na hynny—hynny ac oedolion agored i niwed. Soniasoch fod gennym fwy na 5,000 mewn gofal yng Nghymru. Mae'r ffigur hwnnw'n gywir, ond mae angen ichi edrych ar y canlyniadau hefyd. Gall y canlyniadau i blant mewn gofal fod yn well weithiau na'r canlyniadau i blant mewn angen. Mae hwnnw'n fater pwysig inni ei ystyried.

Soniasoch am rianta corfforaethol. Credaf fod y cyfrifoldeb hwnnw yno eisoes. Mae gennym gyfrifoldeb fel rhieni corfforaethol,

do individual elected members of local government. You know that I have issued—and reissued—letters of guidance on that subject. That also has to be a part of corporate management.

3.40 p.m.

I value your positive comments, and I am sure that you will want to be engaged in this process and to move towards what I hope will be a clearly set out White Paper with clear directions. That would enable us, in the fourth Assembly, to move forward quickly with the implementation of change. I think that we have to do that.

**Sandy Mewies:** Deputy Minister, there is a lot to welcome in this report. It sets out an excellent framework for the future. I certainly look forward to the publication of the White Paper, and what that will mean for children and young people in the future.

There is a section in the report on the transition of young people at various stages in their lives. I refer, in particular, to the transition of young people who leave care. I am also concerned that the support provided for them is inconsistent. I am sure that every Member on this side of the Chamber is delighted that Huw Lewis is ensuring that the Assembly Government is doing everything in its power to mitigate the future effects of the rather spiteful Tory-Lib Dem cuts to the child trust fund with a sum of £500. However, other organisations can give them plenty of support, ranging from local authorities to individual organisations. This support does not necessarily need money, but it needs commitment and effort. I ask you and your Cabinet colleagues to ensure that everything that can be done for these young people in the future, to give them a fair chance in the lives that they plan to lead after leaving care services, is done in a collaborative way.

**Gwenda Thomas:** Thank you, Sandy, for making that very important point. The transition point for children between

fel y mae gan aelodau etholedig unigol llywodraeth leol. Gwyddoch imi gyhoeddi—ac ailgyhoeddi—llythyr canllaw ar y pwnc hwnnw. Rhaid i hynny hefyd fod yn rhan o reolaeth gorfforaethol.

Rwyf yn gwerthfawrogi eich sylwadau cadarnhaol, ac rwyf yn siŵr y byddwch am ymwneud â'r broses hon a symud tuag at yr hyn a fydd, gobeithio, yn Bapur Gwyn sydd wedi'i osod allan yn glir ac yn cynnwys cyfarwyddiadau clir. Byddai hynny'n ein galluogi, yn y pedwerydd Cynulliad, i symud ymlaen yn gyflym i roi newid ar waith. Credaf ei bod yn rhaid inni wneud hynny.

**Sandy Mewies:** Ddirprwy Weinidog, mae llawer i'w groesawu yn yr adroddiad hwn. Mae'n cynnig fframwaith rhagorol ar gyfer y dyfodol. Yn sicr, edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r Papur Gwyn, a'r hyn y bydd hynny'n ei olygu i blant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Mae un o adrannau'r adroddiad yn sôn am y pontydd y bydd pobl ifanc yn eu croesi yn ystod gwahanol gamau yn eu bywyd. Rwyf yn cyfeirio'n benodol at y cyfnod pontio pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal. Rwyf yn poeni hefyd bod y cymorth a ddarperir ar eu cyfer yn anghyson. Rwyf yn siŵr bod pob Aelod ar yr ochr hon i'r Siambr wrth ei fodd bod Huw Lewis yn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth yn ei gallu i liniaru effeithiau toriadau milain braidd y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y gronfa ymddiriedolaeth plant. drwy ddarparu £500. Serch hynny, gall cyrff eraill roi digon o gymorth iddynt, a'r rheini'n amrywio o awdurdodau lleol i gyrff unigol. Nid oes angen arian o reidrwydd er mwyn darparu'r cymorth hwn, ond mae angen ymrwymiad ac ymdrech. Gofynnaf i chi ac i'ch cydweithwyr yn y Cabinet sicrhau bod popeth y gellir ei wneud ar ran y bobl hyn yn y dyfodol, er mwyn rhoi cyfle teg iddynt yn y bywyd y maent yn bwriadu ei fyw ar ôl gadael gwasanaethau gofal, yn cael ei wneud mewn ffordd gydweithredol.

**Gwenda Thomas:** Diolch, Sandy, am wneud y pwynt pwysig iawn hwnnw. Gwelwyd nad yw'r pwynt pontio i blant rhwng

children's services and adult services has been identified as not being consistent enough. Sometimes, it is the point at which some young people are let down. However, I will say again that there have been improvements, and that local government has taken steps to improve that transition. The Children (Leaving Care) Act 2000 provides significant duties for local authorities to support young care leavers up to the age of 21, or up to the age of 25 in certain circumstances. We will be consulting on changes in early 2011 that will strengthen support for 16 and 17-year-olds who may have left care but who might want to reconnect. Therefore, positive things are happening. However, we need to identify transition issues very quickly in order to do our best for children leaving care. I want to express my own disappointment at the ending of child trust funds. This is a backward step for children in care. Nevertheless, Huw Lewis, the Deputy Minister for Children, has made positive announcements on the way forward for that in Wales.

**Veronica German:** Thank you for your statement, Deputy Minister. I will join everyone else in thanking the commission for its work. This is indeed a report of much depth, which contains an awful lot to contemplate and think about. At this stage, we are all taking it in and digesting it.

One point in the report relates to the issue of collaboration. You have already mentioned that we should look at which services would best be delivered locally, regionally and nationally. However, the commission recommends the local health board footprint. I know that you do not want to give a specific answer on the recommendations, as such, but is the general idea of a link between health and social services a good way forward? The commission also talks about the plethora of partnerships that exist. It says that, by taking a regional approach, we could cut down on the number of partnerships and possibly deliver a much better service to people. I would be interested to hear your views on that.

One thing that I am particularly interested in

gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn ddigon cyson. Weithiau, dyma'r pwynt lle bydd rhai pobl ifanc yn cael cam. Serch hynny, dywedaf unwaith eto fod pethau wedi gwella a bod llywodraeth leol wedi cymryd camau i wella'r cyfnod pontio hwnnw. Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 yn rhoi dyletswyddau sylweddol i awdurdodau lleol gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed o dan rai amgylchiadau. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â newidiadau'n gynnar yn 2011 a fydd yn cryfhau'r cymorth i bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd o bosibl wedi gadael gofal ond sydd efallai am ailymgysylltu. Felly, mae pethau cadarnhaol ar droed. Serch hynny, mae angen inni weld beth yw'r anawsterau yn y cyfnod pontio'n fuan iawn er mwyn gwneud ein gorau glas dros blant sy'n gadael gofal. Rwyf am ddweud fy mod innau'n siomedig o weld y cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn dod i ben. Dyma gam yn ôl i blant mewn gofal. Serch hynny, mae Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant wedi gwneud cyhoeddiadau cadarnhaol ynglŷn â'r ffordd ymlaen o ran hynny yng Nghymru.

**Veronica German:** Diolch ichi am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Ymunaf â phawb arall i ddiolch i'r comisiwn am ei waith. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cryn ddyfnder, a llawer iawn i rywun feddwl amdano a'i ystyried. Ar hyn o bryd, rydym i gyd yn ei lyncu a'i dreulio.

Mae a wnelo un pwynt yn yr adroddiad â chydweithredu. Rydych eisoes wedi crybwyll y dylem ystyried pa wasanaethau y byddai'n well eu darparu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r comisiwn yn argymhell ôl troed y bwrdd iechyd lleol. Gwn nad ydych am roi ateb penodol am yr argymhellion eu hunain, ond a yw'r syniad cyffredinol o gael dolen rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ffordd dda o fwrw ymlaen? Mae'r comisiwn yn sôn hefyd am y llu o bartneriaethau sydd ar waith. Mae'n dweud, wrth fynd ati ar sail ranbarthol, y gallem gwtogi nifer y partneriaethau ac o bosibl sicrhau gwasanaeth gwell o lawer i bobl. Byddai'n dda gennyf glywed eich barn am hynny.

Un peth y mae gennyf ddiddordeb penodol



is giving people control over the services that they receive. Again, the quotations in the report really bring it to life. You mentioned one, and I had planned to mention one that is very close to that. A service user said that it is very frightening not to know who is coming through the door. That is a terrible reflection on the situation—for someone to be frightened because they do not know who is coming in to deliver the service because, every day, they get somebody different. Could you give your opinion on how direct payments and, possibly, personalised budgets could fit into this idea? Are you perhaps thinking of putting these expanding direct payments or personalised budgets into the White Paper? It is very clear from the report that giving people a voice and control over the services that they use is very important to them.

You have already talked about portable assessments, which was another issue that I was going to raise. It is something that we can all agree is sensible. It is ridiculous that if someone simply moves down the road into another local authority area—it could literally be down the road—they suddenly require another assessment, when their needs are clearly the same as they were the hour before they moved.

There is also mention of assessments being overly bureaucratic and too concerned with process and that we measure lots of processes and collect those data, but do not collect data on the outputs and outcomes to the same extent. How do you see this being taken forward? One of the other issues in the statement is that social services need to seize opportunities for efficiency and transformational change. Have you given any consideration to local authorities wishing to deliver their care services on a different model, perhaps using social enterprise? Is that something that you might bring into your White Paper?

Lastly, an issue that has been brought to me by social workers in the past, which I notice is mentioned in this report—it contains

ynndo yw rhoi rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau a gânt. Unwaith eto, mae'r dyfyniadau yn yr adroddiad yn dod â'r cyfan yn wirioneddol fyw. Crybwyllwyd un gennyh chi, ac roeddwn innau'n bwriadu sôn am un sy'n debyg iawn iddo. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth ei fod yn brofiad dychrynlyd iawn peidio â gwybod pwy sy'n dod drwy'r drws. Mae hynny'n adlewyrchiad ofnadwy ar y sefyllfa—i rywun deimlo'n ofnus oherwydd nad yw'n yn gwybod pwy sy'n dod i ddarparu'r gwasanaeth oherwydd, y bydd rhywun gwahanol yn dod bob dydd. A allech roi eich barn chi am berthynas taliadau uniongyrchol ac, o bosibl, cyllidebau personol â'r syniad hwn? A ydych efallai'n ystyried cynnwys y taliadau uniongyrchol neu'r cyllidebau personol hyn, trefniant sy'n ehangu, yn y Papur Gwyn? Mae'n amlwg iawn o'r adroddiad fod rhoi llais a rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio'n bwysig iawn iddynt.

Rydych wedi sôn eisoes am asesiadau trosglwyddadwy, sy'n fater arall yr oeddwn am ei godi. Mae'n rhywbeth y gallwn i gyd gytuno ei fod yn beth call. Mae'n hurt os bydd rhywun yn symud i lawr y ffordd i ardal awdurdod lleol arall—gallai'n llythrennol fod i lawr y ffordd—fod angen asesiad arall arno'n sydyn, er bod ei anghenion yn amlwg yr un fath ag yr oeddent awr cyn symud.

Sonnir hefyd fod asesiadau'n orfiwrocraidd, bod gormod o ymboeni am broses a'n bod yn mesur llawer o brosesau ac yn casglu'r data hynny, ond nad ydym yn casglu data am yr allbynnau a'r canlyniadau i'r un graddau. Sut y gwelwch hyn yn cael ei ddatblygu? Un o'r pethau eraill y soniwyd amdano yn y datganiad oedd bod angen i wasanaethau cymdeithasol achub ar gyfleoedd i fod yn effeithlon a sicrhau trawsnewid. A ydych wedi ystyried o gwbl y gallai awdurdodau lleol fod yn dymuno darparu eu gwasanaethau gofal ar sail model gwahanol, gan ddefnyddio menter gymdeithasol er enghraifft? A yw hynny'n rhywbeth y gallech ei gynnwys yn eich Papur Gwyn?

Yn olaf, un mater y mae gweithwyr cymdeithasol wedi tynnu fy sylw ato yn y gorffennol, a sylwaf fod hynny'n cael ei

quotations on that—is the integrated children's system and the problems that social workers have had just entering the data. Everyone knows that we need to share these data and that that is very important. Data not being shared is one of the big issues and where problems arise. However, the very process of putting it into the computer system has proven very problematic for a number of people. Is this something that should be taken forward on a national basis, rather than local authorities each doing their individual thing and different systems being developed? I look forward to seeing the White Paper. Perhaps you could indicate the timescale for bringing it forward.

**Gwenda Thomas:** Thank you, Veronica. I thank you, Nick and Helen Mary, for meeting me this morning. You mentioned collaboration and the LHB footprint. This is clearly suggested by the commission, and I am sure that we will want to take account of that in developing the thinking behind the White Paper. There is this need for integrated working between health and social services, and the LHB footprint might be a way of providing that. I am not going to anticipate what the White Paper will say, but I think that there is a clear indication that that sort of model could work in the commission's view. You also mentioned collaboration with other partners—the WLGA and ADSS. Of course, that is crucial, and I would like to pay tribute to the WLGA, again, and ADSS and the Social Services Improvement Agency for their work on the collaborative agenda. I have seen excellent examples of collaboration, which I am sure that we could share with Members if that is wanted.

3.50 p.m.

You talked about control by the service user; I would like to add to that the voice of the service user, and to say that I do not believe

grybwyll yn yr adroddiad hwn—mae'n cynnwys dyfyniadau ynglŷn â hynny—yw'r system integredig ar gyfer plant a'r problemau y mae gweithwyr cymdeithasol wedi'u hwynebu dim ond wrth geisio cofnodi'r data. Mae pawb yn gwybod bod angen inni rannu'r data hynny a bod hynny'n bwysig iawn. Peidio â rhannu data yw un o'r problemau mawr ac un o'r pethau sy'n achosi problemau. Serch hynny, mae union broses bwydo'r data i'r system gyfrifiadurol wedi bod yn broblem fawr i nifer o bobl. A yw hyn yn rhywbeth y dylid bwrw ymlaen ag ef ar sail genedlaethol, yn hytrach na bod pob awdurdod lleol yn mynd ati eu hunain gan ddatblygu gwahanol systemau? Edrychaf ymlaen at weld y Papur Gwyn. Efallai y gallech ddweud beth fydd yr amserlen ar gyfer ei gyflwyno.

**Gwenda Thomas:** Diolch, Veronica. Rwyf am ddiolch i chi, i Nick ac i Helen Mary, am gyfarfod â mi y bore yma. Soniasoch am gydweithredu ac ôl-troed y bwrdd iechyd lleol. Mae'r comisiwn yn awgrymu hyn yn glir, ac rwyf yn siŵr y byddwn am ystyried hynny wrth ddatblygu'r syniadau sy'n gefn i'r Papur Gwyn. Mae angen y gweithio cyfannol hwn rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac efallai mai defnyddio ôl troed y BILl fyddai un ffordd o wireddu hynny. Nid wyf yn bwriadu rhagweld beth y bydd y Papur Gwyn yn ei ddweud, ond credaf fod awgrym clir y gallai'r math hwnnw o fodel weithio ym marn y comisiwn. Soniasoch hefyd am gydweithredu â phartneriaid eraill—Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth gwrs, mae hynny'n hollbwysig, a hoffwn roi teyrnged unwaith eto i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith ar yr agenda gydweithredol. Rwyf wedi gweld enghreifftiau rhagorol o gydweithredu yr wyf yn siŵr y gallem eu rhannu â'r Aelodau os dynt yn dymuno hynny.

Soniasoch am reolaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaethau; hoffwn ychwanegu at hynny lais defnyddiwr y gwasanaethau, gan ddweud

that the commission is going as far as to suggest a personalisation agenda in the way that is currently being rolled out in England. That is spread across services. It is not confined to social services, and we in Wales are not convinced by that model. However, we need to further encourage local authorities to develop direct payments. We have seen numbers increase; there are now approximately 2,600 people in Wales receiving direct payments, but there is more work to be done. We also need to be sure that we have the support services to support the administration of direct services.

I agree with your comments on portable assessments. I will not say any more about that, but I absolutely agree; I see no sense, if a person moves from Carmarthen to Caerphilly or wherever, in them not being able to take the assessment with them. That would be a step forward.

Your point on ICT is well made. There is already a task group established to look at this, and we need to free up more time for social workers to work with families and individuals. I look forward to the report of that task group.

You mentioned efficiencies. I am sure that we will develop that thinking in the next few weeks as we prepare for the White Paper.

**Helen Mary Jones:** Croesawaf y datganiad hwn gan y Dirprwy Weinidog. Diolch yn fawr ichi, Gwenda, am y wybodaeth a gefais gennych ddoe. Ategfaf y diolchiadau a roddwyd eisoes gan eraill i'r Athro Pearson a'i gyd-gomisiynwyr. Fel eraill, edrychaf ymlaen at ystyried yr argymhellion yn ddwys ac i graffu ar y Papur Gwyn pan y'i cyhoeddir yn y flwyddyn newydd.

Mae'n destun balchder inni i gyd glywed bod y comisiwn yn derbyn yr holl waith cadarnhaol sydd wedi'i wneud ac yn cael ei wneud yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yr ydym bob amser yn clywed pan aiff rhywbeth o'i le, ond ni chlywn am y miloedd

nad wyf yn credu bod y comisiwn yn mynd cyn belled ag awgrymu agenda bersonoleiddio yn y ffordd y mae'n cael ei lledaenu yn Lloegr ar hyn o bryd. Mae hynny'n cael ei daenu ar draws gwasanaethau. Nid yw wedi'i gyfyngu i wasanaethau cymdeithasol ac nid ydym ni yng Nghymru wedi ein hargyhoeddi gan y model hwnnw. Serch hynny, mae angen inni annog awdurdodau lleol i ddatblygu rhagor ar daliadau uniongyrchol. Rydym wedi gweld niferoedd yn cynyddu; mae oddeutu 2,600 o bobl yng Nghymru bellach yn cael taliadau uniongyrchol, ond mae rhagor o waith i'w wneud. Mae angen inni fod yn siŵr hefyd fod gennym y gwasanaethau cymorth i fod yn gefn i weinyddu gwasanaethau uniongyrchol.

Rwyf yn cytuno â'ch sylwadau am asesiadau trosglwyddadwy. Ni ddywedaf ragor am hynny, ond rwyf yn cytuno'n llwyr. Ni welaf ddim synnwyr, os bydd rhywun yn symud o Gaerfyrddin i Gaerffili neu i ba le bynnag, na chaiff fynd â'i asesiad gydag ef. Byddai hynny'n gam ymlaen.

Mae eich pwynt am TGCh yn bwynt da. Mae tasgrwp wedi'i sefydlu eisoes i edrych ar hyn, ac mae angen inni ryddhau rhagor o amser i weithwyr cymdeithasol weithio gyda theuluoedd ac unigolion. Edrychaf ymlaen at adroddiad y tasgrwp hwnnw.

Soniasoch am arbedion effeithlonrwydd. Rwyf yn siŵr y byddwn yn datblygu'r syniadau hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf wrth inni baratoi ar gyfer y Papur Gwyn.

**Helen Mary Jones:** I welcome this statement by the Deputy Minister. Thank you very much, Gwenda, for the briefing that I had yesterday. I echo the thanks already given by others to Professor Pearson and his fellow commissioners. Like others, I look forward to considering the recommendations in detail, and to scrutinising the White Paper when it is published in the new year.

It is a matter of pride for us all to hear that the commission accepts all the positive work that has been done and continues to be done in social services. We always hear about it when something goes wrong, but we do not hear about the thousands of children who are

o blant sydd yn cael eu cynnal a'u cadw, a'r miloedd o bobl hen, anabl a bregus sydd yn cael gwasanaethau gwych. Mae'n briodol bod y mwyafrif ohonom heddiw, wrth gyfrannu at y ddadl ar y datganiad hwn, wedi cyfeirio at y ffaith bod cymaint o waith da yn cael ei wneud gan weithlu sydd, ar y cyfan, yn gwneud ei orau, weithiau o dan amgylchiadau anodd.

It is pleasing that the commission finds that the description 'Fulfilled Lives, Supportive Communities' still holds good. However, Deputy Minister, you will be aware that, in the process of developing that strategy, some people were concerned that children services were somewhat bolted on to a strategy that focused on adult social services. I seek your assurance this afternoon that the provision of services to children, in the light of this report and others, will be at the heart of the White Paper. Do you agree that, while we obviously need to treat children services in a different way from adult social services, it is important that they are not seen as an add-on to adult social services or, as has sometimes been the case in local government, put in a big children services' department with education, where they risk getting lost?

There are many other developments, of course, Deputy Minister, and you referred to some of these in your statement, that will affect the White Paper process and the eventual strategy arising from it. Could you outline how some of the issues around paying for care that are being addressed at present will be addressed through the White Paper process and the development of the strategy? We are limited in Wales as to the extent to which we can develop a completely discrete process; while many of us might like to be able to provide care completely for free, we may not have the budgetary freedom to do so. I hope that you will be able to indicate how we will go about developing a made-in-Wales and made-for-Wales approach to this issue, which we have already begun by capping care charges. I would suggest that

supported, and the thousands of elderly, disabled and vulnerable people that receive excellent services. It is appropriate that most of us today, in contributing to the debate on this statement, have referred to the fact that so much good work is done by a workforce that, on the whole, does its best, sometimes in difficult circumstances.

Mae'n beth braf clywed bod y comisiwn yn meddwl bod y disgrifiad 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' yn dal yn ddilys. Serch hynny, Ddirprwy Weinidog, gwyddoch, wrth ddatblygu'r strategaeth honno, fod rhai pobl yn poeni bod gwasanaethau plant wedi cael eu hychwanegu braidd ar gefn strategaeth a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion. Rwyf yn ceisio sicrwydd gennych y prynhawn yma y bydd darparu gwasanaethau i blant, yng ngoleuni'r adroddiad hwn ac adroddiadau eraill, wrth wraidd y Papur Gwyn. A gytunwch chi, er ei bod yn amlwg bod angen inni ymdrin â gwasanaethau plant mewn ffordd wahanol i'r ffordd y byddwn yn ymdrin â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ei bod yn bwysig nad ydynt yn cael eu gweld yn rhyw fath o ychwanegyn at wasanaethau cymdeithasol i oedolion, neu, fel sydd wedi bod yn wir weithiau mewn llywodraeth leol, eu bod yn cael eu rhoi mewn adran gwasanaethau plant fawr gydag addysg, lle mae perygl iddynt fynd ar goll?

Mae llawer o ddatblygiadau eraill, wrth gwrs, Ddirprwy Weinidog, ac fe gyfeiriwyd at rai o'r rhain yn eich datganiad, a fydd yn effeithio ar broses y Papur Gwyn ac ar y strategaeth a fydd yn codi ohoni maes o law. A allech ddweud sut y bydd rhai o'r ystyriaethau ynglŷn â thalu am ofal sy'n cael sylw ar hyn o bryd yn cael eu trafod ym mhroses y Papur Gwyn ac wrth ddatblygu'r strategaeth. Mae cyfyngiadau arnom yng Nghymru o ran i ba raddau y gallwn ddatblygu proses gwbl ar wahân, er y byddai llawer ohonom yn hoffi gallu darparu gofal yn hollol ddi-dâl, efallai na fydd gennym y rhyddid cyllidebol i wneud hynny. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn gallu dweud sut y byddwn yn mynd ati i ddatblygu dull sydd wedi'i wneud yng Nghymru ac wedi'i wneud ar gyfer Cymru i ymdrin â hyn. Rydym

the Minister for education's work this afternoon on higher education sets us an example of how, potentially, we can pick up some of what needs to be done and do it in a different way here.

In your statement, Minister, you mentioned resource pressures and the recent budgetary decisions. You will be aware that there are those who are concerned that the soft ring fencing in the revenue support grant to local authorities for social services may not provide sufficient rigour to ensure that resources are not transferred elsewhere. Will you once again put on record your understanding of what this Government expects from the soft ring-fencing of the social services budget? What are your expectations of local government in this regard? What steps will the Government take to monitor the delivery of those expectations, and how will you proceed if you find that an authority is not meeting those expectations? I believe that the Government's intention is clear, but there is concern out there, and the more often that it is put clearly on the table that soft ring fencing is still ring fencing, the more helpful it is, because some out there are concerned that soft ring fencing can end up being no ring fencing at all.

Finally, to return to the question of national eligibility criteria, I look forward to studying in more detail what the commissioner has to say about this. We talked about budgeting in the Children and Young People Committee this morning with some of the major children's voluntary organisations. They expressed concerns to the committee about cost pressures potentially driving up eligibility thresholds. They were pleased to see the soft ring fencing, but they pointed out the increased demand on children's services, in particular, and also on adult services. They raised the issue of cost pressures driving up eligibility thresholds, which could result in long-term damage to children and families, and a higher cost to services. Therefore, could you say a little more this afternoon about your initial response to the idea of

eisoes wedi rhoi cychwyn arni drwy gapio taliadau am ofal. Byddwn yn awgrymu bod gwaith y Gweinidog dros addysg y prynhawn yma ar addysg uwch yn gosod esiampl inni ynglŷn â sut, o bosibl, y gallwn gael gafael ar rywfaint o'r pethau y mae angen eu gwneud a gwneud pethau mewn ffordd wahanol yma.

Yn eich datganiad, Weinidog, soniwyd am bwysau ar adnoddau a'r penderfyniadau diweddar am y gyllideb. Gwyddoch fod rhai'n poeni ei bod yn bosibl na fydd y drefn neilltuo meddal ar gyfer y grant cynnal refeniw i awdurdodau lleol yng nghyswllt gwasanaethau cymdeithasol yn ddigon cadarn i sicrhau na chaiff adnoddau eu trosglwyddo i rywle arall. A wnewch unwaith eto gofnodi eich dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ei ddisgwyl wrth ddweud mai trefn neilltuo meddal a fydd ar waith ar gyfer y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol? Beth yr ydych yn ei ddisgwyl gan lywodraeth leol yn y cyswllt hwn? Pa gamau a gymer y Llywodraeth i fonitro bod y disgwyliadau hynny'n cael eu cyflawni, a beth a wnewch wedyn os gwelwch nad yw awdurdod yn cyflawni'r disgwyliadau hynny? Credaf fod bwriad y Llywodraeth yn glir, ond mae pobl yn poeni, a pho fwyaf aml y dywed rhywun yn bendant mai neilltuo yw neilltuo, neilltuo meddal neu beidio, mwyaf o help fydd hynny, oherwydd mae rhai pobl yn y byd mawr y tu allan yn poeni y gall neilltuo meddal, maes o law, olygu dim neilltuo o gwbl.

Yn olaf, a dychwelyd at fater meini prawf cymhwysedd cenedlaethol, edrychaf ymlaen at astudio'n fwy manwl yr hyn sydd gan y comisiynydd i'w ddweud am hyn. Buom yn sôn am gyllideb yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y bore yma gyda rhai o'r prif fudiadau gwirfoddol ar gyfer plant. Roeddent yn dweud wrth y pwyllgor eu bod yn poeni y gallai'r pwysau ar gostau arwain at godi trothwyon cymhwysedd. Roeddent yn falch o weld y neilltuo meddal, ond yn tynnu sylw at y galw cynyddol ar wasanaethau plant, yn benodol, a hefyd ar wasanaethau oedolion. Soniwyd y gallai'r pwysau ar gostau olygu bod y trothwyon cymhwysedd yn codi, ac y gallai arwain at niwed tymor hir i blant a theuluoedd a chost uwch i wasanaethau. Felly, a allech ddweud ychydig yn rhagor y prynhawn yma am eich ymateb cychwynnol

national eligibility criteria, and how that could possibly prevent some of the situations from arising that people raised concerns about in this morning's committee?

**Gwenda Thomas:** Diolch i chi hefyd am gyfarfod â mi cyn y datganiad heddiw. Rwyf yn cyd-fynd â chi ei bod hi'n werth nodi fod y comisiwn wedi cymeradwyo'r gwaith sydd yn cael ei wneud bob dydd i amddiffyn a chynorthwyo'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r comisiwn am wneud hynny. Mae'r comisiwn hefyd wedi nodi ei bod hi'n bwysig ein bod yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng iaith gyntaf pobl. Mae sôn am anghenion iaith. Nid yw'n rhywbeth y mae'n braf gallu ei ddarparu, os yw rhywun yn digwydd siarad Cymraeg; mae'r comisiwn yn tanlinellu'r angen am ddarpariaeth iaith mewn gwasanaethau. Rwyf yn falch o weld hynny.

You talked about children's services and said that you want an assurance—I also want that, and I am sure that the White Paper will provide this—that children's services will remain an integrated part of social services and the wider social care agenda. In my view, that must be the only way forward for children's services. We also made that point in relation to young carers in the Carers Strategies (Wales) Measure 2010. We have been consistent in what we have said about the need to integrate children's needs with those of the wider age spectrum.

Paying for care is an issue for us. We know that the commission in England will not report until July of next year, I believe. I am disappointed that there is no specific Welsh voice on that commission, as it will impact on us, because that commission will deal with non-devolved issues such as taxation, national insurance, benefits and pensions. So, it is important that we feed into that process. In fairness, there has been a willingness to take evidence from us. If you recall the Green Paper on paying for care on which we took evidence and consulted, that has been made available to the English commission, so we must await what the commission has to say. As a Welsh Assembly Government, we know that providing free care is not affordable for

i'r syniad o feini prawf cymhwysedd cenedlaethol, a sut y gallai hynny atal rhai o'r sefyllfaoedd yr oedd pobl yn poeni amdanynt yn y pwyllgor y bore yma rhag codi?

**Gwenda Thomas:** Thank you also for meeting me before the statement today. I agree with you that it is worth noting that the commission has approved the work that is being done every day to protect and help the most vulnerable in our society, and I am grateful to the commission for doing that. The commission has also noted that it is important that we can deliver services in people's first language. There is mention of language needs. It is not something that it is nice to do, if someone happens to speak Welsh; the commission emphasises the need for language provision in services. I am pleased to see that.

Soniasoch am wasanaethau plant gan ddweud eich bod am gael sicrwydd—rwyf finnau am gael sicrwydd hefyd, ac rwyf yn siŵr y gwnaiff y Papur Gwyn ddarparu hyn—y bydd gwasanaethau plant yn dal yn rhan integredig o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r agenda gofal cymdeithasol ehangach. Yn fy marn i, dyna'r unig ffordd bosibl ymlaen i wasanaethau plant. Gwnaethom y pwynt hwnnw hefyd yng nghyswllt gofaluwr ifanc ym Mesur Strategaethau Gofaluwr (Cymru) 2010. Rydym wedi bod yn gyson yn yr hyn yr ydym wedi'i ddweud ynglŷn â'r angen i integreiddio anghenion plant ag anghenion y sbectwm oedran hŷn.

Mae talu am ofal yn broblem inni. Gwyddom na wnaiff y comisiwn yn Lloegr gyflwyno'i adroddiad tan fis Gorffennaf y flwyddyn nesaf, mi gredaf. Rwyf yn siomedig nad oes llais penodol gan Gymru ar y comisiwn hwnnw, gan y bydd yn effeithio arnom ni, oherwydd y bydd y comisiwn hwnnw'n ymdrin â materion sydd heb eu datganoli, megis trethu, yswiriant gwladol, budd-daliadau a phensiynau. Felly, mae'n bwysig inni fwydo i'r broses honno. A bod yn deg, maent wedi bod yn barod i dderbyn tystiolaeth gennym. Os cofiwch y Papur Gwyrdd am dalu am ofal y buom yn derbyn tystiolaeth ar ei gyfer ac yn ymgynghori yn ei gylch, mae hwnnw wedi'i ddarparu ar gyfer comisiwn Lloegr, felly, rhaid inni ddisgwyl i

us, but we also know that on 1 April next year, we will introduce a cap of £50 a week on a package of non-residential care for people who need that in Wales. I take your point about the threshold of eligibility, and that is why it is important that we move towards a national eligibility criterion so that there are no local inconsistencies about where that threshold lies. That is the only way to achieve consistency, and I am grateful to the ADSS and the WLGA for their positive press responses today.

weld beth fydd gan y comisiwn i'w ddweud. Gwyddom ni, Lywodraeth Cynulliad Cymru, na allwn fforddio darparu gofal am ddim, ond gwyddom hefyd, ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, y byddwn yn cyflwyno cap o £50 yr wythnos ar becyn o ofal dibreswyl i bobl y mae angen y gofal hwnnw arnynt yng Nghymru. Rwyf yn derbyn eich pwynt am y trothwy cymhwysedd, a dyna pam mae'n bwysig inni symud at faen prawf cymhwysedd cenedlaethol fel nad oes dim anghysonderau lleol ynglŷn â'r trothwy hwnnw. Dyna'r unig ffordd o sicrhau cysondeb, ac rwyf yn ddiolchgar i Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu hymatebion cadarnhaol yn y wasg heddiw.

4.00 p.m.

We know that there are pressures, not only from reduced resources, but also from changing demographics. We know that we have to face, or, I should say, celebrate the fact that we are living longer. The draft budget that Jane Hutt has announced has very much realised that and that vulnerability needs to be a primary consideration for us. That has been a positive step by the Welsh Assembly Government.

Gwyddom fod pwysau, nid dim ond oherwydd bod llai o adnoddau, ond hefyd yn sgil newidiadau demograffig. Gwyddom ei bod yn rhaid inni wynebu, ynteu, a ddylwn ddweud, ddathlu'r ffaith ein bod yn byw'n hwy. Mae'r gyllideb ddrafft y mae Jane Hutt wedi'i chyhoeddi wedi cydnabod hynny i raddau helaeth a bod angen i'r sawl sy'n agored i niwed fod yn un o'n prif ystyriaethau. Mae hynny wedi bod yn gam cadarnhaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

You talked about soft ring fencing. In fairness, local government widely has a commitment to invest in social services and to do its best for the vulnerable within its areas. I do not sense that there will be a move away from that. You might know that I have set up a cross-party group to work within the WLGA, and I am also grateful for that commitment. If we can move on the basis of a cross-party principle in the development of this White Paper, it will serve us all well. I think that that covers your points, Helen Mary.

Soniwyd am neilltuo meddal. A bod yn deg, mae llywodraeth leol drwyddi draw wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol a gwneud ei gorau dros y rhai agored i niwed yn ei hardaloedd. Nid wyf yn synhwyro y gwelir symud oddi wrth hynny. Efallai y gwyddoch fy mod wedi sefydlu grŵp trawsbleidiol i weithio o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rwyf yn ddiolchgar am yr ymrwymiad hwnnw hefyd. Os gallwn symud ymlaen ar sail egwyddor drawsbleidiol wrth ddatblygu'r Papur Gwyn hwn, bydd hynny'n beth da inni i gyd. Credaf fod hynny'n ateb eich pwyntiau, Helen Mary.

**Brian Gibbons:** I, too, congratulate the commission on an excellent report, although I have only been able to get to the executive summary. I look forward to reading the full report, because the executive summary and

**Brian Gibbons:** Rwyf finnau, hefyd, yn llongyfarch y comisiwn ar adroddiad rhagorol, er mai dim ond y crynodeb gweithredol yr wyf wedi llwyddo i'w ddarllen hyd yn hyn. Edrychaf ymlaen at

the Deputy Minister's statement today show that this will be an important document.

The key point, which the Deputy Minister highlighted in her opening comments about the crucial importance of basing our social services, not on the random circumstances that affect the individual, but on the principle of social solidarity, is absolutely correct, because none of us can predict when misfortune will befall us, and few of us will find ourselves in the situation of being certain that all our care needs will be met in a market context. Therefore, the principle of social solidarity is crucial.

The message about the need for a voice and control is important. The need for a voice has been well enunciated in the past, but the dimension of control is a new challenge for us. It is a new challenge for delivery in a public service model. I do not think that we have been good enough at delivering that up to now in the public service model. We must acknowledge that, in some circumstances where such control is not possible in a public service model, it may be necessary for other options to be made available, such as the individualisation of budgets. However, the challenge is that we must deliver on the need for a voice and control in a public service model, rather than going down the road of commercialisation and fragmentation that exists elsewhere.

I was pleased to see your point on collaboration in the commission report, and I was particularly pleased to see the importance of maintaining the local LHB footprint as the basis on which collaboration will take place. Coterminousity was necessary when the original local health boards were established, but now that we have a changed NHS configuration, as we have established local, regional and national dimensions to services, working with that LHB footprint to build on coterminousity is also important.

If I may raise one point of clarification, local accountability is important, and the fact that

ddarllen yr adroddiad llawn, oherwydd mae'r crynodeb gweithredol a datganiad y Dirprwy Weinidog heddiw yn dangos y bydd hon yn ddogfen bwysig.

Y pwynt allweddol, y tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw ato yn ei sylwadau agoriadol am hollbwysigrwydd seilio ein gwasanaethau cymdeithasol, nid ar yr amgylchiadau ar hap sy'n effeithio ar yr unigolyn, ond ar egwyddor cadernid cymdeithasol, yn gwbl gywir. Ni all neb ohonom ragweld pa bryd y daw anffawd i'n rhan, ac ychydig ohonom a fydd yn ein cael ein hunain yn y sefyllfa lle byddwn yn sicr y caiff ein holl anghenion gofal eu diwallu yng nghyd-destun y farchnad. Felly, mae egwyddor cadernid cymdeithasol yn hollbwysig.

Mae'r neges ynglŷn â bod angen llais a rheolaeth yn bwysig. Mynegwyd yn glir yn y gorffennol bod angen llais, ond mae dimensiwn rheolaeth yn her newydd inni. Mae'n her newydd ar gyfer darparu drwy gyfrwng model gwasanaeth cyhoeddus. Ni chredaf inni wneud yn ddigon da hyd yn awr yn darparu drwy gyfrwng y model gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid inni gydnabod, o dan rai amgylchiadau, lle nad yw rheolaeth o'r fath yn bosibl mewn model gwasanaeth cyhoeddus, y gall fod angen inni ddarparu opsiynau eraill, megis personoleiddio cyllidebau. Serch hynny, yr her yw ei bod yn rhaid inni ymateb i'r angen am lais a rheolaeth mewn model gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na mynd ar drywydd y masnacheiddio a'r darnio sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Roeddwn yn falch o weld eich pwynt am gydweithredu yn adroddiad y comisiwn, ac roeddwn yn arbennig o falch o weld y pwyslais ar gadw ôl-troed y BILL lleol yn sylfaen ar gyfer y cydweithredu. Roedd sicrhau'r un ffiniau'n angenrheidiol pan sefydlwyd y byrddau iechyd lleol gwreiddiol ond yn awr, a ffurfweddiad y GIG wedi newid, a ninnau wedi sefydlu dimensiynau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau, mae'n bwysig hefyd inni weithio gydag ôl troed y BILL er mwyn adeiladu ar sail y patrwm cydffiniol hwnnw.

Os caf godi un pwynt o eglurhad, mae atebolrwydd lleol yn bwysig, a'r ffaith y



local government will continue to be responsible is an important statement of principle. However, as part of a collaboration exercise, would it be compatible with the views of the report to allow, for example, a single management structure for social services to exist across a local health board area? We know that there would be clear leadership capacity in doing it that way, while retaining local control.

My last point is that I was a little disappointed that there was not enough in the report about the staff who are delivering social care services— although it may be there in the detail, as I shall find when I have an opportunity to read it. There is a lot about the services that are being provided, but the staff themselves did not feature, nor the stresses and strains of their work, the lack of continuity, the instability, the bureaucratic assessment processes, and so on. I did not see enough of that in the executive summary, but hopefully, the document looks at the needs of staff. If it is not in the detail of the document, it may be something that you would devote some attention to in your White Paper.

**Gwenda Thomas:** I pay tribute to you, Brian—you introduced ‘Fulfilled Lives, Supportive Communities’, and the commission’s report identifies an opportunity to build on that work. It shows that we got the principles right at that time, and that we are starting from a strong base. I do not know about the executive summary, but I will show that I have read the whole report, because it does point out that we are starting from that strong base. I agree that this is a societal responsibility, and that risk should not be left to individuals. I am sure that we would all endorse that. You talk about the market, and my belief is that the service should shape the market, and not the other way around. It is right to pay tribute to the collaborative work of Care Forum Wales, and the way that it has developed the recognition of the staff role and the need for dignity, care and high-quality services. I have mentioned this afternoon the memorandum of understanding that, even four years ago, we would not have dreamt could become reality; but we have it now.

bydd llywodraeth leol yn dal i fod yn gyfrifol yn ddatganiad pwysig o egwyddor. Serch hynny, fel rhan o ymarfer cydweithredu, a fyddai’n gydnaws â barn yr adroddiad inni ganiatáu er enghraifft, i un strwythur rheoli fodoli ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar draws ardal bwrdd iechyd lleol? Gwyddom y byddai capasiti arwain clir o’i gwneud hi felly, ac ar yr un pryd y byddai modd cadw rheolaeth leol.

Fy mhwynt olaf yw fy mod braidd yn siomedig nad oedd digon yn yr adroddiad am y staff sy’n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol—er ei fod yno efallai yn y manylion, fel y caf weld pan gaf gyfle i’w ddarllen. Mae llawer o sôn am y gwasanaethau sy’n cael eu darparu ond nid oedd sôn am y staff eu hunain, nac am y straen a’r pwysau y maent dano yn eu gwaith, y diffyg parhad, yr ansefydlogrwydd, y prosesau asesu biwrocraidd ac ati. Ni welais ddigon o hynny yn y crynodeb gweithredol, ond gobeithio bod y ddogfen yn edrych ar anghenion staff. Os nad yw ym manylion y ddogfen, efallai y byddai’n rhywbeth y byddech yn rhoi rhywfaint o sylw iddo yn eich Papur Gwyn.

**Gwenda Thomas:** Rwyf am roi teyrnged ichi, Brian—chi a gyflwynodd ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol’, ac mae adroddiad y comisiwn yn tynnu sylw at gyfle i adeiladu ar y gwaith hwnnw. Mae’n dangos bod yr egwyddorion yn iawn gennym bryd hynny, a’n bod yn cychwyn ar sylfaen gadarn. Ni wn am y crynodeb gweithredol, ond fe ddangosaf imi ddarllen yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, oherwydd mae’n tynnu sylw at y ffaith ein bod yn cychwyn o’r sylfaen gadarn honno. Rwyf yn cytuno mai cyfrifoldeb cymdeithas yw hyn ac na ddylid gadael i unigolion ysgwyddo’r risg honno. Rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Rydych yn sôn am y farchnad, ac rwyf fi’n credu mai’r gwasanaeth a ddylai siapio’r farchnad, ac nid fel arall. Mae’n iawn rhoi teyrnged i waith cydweithredol Fforwm Gofal Cymru a’r ffordd y mae wedi cydnabod bod angen urddas, gofal a gwasanaethau o safon. Rwyf wedi crybwyll y prynhawn yma y memorandwm dealltwriaeth na fyddem, hyd yn oed bedair blynedd yn ôl, wedi breuddwydio y gellid ei wireddu, ond dyma ni yn awr wedi gwneud hynny.

This is about people having their voices heard, and having control. The report says that these services must be centred on citizens and service users. They have to be individualised in that way. However, we know that there are restrictions on the independent living fund, and we have to bear that in mind. That must play a part in how we decide the best way to pay for care in Wales. There is so much change happening at the moment. You talk about identifying local, national and regional services on the LHB footprint, but I believe that, within that, local accountability can be preserved and protected. We will look to develop that argument in the run-up to the production of the White Paper.

Local government will continue to have statutory responsibility for delivery. You mentioned that you think that the executive summary is a bit light in mentioning front-line staff; there is a section in the body of the report that deals with the need to recognise and value them, and to look at freeing up their time. That is because the commission has been absolutely committed to listening to front-line staff, and they have made a big contribution to the development of the commissioner's report. No-one would want it any other way. There is a workforce task group that will report to me shortly and also a review of inspection and regulation, all of which will be brought together, along with Carl Sargeant and Leighton Andrews's reviews, so that we do make those connections that are absolutely important in deciding the way forward for social services in the next decade.

Mae a wnelo hyn â rhoi llais a rheolaeth i bobl. Mae'r adroddiad yn dweud ei bod yn rhaid canolbwyntio'r gwasanaethau hyn ar ddinasyddion ac ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Rhaid eu hystyried yn unigolion yn y modd hwnnw. Serch hynny, gwyddom fod cyfyngiadau ar y gronfa byw'n annibynnol, a rhaid inni gadw hynny mewn cof. Rhaid i hynny chwarae rhan yn y ffordd y byddwn yn penderfynu sut orau mae talu am ofal yng Nghymru. Mae cymaint o newid ar waith ar hyn o bryd. Rydych yn sôn am ddefnyddio ôl-troed y BILL wrth ddynodi gwasanaethau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol, ond credaf, o fewn hynny, y gellir cadw atebolrwydd lleol a'i warchod. Byddwn yn ceisio datblygu'r ddadl honno wrth baratoi i gyhoeddi'r Papur Gwyn

Llywodraeth leol a fydd yn dal yn statudol gyfrifol am y ddarpariaeth. Dywedasoeh nad oeddech yn meddwl bod staff y rheng flaen yn cael digon o sylw yn y crynodeb gweithredol; mae yna adran yng nghorff yr adroddiad sy'n ymwneud â'r angen i'w cydnabod a rhoi gwerth arnynt, a bod angen ystyried rhyddhau mwy o'u hamser. Y rheswm dros hynny yw bod y comisiwn wedi bod yn gwbl ymroddedig i wrando ar staff y rheng flaen ac maent wedi gwneud cyfraniad mawr at ddatblygu adroddiad y comisiynydd. Ni fyddai neb am weld dim gwahanol. Bydd tasgrwp o blith y gweithlu'n adrodd imi'n fuan a hefyd, bydd adolygiad ar drefniadau arolygu a rheoleiddio. Byddwn yn dod â'r rheini i gyd at ei gilydd, ynghyd ag adolygiadau Carl Sargeant a Leighton Andrews, er mwyn inni greu'r cysylltiadau hynny sy'n hollbwysig a phenderfynu sut y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn datblygu yn y degawd nesaf.

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Peter Black) i'r Gadair am 4.10 p.m.  
The Temporary Deputy Presiding Officer (Peter Black) took the Chair at 4.10 p.m.*

## **Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Codi Tâl am Fagiâu Siopa Untro (Cymru) 2010**

### **Motion to Approve the Single Use of Carrier Bags (Wales) Regulations 2010**

*Cynnig NDM4601 Jane Hutt*

*Motion NDM4601 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order*

24.4:

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2010.*

*Approves that the draft The Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 1 November 2010.*

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Cynigiau y cynnig.

I am delighted to move this motion on the Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010. All Assembly Members have shared our view that the bags represent a waste of resources, as well as being a visible source of litter, and that they are an iconic symbol of the throwaway society that we now seem to live in.

Rwyf wrth fy modd o gael cynnig y cynnig am y Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010. Mae holl Aelodau'r Cynulliad wedi cytuno â ni fod y bagiau'n wastraff ar adnoddau, yn ogystal â'u bod yn ffynhonnell sbwriel amlwg ac yn symbol eiconig o'r gymdeithas 'defnyddio a thafu' yr ydym bellach yn byw ynddi i bob golwg.

Last year, in Wales alone, despite the efforts of the existing voluntary agreement, we still took away 350 million bags from the seven main supermarkets, which equates to 273 bags per household in Wales. When you factor in all the high street stores, corner shops and everywhere else where these bags are handed out, it amounts to a complete waste of resources. A charge will undoubtedly deliver significant reductions in the handing out of these bags that has become common practice.

Y llynedd, yng Nghymru'n unig, er gwaethaf ymdrechion y cytundeb gwirfoddol a oedd ar waith, defnyddiwyd 350 miliwn o fagiau gan gwsmeriaid y saith prif archfarchnad, sef 273 o fagiau i bob aelwyd yng Nghymru. Os ystyriwch chi holl siopau'r stryd fawr, siopau cornel a phobman arall lle y caiff y bagiau hyn eu dosbarthu, mae'n wastraff llwyr ar adnoddau. Nid oes amheuaeth na fydd codi tâl yn sicrhau bod llai o lawer o'r bagiau hyn yn cael eu dosbarthu, arfer sydd wedi dod yn gyffredin.

The regulations before you today take account of views submitted as part of the extensive consultation that has been carried out on the proposals. In particular, we have listened to the issues raised with me and colleagues about the charge, such as the amount of the charge and the implementation date. I hope that businesses in particular will see the changes that we have made as a positive move on the part of the Assembly Government and a reflection of the fact that we have listened to concerns.

Mae'r rheoliadau sydd ger eich bron heddiw yn ystyried y farn a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghori helaeth sydd wedi'i gynnal ar y cynigion. Yn benodol, rydym wedi gwranddo ar y materion a godwyd gyda mi a'm cyd-Aelodau am y tâl, megis swm y tâl a'r dyddiad dechrau. Rwyf yn gobeithio y gwnaiff busnesau'n benodol weld y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud yn gam cadarnhaol ar ran Llywodraeth y Cynulliad ac yn adlewyrchiad o'r ffaith ein bod wedi gwranddo ar bryderon.

The charge is now being set at a minimum of 5p. Existing evidence of voluntary charging of 5p or lower has resulted in significant reduction levels of over 80 per cent of bags given out. I believe that it is a sensible approach to start with a lower charge, to secure buy-in from retailers and the public, and then to review the reaction. Should this

Isafswm y tâl a bennir yn awr fydd 5c. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â chodi tâl gwirfoddol o 5c neu is yn dangos gostyngiad sylweddol o dros 80 y cant yn nifer y bagiau a ddosberthir i bobl. Credaf ei bod yn gall inni ddechrau gyda thâl is, i ennyn cefnogaeth manwerthwyr a'r cyhoedd, ac wedyn i adolygu'r ymateb. Oni wnaiff tâl ar

level of charge fail to achieve the reduction levels that we anticipate, a future Assembly Government could, if it chooses to, propose a higher level.

We also propose that the charge will come into force in October 2011. I recognise that there are a number of significant changes that businesses will need to make to the core aspects of their business operations, as well as to train staff and prepare customers in Wales, in order to ensure that they comply with the requirements of the legislation. This extended implementation timetable will provide for a smoother and more successful introduction of the charge, as it allows sufficient time to ensure that retailers are fully aware of the requirements of the legislation and have sufficient planning time to make the necessary changes to their business so that it fits with their own planning timetable.

I hope that all Members will join us, in this final stage, in supporting these regulations.

**Janet Ryder:** The Constitutional Affairs Committee is required to consider and report on all statutory instruments laid before the Assembly against a range of technical legal criteria. We have done so with these regulations and are satisfied that they raise no such issues. The committee can also consider wider, so-called 'merit' issues that should be drawn to the attention of the Assembly. On this occasion, we have identified a number of these issues, which are set out in our detailed report.

For these regulations, the committee felt it important to place on record a number of issues that are of broad public or political importance and to point out other issues where we believe there is a question mark over whether the regulations will fully achieve their policy objectives. In doing so, it is fair to say that committee members recognised the broad support in the Assembly for the underlying objective of reducing the use of carrier bags.

The first point that I want to make is that this is the first time that powers to require a

y lefel hon lwyddo i sicrhau'r gostyngiadau yr ydym yn eu rhagweld, gallai Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol, petai'n dewis gwneud hynny, gynnig lefel uwch.

Cynigiwn hefyd y bydd y tâl yn dod i rym ym mis Hydref 2011. Rwyf yn sylweddoli y bydd angen i fusnesau gwneud nifer o newidiadau sylweddol i agweddau craidd eu gweithrediadau busnes, yn ogystal â hyfforddi staff a pharatoi cwsmeriaid yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Drwy ymestyn yr amserlen gweithredu, bydd modd cyflwyno'r tâl mewn ffordd lyfnach a mwy llwyddiannus, gan fod hyn yn caniatáu digon o amser i sicrhau bod manwerthwyr yn llwyr ymwybodol o ofynion y ddeddfwriaeth a bod ganddynt ddigon o amser cynllunio i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'w busnes, er mwyn iddo gydweddu â'u hamserlen cynllunio hwy eu hunain.

Rwyf yn gobeithio y gwnaiff pob Aelod ymuno â ni yn y cam olaf hwn, i gefnogi'r rheoliadau hyn.

**Janet Ryder:** Mae gofyn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried ac adrodd ar bob offeryn statudol a osodir gerbron y Cynulliad ar sail ystod o feini prawf cyfreithiol technegol. Rydym wedi gwneud hynny gyda'r rheoliadau hyn ac yn fodlon nad ydynt yn codi materion o'r fath. Gall y pwyllgor ystyried hefyd faterion a elwir yn faterion 'teilyngdod' y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt. Y tro hwn, rydym wedi nodi nifer o'r materion hyn, ac fe'u rhestrir yn ein hadroddiad manwl.

Ar gyfer y rheoliadau hyn, teimlai'r pwyllgor ei bod yn bwysig cofnodi nifer o faterion sydd o bwys cyhoeddus neu wleidyddol eang a thynnu sylw at faterion eraill lle y credwn fod lle i amau a wnaiff y rheoliadau gyflawni eu hamcanion polisi'n llwyr. Wrth wneud hynny, mae'n deg dweud bod aelodau'r pwyllgor wedi sylweddoli bod cefnogaeth eang yn y Cynulliad o blaid amcan sylfaenol lleihau nifer y bagiau untro a ddefnyddir.

Y pwynt cyntaf yr wyf am ei wneud yw mai dyma'r tro cyntaf i bwerau gael eu defnyddio

charge for carrier bags have been used in the UK, and that alone makes the matter worthy of note. Similarly, it is the first time that civil sanction powers have been granted to local authorities in Wales.

The regulations therefore implement substantial and innovative policy changes, which will, potentially, affect every member of the public in Wales, and which are of key importance to the Welsh Government's policies on the environment. Our report flags up a number of issues that we felt were either important points of principle or points of detail that have not been fully addressed in the explanatory memorandum that accompanies the regulations. The report also covers the most basic issue: the amount that people will have to pay and the fact that the charge that is now being proposed is 5p per bag compared with the 7p charge that was consulted on initially. I do not intend to rehearse every point of the report in detail, but they cover a number of concerns about how the charge will work in practice. Among the issues that we flagged up as still suffering from a lack of clarity are whether bags that are used for promotions will be subject to a charge, whether sellers will be obliged to refund the charge if goods are returned, exactly what sellers can deduct as a reasonable cost under the regulations, whether bags that break can be replaced free of charge and a number of other issues in relation to interpretation regarding exemption from the charges.

We have also outlined questions that consultees have raised about the costs that retailers can retain from the charges that they receive, about record-keeping requirements, particularly for smaller retailers, and about the possibility of different approaches being taken by local authorities to enforcement, including the issue of whether penalties will be applied consistently across the country. While I am sure that we all support the broad environmental goals behind the regulations, we must bear in mind the effect that they may have on small retailers in particular. Many people who strongly support a charge on plastic carrier bags might be surprised to find that the paper carrier bags will also be subject

yn y Deyrnas Unedig i fynnu bod siopau'n codi tâl am fagiau untro, ac mae hynny ar ei ben ei hun yn gwneud hyn yn fater gwerth ei nodi. Yn yr un modd, dyma'r tro cyntaf i neb roi pwerau sifil i roi sancsiynau ar waith i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Felly, mae'r rheoliadau'n rhoi newidiadau sylweddol ac arloesol ar waith ym maes polisi, a fydd, o bosibl, yn effeithio ar bob aelod o'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r rhain yn allweddol bwysig i bolisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at nifer o bethau a oedd naill ai'n bwyntiau pwysig o egwyddor yn ein barn ni neu'n fanylion nad ydynt wedi cael sylw llawn yn y memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau. Mae'r adroddiad yn ymwneud hefyd â'r mater mwyaf sylfaenol: y swm y bydd yn rhaid i bobl ei dalu a'r ffaith bod y tâl sy'n cael ei gynnig yn awr yn 5c y bag o'i gymharu â'r 7c yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn wreiddiol. Nid wyf yn bwriadu mynd drwy bob un o bwyntiau'r adroddiad yn fanwl, ond mae a wnelont â nifer o bryderon ynglŷn â sut y bydd y tâl yn gweithio'n ymarferol. Rhai o'r pethau a godwyd gennym, gan ddweud nad oedd digon o eglurdeb yn eu cylch o hyd, oedd a godir tâl am fagiau a ddefnyddir ar gyfer hyrwyddo, a fydd yn rhaid i werthwyr addalu'r tâl os dychwelir nwyddau, faint yn union a gaiff gwerthwyr ei hawlio'n gost resymol o dan y rheoliadau, a oes modd rhoi bag am ddim yn lle bag sy'n torri a nifer o bethau eraill yng nghyswllt sut y dehonglir ystyriaethau ynglŷn ag eithrio rhag talu.

Rydym hefyd wedi sôn am y cwestiynau y mae ymgynghoreion wedi'u codi ynglŷn â'r costau y caiff manwerthwyr eu dal yn ôl o'r taliadau a gânt, ynglŷn â'r gofynion cadw cofnodion, yn enwedig i fanwerthwyr llai, ac ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol yn mynd ati mewn gwahanol ffyrdd i orfodi'r drefn, gan gynnwys a gaiff cosbau eu rhoi ar waith yn gyson drwy'r wlad. Er fy mod yn siŵr ein bod i gyd yn cefnogi'r amcanion amgylcheddol cyffredinol sy'n sail i'r rheoliadau, rhaid inni gadw mewn cof yr effaith y gallant ei chael ar fanwerthwyr bychain yn benodol. Bydd llawer o bobl sy'n gefnogol iawn i godi tâl am fagiau plastig yn synnu o gael ar ddeall y codir hefyd am

to a charge. There may be good reason for that, as it would be counter-productive for a decrease in plastic bag usage to lead to an increase in the use of bulkier paper bags. Nevertheless, the evidence base in relation to paper bags does not seem to be as great as for plastic bags, which is a fact that is acknowledged in the explanatory memorandum.

That brings me back to my main and final point. The regulations, whether you agree with them or not, introduce substantial public policy changes that will be of interest not just to the Assembly and the people of Wales, but to those across the UK and beyond. In most legislatures, that would have meant that the legislation introducing such an important policy would have been scrutinised by Members in detail, and that there would have been the opportunity to suggest amendments and to test the Government's approach. Instead, because the powers were conferred directly on Welsh Ministers by an Act of the UK Parliament, this is the very first opportunity that the Assembly has had to consider the regulations—and that for just half an hour on an all-or-nothing basis.

I recognise that Assembly committees have spent time looking at the principle and detail of charging for carrier bags, and have taken evidence from the Minister. I also recognise the laudable aims that underlie the regulations and the response that we received yesterday from the Minister to our report. However, I hope that we can also agree that that is no substitute for proper detailed scrutiny by the Assembly of new laws as important as this one.

**Angela Burns:** I thank the Chair of the Constitutional Affairs Committee for her comments. I agree 100 per cent with what you have said; we have five minutes in which to discuss important and worthwhile legislation. I will tell you from the outset, Minister, that the Welsh Conservatives intend to support you on this matter. However, I have real concerns about some areas, and I only have time to touch upon two of them. The first is that of the variable monetary

fagiau papur. Fe all fod rheswm da dros hynny, oherwydd byddai'n wrthgynhyrchiol petai gostyngiad yn nifer y bagiau plastig a ddefnyddid yn arwain at gynnydd yn nifer y bagiau papur trymach. Serch hynny, nid yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer bagiau papur i bob golwg mor gryf ag ar gyfer bagiau plastig, sy'n ffaith a gydnabyddir yn y memorandwm esboniadol.

Mae hynny'n dod â fi yn ôl at fy mhrif bwynt a'm pwynt olaf. Mae'r rheoliadau, ni waeth a gytunwch â hwy ai peidio, yn cyflwyno newidiadau sylweddol o ran polisi a fydd o ddiddordeb, nid yn unig i'r Cynulliad ac i bobl Cymru, ond i'r rheini ledled y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Yn y rhan fwyaf o ddeddfwriaethau, byddai hynny wedi golygu y byddai cyflwyno polisi mor bwysig wedi bod yn destun craffu manwl gan yr Aelodau, a buasai cyfle i awgrymu gwelliannau a rhoi safbwynt y Llywodraeth ar brawf. Yn hytrach, oherwydd bod y pwerau wedi'u rhoi'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Seneddol y Deyrnas Unedig, dyma'r cyfle cyntaf un i'r Cynulliad ystyried y rheoliadau—a dim ond am hanner awr wedyn, a hynny ar sail popeth neu ddim byd o gwbl.

Rwyf yn sylweddoli bod pwyllgorau'r Cynulliad wedi treulio amser yn ystyried yr egwyddor a manylion codi tâl am fagiau untro, ac rwyf wedi cael tystiolaeth gan y Gweinidog. Rwyf yn cydnabod hefyd bod y rheoliadau wedi'u seilio ar amcanion clodwiw ac yn cydnabod yr ymateb a gawsom i'n hadroddiad ddoe gan y Gweinidog. Serch hynny, rwyf yn gobeithio y gallwn gytuno hefyd nad yw hynny'n gwneud iawn am ddiffyg craffu manwl priodol gan y Cynulliad ar ddeddfau newydd sydd mor bwysig â hon.

**Angela Burns:** Rwyf yn diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol am ei sylwadau. Rwyf yn cytuno 100 y cant â'r hyn yr ydych wedi'i ddweud. Mae gennym bum munud i drafod deddfwriaeth bwysig a gwerthfawr. Dywedaf wrthy ch o'r cychwyn, Weinidog, fod Ceidwadwyr Cymru yn bwriadu'ch cefnogi yn hyn o beth. Fodd bynnag, rwyf yn poeni o ddifrif am ambell faes, ac nid oes gennyf ond amser i grybwyll dau ohonynt. Y cyntaf yw'r cosbau ariannol

penalties, and the second relates to exemptions.

On the variable monetary penalties, the Constitutional Affairs Committee, in its report, said:

‘It is not yet clear to what extent local authorities will impose penalties according to different criteria in different parts of Wales.’

When you look at the variable penalties, you will see that they are enormous. I am deeply concerned that, in some cases, they could be entirely disproportionate, and that a small business may face a fine of £5,000 or even £20,000 for committing a small breach of the regulations. Minister, I would ask you to clarify that point for us and to ensure that you keep a watching brief on what councils may do. I also ask you to have a quick look at the penalties applied by HM Revenue and Customs to businesses or, for example, the penalties imposed by Microsoft for the breach of a licence. You will see that, on the face of it, these penalties are extremely disproportionate and smaller businesses already carry a huge burden. I am not saying that they should not obey the rules or that they should break the law, but I would like to see consistency in the application of these penalties so that they are not penalised inadvertently.

4.20 p.m.

The second point that I would like to raise relates to the exemptions. I have been through the regulations in quite a lot of detail and I seek your clarification regarding what bags are excluded. The charge for single-use bags is unavoidable for people who are using the food-to-go outlets—whether that is a super chain, like KFC, or a small organisation, for example, in the centre of Carmarthen, where baguettes are wrapped and put into a carrier bag to be taken home. I would like to understand whether or not the exemptions outlined here cover them. The exemption in the regulations lists uncooked fish, meat or poultry, which obviously does not apply here, or bags used solely to contain unpackaged food. However, some of these items may already be in a package that is

amrywiol, ac mae a wnelo'r ail ag eithriadau.

O ran y cosbau ariannol amrywiol, dywedodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, yn ei adroddiad:

‘Nid yw'n glir, eto, i ba raddau y bydd awdurdodau lleol yn gosod cosbau yn ôl gwahanol feini prawf mewn gwahanol rannau o Gymru.’

Wrth ichi edrych ar y cosbau, gwelwch eu bod yn amrywio'n fawr iawn. Rwyf yn poeni o ddifrif, y gallai'r rhain fod yn gwbl anghymesur mewn ambell achos, ac y gallai busnes bach wynebu dirwy o £5,000 neu hyd yn oed £20,000 am ryw fân ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau. Weinidog, hoffwn ofyn ichi egluro'r pwynt hwnnw inni a sicrhau eich bod yn cadw golwg ofalus ar yr hyn a wnaiff cynghorau. Gofynnaf ichi hefyd edrych yn gyflym ar y cosbau y bydd Cyllid a Thollau EM yn eu rhoi i fusnesau neu, er enghraifft, y cosbau y bydd Microsoft yn eu rhoi am dorri amodau trwydded. Gwelwch, ar y wyneb, fod y cosbau hyn yn eithriadol o anghymesur ac mae busnesau llai eisoes yn ysgwyddo baich enfawr. Nid wyf yn dadlau na ddylent ufuddhau i'r rheolau nac y dylent dorri'r gyfraith, ond hoffwn weld cysondeb yn y ffordd y rhoddir y cosbau hyn ar waith, fel na fydd pobl yn cael eu cosbi'n anfwriadol.

Mae a wnelo'r ail bwynt yr hoffwn ei godi â'r eithriadau. Rwyf wedi bod drwy'r rheoliadau'n eithaf manwl a hoffwn ichi egluro pa fagiau sy'n cael eu heithrio. Nid oes modd i bobl sy'n defnyddio siopau bwyd parod osgoi'r tâl am fagiau untro—boed y siop honno'n perthyn i gadwyn fawr, megis KFC, ynteu'n siop fach, er enghraifft yng nghanol Caerfyrddin, lle bydd baguettes yn cael eu lapio a'u rhoi mewn bag i'w cludo adref. Hoffwn ddeall a yw'r eithriadau y sonnir amdanynt yma'n cynnwys y rhain neu beidio. Mae'r eithriad yn y rheoliadau'n rhestru pysgod, cig neu ddofednod heb eu coginio, ac mae'n amlwg nad yw'r rheini'n berthnasol yma, neu fagiau sy'n cael eu defnyddio i gynnwys bwyd sydd heb ei becynnu'n unig. Serch hynny, fe all rhai o'r

then put into a carrier bag because someone may be buying three or four items.

Many retailers, both large and small, have made representations to me on this issue. The reality of the situation is that, if you are going to buy food to go, you are seldom going to pick up something loose and put it in your handbag or your recyclable bag. I have three concerns. First, people who are buying, for example, a baguette and chips would have to have them in a bag, which, from my reading of the regulations, would carry a charge. Therefore, it would not be possible to avoid paying this levy, but everyone else is able to avoid this levy by simply bringing their own carrier bag. If we were to take it to the next step and say that they would bring their own carrier bag, there are then health and safety issues to consider, and we in Wales have learned a bitter lesson about things like E. coli.

Someone with a hessian bag could go into one of the big fast-food joints, get their chips, burger, chicken, or whatever it might be, stick it in the hessian bag and then reuse that bag the next day when that person nips down to the butcher to buy various items and then the bag might be used the day after that for vegetables. The possibilities for cross-contamination are horrific. I read an interesting report from the University of Arizona, which said that food shopping bags and packages can contain a high level of bacteria. The article listed which bacteria were found. This was supported by research in Toronto and a few other areas.

Finally, there is the matter of litter. I have an e-mail from an official, who says that certain paper bags have been exempted from the charge to address this issue, but that millions of carrier bags are given away by the quick-service restaurant sector and fast-food packaging can end up as litter in Wales. The official goes on to say that there are considerable costs to local authorities and other organisations in cleaning up this litter and that it is clear that consumer behavioural change is required to help to solve this problem and that is what the single-use

eitemau hyn fod mewn pecyn eisoes sydd wedyn yn cael ei roi mewn bag siopa oherwydd bod rhywun o bosibl yn prynu tair neu bedair o eitemau.

Mae llawer o fanwerthwyr, yn fawr ac yn fach, wedi dod ataf ynglŷn â hyn. Gwir y sefyllfa yw, os ydych chi'n mynd i brynu bwyd parod, go brin y byddwch chi'n codi rhywbeth rhydd a'i roi yn eich bag llaw neu yn eich bag ailgylchadwy. Mae tri pheth yn fy mhoeni. Yn gyntaf, byddai'n rhaid i bobl sy'n prynu, er enghraifft, baguette a sglodion eu cael mewn bag, ac, o'r hyn a ddeallaf yn y rheoliadau, codid tâl am hynny. Felly, ni fyddai modd osgoi talu'r ardoll hon ond mae pawb arall yn gallu osgoi'r ardoll hon drwy ddod â'u bag eu hunain. Petaem yn symud ymlaen i'r cam nesaf ac yn dweud y byddent yn dod â'u bag eu hunain, mae materion iechyd a diogelwch i'w hystyried wedyn, ac rydym ni yng Nghymru wedi dysgu gwers chwerw iawn am bethau megis E.coli.

Gallai rhywun a chanddo fag hesian fynd i un o'r siopau bwyd cyflym mawr, prynu eu sglodion, eu heidionyn, eu cyw iâr, neu beth bynnag, eu rhoi yn y bag hesian ac wedyn ddefnyddio'r bag hwnnw y diwrnod wedyn wrth bicio i siop y cigydd i brynu gwahanol bethau ac wedyn, efallai y defnyddid y bag y diwrnod wedyn ar gyfer llysiau. Mae'r posibilïadau ar gyfer trawshalogi'n erchyll. Darllena is adroddiad diddorol gan Brifysgol Arizona a oedd yn dweud bod bagiau siopa a pheynnau bwyd yn gallu cynnwys lefel uchel o facteria. Roedd yr erthygl yn rhestru pa facteria a ganfuwyd. Roedd gwaith ymchwil yn Toronto ac mewn ambell fan arall yn cefnogi hyn.

Yn olaf, mae mater sbwriel. Mae gennyf neges e-bost gan swyddog, sy'n dweud bod rhai bagiau papur penodol wedi cael eu heithrio rhag y tâl er mwyn mynd i'r afael â hyn, ond bod miliynau o fagiâu'n cael eu rhannu gan y sector bwytai gweini-cyflym ac y bydd pecynnu bwyd-brys yn aml yn diweddu ei fywyd ar ffurf sbwriel yng Nghymru. Mae'r swyddog yn mynd rhagddo i ddweud bod costau codi'r sbwriel hwn yn sylweddol i awdurdodau lleol a chyrrff eraill ac mae'n amlwg bod angen newid ymddygiad prynwyr er mwyn datrys y



carrier bag charge is all about.

I agree with that; we do not want people to drop litter everywhere. However, the point is that there are millions of people who do not drop litter. I have a real problem with the fact that someone would go to a fast-food restaurant and would be taxed—there is no other word for it, it is a tax—for having a bag simply to help to solve other people's litter issues. This would not happen in any other area where people would be using reusable carrier bags instead of single-use carrier bags. Therefore, I would like your assurance that people who go to fast-food restaurants will not be unfairly penalised.

**Leanne Wood:** Plaid Cymru warmly welcomes these regulations as another step towards helping Wales to prepare for low-carbon living. It is a small step and there is a great need to make giant leaps now, but many small steps can achieve big changes. If this small step makes a contribution to the behaviour changes that we all need to make, it will be a small step worth taking.

It is interesting to note that this debate takes place today, on the same day as the climate change conference begins in Cancun. It would be useful for us to compare the Cancun conference with the noise that was made this time last year, in the run-up to the Copenhagen climate change conference. This conference, and climate change in general, has fallen down the political agenda—so much so that the UK Prime Minister cannot even be bothered to attend the conference. It sounds a serious note of concern that climate change has fallen out of the headlines in recent months, partly because of various media reports and the actions of climate-change deniers, and partly because of the economic crisis. Despite the fact that climate change is not as hot an issue as it was a year ago, the threat of rising world temperatures continues to mount. Last week, the Met Office in London released a report that confirmed that evidence of climate change is now stronger than ever. We are expecting an

problem hon. Dyna holl bwrpas codi tâl am fagiau untro.

Rwyf yn cytuno â hynny; nid ydym am i bobl ollwng sbwriel ym mhobman. Serch hynny, y pwynt yw bod yna filiynau o bobl nad ydynt yn gollwng sbwriel. Mae'n broblem fawr i mi y byddai rhywun a fyddai'n mynd i fwyty bwyd-brys ac yn cael ei drethu—nid oes gair arall amdani, treth yw hi—am gael bag, a hynny dim ond er mwyn helpu i ddatrys arferion gollwng sbwriel pobl eraill. Ni fyddai hyn yn digwydd mewn unrhyw faes arall lle y byddai pobl yn defnyddio bagiau ailddefnydd yn lle bagiau untro. Felly, hoffwn gael sicrwydd gennych na fydd pobl sy'n mynd i fwytai bwyd-brys yn cael eu cosbi'n annheg.

**Leanne Wood:** Mae Plaid Cymru'n croesawu'r rheoliadau hyn yn gynnes fel cam arall tuag at helpu Cymru i baratoi ar gyfer bywyd rhad ar garbon. Mae'n gam bychan ac mae gwir angen gwneud llamau mawr yn awr, ond fe all llawer o gamau bychain sicrhau newidiadau mawr. Os bydd y cam bychan hwn yn cyfrannu at y newidiadau y mae angen inni i gyd eu gwneud o ran ein hymddygiad, bydd hwnnw'n gam bychan gwerth ei gymryd.

Mae'n ddiddorol sylwi bod y ddadl hon yn cael ei chynnal heddiw, ar yr un diwrnod ag y mae'r gynhadledd newid yn yr hinsawdd yn dechrau yn Cancun. Byddai'n fuddiol inni gymharu cynhadledd Cancun â'r sŵn a wnaethpwyd yr adeg hon y llynedd, ar drothwy cynhadledd newid yn yr hinsawdd Copenhagen. Mae'r gynhadledd hon, a newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol, wedi llithro i lawr yr agenda wleidyddol—gymaint felly fel na all Prif Weinidog y Deyrnas Unedig drafferthu mynd i'r gynhadledd Mae'n destun pryder difrifol bod newid yn yr hinsawdd wedi colli ei le yn y penawdau yn ystod y misoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd gwahanol adroddiadau yn y cyfryngau a'r camau a gymerwyd gan y rheini sy'n gwadu bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd, ac yn rhannol oherwydd yr argyfwng economaidd. Er nad yw newid yn yr hinsawdd yn bwnc mor llosg ag yr oedd flwyddyn yn ôl, mae tymheredd y byd yn dal i godi a'r bygythiad yn cryfhau. Yr wythnos

announcement from the World Meteorological Organization that 2010 has either been the hottest, or second-hottest, year ever recorded.

It may also be worth remembering that it has taken quite a long time for us to get here, but that these regulations have come about because of devolution. This is not yet happening in England. I accept the points that Janet Ryder made regarding scrutiny of these regulations; however, these regulations are here today because we have the freedom to decide how we cut Wales's carbon footprint. I am sure that the concerns and questions that have been raised can be addressed over time, as the success of this policy is measured. An indication from the Minister on that point would be welcome. Of course, if we get a 'yes' vote in the referendum next March, we will be able to act more quickly in future and take many more small steps to change the way that we live in the way that we need to.

**Kirsty Williams:** First, I wish to state clearly that the overall principle of wishing to limit, as far as possible, the use of single-use carrier bags is one that I support very much. However, the way in which we have got to these regulations today is, I believe, a lesson in how not to legislate and how not to develop regulations. In a debate like this, and given the constraints of how the process works at the National Assembly, it is difficult to separate those two points without being accused of wanting to attack the policy. There is widespread support across the Chamber for the need to introduce a charge and levy on these bags; however, the way in which we have gone about doing that, and the way in which the system works in the Assembly, potentially brings the policy into disrepute.

Before us today, we have regulations that are, in many ways, far from complete; hence the need for the Constitutional Affairs Committee to write the report that it has had

diwethaf, rhyddhawyd adroddiad gan y Swyddfa Dywydd yn Llundain yn cadarnhau bod tystiolaeth ynglŷn â newid yn yr hinsawdd yn gryfach nag erioed. Rydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Sefydliad Meterolegol y Byd mai 2010 oedd y flwyddyn boethaf neu'r ail boethaf a gofnodwyd erioed.

Gall fod yn werth cofio hefyd ei bod wedi cymryd cryn amser inni gyrraedd y fan hon, ond bod y rheoliadau hyn wedi digwydd oherwydd datganoli. Nid yw hyn yn digwydd yn Lloegr eto. Rwyf yn derbyn y pwyntiau a wnaeth Janet Ryder ynglŷn â chraffu ar y rheoliadau hyn; fodd bynnag, mae'r rheoliadau hyn yma heddiw oherwydd bod gennym y rhyddid i benderfynu sut mae lleihau ôl-troed carbon Cymru. Rwyf yn siŵr bod modd mynd i'r afael â'r pryderon a'r cwestiynau sydd wedi'u codi dros gyfnod, wrth inni fesur llwyddiant y polisi hwn. Byddai'n braf cael cadarnhad gan y Gweinidog ynglŷn â hynny. Wrth gwrs, os cawn bleidlais 'ie' yn y refferendwm fis Mawrth nesaf, byddwn yn gallu gweithredu'n gyflymach o lawer yn y dyfodol a chymryd llawer mwy o gamau bychain i newid ein ffordd o fyw yn y modd y mae angen inni ei newid.

**Kirsty Williams:** Yn gyntaf, hoffwn ddweud yn glir fy mod yn gefnogol iawn egwyddor gyffredinol ceisio cyfyngu, cyn belled ag y bo modd, ar ddefnyddio bagiau untro. Fodd bynnag, credaf fod y ffordd yr ydym wedi cyrraedd y rheoliadau hyn heddiw, yn wers ar sut mae peidio â deddfu a sut mae peidio â datblygu rheoliadau. Mewn dadl fel hon, ac, ac ystyried cyfyngiadau'r broses yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n anodd gwahanu'r ddau bwynt hynny heb gael eich cyhuddo o fod eisiau ymosod ar y polisi. Mae cefnogaeth eang ar draws y Siambr i'r angen am gyflwyno tâl ac ardoll ar y bagiau hyn; serch hynny, mae'r ffordd yr ydym wedi mynd ati i wneud hynny, a'r ffordd y mae'r system yn gweithio yn y Cynulliad o bosibl yn rhoi enw drwg i'r polisi.

O'n blaen heddiw, mae gennym reoliadau sydd mewn sawl ffordd ymhell o fod yn gyflawn; dyna pam yr oedd angen i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

to bring to the Chamber today. If these regulations were complete and robust, the Constitutional Affairs Committee would simply have signed them off in the usual way. The fact that it has brought this report here today should sound alarm bells for all Assembly Members regarding how our processes are not fit for purpose. We need to look at that very carefully, especially if we are to move to a situation next year in which we will have further legislative powers. Today, we are passing significant changes in policy that will potentially have a significant impact on business and on those who are supposedly going to implement, police and regulate this. These changes are also going to give the latter the ability to impose not-insignificant fines on people. Nevertheless, as we have heard from the Chair of the Constitutional Affairs Committee, this is the only time that we have had an opportunity to look carefully at these regulations. We have been left in the unenviable position of being able to vote for this or against it—to press the nuclear button by voting against it, or to vote ‘yes’ and pass regulations that many of us know, in our heart of hearts, to be incomplete and in need of more work. That is of concern to us as we move forward.

4.30 p.m.

I would like to look at one particular issue that shows how this process is falling down. In the regulatory impact assessment that accompanies these regulations, that is, the Government’s own documentation that spells out what this will mean to people outside the Assembly, to businesses and local authorities, it tries to calculate the social cost of this policy and assumes, because it cannot think of a better way of doing it, that it would be the same for plastic bags as paper bags. It simply is not the case that there will be the same social cost. The Government acknowledges that, but is unable to produce a regulatory impact assessment that backs up its own admission of the differences. That makes a sham of the whole regulatory impact assessment approach that we are supposed to be adopting here. That is one very clear example.

ysgrifennu’r adroddiad y bu’n rhaid iddo’i ddwyn gerbron y Siambr heddiw. Petai’r rheoliadau hyn yn gyflawn ac yn drwyadl, byddai’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi’u cymeradwyo yn y ffordd arferol. Dylai’r ffaith ei fod wedi dod â’r adroddiad hwn yma heddiw ganu cloch i bob Aelod o’r Cynulliad gan ein rhybuddio nad yw ein prosesau’n addas at y diben. Mae angen inni edrych ar hynny’n ofalus iawn, yn enwedig os ydym am symud at sefyllfa y flwyddyn nesaf pan fydd gennym ragor o bwerau deddfwriaethol. Heddiw, rydym yn pasio newidiadau sylweddol o ran polisi a all effeithio’n fawr ar fusnesau ac ar y rheini sydd i fod i weithredu hyn, ei blismona a’i reoleiddio. Mae’r newidiadau hyn hefyd yn mynd i roi’r gallu i’r olaf o’r rhain godi dirwyon nid ansylweddol ar bobl. Fodd bynnag, fel y clywsom gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, dyma’r unig gyfle a gawsom i edrych yn ofalus ar y rheoliadau hyn. Rydym wedi cael ein gadael yn y sefyllfa anodd o allu pleidleisio o blaid hyn ynteu yn ei erbyn—pwyso’r botwm niwclear drwy bleidleisio yn ei erbyn, ynteu bleidleisio ‘ie’ a phasio rheoliadau y mae llawer ohonom yn gwybod yn ein calon eu bod yn anghyflawn a bod angen gwneud rhagor o waith arnynt. Mae hynny’n ein poeni wrth inni symud yn ein blaen.

Hoffwn edrych ar un mater arbennig sy’n dangos sut mae’r broses hon yn cloffi. Yn yr asesiad effaith rheoleiddiol sy’n cyd-fynd â’r rheoliadau hyn, hynny yw, dogfennau’r Llywodraeth ei hun sy’n esbonio beth y bydd hyn yn ei olygu i bobl y tu allan i’r Cynulliad, i fusnesau ac i awdurdodau lleol, ceisir cyfrifo cost gymdeithasol y polisi hwn ac mae’n tybio, oherwydd na all feddwl am ffordd well o’i gwneud, y byddai’r gost honno yr un fath ar gyfer bagiau plastig ag ar gyfer bagiau papur. Nid yw’n wir mai’r un fydd y gost gymdeithasol. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod hynny, ond ni all gynhyrchu asesiad effaith reoleiddiol sy’n ategu ei chyfaddefiad ei hun ynglŷn â’r gwahaniaethau. Mae hynny’n golygu bod y dull asesu effaith reoleiddiol yr ydym i fod yn ei fabwysiadu yma’n ddull ffug. Dyna un enghraifft glir iawn.

With regard to the detail, I seek clarification from the Minister on the use of compostable or biodegradable bags, particularly given the potential impact on food waste collections. Under European legislation, there is a certification process that allows you to regulate a biodegradable or compostable bag, because no-one wants to be in the business of being misled. EN 13432:2000 certification could quite clearly allow us to make the distinction, and it is disappointing that, in response to the representations made to the Government, it has not seen fit to make that distinction, at least from my reading of it. My understanding is that the Government is quoted as saying that it would not want to see a switch by retailers to all compostable and biodegradable bags in the place of other single-use carrier bags. Given that the Government is urging everybody else to look at using compostable and biodegradable products, it seems inconsistent not to make the distinction in this case.

There is a great deal of uncertainty with regard to guidance to retailers on how to implement these regulations. There is still a great deal of uncertainty about how 22 individual local authorities intend to implement the administration of these charges. As I understand it, the joint group with retailers, which the Minister told the committee considering the proposed Measure would meet to look at these issues, still has not met. If I am wrong, I would be grateful if the Minister could correct me. My understanding is that the commitment was made that there would be this group but that that group has not met.

As I said, we are in the unenviable position today of being able either to vote 'yes' for things that we believe are incomplete and that need more work, or to press the nuclear button and vote 'no'. On balance, the Liberal Democrat group will vote 'yes' today, because the principle of the policy of charging for carrier bags and trying to reduce the use of single-use carrier bags is right. However, I believe that it is time that we looked carefully at how the legislative process we have here works, particularly in

O ran y manylion, rwyf yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynglŷn â defnyddio bagiau y gellir eu compostio neu rai biodiraddiadwy, yn enwedig ac ystyried yr effaith bosibl ar gasglu gwastraff bwyd. O dan ddeddfwriaeth Ewrop, mae proses ardystio sy'n caniatáu ichi reoleiddio bag biodiraddiadwy neu un y gellir ei gompostio, oherwydd nid oes neb am gael ei gamarwain. Mae'n amlwg y gallai ardystiad EN 13432:2000 ganiatáu inni wahaniaethu, ac mae'n siomedig, yn yr ymateb i'r sylwadau a gyflwynwyd i'r Llywodraeth, nad yw wedi'i gweld yn dda i wahaniaethu fel hynny, o leiaf yn y ffordd yr wyf i'n darllen pethau. Fel y caf ar ddeall, dyfynnir y Llywodraeth yn dweud na fyddai am weld manwerthwyr yn troi at fagiau compostadwy a biodiraddiadwy i gyd yn lle mathau eraill o fagiau untro. A chofio bod y Llywodraeth yn annog pawb arall i ystyried defnyddio cynhyrchion compostadwy a biodiraddiadwy, mae'n anghyson, i bob golwg, nad yw'n gwahaniaethu yn yr achos hwn.

Mae llawer iawn o ansicrwydd ynglŷn â'r canllawiau a roddir i fanwerthwyr ar sut mae rhoi'r rheoliadau hyn ar waith. Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â sut mae 22 o awdurdodau lleol unigol yn bwriadu gweinyddu'r taliadau hyn. Fel y caf ar ddeall, nid yw'r cyd-grŵp gyda'r manwerthwyr, a fyddai, yn ôl yr hyn a ddywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor a oedd yn ystyried y Mesur arfaethedig, yn cyfarfod i ystyried y materion hyn, wedi cyfarfod eto. Os wyf yn anghywir, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog fy nghywiro. Yn ôl yr hyn a gaf ar ddeall, ymrwymwyd i sefydlu'r grŵp hwn, ond nid yw wedi cyfarfod.

Fel y dywedais, rydym yn y sefyllfa anodd heddiw ein bod naill ai'n gorfod pleidleisio 'ie' o blaid pethau sydd yn ein barn ni'n anghyflawn ac y mae angen rhagor o waith arnynt, ynteu pwyso'r botwm niwclear a phleidleisio 'na'. Ar ôl pwyso a mesur, bydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn pleidleisio 'ie' heddiw, oherwydd bod egwyddor polisi codi tâl am fagiau a cheisio lleihau nifer y bagiau untro a ddefnyddir yn iawn. Serch hynny, credaf ei bod yn bryd inni edrych yn ofalus ar sut mae'r broses

light of, we hope, getting more powers next year. This is not a satisfactory way to debate and scrutinise such important issues.

**Joyce Watson:** I welcome this piece of legislation, and I think that this is a real example of how Wales can go forward and do things differently, following on from the example that we had in the Chamber earlier today. I support, as I think everyone in the Chamber does, the principle of disposing of single-use carrier bags and ridding ourselves of the litter nuisance that endangers wildlife, particularly birds, and of the cost of cleaning up that litter. However, I have some questions for the Minister on matters that I would like some clarification on. These have been raised by others already. They concern the enforcement of penalties and the need for individual local authorities to carry that out equally and fairly across Wales, because we really cannot get into a situation of inconsistencies in penalties and enforcement.

I also wish to ask the Minister about publishing some Government guidance, particularly on behalf of community pharmacies. We have seen that there are exemptions here for some prescription items—and clearly all people who have free prescription items will be exempt—but there are other things that people purchase from their pharmacies that they would most definitely expect to be encased in a bag, whether for the sake of just a little privacy or for common decency and respect. Could the Minister give any clarity today on those issues, or whether such purchases are classified as medication? It seems a little unclear.

That is really all that I wish to say, as there is no point in repeating what everyone else has said. I look forward to the reply.

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I thank Members for their contributions. In one sense, we are all victims

ddeddfwriaethol sydd gennym yma'n gweithio, yn enwedig a ninnau'n gobeithio cael rhagor o bwerau y flwyddyn nesaf. Nid yw hyn yn ffordd foddhaol o drafod materion mor bwysig a chraffu arnynt.

**Joyce Watson:** Rwyf yn croesawu'r darn hwn o ddeddfwriaeth, a chredaf ei fod yn enghraifft go iawn o sut y gall Cymru gamu ymlaen a gwneud pethau'n wahanol, gan ddilyn yr enghraifft a gawsom yn y Siambr yn gynharach heddiw. Rwyf yn cefnogi, fel y mae pawb yn y Siambr, dybiwn i, egwyddor cael gwared ar fagiau untro a chael gwared ar y niwsans sbwriel sy'n peryglu bywyd gwyllt, yn enwedig adar, a chost clirio'r sbwriel hwnnw. Fodd bynnag, mae gennyf ambell gwestiwn i'r Gweinidog ynglŷn â materion yr hoffwn gael rhywfaint o eglurhad yn eu cylch. Mae aelodau eraill eisoes wedi codi'r rhain. Mae a wnelont â gorfodi cosbau a bod angen i awdurdodau lleol unigol wneud hynny mewn ffordd gyfartal a theg ledled Cymru, oherwydd, yn wir, ni allwn ein cael ein hunain mewn sefyllfa lle bydd anghysonderau o ran cosbau a gorfodi.

Rwyf hefyd am ofyn i'r Gweinidog ynglŷn â chyhoeddi rhywfaint o ganllawiau gan y Llywodraeth, yn enwedig ar ran fferyllfeydd cymuned. Rydym wedi gweld bod eithriadau yma ar gyfer rhai eitemau ar bresgripsiwn—ac mae'n amlwg y bydd pawb sy'n cael eitemau am ddim ar bresgripsiwn yn cael eu heithrio—ond mae pethau eraill y bydd pobl yn eu prynu yn eu fferyllfa y byddent yn bendant yn disgwyl eu cael mewn bag, boed hynny er mwyn ychydig o breifatrwydd neu er mwyn bod yn weddus a pharchus. A allai'r Gweinidog roi eglurhad inni heddiw ynglŷn â'r materion hynny, ynteu a yw pryniannau fel hyn yn cael eu hystyried yn feddyginiaeth? Mae braidd yn aneglur i bob golwg.

Dyna'r cyfan yr wyf am ei ddweud mewn gwirionedd, gan nad oes pwynt ailadrodd yr hyn y mae pawb arall wedi'i ddweud. Edrychaf ymlaen at yr ateb.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Ar un olwg, rydym i gyd yn dioddef yn sgil y

of the process that has been set down for us to follow, but I hope that, over the time prior to the charge being introduced, we can address Members' concerns fully in policy terms, as I know that we have all-party support for the policy and officials of the Welsh Assembly Government, retailers and others have carried out substantial work. We will be providing guidance for retailers and templates to assist them in complying with the requirements of the charge, and we are working with the Federation of Small Businesses to ensure that smaller businesses are aware of the provisions of the regulations and what they need to do to meet them.

The Constitutional Affairs Committee drew Members' attention to the fact that this is the first time that civil sanction powers have been granted to local authorities in Wales. We commissioned the Local Better Regulation Office to carry out a review of all local authorities in Wales on this matter prior to making a final decision about conferring those powers. The report was completed in August 2010.

Our aim is to have a complaints-driven enforcement regime, which I think Members have previously supported. My officials are working with the Welsh Local Government Association on finalising the details of the enforcement arrangements. In Ireland, enforcement has proved to be relatively easy because of the public buying in to the scheme. Those who have listened to radio phone-ins and seen the contributions made to local papers will know that we already have a high level of buy-in in Wales.

However, I reassure Members that we have taken on board the representations received from the last consultation on the disproportionate level of some of the fines proposed under the civil penalties. Therefore, we have reduced and simplified the fixed monetary penalties. Penalties are now linked only to the kind of breach concerned, and the following changes have also been made. Fixed monetary penalties are now payable only for breaches of the requirement to charge and the requirement to keep, retain, supply and publish records. The maximum

broes sydd wedi'i gosod inni ei dilyn, ond rwyf yn gobeithio, yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno'r tâl, y gallwn roi sylw llawn i bryderon yr Aelodau o ran polisi, oherwydd gwn fod gennym gefnogaeth pob plaid i'r polisi ac mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, manwerthwyr ac eraill wedi gwneud gwaith sylweddol. Byddwn yn rhoi canllawiau i fanwerthwyr a thempledi i'w cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion y tâl, ac rydym yn gweithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach er mwyn sicrhau bod busnesau llai yn ymwybodol o ddarpariaethau'r rheoliadau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â hwy.

Tynnodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol sylw at y ffaith mai dyma'r tro cyntaf i bwerau sancsiynau sifil gael eu rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru. Comisiynwyd y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol i gynnal arolwg ynglŷn â hyn ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru cyn inni benderfynu'n derfynol ynglŷn â rhoi'r pwerau hynny iddynt. Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Awst 2010.

Ein nod yw cael trefn gorfodi sy'n cael ei sbarduno gan gwynion, a chredaf fod yr Aelodau wedi cefnogi hyn yn y gorffennol. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio manylion terfynol y trefniadau gorfodi. Yn Iwerddon, mae gorfodi wedi bod yn gymharol rwydd oherwydd bod y cyhoedd yn cefnogi'r cynllun. Mae'r rheini sydd wedi gwranddo ar raglenni ffonio ar y radio ac wedi gweld y cyfraniadau mewn papurau lleol yn gwybod bod gennym gryn gefnogaeth yng Nghymru eisoes.

Serch hynny, hoffwn sicrhau'r Aelodau ein bod wedi gwranddo ar y sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf ynglŷn â lefel anghymesur rhai o'r dirwyon a gynigiwyd o dan y cosbau sifil. Felly, rydym wedi gostwng a symleiddio'r cosbau ariannol penodedig. Erbyn hyn, mae'r cosbau wedi'u cysylltu â'r math o ddiffyg cydymffurfio sydd o dan sylw'n unig, ac mae'r newidiadau a ganlyn wedi'u gwneud hefyd. Ni fydd cosbau ariannol penodedig ond yn daladwy bellach am fethu â chydymffurfio â'r gofyniad i godi tâl a'r

amount that can be imposed as a fixed monetary penalty is £200 for the failure to charge and £100 for the other breaches.

Angela raised a number of issues in the context of fast food. Clearly, we are all unhappy that a number of people litter our pavements after they have eaten a meal, particularly late at night. It costs local authorities and other organisations to clean up that litter. This charge is about whether we need to look at the health risks of unpackaged food items, whether wholly or partially unpackaged. I am fully aware that partially unpackaged food items are at risk of cross-contamination from a reusable carrier bag and could present a source of future contamination if the bag were used again. There are specific issues in relation to hot on-the-go food and the quick-service restaurant sector in relation to part-packaged items, such as chips. Therefore, we have amended the proposed regulations to clarify that 'unpackaged' means both wholly and partially unwrapped items, and they will be exempted.

Although Members did not raise it today, it is probably worth repeating for the record that bags that are charged for when they are new but are then reused by a charity shop will not be subject to another charge. I know that charity shops are keen on that initiative, and are keen to work with us on the reuse agenda.

4.40 p.m.

To pick up on the point that Leanne made about Cancun, it is critical that we all reduce our ecological footprint, and that is a fundamental driver of the Assembly Government's sustainability policy. Our waste strategy is based on the principle that not producing waste in the first place is better than producing it and then recycling it. Therefore, reducing the use of all types of single-use carrier bags definitely delivers the

gofyniad i gofnodi, cadw'r cofnodion hynny, eu darparu a'u cyhoeddi. Yr uchafswm y gellir ei orfodi fel cosb ariannol benodedig yw £200 am fethu â chodi tâl a £100 am fathau eraill o fethu â chydymffurfio.

Cododd Angela nifer o bethau yng nghydestun bwyd brys. Mae'n amlwg ein bod i gyd yn anhapus bod nifer o bobl yn taflu sbwriel ar ein palmentydd ar ôl iddynt fwyta pryd, yn enwedig yn hwyr yn y nos. Mae'n costio i awdurdodau lleol ac i gyrff eraill lanhau'r sbwriel hwnnw. Mae a wnelo'r tâl hwn ag a oes angen inni ystyried risgiau iechyd eitemau bwyd sydd heb eu pecynnu, boed hynny'n fwyd sydd heb ei becynnu o gwbl ynteu wedi'i becynnu'n rhannol. Rwyf yn gwbl ymwybodol bod eitemau o fwyd sydd wedi'u pecynnu'n rhannol yn agored i gael eu trawshalogi mewn bag sy'n cael ei aildddefnyddio ac y gallai hynny halogi pethau eraill yn y dyfodol wrth ddefnyddio'r bag eto. Mae ystyriaethau penodol yn berthnasol i fwyd poeth bwyta-ar-y-pryd a'r sector bwyta'i gweini-cyflym yng nghyswllt eitemau sydd wedi'u pecynnu'n rhannol, megis sglodion. Felly, rydym wedi diwygio'r rheoliadau arfaethedig i egluro bod 'heb ei becynnu' yn golygu eitemau sydd heb eu pecynnu o gwbl ac eitemau sydd heb eu pecynnu'n llwyr, ac ystyrir y rhain yn eithriadau.

Er na chodwyd hyn gan yr Aelodau heddiw, mae'n debyg ei bod yn werth inni ei ailadrodd i'w gofnodi na fydd gofyn talu eto am fagiâu y codwyd amdanynt pan oeddent yn newydd ond a aildddefnyddir wedyn gan siop elusen. Gwn fod siopau elusennau'n frwd o blaid y cynllun hwnnw a'u bod yn awyddus i gydweithio â ni ar yr agenda aildddefnyddio.

A chodi'r pwynt a wnaeth Leanne am Cancun, mae'n hollbwysig ein bod i gyd yn lleihau ein hól-troed ecolegol a dyna sbardun sylfaenol polisi cynaliadwyedd Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein strategaeth gwastraff wedi'i seilio ar yr egwyddor bod peidio â chynhyrchu gwastraff yn y lle cyntaf yn well na'i gynhyrchu ac wedyn ei ailgylchu. Felly, lleihau nifer y bagiau untro o bob math a ddefnyddir yn sicr yw'r ffordd orau o leihau

best ecological footprint reduction, which is why Members are behind that.

It may be useful if Members were circulated with my response to the Chair of the Constitutional Affairs Committee. I am not sure what has happened since 24 November, when I signed the response, if she received it only yesterday. However, the vast majority of the points that she has made in this debate are dealt with in that response.

In the context of paper bags, we agreed in an early debate that all bags would be covered by new arrangements, because the reality is that paper and plastic bags use natural resources and can cause significant pollution and resource depletion. To exempt paper bags could result in replacing one sort of environmental damage with another, and substantially reducing the use of all types of bags delivers the best ecological footprint reduction. However, the Chair of the Constitutional Affairs Committee raised a number of detailed points in her contribution, which have been responded to by the Assembly Government, but probably after her speech was written. Therefore, she needs to have a copy of that response.

I am grateful to Members for supporting this initiative. I said at the beginning that we are victims of the processes set for the delivery of our legislation. If there were to be a review of the delivery of legislation such as this, I would say that I would have been happier to have a great deal longer in which to debate the specific issues to do with the regulations.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

ein hól-troed ecolegol, a dyna pam mae'r Aelodau o blaid hynny.

Fe allai fod yn ddefnyddiol petai fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau. Nid wyf yn siŵr beth sydd wedi digwydd er 24 Tachwedd pan lofnodais yr ymateb, os na chafodd hi gopi tan ddoe. Serch hynny, rhoddir sylw i'r rhan fwyaf helaeth o'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud yn y ddadl hon yn yr ymateb hwnnw.

Yng nghyd-destun bagiau papur, cytunwyd mewn dadl yn fuan yn y broses y byddai'r trefniadau newydd yn cynnwys bagiau o bob math oherwydd y gwir yw bod bagiau papur a phlastig yn defnyddio adnoddau naturiol ac fe allant achosi llygredd a thraul sylweddol ar adnoddau. Gallai eithrio bagiau papur olygu ein bod yn cael gwared ar un math o ddifrod i'r amgylchedd ac yn rhoi un arall yn ei le Lleihau'n sylweddol nifer y bagiau o bob math a ddefnyddir a fydd yn sicrhau'r gostyngiad gorau o ran ein hól-troed ecolegol. Fodd bynnag, cododd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol nifer o bwyntiau manwl yn ei chyfraniad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb iddynt, ond ar ôl iddi ysgrifennu ei haraith, mae'n debyg. Felly, mae angen iddi gael copi o'r ymateb hwnnw.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am gefnogi'r cynllun hwn. Dywedais ar y dechrau ein bod yn dioddef yn sgil y prosesau a bennwyd ar gyfer creu ein deddfwriaeth. Petaem yn adolygu trefniadau creu deddfwriaeth fel hyn, byddwn yn dweud y buaswn yn hapusach cael llawer mwy o amser i drafod y materion penodol sy'n berthnasol i'r rheoliadau.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Cynigir derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.



## Adnewyddu'r Economi Economic Renewal

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4602 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r ymrwymadau yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Cynigiau y cynnig.

Mae dau welliant i'r cynnig, ac egluraf y rhesymau pam yr ydym yn gofyn i'r Cynulliad eu gwrthod. Yr ydym yn gwrthod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol gan fod y gwaith hwnnw eisoes ar y gweill. Yr ydym yn gwrthod gwelliant y Ceidwadwyr gan y bydd cyfarfod cyntaf y cyngor ar ei newydd wedd yfory, a dylem drafod y newidiadau i'r ffordd y byddwn yn ymateb i waith y cyngor gyda'i aelodau yfory. Fodd bynnag, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod croeso cyffredinol wedi bod i'r polisi newydd. Cyn imi symud ymlaen i drafod y cynnig, hoffwn gymryd y cyfle i groesawu Darren Millar i'w swydd newydd, gan fy mod yn deall mai ef yw'r llefarydd cysgodol ar yr economi bellach. Rwyf yn siŵr y cawn yr un berthynas ag a gefais gyda'i ragflaenydd, Mr David Melding, sydd, fe welaf, wedi symud sedd yn ôl yn y Siambr.

Bum mis yn ôl, lansiais raglen adnewyddu'r economi. Ers hynny, yr wyf i a'm swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i weithredu'r polisi newydd hwnnw. O fewn fy adran, mae swyddogion wrthi'n gweithio i weithredu'r cynllun staffio newydd, sydd bron yn ei le. Y cam arall yr oedd yn rhaid ei gymryd oedd sicrhau bod cyllideb yr adran yn adlewyrchu'r cyfeiriad newydd. Rwyf yn siŵr bod yr Aelodau wedi sylwi o'r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd fod newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r arian yn llifo drwy'r adran, a hynny i gefnogi busnes.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Nick Ramsay a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

*Motion NDM4602 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales notes the progress being made in implementing the commitments made in 'Economic Renewal: a new direction'.*

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I move the motion.

There are two amendments to the motion, and I will explain the reasons why we are asking the Assembly to reject them. We reject the Liberal Democrats' amendment because that work is already under way. We reject the Conservatives' amendment because the first meeting of the council in its new format is tomorrow, and we should discuss changes to the way in which we respond to the council's work with its members tomorrow. However, I welcome the fact that the new policy has been given a general welcome. Before I move on to discuss the motion, I wish to take this opportunity to welcome Darren Millar to his new role, as I understand that he is now the shadow spokesperson on the economy. I am confident that we will have the same relationship as I had with his predecessor, Mr David Melding, who has now, I see, moved one seat back in the Chamber.

Five months ago, I launched the economic renewal programme. Since then, my officials and I have been working extremely hard to deliver on the policy agenda that we set out. Within my department, officials have been working to implement a new staffing structure, and that work is now almost complete. The next step that had to be taken was to realign the department's budget to support the new direction. I am sure that Members will have seen when the draft budget was announced the significant changes to funding flows through the

Buom yn hynod uchelgeisiol yn y camau yr ydym wedi'u cymryd eisoes. Mae hynny yn cynnwys yr amserlen fer yr ydym wedi'i gosod i ni'n hunain yn ogystal â maint y newidiadau. Nid mater o fân newidiadau yn ambell raglen yw rhaglen adnewyddu'r economi; yn hytrach mae'n adnewyddu rôl economaidd Llywodraeth y Cynulliad yn ei hanfod—newid sylweddol.

Er gwaethaf y ffaith bod Cymru yn wynebu'r toriadau mwyaf difrifol mewn gwariant cyhoeddus o bob gwlad a rhanbarth yn y Deyrnas Gyfunol, yr wyf yn dal yn hyderus, o leiaf o safbwynt y polisi, ein bod ar y trywydd cywir. Mae ein dull cyffredinol ar gyfer adnewyddu'r economi yn pwysleisio seilwaith a sgiliau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r pwyslais hwn yn helpu pob busnes yng Nghymru, ac mae tua 200,000 ohonynt. Rhan o'r broblem gyda'r cynllun a oedd yn cael ei weithredu'n flaenorol oedd mai rhyw 1,000 i 1,500 o fusnesau, efallai yn cyrraedd 2,000, y gallem eu helpu mewn blwyddyn. Bydd y polisi hwn o sicrhau band eang y genhedlaeth nesaf i bob busnes yng Nghymru erbyn 2016 yn helpu llawer mwy o fusnesau. Yr ydym hefyd wedi sbarduno'n cynlluniau i ddarparu'r genhedlaeth nesaf o fand eang, fel yr awgrymais, i leoedd na fydd y farchnad yn gallu nac yn dymuno eu cyrraedd. Er gwaethaf yr her sylweddol i'n cyllideb, yr wyf yn falch o ddweud y byddwn yn dechrau'r broses gaffael erbyn gwanwyn 2011, gan baratoi, yn ôl ein haddewid, i ddarparu'r genhedlaeth nesaf o fand eang i fusnesau erbyn 2016.

Yr ydym wedi gwneud newidiadau mawr i'r ddarpariaeth cymorth busnes, ac mae'r dull gweithredu mwy penodol bellach yn realiti. Yr ydym wedi symud at gefnogi chwe sector allweddol, gydag un panel sector eisoes wedi'i sefydlu. Dim ond ychydig o wythnosau a fydd nes inni sefydlu'r holl banelau sector, a fydd yn rhoi'r cyngor arbenigol a'r her feirniadol y mae eu hangen ar lywodraethau effeithiol. Erbyn yfory—1 Rhagfyr—bydd pob un o'r timau sector newydd yn dechrau gweithredu.

Hoffwn ei gwneud yn glir, er bod gennym raglen Cymru gyfan i gefnogi busnesau, fy

department to support businesses.

We have been highly ambitious in the steps that we have already taken. This includes the rapid timescale that we have set ourselves as well as the scale of the changes. This is not a case of tinkering with a few programmes; this is a radical renewal of the economic role of the Assembly Government as a whole—a significant change.

In spite of Wales facing the most severe public spending cutbacks of all the nations and regions of the United Kingdom, I am confident that we are, from a policy point of view at least, still on course. Our overall approach to economic renewal emphasises twenty-first century infrastructure and skills. That emphasis helps every business in Wales, of which there are around 200,000. Part of the problem with the previous scheme was that we could only help some 1,000 to 1,500 businesses, or 2,000 at most, every year. This policy of securing next-generation broadband for all businesses in Wales by 2016 will help many more businesses. We have accelerated our plans to deliver next-generation broadband, as I suggested, to places that the market will not, or will not want to, reach. Despite the significant challenges to our budget, I am pleased to say that we will be ready to start the procurement process by the spring of next year—preparing, as promised, for the delivery of next-generation broadband businesses by 2016.

We have made fundamental changes to the provision of business support, with our more targeted approach now a reality. We have moved to supporting the six key sectors, with one sector panel already in place. We are just weeks away from having a full set of sector panels, which will provide the expert advice and critical challenge that effective governments need. By tomorrow—1 December—all of the new sector teams will begin operating.

I also want to make it clear that, while we have an all-Wales approach to business

mod, fel yr addewais, wedi cadw presenoldeb rhanbarthol cryf i weithredu'r rhaglen. Mae'r chwe sector yn cynnwys busnesau o bob maint, o'r cwmnïau angor mawr sydd mor bwysig i'n heconomi, i fentrau bach a chanolig a busnesau newydd, sydd yn cyfrif am oddeutu 98 y cant o fusnesau Cymru. Yr ydym yn annog pob busnes i fod yn ffyniannus; dyna pam yr ydym yn cynnig cefnogaeth i fusnesau o bob maint. Hoffwn ei gwneud yn glir unwaith yn rhagor, felly, nad oes gogwydd tuag at gwmnïau mawr yn y rhaglen. Nid maint busnes sydd yn bwysig, ond ei botensial ar gyfer twf a gwella rhagolygon ar gyfer creu swyddi. Yn ogystal, yr ydym am sicrhau bod y cwmnïau sy'n dod â chapasiti ymchwil a datblygu yn cael croeso arbennig, gan eu bod yn cynnig ychwanegu gwerth sylweddol i economi Cymru.

Today's globalised economy means that no nation can work entirely on its own. We have been reviewing our overseas presence and how best to encourage companies to come to Wales, or to trade with companies in Wales. I am now considering the recommendations coming out of the review and hope to make some announcements quite soon. The intention, however, is to concentrate on areas in which we can really add value to the Welsh economy, be that from inward investment or trade.

The policy development of the economic renewal programme was characterised by strong engagement with stakeholders. That has continued as we have implemented the policy. In the coming weeks, I will be stepping up our communications even further by publishing a practical guide to support what is available both online and through our regional centres. Tomorrow, the Government and the social partners are coming together to form the new council for economic renewal, which is the refreshed business partnership council. This is a fresh start in our interaction with each other and a genuine opportunity to influence policy and shape the Welsh economy for the longer term. We are delivering on what we promised. The journey of renewal has begun and we intend to continue with it.

support, I have retained, as I promised, a strong regional presence in the delivery of the programme. The six sectors include businesses of all sizes, from large anchor companies that are so significant for our economy, to small and medium-sized enterprises and start ups, which account for 98 per cent of Wales's businesses. We encourage all businesses to flourish; that is why our offer supports every size of business. I would like to emphasise again, therefore, that the programme is not skewed towards large companies. It is not the size of the company that is important, but its potential for growth and improved prospects for job creation. In addition, we want to ensure that companies that bring research and development capacity are especially welcomed, as they offer significant added value to the Welsh economy.

Mae economi fyd-eang yr oes sydd ohoni'n golygu na all yr un genedl weithio'n gyfan gwbl ar ei phen ei hun. Rydym wedi bod yn adolygu ein presenoldeb dramor a sut orau mae annog cwmnïau i ddod i Gymru, neu i fasnachu gyda chwmnïau yng Nghymru. Rwyf yn awr yn ystyried yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad gan obeithio gwneud nifer o gyhoeddiadau'n weddol fuan. Y bwriad, serch hynny, yw canolbwyntio ar feysydd lle y gallwn yn wir ychwanegu gwerth at economi Cymru, boed hynny yn sgil mewnfuddsoddi ynteu fasnach.

Un o nodweddion datblygu polisi rhaglen adnewyddu'r economi oedd y cysylltiad cryf a feithrinwyd â rhanddeiliaid. Mae hynny wedi parhau wrth inni roi'r polisi ar waith. Yn yr wythnosau nesaf, byddaf yn cryfhau ein cyfathrebu eto fyth drwy gyhoeddi canllawiau ymarferol a fydd yn gefn i'r hyn sydd ar gael ar lein a thrwy ein canolfannau rhanbarthol. Yfory, bydd y Llywodraeth a'r partneriaid cymdeithasol yn dod ynghyd i ffurfio cyngor newydd adnewyddu'r economi, sef y cyngor partneriaeth busnes ar ei newydd wedd. Dyma ddechrau newydd yn ein hymwneud â'n gilydd a chyfle go iawn i ddylanwadu ar bolisi a llunio economi Cymru ar gyfer y tymor hwy. Rydym yn cyflawni'r hyn a addawyd gennym. Rydym wedi cychwyn ar y daith adnewyddu a bwriadwn barhau ar y trywydd hwnnw.

4.50 p.m.

*Gwelliant 1 Nick Ramsay*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Yn credu bod rhaid i adferiad economaidd llwyddiannus fod yn seiliedig ar amcanion strategol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Partneriaeth Busnes ar ei newydd wedd, a bod y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r amcanion hynny yn effeithiol.*

**Darren Millar:** I move amendment 1.

Before I go any further, I thank the Deputy First Minister for his warm words of welcome to my new post, and also pay tribute to my predecessor as shadow Minister for the economy and transport, David Melding. During his tenure, David demonstrated an admirable command of his brief and was always constructive in his criticism of the Assembly Government. He was never afraid to commend the Deputy First Minister when he felt that the right decisions were being made, and that is the approach that I would like to continue, you will be pleased to know.

This party has rightly welcomed the Assembly Government's publication of the economic renewal plan. After all, given the billions spent on Welsh economic development since devolution, the continued lack of real and sustained improvement in the Welsh economy makes it abundantly clear that we need a fundamentally different approach to economic renewal. The plan places much emphasis on the role of devolved Government in creating the conditions in which the private sector can flourish by promising a shift of resources from direct business support to measures that impact more upon the general business environment. I do not think that anyone here would argue against the direction of these ambitions, but, unfortunately, the plan fails to address a number of key concerns.

There were five priority areas in the renewal

*Amendment 1 Nick Ramsay*

*Delete all and replace with:*

*Believes that successful economic renewal must be based on strategic goals that are agreed with, and effectively monitored and evaluated by, a reformed Business Partnership Council.*

**Darren Millar:** Cynigaf welliant 1.

Cyn imi fynd gam ymhellach, rwyf am ddiolch i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei eiriau caredig yn fy nghroesawu i'm swydd newydd, gan roi teyrnged hefyd i'm rhagflaenydd yn swydd Gweinidog yr wrthblaid dros yr economi a thrafnidiaeth, David Melding. Yn ystod y cyfnod y bu yn y swydd, dangosodd David fod ganddo afael glodwiw ar ei faes ac roedd bob tro'n adeiladol ei feirniadaeth ar Lywodraeth y Cynulliad. Ni fu erioed ofn arno ganmol y Dirprwy Brif Weinidog pan deimlai bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud, a byddwch yn falch o glywed fy mod innau'n dymuno parhau ar y trywydd hwnnw.

Mae'n iawn bod blaid hon wedi croesawu cyhoeddi cynllun adnewyddu'r economi gan Lywodraeth y Cynulliad. Wedi'r cyfan, ac ystyried y biliynau sydd wedi'u gwario ar ddatblygu economaidd yng Nghymru ers datganoli, mae'r ffaith nad oes dim gwelliant go iawn parhaus yn economi Cymru o hyd yn ei gwneud yn hollol amlwg fod angen inni fynd ati mewn ffordd gwbl wahanol i adnewyddu'r economi. Mae'r cynllun yn rhoi llawer o bwyslais ar rôl Llywodraeth ddatganoledig yn creu'r amodau lle y gall y sector preifat ffynnu drwy addo symud adnoddau oddi wrth roi cymorth uniongyrchol i fusnesau a chymryd camau sy'n effeithio mwy ar yr amgylchedd busnes yn gyffredinol. Ni chredaf y byddai neb yn y fan hon yn dadlau yn erbyn cyfeiriad yr uchelgais hwn, ond, yn anffodus, mae'r cynllun yn methu â rhoi sylw i nifer o bethau allweddol sy'n destun pryder.

Roedd pum maes blaenoriaeth yn y cynllun

plan: infrastructure, business environment, skills, innovation and business support. Turning to infrastructure for a few moments, the Assembly Government has given a commitment, which you reiterated this afternoon, to ensure that all businesses have access to next-generation broadband by 2016. That is something that this party has rightly welcomed. However, the plan was light on how that would be achieved. Deputy First Minister, you have said today that you intend to announce more details on the procurement of second-generation broadband in the spring. Are you able to share with us the sort of approach that you will take? Will it be on an individual grant basis, as with the current scheme, or will it be more significantly infrastructure-based in order to help those businesses that need to get online? Remember, many in Wales are not even getting first-generation broadband, let alone any prospect of getting second-generation broadband.

On the business environment, I am pleased that the plan recognises the importance of the planning system. You did not refer to it, Deputy First Minister, but we all know that the planning system can be extremely frustrating for many businesses when they are trying to develop and expand. Applications can take too long to determine by local authorities, and, indeed, when permission is granted, it can often be too inflexible in allowing for rapid change under economic difficulties and changes in the economic climate. Could you, therefore, tell us about any specific actions that you are taking in conjunction with the Minister for Environment, Sustainability and Housing to address those concerns?

You also referred in the plan to the procurement process. Everyone in the Chamber will have been challenged by constituents and businesses in our areas at one time or another regarding the difficulties with the public procurement process. It is important that that is overhauled.

There was no announcement of material changes in the direction of policy on skills

adnewyddu: seilwaith, amgylchedd busnes, sgiliau, arloesi a chymorth i fusnesau. A throi at y seilwaith am ychydig, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo, ac rydych chi wedi ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw y prynhawn yma, i sicrhau bod pob busnes yn gallu cael gafael ar fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2016. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r blaid hon wedi'i groesawu, a hynny'n briodol. Serch hynny, nid oedd y cynllun yn dweud rhyw lawer am sut y cyflawnid hynny. Ddirprwy Brif Weinidog, rydych wedi dweud heddiw eich bod yn bwriadu cyhoeddi rhagor o fanylion am gaffael band eang yr ail genhedlaeth yn y gwanwyn. A allwch ddweud wrthym sut yr ewch ati? Ai ar sail grantiau unigol, fel sy'n wir am y cynllun presennol, ynteu a fydd wedi'i seilio'n fwy sylweddol ar y seilwaith er mwyn helpu'r busnesau hynny y mae angen iddynt fynd ar lein? Cofiwch, mae llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt hyd yn oed yn cael band eang y genhedlaeth gyntaf, heb sôn am unrhyw ragolygon o gael band eang yr ail genhedlaeth.

O ran yr amgylchedd busnes, rwyf yn falch bod y cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y system gynllunio. Ni chrybwyllwyd hynny gennyh, Ddirprwy Brif Weinidog, ond rydym i gyd yn gwybod bod y system gynllunio'n gallu bod yn rhwystredig iawn i lawer o fusnesau pan fyddant yn ceisio datblygu ac ehangu. Gall gymryd gormod o amser i awdurdodau benderfynu ynglŷn â cheisiadau, ac, yn wir, pan roddir caniatâd, bydd hynny'n aml yn rhy anhyblyg i ganiatáu ar gyfer newid cyflym o dan anawsterau economaidd a newidiadau yn yr hinsawdd economaidd. A allech ddweud wrthym felly am unrhyw gamau penodol yr ydych yn eu cymryd ar y cyd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i fynd i'r afael â'r pryderon hynny?

Cyfeiriwyd yn y cynllun hefyd at y broses gaffael. Bydd pawb yn y Siambr wedi cael ei herio gan etholwyr a busnesau yn ein hardaloedd rywbryd neu'i gilydd ynglŷn â'r anawsterau gyda'r broses gaffael gyhoeddus. Mae'n bwysig newid honno o'i chwyr.

Nid oedd unrhyw gyhoeddiad am newidiadau sylweddol o ran cyfeiriad y

and innovation. Therefore, in view of time, I will move on to business support, where there was a significant change announced. The targeted approach with the six key sectors is welcome. It is the right way to go forward. However, I was disappointed that tourism was excluded from the sectoral approach. We all know that there are huge opportunities in tourism, which is a massive part of the Welsh economy. I do not think that we celebrate that enough, frankly. Are you prepared, Deputy First Minister, to review that approach and to add tourism as a seventh sector? It is something that we should target.

A number of organisations, including the Institute of Directors, the Confederation of British Industry Wales and the Royal Institute of Chartered Surveyors, have also referred to the need for a cultural change in attitude from the Assembly Government towards the private sector. Again, you have not really referred to that or to how you will effect that change in the future.

I will add a brief word, if I may, about the shift from grants to loans. Again, that is the right move. It is something for which you will get a lot of support from this side. However, given the challenges to the budget, which you referred to in your speech, Deputy First Minister, how much will you work with the private sector, particularly with banks and other investors, to ensure that we still lever down sufficient resources to help Welsh businesses that want to expand and new businesses that want to start to establish themselves? There are examples of schemes in Essex, for example, that have worked extremely well with very little public sector investment with regard to turning the key for investment in that county. Will you learn lessons from what has happened there?

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi y bydd cynllun cyflenwi cadarn ar gyfer rhaglen adfywio'r economi yn ofynnol*

polisi yng nghyswllt sgiliau ac arloesi. Felly, gyda golwg ar yr amser, symudaf ymlaen at gymorth i fusnesau, lle y cyhoeddwyd newid sylweddol. Croesewir targedu'r chwe sector. Dyma'r ffordd iawn o fwrw ymlaen. Serch hynny, roeddwn yn siomedig nad oedd twristiaeth wedi'i chynnwys yn un o'r sectorau. Gwyddom i gyd fod cyfleoedd enfawr ym maes twristiaeth, sy'n rhan enfawr o economi Cymru. Ni chredaf ein bod yn dathlu hynny ddigon, a dweud y gwir. A ydych yn barod, Ddirprwy Weinidog, i adolygu hynny ac ychwanegu twristiaeth yn seithfed sector? Mae'n rhywbeth y dylem ei dargedu.

Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru a Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig, wedi cyfeirio hefyd at y ffaith bod angen newid diwylliannol o ran agwedd Llywodraeth y Cynulliad at y sector preifat. Unwaith eto, nid ydych yn wir wedi cyfeirio at hynny nac ychwaith at sut y byddwch yn rhoi'r newid hwnnw ar waith yn y dyfodol.

Ychwanegaf air byr, os caf, am y symud oddi wrth grantiau at fenthyciadau. Unwaith eto, dyna'r cam cywir. Mae'n rhywbeth y cewch lawer o gefnogaeth iddo o'r ochr hon. Serch hynny, ac ystyried yr heriau i'r gyllideb y cyfeiriasoch atynt yn eich araith, Ddirprwy Brif Weinidog, i ba raddau y byddwch yn gweithio gyda'r sector preifat, yn enwedig gyda'r banciau a buddsoddwyr eraill, er mwyn sicrhau y byddwn yn dal i ddenu digon o adnoddau i helpu busnesau Cymru sy'n awyddus i ehangu a busnesau newydd sydd am ddechrau cael eu traed danynt? Mae enghreifftiau o gynlluniau yn Essex, er enghraifft, sydd wedi gweithio'n dda iawn gydag ychydig iawn o fuddsoddi gan y sector cyhoeddus er mwyn troi'r allwedd ar gyfer buddsoddi yn y wlad honno. A wnewch ddysgu gwersi yn sgil yr hyn sydd wedi digwydd yno?

*Amendment 2 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that a robust delivery plan for the economic renewal programme will be*

*er mwyn asesu gweithrediad y strategaeth.*

*required to assess the implementation of the strategy.*

**Jenny Randerson:** I move amendment 2.

**Jenny Randerson:** Cynigiau gynnig 2.

It was with slightly wry amusement that I read the motion for this debate. We waited three years for a statement of economic policy on economic renewal—the Deputy First Minister had been in post for three years when it was announced—and now, barely four months on, we are looking at progress on this very slow-to-arrive policy. If the policy had arrived as rapidly as this debate on its progress, we would be very much further forward.

Darllenais y cynnig ar gyfer y ddadl hon gyda chryn ddifyrrwch. Buom yn aros dair blynedd am ddatganiad polisi economaidd ar adnewyddu'r economi—yr oedd y Dirprwy Brif Weinidog wedi bod yn ei swydd dair blynedd pan gyhoeddwyd hyn—a bellach, brin bedwar mis wedyn, rydym yn edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r polisi hwn a fu mor hir yn cyrraedd. Petai'r polisi wedi cyrraedd mor gyflym â'r ddadl hon ynglŷn â'i gynnydd, byddem wedi camu ymlaen llawer mwy.

In addition, as far as I am aware, we do not even have a detailed delivery plan yet. The Deputy First Minister said earlier that he will be rejecting our amendment because he is working on a delivery plan. When will the detail of that delivery plan be available and when will we have the opportunity to scrutinise it? Until we have that level of detail, all that we can really say is that we agree with the general principles. There was cross-party agreement on the general principles, and, indeed, they were the general principles that the opposition had been pushing the Deputy First Minister to incorporate into his economic policy for some years. Therefore, it is the detail that has been of concern, and I believe that there is still a serious level of concern.

Yn ogystal â hyn, cyn belled ag y gwn i, nid oes gennym gynllun cyflawni manwl eto hyd yn oed. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog gynnau y bydd yn gwrthod ein gwelliant oherwydd ei fod yn gweithio ar gynllun cyflawni. Pa bryd y bydd manylion y cynllun cyflawni hwnnw ar gael a pha bryd y cawn y cyfle i graffu arno? Nes inni gael y manylion hynny, y cyfan y gallwn ei ddweud mewn gwirionedd yw ein bod yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol. Roedd cytundeb trawsbleidiol ar yr egwyddorion cyffredinol ac yn wir, dyna'r egwyddorion cyffredinol yr oedd yr wrthblaid wedi bod yn pwysu ar y Dirprwy Brif Weinidog i'w cynnwys yn ei bolisi economaidd ers sawl blwyddyn. Felly, y manylion sydd wedi bod yn destun pryder a chredaf fod hynny'n destun cryn bryder o hyd.

Last week, in the Enterprise and Learning Committee, I detected what I would regard as a disturbing level of complacency from both the Deputy First Minister and his officials, particularly on the issue of the robustness of their monitoring and evaluation. You will, in due course, see that view reflected in the committee's report on the budget. One is extremely concerned when a department that often appears from the outside to be pretty dysfunctional gives assurances that something is really well evaluated and monitored. We need to know the detail and see a great deal more than what we were told at committee in order to be reassured.

Yr wythnos diwethaf, yn y Pwyllgor Menter a Dysgu, roedd difrawder y Dirprwy Brif Weinidog a'i swyddogion, yn enwedig yng nghyswllt cadernid eu monitro a'u gwerthuso, yn peri cryn bryder imi. Maes o law, byddwn yn gweld y farn honno'n cael ei hadlewyrchu yn adroddiad y pwyllgor ar y gyllideb. Mae rhywun yn poeni o ddifrif pan fydd adran sy'n aml yn ymddangos yn eithaf camweithredol o'r tu allan yn ein sicrhau bod rhywbeth wedi'i werthuso a'i fonitro'n dda. Mae angen inni wybod y manylion a gweld llawer mwy na'r hyn a ddywedwyd wrthym yn y pwyllgor er mwyn inni deimlo'n dawel ein meddwl.

I now turn to consider progress in this

Trof yn awr i ystyried y cynnydd yn yr adran

department in the past year or so. There has been upheaval in the Government's attempts to do business abroad and there have been problems with International Business Wales. I very much welcome the fact that the Deputy First Minister has taken action on these issues, albeit belatedly. However, we need to know in detail what the replacement will be. It is not right for us as a nation to fail to have those links with businesses abroad; we need to look for customers abroad for our merchandise, goods and services. However, the previous system was clearly not working.

There has also been the delay, which business organisations have made much of in the past few months, in introducing the new loans system. There is general agreement that loans are a better idea than grants—they go further, will hopefully be repaid and the money can be recycled. We all supported that approach, but there was, in practice, a delay in providing the advice that businesses needed on how the loans would work and in ensuring that they were available. I know that you said that there would not be a gap, Deputy First Minister, but people who tried to get access to that advice and money found that, in practice, there was a gap.

5.00 p.m.

There is then the ongoing problem of the roll-out of broadband across Wales. We heard earlier about the failure of WFO to bid for funds for broadband. The Deputy First Minister has said that investment in broadband infrastructure is a priority, but I find it very disconcerting to read about the highly effective system that is already in place in Cornwall and to realise that, yet again, Wales is limping along at the back of the field, trying to catch up. This is not about isolated rural areas, but having decent broadband speeds in our urban areas as well—indeed, in the centre of the capital city.

My final point is that I still receive regular

hon yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Tarfwyd ar ymdrechion y Llywodraeth i wneud busnes dramor ac mae problemau wedi bod gyda Busnes Rhyngwladol Cymru. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gweithredu yng nghyswllt y materion hyn, er gwaethaf yr oedi. Fodd bynnag, mae angen inni wybod yn fanwl beth a ddaw yn lle hynny. Nid yw'n iawn nad oes gennym ni'r genedl y cysylltiadau hynny â busnesau dramor; mae angen inni chwilio am gwsmeriaid tramor i'n cynnyrch, ein nwyddau a'n gwasanaethau. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg nad oedd yr hen system yn gweithio.

Mae oedi wedi bod hefyd, ac mae sefydliadau busnes wedi sôn llawer am hyn yn yr ychydig fisoedd diwethaf, o ran cyflwyno'r system fenthyciadau newydd. Mae cytundeb cyffredinol bod benthyciadau'n syniad gwell na grantiau—maent yn ymestyn ymhellach, byddant yn cael eu had-dalu gobeithio a gellir ailgylchu'r arian. Roeddem i gyd yn cefnogi'r dull hwnnw, ond o safbwynt ymarferol, bu oedi wrth ddarparu'r cyngor yr oedd ei angen ar fusnesau ynglŷn â sut y byddai'r benthyciadau'n gweithio ac o ran sicrhau eu bod ar gael. Gwn ichi ddweud na fyddai bwlch, Ddirprwy Brif Weinidog, ond i'r bobl hynny a oedd yn ceisio gael gafael ar y cyngor a'r arian hwnnw, ar lawr gwlad, yr oedd yna fwllch.

Yna, mae problem barhaus lledaenu band eang drwy Cymru. Clywsom gynnu am fethiant Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i fidio am arian ar gyfer band eang. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud bod buddsoddi mewn seilwaith band eang yn flaenoriaeth, ond mae'n rhwystredig darllen am y system hynod effeithiol sydd eisoes ar waith yng Nghernyw a sylweddoli unwaith eto, bod Cymru'n cloffi y tu ôl i'r gweddill, ac yn ceisio'u dal. Nid sôn am ardaloedd gwledig ynysig ydw i, ond am gael cyflymder band eang digonol yn ein hardaloedd trefol hefyd—yn wir, yng nghanol ein prif ddinas.

Fy mhwynt olaf yw fy mod yn dal i gael



correspondence from businesses that feel that the procurement processes do not favour our smaller, home-grown companies. That system simply has to be reviewed.

**Brian Gibbons:** The central thrust of the strategy has to be right: Wales has to be a country in which it is good to do business, and to which businesses are glad to come to work with us. The emphasis in the renewal programme is that this is a challenge for all of Government in Wales, not just for the Department for the Economy and Transport. The Deputy First Minister's emphasis on hard infrastructure that is fit for purpose is absolutely correct, as is the emphasis on the softer infrastructure, such as skills and research and development. However, responsibility does not rest just with the Executive; as a legislature, we also have our responsibilities. As we legislate in the National Assembly, we have to be careful that we do not create unintended costs or consequences for businesses that make their work more difficult. That places a real challenge on the Executive to produce effective impact assessments for the legislation that it is putting forward, and a real challenge on us as a legislature to ensure that there are no undesired impacts.

Even if all that happens, we have to recognise that we are not working in isolation, and that other regions in the United Kingdom, and other devolved administrations, are working to do more or less exactly the same as we are doing. Therefore, the question that we have to ask ourselves is: where is our competitive advantage in all of this? One of our big competitive advantages has been that we are a selective assistance area. It gives me some concern that what is potentially one of the strongest clubs in our bag is, in some respects, being curtailed. That could be justified if the trade-off with benefits could be demonstrated, and only time will show whether that is the case. However, I have a strong feeling that the financial assistance that is available through regional selective assistance is potentially an important incentive for businesses to establish themselves in Wales. We know that corporation tax in the Irish republic, which is a clear financial incentive, does work. Indeed, *The Economist* reported last week

gohebiaeth yn rheolaidd gan fusnesau sy'n teimlo nad yw'r prosesau caffael yn ffafrio ein cwmnïau cartref llai. Yn sicr, rhaid adolygu'r system honno.

**Brian Gibbons:** Rhaid i brif ergyd y strategaeth fod yn iawn. Rhaid i Gymru fod yn wlad sy'n lle da i wneud busnes, yn wlad y mae busnesau'n falch o ddod iddi i weithio gyda ni. Y pwyslais yn y rhaglen adnewyddu yw bod hyn yn her i bob rhan o'r Llywodraeth yng Nghymru, nid dim ond i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae pwyslais y Dirprwy Brif Weinidog ar seilwaith caled sy'n addas at y diben yn gwbl gywir, a hefyd y pwyslais ar y seilwaith meddalach, megis sgiliau ac ymchwil a datblygu. Serch hynny, nid yw'r cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r Weithrediaeth yn unig; mae gennym ninnau hefyd, y ddeddfwrfa, ein cyfrifoldebau. Wrth inni ddeddfu yn y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid inni ochel rhag creu costau anfwriadol neu ganlyniadau i fusnesau sy'n gwneud eu gwaith yn anos. Mae hynny'n creu her go iawn i'r Weithrediaeth gynhyrchu asesiadau effaith effeithiol ar gyfer y ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnig, a her go iawn i ninnau, y ddeddfwrfa, i sicrhau nad ydym yn creu effeithiau nad yw pobl yn dymuno'u gweld.

Hyd yn oed os bydd hynny i gyd yn digwydd, rhaid inni sylweddoli nad ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain, a bod rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig, a gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn gweithio i wneud yr un peth fwy neu lai â ninnau. Felly, y cwestiwn y mae'n rhaid inni ei ofyn inni'n hunain yw: ymhle y mae ein mantais gystadleuol yn hyn oll? Un o'n manteision cystadleuol mawr yw ein bod yn ardal cymorth dewisol. Mae'n fy mhoeni braidd bod yr hyn a allai fod yn un o'r arfau pwysicaf sydd gennym, mewn ambell ffordd, yn cael ei wanhau. Gellid cyfiawnhau hynny petai modd dangos sut y gallai'r manteision wneud iawn am hynny, a dim ond amser a ddengys ai felly y mae. Serch hynny, mae gennyf deimlad cryf bod y cymorth ariannol sydd ar gael drwy gymorth rhanbarthol dewisol o bosibl yn gymhelliant pwysig i fusnesau ymsefydlu yng Nghymru. Gwyddom fod treth gorfforaeth yng ngweriniaeth Iwerddon, sy'n gymhelliant ariannol amlwg, yn gweithio. Yn wir, roedd

that foreign direct investment is flooding into the Irish Republic once again. Therefore, we need to be sure that we are making the best use of regional selective assistance, and we should not underplay that advantage, which we have, but which few other parts of the United Kingdom have at their disposal.

Another key challenge relates to not just increasing the GVA of Wales but increasing job opportunities. It is a feature of the Welsh economy that we have one of the highest levels of economic inactivity. Indeed, in my own area, up to one third of the population is economically inactive. Therefore, as far as I am concerned, there is no such thing as a bad job. Every job is a good job; whether it comes from the six priority areas or the non-priority areas, it is a good job if it gets people into work. We know from the evidence that has been provided by the Assembly Government that the six priority sectors provide only a quarter of the new jobs being created in Wales. Therefore, a heavy burden will be placed on the rest of the economy to generate jobs on the scale needed. We really need these jobs, even if they are not in these six priority areas, not least because of the draconian benefit cuts coming down the line, which mean that people will be forced to subsist in penury on the dole or be forced into work. Therefore, creating those jobs is urgent, whether they are in the high-value sector or among the other 75 per cent that is not covered by the priority areas.

Consequently, we need a system—I think that Jenny Randerson touched upon this in her contribution—of early signals in relation to how this renewal strategy is working and the question marks that exist about the various elements of the strategy. If there is evidence that the ambition of the renewal strategy is not being delivered, then we will be in a position to have an early review.

**Gareth Jones:** Hoffwn ddymuno yn dda i Darren Millar yn ei swydd newydd. Hoffwn hefyd ddatgan fy nghydnabyddiaeth a diolchgarwch am y gwaith arbennig iawn a

*The Economist* yn adrodd yr wythnos diwethaf fod buddsoddi uniongyrchol tramor unwaith eto'n llifo i Weriniaeth Iwerddon. Felly, mae angen inni fod yn siŵr ein bod yn defnyddio cymorth rhanbarthol dewisol i'r eithaf, ac ni ddylem danbrisio'r fantais honno, sydd gennym, mantais nad oes gan lawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Her allweddol arall yw honno sy'n ymwneud nid yn unig â chynyddu gwerth ychwanegol crynswth Cymru ond â chynyddu'r cyfleoedd i gael gwaith. Un o nodweddion economi Cymru yw bod gennym un o'r lefelau anweithgarwch economaidd uchaf. Yn wir, yn fy ardal i fy hun, mae hyd at draean o'r boblogaeth yn economaidd anweithgar. Felly, o'm rhan i, nid oes y fath beth â swydd wael; ni waeth a yw'n dod o'r chwe maes sy'n flaenoriaeth ynteu o'r meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, mae'n swydd dda os bydd yn rhoi cyfle i bobl gael gwaith. Gwyddom o'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu gan Lywodraeth y Cynulliad nad yw'r chwe sector blaenoriaeth ond yn darparu chwarter y swyddi newydd sy'n cael eu creu yng Nghymru. Felly, bydd baich trwm yn cael ei osod ar ysgwyddau gweddill yr economi i greu swyddi ar y raddfa y mae ei hangen. Mae gwir angen y swyddi hyn arnom, hyd yn oed os nad ydynt yn y chwe maes blaenoriaeth hyn, yn anad dim oherwydd y toriadau llym ar fudd-daliadau sydd ar y ffordd, sy'n golygu y bydd pobl yn cael eu gorfodi i fodoli mewn cyni ar y clwt neu'n cael eu gorfodi i weithio. Felly, mae creu'r swyddi hyn yn fater o frys, boed hynny yn y sector uchel ei werth neu ymhlith y 75 y cant nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr ardaloedd blaenoriaeth.

Felly, mae angen system arnom—credaf fod Jenny Randerson wedi crybwyll hyn yn ei chyfraniad—sy'n rhoi arwyddion buan inni o sut mae'r strategaeth adnewyddu hon yn gweithio a'r amheuan sy'n bodoli ynghylch gwahanol elfennau'r strategaeth. Os oes dystiolaeth nad yw uchelgais y strategaeth adnewyddu'n cael ei chyflawni, yna byddwn mewn sefyllfa i'w hadolygu'n fuan.

**Gareth Jones:** I would like to wish Darren Millar well in his new role. I would also like to state my recognition of and gratitude for the excellent work that David Melding did in

wnaeth David Melding yn y maes hwn ac fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu.

Mae rhaglen adnewyddu'r economi yn rhaglen uchelgeisiol sy'n dangos parodrwydd y Dirprwy Brif Weinidog i ymateb i'r caledi economaidd presennol a gwneud hynny drwy greu strategaeth economaidd sydd yn seiliedig ar ystyriaethau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Dyma Lywodraeth sydd yn fodlon meddwl ac addasu er mwyn trawsnewid Cymru, a Llywodraeth sy'n deall pwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid busnes yn hytrach nag ymyrryd ym myd busnes.

Mae Plaid Cymru yn uchelgeisiol ac yn amharod i eistedd yn ôl a gwyllo Cymru yn aros yn llonydd tra bod gwledydd eraill yn llewyrchu yn economaidd. Dyma'r amser i ennyn dyfeisgarwch, brwdfrydedd a blaengaredd er mwyn newid y diwylliant hanesyddol o fodloni ar yr hyn yr ydym wedi ei gael—hynny yw, setlo am yr hyn sydd gennym. Mae'r rhaglen yn enghraifft glir o lwyddiant datganoli, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru greu polisiau sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion economaidd a daearyddol ein cenedl—polisiau cenedlaethol sy'n rhoi'r un sylw i'n cymunedau trefol a gwledig, heb wahaniaethu.

Nid breuddwyd sydd yma, ond rhaglen o fwriad i weld Cymru yn llewyrchu ac yn arwain gwledydd eraill y byd. Er enghraifft, gwelwn y bwriad i feithrin a datblygu sgiliau entrepreneuriaeth. Mae'n amhosibl i hynny ddigwydd heb isadeiledd. Gwn yn fy etholaeth i faint o wahaniaeth y mae band eang wedi ei wneud i rai ardaloedd, yn enwedig er mwyn galluogi busnesau bach i gystadlu ar lwyfan cenedlaethol a byd-eang. Mae angen llongyfarch y Dirprwy Brif Weinidog am ymrwymo i sicrhau bod pob busnes yn cael band eang y genhedlaeth nesaf yn ystod y chwe blynedd nesaf. Erbyn heddiw, nid oes gobaith i unrhyw wlad fod yn llewyrchus heb isadeiledd, ac mae hynny'n cynnwys trafniadaeth sy'n cysylltu pob rhan o Gymru. Fel y clywsom yn gynharach y prynhawn yma, yr ydym eisoes yn cymharu Cymru ag Albania yng nghydestun trydaneiddio rheilffyrdd. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.

this area and as a member of the Enterprise and Learning Committee.

The economic renewal programme is an ambitious programme that demonstrates the Deputy First Minister's willingness to respond to the current economic hardship and to do that through creating an economic strategy that is based on local, national and global considerations. This is a Government willing to think and adapt in order to transform Wales, and a Government that understands the importance of collaborating with business partners, rather than interfering in the business world.

Plaid Cymru is ambitious and unwilling to sit back and watch Wales stall while other nations prosper economically. This is the time to engender innovation, enthusiasm and progressiveness in order to change the historical culture of making do with what we get—that is, settling for the status quo. The programme is a clear example of the success of devolution, which allows the Welsh Government to create policies that respond directly to the economic and geographical needs of our nation—national policies that pay the same attention to our urban and rural communities, without discrimination.

This is not a dream, but a programme that intends to see Wales prosper and lead other nations in the world. For example, we see the intention to nurture and develop entrepreneurial skills. It is impossible for that to happen without infrastructure. I know in my own constituency how much difference broadband has made to some areas, in particular in enabling smaller businesses to compete on a national and global stage. The Deputy First Minister should be congratulated on his commitment to ensuring that every business has next generation broadband over the next six years. These days, there is no chance of any nation prospering without infrastructure, and that includes transport that links all parts of Wales. As we heard earlier this afternoon, we are already comparing Wales with Albania in the context of electrification of railways. That is completely unacceptable.

Da yw nodi rhan a phwysigrwydd addysg uwch yn y rhaglen hon. Mae'n allweddol bwysig bod addysg uwch a busnesau, ynghyd â'r Llywodraeth, yn cyfathrebu er mwyn creu partneriaeth a all fasnachu a chreu cyfoeth ac, wrth gwrs, er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ac yn cael y cyfle i aros yng Nghymru. Bydd busnesau bach—asgwrn cefn economi Cymru—hefyd yn derbyn rhagor o gefnogaeth drwy dargedu'r chwe sector. Mae hyn yn ffordd lawer mwy effeithiol o gefnogi holl fusnesau Cymru ac yn ein symud oddi wrth y diwylliant o roi grantiau, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar nifer llai o fusnesau, mawr gan amlaf, sydd heb risg ond sydd hefyd yn llai tebygol o fentro a datblygu mewn ffordd ddeinamig a chyffrous—yr union beth yr ydym am ei weld yng Nghymru yn y byd modern.

5.10 p.m.

The ERP is a significant wake-up call for business in Wales. It shows that our Government recognises the challenges and the shortcomings of previous approaches. Its message of renewal and of radical change is clear and urgent. It is imperative that all involved, from Government officials and politicians to the business and education communities, understand that message and are committed to it, and that they share and communicate that same message in our endeavours to secure a prosperous Wales. The time for bickering, divergent thinking and half-hearted effort is over. The ERP is a long-term, ambitious vision for Wales that will require genuine, long-term commitment from all involved. Our people and future generations deserve that.

**Mark Isherwood:** In April, the central bankers' bank, the Bank for International Settlements, perhaps the oldest and most venerable of the world's financial watchdogs, described the UK as an economic arch-sinner. It added that, when the UK entered the global financial crisis, the shock absorber Yhad already been used up, exposing rot in the UK's finances. It also said that the UK faced the highest structural deficit in the

It is good to note the role and importance of higher education in this programme. It is crucial that higher education and businesses, along with Government, communicate in order to create a partnership that can commercialise and create wealth and, of course, ensure that our young people develop the necessary skills and have the opportunity to remain in Wales. Small businesses—the backbone of the Welsh economy—will also receive more support through the targeting of the six sectors. This is a far more effective way of supporting all businesses in Wales and takes us away from the grant-giving culture, which tends to concentrate on a smaller number of businesses, usually large business, which are without risk, but also less likely to innovate and develop in a dynamic and exciting way—the very thing that we want to see in Wales in the modern world.

Mae Cynllun Adnewyddu'r Economi yn gloch ddeffro i fusnesau yng Nghymru. Mae'n dangos bod ein Llywodraeth ni'n cydnabod heriau a gwendidau'r ffordd yr aethpwyd ati o'r blaen. Mae ei neges ynglŷn ag adnewyddu a newid radical yn glir ac yn neges frys. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud â hi, o swyddogion y Llywodraeth a'r gwleidyddion i gymunedau busnes ac addysg, ddeall y neges honno ac ymrwymo iddi, a rhaid iddynt rannu a chyfleu'r un neges honno yn ein hymdrechion i sicrhau Cymru sy'n ffynnu. Mae oes cynnen, pegynnu barn ac ymdrechion gwangalon drosodd. Mae Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn weledigaeth hirdymor, uchelgeisiol i Gymru a fydd yn gofyn am ymrwymiad dilys, hirdymor gan bawb sy'n ymwneud â hi. Mae ein pobl a chenedlaethau'r dyfodol yn haeddu hynny.

**Mark Isherwood:** Ym mis Ebrill, yn ôl banc canolog y bancwyr, y Banc Setliadau Rhyngwladol, efallai'r hynaf o blith y cyrff sy'n cadw golwg ar y byd ariannol a'r mwyaf ei fri, y Deyrnas Unedig oedd un o'r archbecharduriaid economaidd. Ychwanegodd, pan ymunodd y Deyrnas Unedig â'r argyfwng ariannol byd-eang, roedd yr amsugnwr sioc, yr Yhad, eisoes wedi'i ddefnyddio, gan ddangos y pydredd

Organisation for Economic Cooperation and Development, with the risk that public debt would explode out of control—hence the UK coalition Government’s deficit-reduction plan, described by the International Monetary Fund as essential. A subsequent forecaster of a double-dip recession, challenged on the radio over better-than-expected economic figures, replied, ‘We don’t have all the facts when we make these predictions’. That is a phrase that could be applied to the Welsh Government and its downbeat forecasts for the UK economy and its upbeat forecasts for the Welsh economy.

Yesterday’s statement by the Office for Budget Responsibility forecast growth as up a bit, and down a bit, but, overall, up 0.5 per cent on the June budget. It also forecast falling unemployment from 2011, 1 million new private sector jobs, 160,000 fewer public sector job losses than forecast and a £19 billion saving in interest payments. In Wales, however, the Labour-led Government, propped up by Plaid Cymru since 2007, has blown the golden opportunity that was within its grasp. As a nation, we are now the poorest and least-productive nation or region in the UK. When the Conservatives left office in 1997, the UK received the second-highest global investment, and Wales was the primary UK destination for overseas companies. Despite a doubling of pre-recession budgets and billions in European funding, Wales is now bottom of the UK prosperity league, behind Scotland, Northern Ireland and every English region.

According to Welsh Government research, this prosperity gap is founded on low employment, high economic inactivity, working-age people not being in work and the lowest level of productivity in any nation or region in the UK by a wide margin.

yn sefyllfa ariannol y Deyrnas Unedig. Dywedodd hefyd fod y Deyrnas Unedig yn wynebu’r diffyg strwythurol mwyaf yn y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd, a bod perygl i’w dyled gyhoeddus ffrwydro allan o reolaeth—felly cafwyd cynllun i ostwng y diffyg gan Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig, cynllun hanfodol yn ôl y Gronfa Ariannol Ryngwladol. Ymateb un proffwyd a oedd yn darogan dirwasgiad dwbl, pan heriwyd ef wedyn ar y radio ynglŷn â’r ffigurau economaidd a oedd yn well na’r disgwyl oedd, ‘Nid yw’r ffeithiau i gyd gennym pan fyddwn yn llunio’r rhagolygon hyn’. Mae hwnnw’n ymadrodd y gellid ei defnyddio wrth sôn am Lywodraeth Cymru a’i rhagolygon llawn anobaith ar gyfer economi’r Deyrnas Unedig a’i rhagolygon gobeithiol ar gyfer economi Cymru.

Roedd datganiad ddoe gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y byddai’r twf yn codi fymryn ac yn gostwng fymryn ond y byddai’n codi 0.5 y cant drwyddi draw o’i gymharu â chyllideb Mehefin. Roedd hefyd yn rhagweld diweithdra’n gostwng o 2011 ymlaen, 1 filiwn o swyddi newydd yn y sector preifat, colli 160,000 yn llai o swyddi yn y sector cyhoeddus nag a ragwelwyd ac arbed £19 biliwn mewn taliadau llog. Yng Nghymru, fodd bynnag, mae’r Llywodraeth o dan arweiniad Llafur, gyda Phlaid Cymru’n ei chynnal er 2007, wedi methu’r cyfle euraidd a oedd o fewn ei chyrraedd. Ni yw’r genedl dlotaf neu’r rhanbarth tlotaf bellach yn y Deyrnas Unedig a ni yw’r lleiaf cynhyrchiol. Pan adawodd y Ceidwadwyr y llywodraeth yn 1997, yn y Deyrnas Unedig yr oedd y buddsoddi ail fwyaf yn y byd a Chymru oedd prif gyrchfan cwmnïau o dramor yn y Deyrnas Unedig. Er i’r cyllidebau cyn y dirwasgiad ddyblu ac er inni gael biliynau gan Ewrop, mae Cymru bellach ar waelod cynghrair ffyniant y DU, y tu ôl i’r Alban, Gogledd Iwerddon a phob un o ranbarthau Lloegr.

Yn ôl ymchwil Llywodraeth Cymru, mae’r bwlc ffyniant hwn wedi’i seilio ar gyflogaeth isel, anweithgarwch economaidd uchel, pobl o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith a’r lefel gynhyrchedd isaf o dipyn mewn unrhyw wlad neu ranbarth yn y

Having missed all of its previous economic targets, this Welsh Government now boasts of progress with its economic renewal plan, satirising itself by ignoring the findings of the Enterprise and Learning Committee: that the Government needs to change its culture and the way it works if the economic renewal programme is going to succeed, and that it should engage more with business stakeholders and should consider tapering, rather than simply ending, grant support to businesses.

The reality is that when this economic renewal programme was launched in July, the business support sector said that although there was some sense in the proposals, the guillotine that came down on grants left everyone in the dark. The Federation of Small Businesses said that to say that it was consulted was breathtakingly arrogant and that the whole process had hardly been the model of engagement espoused by the Welsh Government. Meanwhile, the Welsh Tourism Alliance was excluded from meetings, despite the vital contribution of tourism to the Welsh economy. The value of goods and services produced in north-east Wales has fallen from 99 per cent of the UK average in 1999 to 85 per cent in the latest published figures. There has since been a worrying series of manufacturing job losses among overseas-owned companies in the region.

CBI Wales has reported a quarterly decline in domestic and export orders among Welsh manufacturers, even though they rose across the rest of the UK. Wales has the lowest proportion of exporting companies across all nations and regions of the UK. Wales should be stepping up its protection and promotion of Wales on the international business stage, not winding it down—issuing passports and suitcases to a sales team, rather than edicts from above.

Tomorrow, the council for economic renewal will be debating a paper that includes a section from the Home Builders Federation.

Deyrnas Unedig. Ar ôl methu pob un o'i thargedau economaidd blaenorol, mae'r Llywodraeth hon yng Nghymru bellach yn brolio'i chynnydd gyda'i chynllun newydd i adnewyddu'r economi, gan ei dychanu hi ei hun drwy anwybyddu canfyddiadau'r Pwyllgor Menter a Dysgu, bod angen i'r Llywodraeth newid ei diwylliant a'i ffordd o weithio er mwyn i raglen adnewyddu'r economi lwyddo, y dylai ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid ym myd busnes ac y dylai ystyried tapro grantiau i fusnesau yn hytrach na'u dirwyn i ben.

Y gwir yw, pan lanswyd y rhaglen hon i adnewyddu'r economi ym mis Gorffennaf, dywedodd y sector cymorth i fusnesau, er bod rhywfaint o synnwyr yn y cynigion, fod y guillotine a ollyngwyd ar grantiau wedi gadael pawb yn y tywyllwch. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach mai haerllugrwydd syfrdanol oedd honni iddynt gael eu cynnwys yn yr ymgynghori a phrin bod y broses drwyddi draw wedi dilyn y math o batrwm o ymgysylltu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei frolio. Yn y cyfamser, eithriwyd Cynghrair Twristiaeth Cymru o'r cyfarfodydd, er bod twristiaeth yn gwneud cyfraniad hollbwysig at economi Cymru. Mae gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yng ngogledd-ddwyrain Cymru wedi gostwng o 99 y cant o gyfartaledd Cymru yn 1999 i 85 y cant yn y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd. Ers hynny, gwelwyd cyfres o golli swyddi gweithgynhyrchu yn y rhanbarth yn y cwmnïau sydd mewn perchnogaeth dramor.

Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru wedi dweud bod dirywiad chwarterol wedi bod yn archebion domestig ac allforio gweithgynhyrchwyr Cymru, er iddynt gynyddu yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru y mae'r gyfran isaf o gwmnïau allforio drwy holl genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Dylai Cymru fod yn gwarchod ac yn hybu Cymru'n well ar y llwyfan busnes rhyngwladol, nid yn arafu pethau—dylai fod yn rhoi pasbortau a chesys teithio i dîm gwerthu, yn hytrach nag yn cyhoeddi gorchmynion oddi uchod.

Yfory, bydd cyngor adnewyddu'r economi yn trafod papur sy'n cynnwys adran gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai. Mae'n

It expresses concern that, unless Welsh Government departments are more realistic in their requirements, the provision of housing in Wales, including affordable housing, is likely to be seriously adversely affected, which it says will have wider social impacts as well as a negative impact on the economy and the way in which it is able to recover from the recession. It adds that it is now imperative that a focused working group on housing delivery is set up. Economic renewal in Wales will not be delivered unless we heed its call.

**Rhodri Morgan:** That was an interesting use of the word ‘now’ by Mark Isherwood, when he said that Wales was now the poorest part of the UK, when, in fact, that was the situation bequeathed to Labour when it came into office in 1997, because Wales had in fact dropped to the bottom of that particular league table in 1996. So, when you say ‘now’, Mark, I think that most people would assume that you mean in the past couple of years, perhaps in the past five years, but they would not think that you mean 14 years ago when the Tories were last in office. What has happened that has caused the administration—*[Interruption.]* Do not worry; you will find that it is true.

The important thing is that what has happened in the past 10 years is that there has been a squeeze between: the rise of China taking a lot of the low-wage industries; the rise of north Africa, taking the clothing industries, as we saw with Dewhirst some 10 years ago; the rise of the new eastern European countries, which have come into the EU and which have been extremely successful in getting the car and car component factories, on which Wales had had a major strength; and, obviously, Ireland being highly competitive in the very high-tech, weightless industries, such as IT, software and pharmaceuticals and medical devices, which are high in profit and therefore do not really want grants, so much as very low corporation tax to keep their tax bills down on the high profits that they make. If you are therefore caught in the middle between this eastward suction to east Asia or

mynegi pryder, oni fydd adrannau Llywodraeth Cymru yn fwy realistig eu gofynion, y bydd darparu tai yng Nghymru, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn debygol o wynebu effeithiau niweidiol difrifol, a fydd, meddai, yn cael effaith gymdeithasol ehangach yn ogystal ag amharu ar yr economi a’i gallu i ymadfer o’r dirwasgiad. Mae’n ychwanegu ei bod yn hollbwysig yn awr sefydlu gweithgor i ganolbwyntio ar ddarparu tai. Ni lwyddir i adnewyddu’r economi yng Nghymru oni wrandawn ar hynny.

**Rhodri Morgan:** Roedd y ffordd y defnyddiodd Mark Isherwood y gair ‘bellach’ yn ddiddorol, pan ddywedodd mai Cymru bellach oedd rhan dlotaf y Deyrnas Unedig. Mewn gwirionedd, dyna’r sefyllfa a etifeddodd Llafur pan ddaeth i rym yn 1997, oherwydd roedd Cymru mewn gwirionedd wedi disgyn i waelod tabl y cynghrair arbennig hwnnw yn 1996. Felly, pan ddywedwch ‘bellach’ Mark, credaf y byddai’r rhan fwyaf o bobl yn tybio eich bod yn golygu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn y pum mlynedd diwethaf efallai. Ni fyddent yn meddwl eich bod yn golygu 14 blynedd yn ôl pan oedd y Toriaid mewn grym ddiwethaf. Beth sydd wedi digwydd sydd wedi gwneud i’r weinyddiaeth —*[Torri ar draws.]* Peidiwch â phoeni, fe welwch ei fod yn wir.

Y peth pwysig yw mai’r hyn sydd wedi digwydd yn y 10 mlynedd diwethaf yw ein bod wedi cael ein gwasgu o bob ochr: Tsieina yn datblygu ac yn cymryd llawer o’r diwydiannau cyflog isel; gogledd Affrica yn datblygu, yn cymryd y diwydiannau dillad, fel y gwelsom gyda Dewhirst ryw 10 mlynedd yn ôl; gwledydd newydd dwyrain Ewrop sydd wedi ymuno â’r Undeb Ewropeaidd yn datblygu ac wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus yn denu’r ffatrioedd ceir a chydrannau ceir, diwydiant a oedd yn arbennig o gryf yng Nghymru; ac mae’n amlwg Iwerddon, sydd wedi bod yn hynod gystadleuol yn y meysydd technoleg uchel iawn, dibwysau, megis TG, meddalwedd a nwyddau fferyllol a dyfeisiau meddygol, sy’n ennill elw mawr ac felly nad oes angen grantiau arnynt mewn gwirionedd, dim ond treth gorfforaeth isel iawn er mwyn cadw’u biliau’n isel ar yr elw mawr a wneir

eastern Europe for the oily-rag, engineering-type, metal-bashing industries, in which we had been strong, and Ireland on the other hand, with its hyper-competitive position due to its ultra-low corporation tax, you have to do something about it.

I want to commend George Osborne for making his announcement yesterday about the patent box, an idea first promoted by Alistair Darling 11 months ago and now confirmed by George Osborne, his successor as Chancellor of the Exchequer—although I thought that he was a little bit curmudgeonly in saying that this Government, unlike the last one, is not content to sit by and watch our competitiveness leach away and our corporate tax base undermined, when, in fact, what he was doing was confirming precisely what the previous Government had proposed in December. Regardless of that, it is a very good idea to give areas within the UK the chance to have high-tech industries. Where you have the commercialisation of a patent, you will pay 10 per cent corporation tax, which is even more competitive than Ireland's rate of 12.5 per cent or that in Singapore, which has the next lowest rate of significance in the developed world, at 17.5 per cent.

That will not come in until 2013, but, for all of the high-tech companies already in Wales, such as EADS, which has a big campus in Newport, GE Healthcare in Cardiff, General Dynamics in Oakdale, Penn Pharmaceutical Services in Tredegar, British Biocell in Cardiff and so on, this is extremely important in that it gives them a really big pay-off for patents that they commercialise in Wales, as it is for the smaller companies that are being spun out of Cardiff medical school, Swansea and so on. Combined with sterling devaluation, that is going to make Wales much more competitive, and it will enable us to come through the middle and stop us being squeezed by China or Slovakia on the one side and Ireland on the other. In the end, and I want to close on this point, really, we have to say that it is not about grants primarily—although, occasionally, you need the weapon

ganddynt. Felly, os cewch eich dal yn y canol rhwng y dynfa hon i ddwyrain Asia neu ddwyrain Ewrop ar gyfer y diwydiannau clwtyn-olew, peirianegol, taro metel, y rhai yr oeddem ni wedi bod yn gryf ynddynt, ac Iwerddon ar y llall a'i sefyllfa eithriadol o gystadleuol oherwydd ei threth gorfforaeth ofnadwy o isel, rhaid ichi wneud rhywbeth yn ei gylch.

Rwyf am gymeradwyo George Osborne am wneud ei gyhoeddiad heddiw am y blwch patentau, syniad a hyrwyddwyd gyntaf gan Alistair Darling 11 mis yn ôl ac a gadarnhawyd yn awr gan George Osborne, Canghellor y Trysorlys sy'n ei olynu—er imi feddwl ei fod braidd yn grintachlyd yn dweud nad yw'r Llywodraeth hon, yn wahanol i'r un ddiwethaf, yn fodlon eistedd yn ôl a gwyllo ein gallu i gystadlu'n edwino a'n sylfaen dreth gorfforaethol yn cael ei thanseilio. A dweud y gwir, yr hyn yr oedd yn ei wneud oedd cadarnhau'n union yr hyn yr oedd y Llywodraeth flaenorol wedi'i gynnig ym mis Rhagfyr. Ni waeth am hynny, mae'n syniad da iawn rhoi cyfle i ardaloedd yn y Deyrnas Unedig gael diwydiannau uwch-dechnoleg. Lle bydd patent yn cael ei fasnacheiddio, byddwch yn talu 10 y cant o dreth gorfforaeth sydd hyd yn oed yn fwy cystadleuol na chyfradd Iwerddon, sef 12.5 y cant neu gyfradd Singapor, lle mae'r gyfradd isaf nesaf o bwys yn y byd datblygedig, yn 17.5 y cant.

Ni fydd hyn yn dechrau tan 2013, ond, i'r holl gwmnïau uwch-dechnoleg sydd eisoes yng Nghymru, megis EADS sydd â champws mawr yng Nghasnewydd, Gofal Iechyd GE yng Nghaerdydd, General Dynamics yn Oakdale, Penn Pharmaceutical Services yn Nhredeggar, British Biocell yng Nghaerdydd ac ati, mae hyn yn bwysig iawn am ei fod yn golygu eu bod ar eu hennill yn sylweddol yn sgil y patentau y byddant yn eu masnacheiddio yng Nghymru. Mae hyn yn wir hefyd i'r cwmnïau llai hynny sy'n deillio o ysgol feddygol Caerdydd, Abertawe ac ati. O'u cyfuno â dibrisio sterling, mae hynny'n mynd i wneud Cymru'n fwy cystadleuol o lawer, a bydd yn ein galluogi i gamu drwy'r canol a pheidio â chael ein gwasgu gan Tsieina neu Slofacia ar y naill ochr a chan Iwerddon ar y llall. Yn y pen draw, ac rwyf am gloi gyda'r pwynt hwn, mewn



of grants, as Brian Gibbons has said—and ask where investment is going to flow in future. It will flow where the skills are right, where the infrastructure is right, whether that is transport infrastructure, including electrified rail services, good airport services, or financial infrastructure, which is where Finance Wales will be an extremely important weapon, and where quality of life is right—the quality of life to hold and to generate clever people who will bring their brain power to bear on the issue of job creation. Our problem in Britain is that people have perceived the quality of life in the south-east of England as being incredibly good, but the cost base is so high that you cannot really manufacture anything in there. On the other hand, people see that the cost base is low in the north and the west of the United Kingdom, but they perceive the quality of life as not being right. If we can get the UK to equalise the property prices and the cost base between the south and the east, and the north and the west, that is when the UK can become much more competitive with Germany and that is when Wales will benefit, in combination with the Government's new 10 per cent tax rate, and in combination with the economic renewal proposals.

5.20 p.m.

**Alun Davies:** In looking at the economic renewal programme, we sometimes forget that it was actually born in the teeth of one of the deepest recessions in our lifetimes. It was born of a determination to ensure that we invest in a very different future to what we have seen in the recent past. The general approach is one that has been welcomed throughout this Chamber, and it was good to hear your remarks, Darren—you have very big boots to fill—because it is important for us to have consensus on some of the key areas for investing in our economic renewal.

The approach that you are taking, Deputy First Minister, is an almost systemic approach to a whole-Government approach to

gwirionedd, rhaid inni ddweud nad oes a wnelo hyn â grantiau yn ei hanfod—er, ar brydiau, mae angen arf grantiau arnoch, fel y dywedodd Brian Gibbons—a rhaid gofyn ymhle y bydd y buddsoddi'n llifo yn y dyfodol. Bydd yn llifo lle bydd y sgiliau'n iawn, lle bydd y seilwaith yn iawn, gan gynnwys gwasanaethau trenau sydd wedi'u trydanu, gwasanaethau maes awyr neu seilwaith ariannol da, a bydd Cyllid Cymru yn arf pwysig eithriadol yn hyn o beth, a lle bydd ansawdd bywyd yn iawn—ansawdd bywyd sy'n gallu cadw a chynhyrchu pobl glyfar a fydd yn defnyddio grym eu hymennydd i greu swyddi. Ein problem ym Mhrydain yw bod pobl wedi meddwl bod ansawdd bywyd yn ne-ddwyrain Lloegr yn anhygoel o dda, ond mae'r sylfaen gost mor uchel yno fel na allwch chi mewn gwirionedd weithgynhyrchu dim byd. Ar y llaw arall, bydd pobl yn gweld bod y sylfaen gostau'n isel yng ngogledd a gorllewin y Deyrnas Unedig, ond yn meddwl nad yw ansawdd bywyd yn iawn yno. Os gallwn gael y Deyrnas Unedig i sicrhau bod prisiau eiddo a'r sylfaen gostau rhwng y de a'r dwyrain a'r gogledd a'r gorllewin yn fwy cytbwys, dyna pryd y gall y Deyrnas Unedig ddod yn fwy cystadleuol o lawer â'r Almaen a dyna pryd y bydd Cymru yn elwa, o gyfuno hynny â chyfradd dreth 10 y cant newydd y Llywodraeth, a'i gyfuno â'r cynigion ar gyfer adnewyddu'r economi.

**Alun Davies:** Wrth edrych ar raglen adnewyddu'r economi, byddwn weithiau'n anghofio iddi gael ei hesgor yn nannedd un o ddirwasgiadau dyfnaf ein hoes. Fe'i ganwyd yn sgil penderfyniad i sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn dyfodol gwahanol iawn i'r hyn yr ydym wedi'i weld yn y gorffennol diweddar. Mae'r ffordd gyffredinol o fynd o'i chwmpas hi yn un sydd wedi'i chrosawu drwy'r Siambr hon, ac roedd yn dda clywed eich sylwadau, Darren—mae gennych esgidiau mawr iawn i'w llenwi—oherwydd mae'n bwysig inni gael consensws ynghylch rhai o'r meysydd allweddol lle y dylid buddsoddi mewn adnewyddu ein heconomi.

Rydych yn mynd ati, Ddirprwy Brif Weinidog, i weithio ar fuddsoddi economaidd mewn ffordd sydd yn systemig bron, yn

working on economic investment, and it is one that has broad support. On the investment in strategic infrastructure, you mentioned broadband in your introductory speech, Deputy First Minister. I would add other infrastructure issues to that. We have debated and discussed at length electrification of the railway into south Wales, but at the same time, there are significant rail and road infrastructure projects throughout Wales. It is important to be able to maintain a focus on that fact. I recognise that the context, and your position to deliver on some of these issues, has changed with the comprehensive spending review from Westminster; nevertheless, I hope that this Government can continue to provide a form of investment in these infrastructure projects.

At the same time, the investment in support for targeted sectors has also received widespread welcome, as has the emphasis on research development working with higher education. I felt that the statement by Leighton Andrews earlier this afternoon will help to provide Wales with the means by which we can invest in innovation, research and development. I hope that that will go some way to ensuring that, when the economic renewal programme refers to broadening and deepening the skill levels in Wales, we will be able to deliver on that.

One of the key issues that I wish to emphasise in my remarks this afternoon is about implementation. As we come to the end of this Assembly and we look back at what the One Wales Government has achieved, the economic field will be the defining part of its response to the recession and so forth. For many of us who have served here for the first time, one of the key areas that we would like to focus on is the implementation of Government policy. We see Ministers across all portfolios coming here with strategies and policies and requests for legislation, but we must recognise that those strategies are only as good as the subsequent implementation of policies. That is the area that many of us will want to see focused on as we move forward.

Rhodri Morgan spoke about making Wales a more attractive place to live and do business

ffordd Lywodraeth-gyfan, ac mae'r dull hwn yn un sy'n denu cefnogaeth eang. O ran buddsoddi mewn seilwaith strategol, crybwyllwyd band eang yn eich araith gyflwyno, Ddirprwy Brif Weinidog. Byddwn yn ychwanegu elfennau eraill o'r seilwaith at hynny. Rydym wedi dadlau ynglŷn â thrydanu'r rheilffordd i dde Cymru a'i drafod droeon, ond ar yr un pryd, mae prosiectau sylweddol ar waith ledled Cymru ar ein rheilffyrdd a'n ffyrdd. Mae'n bwysig inni allu dal i ganolbwyntio ar y ffaith honno. Rwyf yn sylweddoli bod y cyd-destun, a'ch gallu i gyflawni yng nghyswllt rhai o'r materion hyn, wedi newid yn sgil yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gan San Steffan; fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y gall y Llywodraeth hon barhau i fuddsoddi ar ryw ffurf yn y prosiectau seilwaith hyn.

Ar yr un pryd, mae'r buddsoddi i gefnogi sectorau a dargedir wedi cael croeso eang hefyd, a'r pwyslais ar ddatblygu ymchwil drwy gydweithio ag addysg uwch. Roeddwn yn teimlo y bydd y datganiad gan Leighton Andrews yn gynharach y prynhawn yma yn help i roi'r modd i Gymru fuddsoddi mewn arloesi, ymchwil a datblygu. Rwyf yn gobeithio yr aiff hyn dipyn o'r ffordd at sicrhau, pan fydd rhaglen adnewyddu'r economi yn cyfeirio at ledaenu a dyfnhau lefelau'r sgiliau yng Nghymru, y byddwn yn gallu cyflawni hynny.

Mae a wnelo un o'r materion allweddol yr wyf am ei bwysleisio yn fy sylwadau y prynhawn yma â gweithredu. Wrth inni ddod at ddiwedd y Cynulliad hwn ac edrych yn ôl ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi'i gyflawni, yr economi fydd elfen ddiffiniol ei hymateb i'r dirwasgiad ac ati. I lawer ohonom sydd wedi gwasanaethu yma am y tro cyntaf, un o'r prif feysydd yr hoffem ganolbwyntio arno yw rhoi polisiau'r Llywodraeth ar waith. Gwelwn Weinidogion ar draws pob portffolio'n dod yma gyda strategaethau a pholisiau a cheisiadau am ddeddfwriaeth, ond rhaid inni sylweddoli nad yw'r strategaethau hynny ond crystal â sut y gweithredir y polisiau hynny wedyn. Dyna'r maes y bydd llawer ohonom am ein gweld yn canolbwyntio arno wrth inni fynd rhagom.

Soniodd Rhodri Morgan am wneud Cymru yn fan mwy deniadol i fyw a gwneud busnes

in. That is essential if this is to achieve the objectives set to it. It also means the Government changing to deliver for people, and the whole Government approach, which has been discussed in the policy documents, becoming a reality. How will we see planning decisions and planning policy changed in order to deliver this? The Sustainability Committee is considering a report on planning at the moment. I do not want to pre-empt that report, but there are issues that must be addressed by Government if we are to achieve our ambitions in the economic field. At the same time, the Government has put a good procurement policy in place that has achieved change. I understand the points that Jenny Randerson made earlier, but I hope, Deputy First Minister, that you will understand that we will need a renewed emphasis on procurement.

Finally, business support is an area of policy where I have always had some concerns. As someone who has set up and run a small business before I was elected to this place, I did not find the business support systems that were in place to be particularly effective or strong. I recognise what you are doing, Deputy First Minister, to ensure that we have a sectoral approach; I welcome that, and I agree with the points that you made on that, but how will we deliver for businesses? How will individual businesses see the difference from this individual report? Let us ensure that this is not only a whole-Government approach, but a whole-Wales approach. When decisions are taken on investment, infrastructure and how we deliver this policy, let us make sure that the whole of Wales benefits from it—the deprived parts of Wales as well as the areas where economic gain is relatively easier to achieve.

**Angela Burns:** Deputy First Minister, I am delighted to speak on this issue, although I am suffering from slight shock, because I find myself agreeing with an awful lot of what Alun Davies had to say. It does not happen often, and it probably will not happen again for quite a while. What Alun and I have in common is that we have both run

ynndo. Mae hynny'n hanfodol er mwyn i hyn gyflawni ei amcanion. Mae'n golygu hefyd bod y Llywodraeth yn newid er mwyn cyflawni pethau ar ran pobl, a bod y dull Llywodraeth gyfan, sydd wedi'i drafod yn y dogfennau polisi, yn cael ei wireddu. Sut y gwelwn benderfyniadau cynllunio a pholisi cynllunio'n newid er mwyn sicrhau hyn? Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ystyried adroddiad am gynllunio ar hyn o bryd. Nid wyf am ragdybio cynnwys yr adroddiad hwnnw, ond mae yna faterion y mae'n rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hwy er mwyn inni wireddu ein huchelgais yn y maes economaidd. Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth wedi rhoi polisi caffael da ar waith sydd wedi sicrhau newid. Rwyf yn deall y pwyntiau a wnaeth Jenny Randerson gynnau, ond rwyf yn gobeithio, Ddirprwy Brif Weinidog, y byddwch yn deall bod angen inni roi pwyslais o'r newydd ar gaffael.

Yn olaf, mae cymorth i fusnes yn faes polisi yr wyf wedi bod yn poeni amdano erioed. A minnau'n rhywun sydd wedi sefydlu a chadw busnes bach cyn imi gael fy ethol i'r lle hwn, nid oeddwn yn meddwl bod y systemau cymorth busnes a oedd ar waith yn rhai arbennig o effeithiol na chryf. Rwyf yn cydnabod yr hyn yr ydych yn ei wneud, Ddirprwy Brif Weinidog, i sicrhau'r dull sectoraidd; rwyf yn croesawu hynny, ac rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaethoch am hynny, ond sut y llwyddwn i gyflawni pethau dros fusnesau? Sut y bydd busnesau unigol yn gweld y gwahaniaeth yn sgil yr adroddiad unigol hwn? Gadewch inni sicrhau nad dim ond dull Llywodraeth gyfan yw hwn ond dull Cymru gyfan. Pan benderfynir ynglŷn â buddsoddi, seilwaith a'r ffordd y byddwn yn gwireddu'r polisi hwn, gadewch inni sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa ohono—y rhannau di-fraint hynny o Gymru yn ogystal â'r ardaloedd lle mae'n gymharol haws sicrhau budd economaidd.

**Angela Burns:** Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf wrth fy modd o gael siarad am hyn, er fy mod yn dioddef o sioc braidd, oherwydd caf fy hun yn cytuno â llawer iawn o'r hyn a ddywedodd Alun Davies. Nid yw'n digwydd yn aml, a go brin y bydd yn digwydd eto am gryn amser. Yr hyn sydd gan Alun a finnau'n gyffredin yw ein bod ni'n dau wedi cadw

businesses. He focused on implementation and delivery; my contribution will be based on the reality that is Carmarthen West and South Pembrokeshire, and the businesspeople who have come to talk to me about their issues in trying to get their businesses to grow.

These businesses are in rural areas, and they struggle in a great many ways. They do not necessarily have the IT infrastructure and the broadband infrastructure that can help them. They do not necessarily have good transportation links, and they sometimes find it hard to match people and skills to their requirements. If we are going to try to spread the jam away from Cardiff, Swansea and Newport to rural Wales, whether that is north Wales, Powys or west Wales—where I represent—we must look at how we can support businesses in those areas.

The economic renewal programme has some interesting concepts, and I buy into a lot of the programme. However, I have a number of major concerns, the first being the six sectors. Darren talked about the fact that we need to include tourism, but will you also look at the whole subject of manufacturing, which for some reason has become incredibly unfashionable and unpopular? Let us not concentrate on this vision of manufacturing as being an oily-rag business, as someone mentioned earlier; manufacturing is clever, fast, smart, highly technical, you need dedicated people, it has a good skills base, and it gives people opportunity for career progression, yet it is not mentioned here. It is important that you give some clarity on that. For example, this Government has talked a lot about how the growth of green jobs is the way forward for Wales. How does manufacturing fit in with green jobs? I have a situation in my patch where we are attempting to put wind turbines in the north Atlantic sea, so does building a blade constitute a green job, because it is a manufacturing job? Is building the bolt for the turbine a green job, because it, too, is a manufacturing job? Here is the tricky one, Minister: is building the dedicated ship that you need to get the wind turbine out to the north Atlantic, in terrible conditions, a green

busnes. Roedd ef yn canolbwyntio ar weithredu a chyflawni, seilir fy nghyfraniad innau ar realiti Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro a'r bobl fusnes sydd wedi dod ataf i siarad â mi am eu problemau'n ceisio tyfu eu busnesau.

Mae'r busnesau hyn mewn ardaloedd gwledig, ac maent yn straffaglu mewn llawer ffordd. Nid oes ganddynt o reidrwydd y seilwaith TG a'r seilwaith band eang a all eu helpu. Nid oes ganddynt o reidrwydd y cysylltiadau trafndiaeth da, ac weithiau byddant yn ei chael hi'n anodd cyfatebu pobl a sgiliau â'u gofynion. Os ydym am geisio taenu'r jam oddi wrth Gaerdydd, Abertawe a Chasnewydd i'r Gymru wledig, boed hynny yn y gogledd, ym Mhowys neu yn y gorllewin—yr ardal yr wyf fi'n ei chynrychioli—rhaid inni ystyried sut y gallwn gefnogi busnesau yn yr ardaloedd hynny.

Mae rhaglen adnewyddu'r economi yn cynnwys nifer o gysyniadau diddorol ac rwyf yn cefnogi llawer o'r rhaglen. Serch hynny, mae nifer o bethau yr wyf yn poeni o ddifrif yn eu cylch, a'r cyntaf o'r rheini yw'r chwe sector. Soniodd Darren am y ffaith bod angen inni gynnwys twristiaeth, ond a wnewch hefyd edrych ar holl faes gweithgynhyrchu sydd am ryw reswm wedi dod yn anhygoel o anffasiynol ac amhoblogaidd? Gadewch inni beidio â chanolbwyntio ar y ddelwedd hon o weithgynhyrchu fel busnes clytiauw olew, fel y cyfeiriodd rhywun ato gynnu; mae gweithgynhyrchu'n glyfar, yn gyflym, yn goeth, yn dechnegol iawn, mae angen pobl ymroddedig arnoch, mae ei sylfaen sgiliau'n dda, ac mae'n gyfle i bobl gamu ymlaen yn eu gyrfa, eto i gyd, nid yw'n cael ei grybwyll yma. Mae'n bwysig ichi egluro hynny ryw faint. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth hon wedi sôn llawer mai twf swyddi gwyrdd yw'r ffordd ymlaen i Gymru. Beth yw'r berthynas rhwng gweithgynhyrchu a swyddi gwyrdd? Mae gennyf sefyllfa yn fy ardal i lle'r ydym yn ceisio rhoi tyrbinau gwynt yng ngogledd Môr Iwerydd, felly a yw gwneud llafn yn swydd werdd, oherwydd ei bod hi hefyd yn swydd gweithgynhyrchu? Dyma'r un anodd, Weinidog: ai swydd werdd ynteu swydd gweithgynhyrchu yw adeiladu'r cwch arbennig sydd ei angen arnoch i gludo'r

job or a manufacturing job? If it is designated as a green job, it is in your strategy for support. If it is designated as a manufacturing job, it is not. I know of companies that can do that job, that want to grow and need financial assistance from the state to do so, but fall between these two stools. So, I would like to have some clarification on that.

5.30 p.m.

I agree that we should move away from grants to soft loans. That is, by far and away, the best way of focusing people's minds on the direction that the organisation should take. I totally support you on that. I want to make that absolutely clear, because I am not talking about increasing grants to lots of different businesses. However, when we have a situation in which a company needs £1 million and could provide 70 good, skilled jobs with training and transferable skills over the next three or four years, but cannot get any assistance anywhere—not from the Government and certainly not from the wet banks that we have around here—we have an issue. Yet, as you will know, because we have corresponded on this, another company went and got £1 million from the European Union and has created about seven jobs, and we cannot do anything about that. We need to address this dichotomy, because this is about enabling companies to go out there and be successful. At the end of the day, Deputy First Minister, that is what you want and that is what I want.

The final part of my contribution is to ask you to look at the way that the non-economic-development-orientated areas of the Welsh Assembly Government handle businesses. I can cite another instance in which the Minister for sustainability eventually gave a licence to an enormous energy company and an enormous port—you probably do not need to guess too hard about where they are—to allow them to dredge. The officials in the department could not understand why that was important. Despite the fact that the Minister had said that they

tyrbin gwynt allan i ogledd yr Iwerydd, mewn amgylchiadau ofnadwy? Os yw'n cael ei dynodi'n swydd werdd, mae wedi'i chynnwys yn eich strategaeth i gael cymorth. Os caiff ei dynodi'n swydd gweithgynhyrchu, nid yw wedi'i chynnwys. Gwn am gwmnïau sy'n gallu gwneud y gwaith hwnnw, sydd am dyfu ac y mae angen cymorth ariannol arnynt gan y wladwriaeth i wneud hynny, ond eu bod yn disgyn rhwng y ddwy stôl hyn. Felly, hoffwn gael rhywfaint o eglurhad am hynny.

Rwyf yn cytuno y dylem symud oddi wrth grantiau at fenthyciadau meddal. Dyna'r ffordd orau o bell ffordd inni ganolbwyntio meddyliau pobl ar y trywydd y dylai'r corff ei ddilyn. Rwyf yn eich cefnogi'n llwyr yn hynny o beth. Rwyf am wneud hynny'n gwbl glir, oherwydd nid wyf yn sôn am gynyddu grantiau i lu o wahanol fusnesau. Serch hynny, pan fydd gennym sefyllfa lle bydd angen £1 miliwn ar gwmni ac y gallai hynny ddarparu 70 o swyddi da, medrus a hyfforddiant a sgiliau trosglwyddadwy dros y tair neu'r pedair blynedd nesaf, ond na all gael unrhyw gymorth yn unman—nid gan y Llywodraeth ac yn sicr nid gan y banciau lliipa sydd gennym yn yr ardal hon—mae gennym broblem. Eto, fel y gwyddoch, oherwydd inni ohebu â'n gilydd ynglŷn â hyn, aeth cwmni arall a chael £1 filiwn gan yr Undeb Ewropeaidd gan greu tua saith swydd, ac ni allwn wneud dim am hynny. Mae angen inni fynd i'r afael â'r ddeuliaeth hon, oherwydd mae a wnelo hyn â galluogi cwmnïau i fynd allan i'r byd mawr a llwyddo. Maes o law, Ddirprwy Brif Weinidog, dyna'r hyn yr ydych chi am ei weld, a dyna'r hyn yr wyf finnau am ei weld.

Rhan olaf fy nghyfraniad yw gofyn ichi edrych ar sut mae'r rhannau hynny o Lywodraeth Cynulliad Cymru nad ydynt yn canolbwyntio ar ddatblygu economaidd yn ymdrin â busnesau. Gallaf sôn am enghraifft arall lle y rhoddodd y Gweinidog dros gynaliadwyedd drwydded maes o law i gwmni ynni enfawr a phorthladd enfawr—go brin bod angen ichi ddyfalu gormod ymhle y mae'r rheini—er mwyn caniatáu iddynt garthu. Ni allai'r swyddogion yn yr adran ddeall pam yr oedd hynny'n bwysig. Er bod y Gweinidog wedi dweud y caent garthu,

could dredge, they then took four weeks to produce the documents that let them do that. That cost the business £1 million. Some civil servant somewhere—I am not being too rude about civil servants—did not understand the importance of £1 million to a company's bottom line. That is reflected in the conversations that I have had with the businesses that have approached me, whether they are small businesses or large energy companies. I ask you to look at how you can effect that culture change, otherwise this economic renewal programme—great though some of it may look on paper—will go absolutely nowhere.

**Christine Chapman:** I find myself agreeing with a lot that has been said by other Members across the Chamber. I have a few specific points. Section 4 of the document talks about making Wales an attractive place for businesses to come to and be based in. I know that other Members have mentioned that, but one aspect involves making our towns and communities attractive and accessible places in which to locate. I was particularly delighted by the recent announcement of the project that is worth nearly £8 million, to be delivered by the Welsh Assembly Government and Rhondda Cynon Taf County Borough Council, to improve and revitalise Aberdare town centre. That will go some way to help to encourage new businesses.

It is also about ensuring that businesses have access to the skills that they need to thrive and develop, as noted in the fifth section of the document. It is important that that is also available. I wanted to say something briefly about graduates today, because I had an interesting discussion with a new graduate in my constituency of Cynon Valley only last week. We have had good news today from the Minister for education regarding new students, but we also need to look at the graduates who are now leaving universities. These are difficult times and I know that many of them are feeling demotivated and disillusioned. We know that the potential is there and that graduates can possess abilities that small businesses can work with. It is important that we ensure that graduates are put in touch with businesses. For example, we know that postgraduates can also be the

treuliasant bedair wythnos wedyn yn cynhyrchu'r dogfennau a fyddai'n gadael iddynt wneud y gwaith. Costiodd hyn £1 filiwn i'r busnes. Nid oedd rhyw was sifil yn rhywle—nid wyf am fod yn rhy gas am weision sifil—yn deall pwysigrwydd £1 filiwn i linell waelod cwmni. Adlewyrchir hynny yn y sgysiau yr wyf wedi'u cael â'r busnesau sydd wedi dod ataf, boed y rheini'n fusnesau bach ynteu'n gwmnïau ynni mawr. Rwyf yn gofyn ichi ystyried sut y gallwch roi'r newid diwylliant hwnnw ar waith, oherwydd fel arall, nid aiff y rhaglen hon i adnewyddu'r economi—ni waeth pa mor dda y mae'n edrych ar bapur, i unman.

**Christine Chapman:** Rwyf yn fy nghael fy hun yn cytuno â llawer sydd wedi'i ddweud gan Aelodau eraill ar draws y Siambr. Mae gennyf ambell bwynt penodol. Mae adran 4 o'r ddogfen yn sôn am wneud Cymru yn lle deniadol i fusnesau ddod ac ymsefydlu. Gwn fod Aelodau eraill wedi crybwyll hynny, ond un agwedd ar hyn yw gwneud ein trefi a'n cymunedau'n ddeniadol ac yn fannau hygrych i bobl ymgartrefu. Roeddwn yn arbennig o falch o glywed cyhoeddi'n ddiweddar y prosiect gwerth bron £8 miliwn, sydd i'w ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, i wella ac adfywio canol tref Aberdâr. Gwnaiff hynny dipyn i helpu i annog busnesau newydd.

Mae a wnelo hefyd â sicrhau bod gan fusnesau lwybr at y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ffynnu a datblygu, fel y nodwyd ym mhumed adran y ddogfen. Mae'n bwysig bod hynny ar gael hefyd. Roeddwn am ddweud rhywbeth yn fyr am raddedigion heddiw, oherwydd cefais drafodaeth ddiddorol gyda rhywun a oedd newydd raddio yn fy etholaeth yng Nghwm Cynon brin wythnos yn ôl. Rydym wedi cael newyddion da heddiw gan y Gweinidog dros addysg ynglŷn â myfyrwyr newydd, ond mae angen inni hefyd edrych ar y graddedigion sy'n gadael ein prifysgolion yn awr. Mae'n gyfnod anodd, a gwn fod llawer ohonynt yn teimlo ddigymhelliant ac wedi'u dadrithio. Gwyddom fod y potensial yno ac y gall fod gan raddedigion alluoedd y gall busnesau bychain weithio gyda hwy. Mae'n bwysig inni sicrhau bod cysylltiad yn cael ei greu

key to an entrepreneurial business culture. However, as I said, I know that many graduates are feeling disillusioned at the moment and we need to address that.

The difficulty, and what I fear, is that if we do not hold on to our young people, they will leave our communities, and we may never see them again. By losing the talent from our communities, we will not have the regeneration that we are seeking. Therefore, in any discussion about economic renewal, it is important that we look at the needs of graduates and engage with them. Even in better times, we have been leaving some communities behind and we need to avoid doing so. I ask the Deputy First Minister, in any discussion on this, to look at more remote areas like the Valleys and rural areas, because if we do not get this right, we will be failing many of our communities.

Finally, I would like to say something about business support. I agree with many of the Members here: it is about targeting support for small businesses particularly, but it is difficult at the moment because of the harsh cuts that we are facing. However, I know that small businesses require a certain amount of hand-holding if they are to be successful. I recently met representatives of a small business in my constituency, and although they were pleased with the support that they had received, they still felt that they needed more feedback from advisers. That is something that we need to address. Sometimes, as Angela Burns said, small businesses struggle to complete all the forms, and so on, and that is a cost to them. This is something that needs to be looked at carefully. We should not underestimate the importance of this to small businesses. They are key to regeneration in many of our communities, and by providing them with the help and advice that they need, we can help to drive forward the economic renewal of communities such as mine, in the Cynon Valley, but also, as Alun Davies said, throughout Wales.

rhwng graddedigion a busnesau. Er enghraifft, gwyddom y gall ôl-raddedigion hefyd fod yn allwedd i'r diwylliant busnes entrepreneuriaidd. Serch hynny, fel y dywedais, gwn fod llawer o raddedigion yn teimlo'n llawn anobaith ar hyn o bryd ac mae angen inni roi sylw i hynny.

Yr anhawster, a'r hyn yr wyf yn ei ofni, yw, oni lwyddwn i gadw gfael ar ein pobl ifanc, y byddant yn gadael ein cymunedau, ac efallai na welwn ni mohonynt fyth eto. Drwy golli'r dalent o'n cymunedau, ni lwyddwn i greu'r adfywiad yr ydym yn ei geisio. Felly, mewn unrhyw drafodaeth am adnewyddu'r economi, mae'n bwysig inni edrych ar anghenion graddedigion ac ymgysylltu â hwy. Hyd yn oed mewn cyfnodau gwell, rydym wedi bod yn gadael rhai cymunedau'n llusgo ar ei hôl hi ac mae angen inni osgoi gwneud hynny. Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog, mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â hyn, edrych ar ardaloedd mwy anghysbell megis y Cymoedd a'r ardaloedd gwledig, oherwydd oni lwyddwn i gael hyn yn iawn, byddwn yn gwneud cam â llawer o'n cymunedau.

Yn olaf, hoffwn ddweud rhywbeth am gymorth i fusnesau. Rwyf yn cytuno â llawer o'r Aelodau yma: targedu cymorth i fusnesau bach yn benodol yw'r nod, ond mae'n anodd ar hyn o bryd oherwydd y toriadau llym yr ydym yn eu hwynebu. Fodd bynnag, gwn fod gofyn i fusnesau bach gael rhywun i ddal eu llaw rywfaint er mwyn iddynt lwyddo. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chynrychiolwyr busnes bach yn fy etholaeth, ac er eu bod yn falch o'r cymorth yr oeddent wedi'i gael, roeddent yn dal i feddwl bod angen rhagor o adborth arnynt gan gynghorwyr. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni fynd i'r afael ag ef. Weithiau, fel y dywedodd Angela Burns, bydd busnesau bach yn straffaglu i lenwi'r holl ffurflenni ac ati, ac mae hynny'n costio arian iddynt. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen edrych arno'n ofalus. Ni ddylem danystyried pwysigrwydd hyn i fusnesau bach. Maent yn allweddol er mwyn adfywio llawer o'n cymunedau, a thrwy roi'r help a'r cyngor sydd eu hangen arnynt, gallwn helpu i sbarduno adnewyddu cymunedau megis fy nghymuned i yng Nghwm Cynon, ond hefyd, fel y dywedodd Alun Davies, gymunedau ledled Cymru.

**Jeff Cuthbert:** Thank you for letting me speak in this debate. I am pleased to support the motion unamended, as I believe that delivering the Welsh Government's economic renewal programme is the right way to ensure that we have the right mechanisms and policies in place to ensure more effective economic growth and support for businesses in line with our 'One Wales' commitments, our commitments under the EU 2020 programme and the ongoing discussions on the future of cohesion policy. We all know that we can only fully recover from recession and cope with the spending cuts being imposed by the UK Government through economic growth. To do this, it is essential that we create the right environment for businesses to succeed, focusing on key areas like infrastructure, research and development. To this end, we must do all that we can to encourage and assist our businesses and universities to work together to attract more European framework programme 7 funding and, ultimately, framework programme 8 funding, bringing high-tech research funding to Wales.

It is also crucial that we broaden and deepen the skills base, so that companies can secure the right skills mix to develop their businesses, while also giving individuals the opportunity to develop their careers. To this end, we must work with employers, individuals and training providers as well as extending our flagship apprenticeship programmes. It is here that the role of European structural funds is most important. Appropriately, the Welsh European Funding Office has realigned the use of European funds to match the approach of the economic renewal programme, increasing funding for infrastructure developments while remaining in line with the requirements set down by the European Commission and articulated in the EU 2020 programme, the successor to Lisbon and Gothenberg. Of course, I need to declare an interest as chair of the all-Wales programme monitoring committee, which, earlier, scrutinised the Minister for Economy and Transport's decision to do this. In the end, the Welsh Government's decision was backed on the European regional development fund and the European

**Jeff Cuthbert:** Diolch ichi am adael imi siarad yn y ddadl hon. Rwyf yn falch o gefnogi'r cynnig heb ei wella, oherwydd fy mod yn credu mai rhaglen adnewyddu'r economi Llywodraeth Cymru yw'r ffordd iawn o sicrhau bod gennym y mecanweithiau a'r polisiau iawn ar waith i sicrhau twf a chymorth economaidd mwy effeithiol i fusnesau yn unol â'n hymrwymiaadau yn 'Cymru'n Un', ein hymrwymiaadau o dan raglen 2020 yr Undeb Ewropeaidd a'r trafodaethau parhaus am ddyfodol y polisi cydlyniant. Gwyddom oll na allwn ond ymadfer yn llwyr o'r dirwasgiad ac ymdopi â'r toriadau gwariant sy'n cael eu gorfodi arnom gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy dwf economaidd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol inni greu'r amgylchedd iawn i fusnesau lwyddo, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol megis seilwaith, ymchwil a datblygu. At y diben hwn, rhaid inni wneud popeth yn ein gallu i annog a chynorthwyo ein busnesau a'n prifysgolion i gydweithio er mwyn denu mwy o arian rhaglen 7 fframwaith Ewrop ac yn y pen draw arian rhaglen 8 y fframwaith, gan ddod ag arian ymchwil uwch-dechnoleg i Gymru.

Mae'n hollbwysig hefyd ein bod yn ehangu ac yn dyfnhau'r sylfaen sgiliau, er mwyn i gwmnïau allu sicrhau'r gymysgedd iawn o sgiliau i ddatblygu eu busnesau, gan roi'r cyfle i unigolion ddatblygu eu gyrfaedd hefyd. At y diben hwn, rhaid inni weithio gyda chyflogwyr, unigolion a darparwyr hyfforddiant yn ogystal ag estyn ein rhaglenni prentisiaeth blaengar. Dyma lle mae rôl cronfeydd strwythurol Ewrop ar ei phwysicaf. Mae'n briodol bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ad-drefnu'r ffordd y defnyddir cronfeydd Ewrop er mwyn iddynt gyfateb â dull rhaglen adnewyddu'r economi, gan gynyddu'r arian ar gyfer datblygu'r seilwaith ond gan gadw'n gyson ar yr un pryd â'r gofynion a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac a fynegwyd yn rhaglen 2020 yr Undeb Ewropeaidd, olynnyd Lisbon a Gothenberg. Wrth gwrs, mae angen imi ddatgan budd a minnau'n gadeirydd pwyllgor monitro rhaglen Cymru gyfan, a fu gynt yn craffu ar benderfyniad y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i wneud hyn. Yn y pen draw, cefnogwyd penderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn â chronfa



structural funds. The strategic frameworks that govern how and where our structural funds are spent are aligned with our 'One Wales' priorities and with EU 2020 and prove sufficiently flexible to integrate the economic renewal programme's priorities.

Crucially, we have ensured that the programmes are focused on the key growth drivers of the economy—one of which is skills. We have already invested ESF money in the employers' pledge, helping low-skilled workers to improve their numeracy and literacy skills. I am pleased that the economic renewal programme recognises the importance of skills, and that the structural funds programmes have been realigned to recognise this. I look forward to welcoming more European-funded initiatives to boost our skills base in the future.

5.40 p.m.

To conclude, I welcome the economic renewal programme, which was drawn up in response to the current challenges facing us, as well as to tackle long-standing problems with our economic growth strategy in Wales. Just as importantly, it has been drawn up in full consultation with key stakeholders from the business lobby, trade unions and higher and further education. May I echo some of the calls that have been made by colleagues here today to ensure that smaller indigenous companies are included as key partners, particularly in the field of procurement? Now that training and skills development are integral to our long-term economic development strategy, we must ensure that we are all singing from the same hymn sheet with regard to delivery, and that includes the use of European structural funds. However, I am confident that we are on the right path in difficult circumstances.

**The Deputy First Minister:** I thank everyone who has taken part in the debate today. There is clearly a general welcome for the direction of travel in the economic renewal programme, although there are two

datblygu rhanbarthol Ewrop a chronfeydd strwythurol Ewrop. Mae'r fframweithiau strategol sy'n llywodraethu sut ac ymhle y gwerir ein cronfeydd strwythurol yn gyson â blaenoriaethau Cymru'n Un ac â 2020 yr Undeb Ewropeaidd ac maent yn ddigon hyblyg i integreiddio blaenoriaethau rhaglen adnewyddu'r economi.

Un peth hanfodol yr ydym wedi'i sicrhau yw bod y rhaglenni'n canolbwyntio ar sbardunau twf allweddol yr economi—a sgiliau yw un o'r rheini. Rydym eisoes wedi buddsoddi arian Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn addewid y cyflogwyr, gan helpu gweithwyr sydd heb fawr o sgiliau i wella'u rhifedd a llythrennedd. Rwyf yn falch bod rhaglen adnewyddu'r economi yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau, a bod rhaglenni'r cronfeydd strwythurol wedi cael eu had-drefnu i gydnabod hyn. Rwyf yn edrych ymlaen at groesawu rhagor o gynlluniau sy'n cael eu noddi gan Ewrop i hybu ein sylfaen sgiliau yn y dyfodol.

I gloi, rwyf yn croesawu rhaglen adnewyddu'r economi, a luniwyd er mwyn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, yn ogystal ag er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd gennym ers tro o ran ein strategaeth twf economaidd yng Nghymru. Mae hi yr un mor bwysig ei bod wedi'i llunio drwy ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid allweddol o'r lobi busnes, undebau llafur ac addysg uwch a phellach. A gaf adleisio rhai o'r galwadau gan gyd-Aelodau yma heddiw i sicrhau bod cwmnïau cynhenid llai'n cael eu cynnwys yn bartneriaid allweddol, yn enwedig ym maes caffael? A hyfforddiant a sgiliau bellach yn elfennau hanfodol o'n strategaeth datblygu economaidd tymor hir, rhaid inni sicrhau ein bod i gyd yn canu o'r un llyfr emynau o ran cyflawni, ac mae hynny'n cynnwys defnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop. Serch hynny, rwyf yn hyderus ein bod ar y trywydd iawn mewn amgylchiadau anodd.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Mae'n amlwg bod croeso cyffredinol i'r trywydd a ddilynir yn rhaglen adnewyddu'r economi, er bod dwy thema, mae'n

themes, it seems to me, that seem to be running through many of the speeches in relation to implementation and delivery. I remind Members that I have not announced a strategy— people seem to think that when you announce a policy, there must be a strategy. However, if there is one thing that I was determined about, right from the beginning, it is that this economic renewal programme is not a strategy; it is a policy for implementation. That is why, when it was published, it was clearly set out that the implementation had to follow immediately.

The policy was announced in July, and an implementation team was set up immediately. That team has been working since July to deliver the structures within the department, which are now almost in place. The new sector teams are starting their work in relation to the six sectors tomorrow and all the sector panels will be in place by the end of the year. I have also realigned all of the budgets behind the programme. Therefore, implementation has been foremost in my mind from day one and, by the end of this year, all the work that is necessary to deliver the ERP will be in place. It is a remarkable achievement by the staff within the department that they kept to that very tight timescale. You must remember that it was not easy to achieve that, but all members of staff, of which there were many hundreds, have now been told where they fit into the new organisation. Therefore, that is something that we should welcome.

Darren raised a number of important issues and I welcome his constructive approach today. He raised the issue of infrastructure and next-generation broadband by 2016 for all businesses. I can tell him that the project delivery team has now been established and the essential steps required to set up the project are at a very advanced stage. Discussions with the ICT supply market to test early models and assumptions—for procurement, delivery and commercial structures—are under way. This is not going to be a scheme similar to the not-spots scheme or the new grant application system; it will be a holistic approach to deal with the delivery of next-generation broadband, where the market will not do so. I want to remind Jenny, who was talking about the delivery of

ymddangos i mi, sydd i bob golwg yn rhedeg drwy lawer o'r areithiau a'r rheini'n ymwneud â gweithredu a chyflawni. Rwyf yn atgoffa'r Aelodau nad strategaeth yr wyf wedi'i chyhoeddi—mae pobl i bob golwg yn meddwl bob tro y byddwch yn cyhoeddi polisi, bod strategaeth o reidrwydd. Serch hynny, un peth yr oeddwn yn benderfynol yn ei gylch, oedd nad strategaeth yw'r rhaglen hon i adnewyddu'r economi; polisi i'w roi ar waith ydyw. Dyna pam, pan gafodd ei gyhoeddi, inni ddweud yn glir ei bod yn rhaid gweithredu'r peth ar unwaith.

Cyhoeddwyd y polisi ym mis Gorffennaf, a sefydlwyd tîm gweithredu ar unwaith. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ers mis Gorffennaf i greu'r strwythurau yn yr adran ac mae'r rheini bellach bron iawn ar waith. Mae timau newydd y sectorau'n dechrau ar eu gwaith ar y chwe sector yfory a bydd holl banelau'r sectorau ar waith erbyn diwedd y flwyddyn. Rwyf hefyd wedi ad-drefnu'r cyllidebau i gyd yn gefn i'r rhaglen. Felly, y gweithredu sydd wedi bod flaenaf ar fy meddwl ers y diwrnod cyntaf un, ac erbyn diwedd eleni, bydd yr holl gamau sy'n angenrheidiol i wireddu rhaglen adnewyddu'r economi wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r staff wedi gwneud gwyrthiau yn yr adran wrth gadw at yr amserlen gaeth iawn honno. Rhaid ichi gofio nad oedd hynny'n beth hawdd, ond mae pob aelod o'r saff, ac roedd cannoedd lawer ohonynt, wedi clywed yn awr beth fydd eu lle yn y sefydliad newydd. Felly, mae hynny'n rhywbeth y dylem ei groesawu.

Cododd Darren nifer o faterion pwysig ac rwyf yn croesawu ei agwedd adeiladol heddiw. Cododd fater seilwaith a chenhedlaeth nesaf band eang erbyn 2016 ar gyfer pob busnes. Gallaf ddweud wrtho fod y tîm cyflawni'r prosiect wedi'i sefydlu yn awr a bod y camau breision hanfodol wedi'u cymryd er mwyn sefydlu'r prosiect. Mae trafodaethau gyda'r farchnad cyflenwi TGCh i brofi modelau a thybiaethau cychwynnol— ar gyfer caffael, darparu a strwythurau masnachol— ar y gweill. Nid cynllun tebyg i gynllun y manau gwan neu'r system ymgeisio am grantiau newydd fydd hwn; eir ati mewn ffordd gyfannol er mwyn darparu cenhedlaeth newydd band eang, lle na fydd y farchnad yn fodlon gwneud hynny. Rwyf am atgoffa Jenny, a oedd yn sôn am ddarparu

broadband in highly urbanised areas, that the market will deliver to those areas. It is not up to the Assembly Government to be doing the work where the market will deliver. It is only where the market will not deliver that we should and will intervene.

On planning regulations—an issue that was also raised by Alun Davies—I can say that, yes, we are working very hard. I am working closely with Jane Davidson to ensure that the system for planning applications takes the requirements of business on board. There are clearly regulations that need to be followed, but we want to make it a lot simpler.

Procurement is an issue that has been raised by a number of colleagues. There is, again, an all-Government approach to procurement because Jane Hutt and I have had a number of meetings to address the whole issue. It has been a difficult issue to address, because there are procurement officers in a number of public sector bodies, including local authorities, the Welsh Assembly Government and our health bodies, who operate different rules. We are now beginning to see a real change in the approach that people are adopting to procurement, and I am pretty sure that we will see improvements in the next few months, building on those that we have already seen.

Many Members have raised the issue of skills and innovation, and Rhodri Morgan made it clear in his contribution that infrastructure and skills are the key areas in which we will be able to attract investment. Having the right skills levels for the future will be crucial. I reject the idea that tourism has been excluded, because we have made it clear that, in future, tourism grants will now be handled by the Minister for Heritage. It is not included in the ERP because the responsibility for tourism, both its promotion and the grant application process, is now firmly in the hands of the Minister for Heritage.

**Darren Millar:** I accept that the

band eang mewn ardaloedd trefol iawn, y gwnaiff y farchnad ddarparu yn yr ardaloedd hynny. Nid lle Llywodraeth y Cynulliad yw gwneud gwaith y bydd y farchnad yn barod i'w wneud. Dim ond lle na wnaiff y farchnad y gwaith y dylem ymyrryd a dim ond bryd hynny y gwnawn ymyrryd.

O ran rheoliadau cynllunio—mater a godwyd hefyd gan Alun Davies—gallaf ddweud, ydym yr ydym yn gweithio'n galed iawn. Rwyf yn cydweithio'n glos â Jane Davidson i sicrhau bod y system ar gyfer ceisiadau cynllunio'n ystyried gofynion busnes. Mae'n amlwg bod rheoliadau y mae angen eu dilyn ond rydym am wneud y drefn yn symlach o lawer.

Codwyd mater caffael gan nifer o gyd-Aelodau. Unwaith eto, rydym yn arddel agwedd Llywodraeth gyfan at gaffael oherwydd mae Jane Hutt a finnau wedi cael nifer o gyfarfodydd i roi sylw i'r mater yn ei grynswth. Mae wedi bod yn fater anodd mynd i'r afael ag ef, oherwydd bod swyddogion caffael mewn nifer o gyrff yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'n cyrff iechyd, yn dilyn gwahanol reolau. Rydym yn awr yn dechrau gweld newid go iawn yn y ffordd y mae pobl yn mynd ati i gaffael, ac rwyf yn weddol sicr y gwelwn hyn yn gwella yn yr ychydig fisoedd nesaf, gan adeiladu ar sail y gwelliannau yr ydym wedi'u gweld.

Mae llawer o'r Aelodau wedi codi mater sgiliau ac arloesi, ac fe wnaeth Rhodri Morgan hi'n glir yn ei gyfraniad mai seilwaith a sgiliau yw'r prif feysydd y byddwn yn gallu denu buddsoddiad ynddynt. Bydd yn hanfodol cael y lefelau sgiliau iawn ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn gwrthod y syniad bod maes twristiaeth wedi'i eithrio, oherwydd rydym wedi'i gwneud yn glir mai'r Gweinidog dros Dreftadaeth a fydd yn ymdrin â grantiau twristiaeth yn y dyfodol. Nid yw wedi'i gynnwys yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi oherwydd bod y cyfrifoldeb am dwristiaeth, ei hyrwyddo a'r broses ymgeisio am grant, ill dau bellach yn gadarn yn nwylo'r Gweinidog dros Dreftadaeth.

**Darren Millar:** Rwyf yn derbyn bod y

responsibility for tourism in general lies with the Minister for Heritage, but the responsibility for the planning system lies with the Minister for sustainability and you refer specifically to that in the economic renewal programme. Therefore, there is an inconsistency in that respect, which I would like you to address, please.

**The Deputy First Minister:** They are two different things. There is an all-Government approach to those things that are outside business support, whether they are regulation, procurement or planning, as they are matters for cross-Government working. Tourism, and therefore business support for tourism, is in the portfolio of the Minister for Heritage. I may add that business support for food promotion is also now the responsibility of the Minister for Rural Affairs. Therefore, we are taking a holistic approach to that.

The point that Jenny makes is that we have been too slow in introducing the programme, but if that is the only criticism that she has to make, I can probably just about live with that. She referred to the need for us to have links with other countries. We are reviewing the way in which we are dealing with other countries, and I will make an announcement on that in the next few weeks. Jenny said that we need to make it clear that the policy of loans rather than grants is now open for business. An information and marketing exercise will be undertaken to make sure that everyone understands where we are.

I understand Brian's point about making it clear that jobs will be available to sectors at the participation end of the economy, for example, but we have to understand that we will probably not be able to chase after footloose investment on a low-cost, low-wage basis as we have done in the past. However, where there is a new inward investment proposal that does offer good value for money and is better than what is in the pipeline, we will look at it. We will want to attract good inward investment projects where they are still available. The problem with many of the other jobs is that you may

cyfrifoldeb dros dwristiaeth yn gyffredinol yn nwylo'r Gweinidog dros Dreftadaeth, ond mae'r cyfrifoldeb am y system gynllunio yn nwylo'r Gweinidog dros gynaliadwyedd ac rydych chi'n cyfeirio'n benodol at hynny yn rhaglen adnewyddu'r economi. Felly, mae anghysondeb yn y cyswllt hwnnw, yr hoffwn ichi ymateb iddo, os gwelwch yn dda.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r ddau beth yn wahanol. Byddwn yn dilyn dull Llywodraeth gyfan er mwyn ymdrin â'r pethau hynny sydd y tu allan i faes cymorth busnes, boed y rheini'n rheoleiddio, yn gaffael ynteu'n gynllunio, oherwydd bod y rhain yn faterion ar gyfer gwaith traws-Lywodraeth. Mae twristiaeth, ac felly cymorth busnes ar gyfer twristiaeth, ym mhorthffolio'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Hoffwn ychwanegu bod cymorth busnes ar gyfer hyrwyddo bwyd bellach yn gyfrifoldeb hefyd i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig. Felly, rydym yn arddel agwedd gyfannol at hynny.

Y pwynt y mae Jenny yn ei wneud yw ein bod wedi bod yn rhy araf yn cyflwyno'r rhaglen, ond os dyna'r unig feirniadaeth sydd ganddi, rwyf yn meddwl y gallaf fwy neu lai fyw gyda hynny. Crybwyllodd fod angen inni gael cysylltiadau â gwledydd eraill. Rydym yn adolygu ein ffordd o ymdrin â gwledydd eraill, a gwnaf gyhoeddiad ynglŷn â hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Dywedodd Jenny fod angen inni ei gwneud yn glir bod y polisi benthyciadau yn hytrach na grantiau ar agor ar gyfer busnes bellach. Cynhelir ymarfer gwybodaeth a marchnata i sicrhau bod pawb yn deall ymhle yr ydym arni.

Rwyf yn deall pwynt Brian am ei gwneud hi'n glir y bydd swyddi ar gael i sectorau ym mhen cyfranogaeth yr economi, er enghraifft, ond rhaid inni ddeall na fyddwn, mae'n debyg, yn gallu mynd ar drywydd buddsoddi penrhydd ar sail costau-isel, cyflogau-isel, fel yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol. Serch hynny, lle bydd cynnig newydd ar gyfer mewnfuddsoddi sydd yn cynnig gwerth da am arian a bod hwnnw'n well na'r hyn sydd ar y gweill, byddwn yn ei ystyried. Byddwn yn awyddus i ddenu prosiectau mewnfuddsoddi da tra'u bod ar gael o hyd. Y broblem gyda llawer o swyddi eraill yw y

be able to attract the initial investment, but the reinvestment is difficult to sustain. Therefore, we are trying to attract new jobs, but they have to be sustainable jobs whereby reinvestment can be attracted on the back of the original investment.

**Brian Gibbons:** Thank you for that reassurance, Deputy First Minister. I was at a meeting in my constituency yesterday, and I was talking to people from a few agencies involved in promoting people getting into work. They pointed out that Amazon, for example, has been a godsend in giving people the opportunity to get into work. For the vast majority of employees, the jobs are not high tech, but it is a most valuable source of employment. It is hoped that we would welcome those types of companies if we had the opportunity to do so, even though they are not in the six target sectors.

**The Deputy First Minister:** I made that point clearly in my contribution. If a good proposal were to be made to us, we would be happy to consider it.

Cyfeiriodd Gareth Jones at bwysigrwydd addysg uwch a'r ffaith ei bod yn bwysig bod busnesau yn cydweithio â sefydliadau addysg uwch i gynyddu gwerth yr economi.

I had a little difficulty following Mark Isherwood's contribution, because I am not sure that he had read the economic renewal programme document. I was astounded that he attacked this Government's policy and recommended the UK Government's policy, but did not even acknowledge the fact that we have changed the policy so significantly. If he has any spare time over Christmas, I recommend that he takes a copy of the ERP and reads it so that he can perhaps understand what we are trying to achieve. Although he quoted some statistics, he failed to mention that the unemployment rate in Wales fell by almost 1 percentage point in the last quarter.

5.50 p.m.

**Mark Isherwood:** Will you give way?

gallwch chi ddenu'r mewnfuddsoddi, ond ei bod yn anodd cynnal yr ail-fuddsoddi. Felly, rydym yn ceisio denu swyddi newydd, ond rhaid i'r swyddi hynny fod yn rhai cynaliadwy y gellir denu ail-fuddsoddi ar eu cyfer ar gefn y buddsoddiad gwreiddiol.

**Brian Gibbons:** Diolch ichi am y sicrwydd hwnnw, Ddirprwy Brif Weinidog. Roeddwn mewn cyfarfod yn fy etholaeth ddoe, ac yn siarad â phobl o ychydig o asiantaethau a oedd yn ymwneud â helpu pobl i gael gwaith. Crybwyllwyd bod Amazon, er enghraifft, wedi bod yn fanna o'r nefoedd yn rhoi cyfle i bobl gael gwaith. Ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr, nid swyddi uwch-dechnoleg yw'r rhan fwyaf o'r swyddi, ond mae'n ffynhonnell swyddi werthfawr iawn. Rwyf yn gobeithio y byddem yn croesawu'r mathau hynny o gwmnïau petaem yn cael y cyfle i wneud hynny, er nad ydynt yn y chwe sector a dargedir.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwneuthum y pwynt hwnnw'n glir yn fy nghyfraniad. Petai cynnig da'n dod ger ein bron, byddem yn hapus i'w ystyried.

Gareth Jones referred to the importance of higher education and the fact that it is important for businesses to collaborate with higher education institutions to boost the value of the economy.

Cefais ychydig o anhawster yn dilyn cyfraniad Mark Isherwood, oherwydd nid wyf yn siŵr a oedd wedi darllen dogfen rhaglen adnewyddu'r economi. Cefais fy synnu ei fod wedi ymosod ar bolisi'r Llywodraeth hon a'i fod yn argymhell polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond nid oedd hyd yn oed yn cydnabod y ffaith ein bod wedi newid y polisi i'r fath raddau. Os bydd ganddo awr neu ddwy dros y Nadolig, yr wyf yn argymhell iddo godi copi o Raglen Adnewyddu'r Economi a'i ddarllen er mwyn iddo ddeall efallai'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Er iddo ddyfynnu rhai ystadegau, ni lwyddodd i sôn bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru wedi gostwng bron 1 pwynt canran yn y chwarter diwethaf.

**Mark Isherwood:** A wnewch ildio?

**The Deputy First Minister:** No, you have had your opportunity.

It is a substantial improvement on the UK rate. The employment rate in Wales has increased more than that of the UK, and inactivity in the Welsh economy is lower now than it was in the past three months, and we have improved in comparison with the UK average. It is clear that we have a long way to go, but you should sometimes acknowledge that we are doing certain things right.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Will you wind up, please?

**The Deputy First Minister:** Yes. A number of other Members made contributions and it is difficult for me to cover everything that was said. I would just like to thank everyone for their contributions. I know that Angela Burns, for example, made a number of comments, as did Christine Chapman and others, and if I have an opportunity, I will write to them to deal with the points that I have not been able to address in the debate today.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

It is now past 5 p.m., which was the scheduled voting time, and so I will now proceed to the vote. Does anyone wish the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Gwelliant 1 i NDM4602: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Amendment 1 to NDM4602: For 14, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Na wnaaf, rydych wedi cael eich cyfle.

Mae'n welliant sylweddol ar gyfradd y Deyrnas Unedig. Mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu mwy na'r gyfradd yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac mae anweithgarwch yn economi Cymru yn is yn awr nag yr oedd yn ystod y tri mis diwethaf. R ydym wedi gwella o'n cymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae'n amlwg bod gennym ffordd bell i fynd, ond dylech weithiau gydnabod ein bod yn gwneud rhai pethau'n iawn.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. A wnewch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaf. Cafwyd cyfraniad gan nifer o Aelodau eraill ac mae'n anodd i mi sôn am bopeth a ddywedwyd. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau. Gwn fod Angela Burns, er enghraifft, wedi gwneud nifer o sylwadau a Christine Chapman ac eraill hefyd, ac os caf gyfle, ysgrifennaf atynt i ymdrin â'r pwyntiau nad wyf wedi gallu ymdrin â hwy yn y ddadl heddiw.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio i gyd ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Mae hi wedi 5 p.m., sef yr amser a bennwyd ar gyfer pleidleisio, ac felly byddaf yn awr yn bwrw ymlaen â'r bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
 Bourne, Nick  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4602: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
 Amendment 2 to NDM4602: For 14, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Bourne, Nick  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw

Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4602: O blaid 36, Ymatal 10, Yn erbyn 1.  
Motion NDM4602: For 36, Abstain 10, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
German, Veronica  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad  
Bourne, Nick  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Isherwood, Mark

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:  
The following Member voted against:

Graham, William



Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:**

That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.52 p.m.  
The meeting ended at 5.52 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)

Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)